

Llawlyfr at Wasanaeth yr Ysgol Sul.

YR EPISTOL AT Y GALATIAID.



Parch. HUGH WILLIAMS, M.A.

1/6

BS
2684
W4
1892
C.1
ROBA



From the Library
of
PÁDRAIG Ó BRÓIN

6^d

W. O. Williams
from
H. W.

LLAWLYFRAU

UNDEB YSGOLION SABBOTHOL

Y

METHODISTIAID CALFINAIDD,

DAN AROLYGIAETH

PWYLLGOR Y GYMANFA GYFFREDINOL,

—:O:—

YR EPISTOL AT Y GALATIAID.



CYHOEDDEDIG GAN BWYLLGOR YR UNDEB.

Y BALA; ARGRAFFWYD GAN DAVIES AC EVANS, BERWYN STREET.

UNIVERSITY OF TORONTO

LIBRARY



YR EPISTOL
AT Y GALATIAID:

GYDA

CHYFIEITHIAD NEWYDD,
ARWEINIAD I MEWN, A NODIADAU.

GAN

HUGH WILLIAMS, M.A.,

Athraw mewn Hanesiaeth Eglwysig yn Athrofa Dduwinyddol y Bala.

Y BALA:

ARGRAFWYD GAN DAVIES AC EVANS, SWYDDFA'R "SEREN" A
"PULPUD CYMRU."

1892.

1880

THE UNIVERSITY OF CHICAGO

PHYSICS DEPARTMENT

REPORT OF THE PHYSICS DEPARTMENT

A. M. SMALLWOOD, PH.D.


NON TIMIDE, NON TEMERE,
TE TOTUM APPLICA AD TEXTUM,
ET TOTUM TEXTUM APPLICA AD TE.

NID YN LLWFR, NID YN ANHYBWYLL,
YMRODDA YN GYFAN I'R GAIR,
CYMHWYSA Y GAIR YN GYFAN ATTAT.

Bengel.

EFENGYL CRIST YW YR AMEN I FEDDYLIAU, I
DDYMUNIADAU A GOBEITHION Y RHAI DUWIOLEFRYDIG
A DA, Y RHAI DOETH HEFYD, YN MYSG POBL ISRAEL.

H. J. Bestmann.



AT Y DARLLENYDD.

WRTH gyflwyno y gyfrol fechan hon, a ysgrifenydd ar gais Undeb Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calffaidd, i'r rhai a'i darllenant, dymunwn ddatgan fy ngobaith ar iddi fod o ryw gymorth i ddeall meddwl y rhan bwysig yma o'r Ysgrythyr Lân. Yr oeddwn yn awyddus beunydd, wrth feddwl ac ysgrifenu, i ddeall geiriau yr apostol, tra yn ceisio pob cymorth arall, allan o honynt hwy eu hunain: mi a ymdrechais hefyd ddarllen pob awdwr yr ymgynghorwn ag ef yn ei waith ei hun, fel na byddai i mi gyfeirio at neb heb weled ei feddyliau yn eu cartref eu hun, ac megys ymddyddan ag ef wyneb yn wyneb.

Yr wyf ar y cyfan wedi bod yn gynil o enwi esbonwyr neu ddyfynu eu gwahanol farnau, gan ofni y gallai hyn ystestio dirnadaeth seml ac eglur o feddwl yr apostol ei hun. Nid anturiais ar y fath waith heb ymgynghori llawer â'r rhai goreu sydd wedi ysgrifenu ar yr epistol, a derbyn eu goleuni mor ddibrin ag y gallwn; ond wedi ceisio pwyso yr hyn a ddywedid ganddynt dodais i lawr eglurhad neu sylw fel yr oedd fy meddwl yn ei weled, heb enwi neb. Eto, yma ac acw, cyfeirir at wahanol ffyrdd o egluro geiriau ac ymadroddion, gan y tybid y gallai hyn fod yn gynorthwy i sicrhau dirnadaeth *gyflawnach* o'r hyn y sylwid arno, ac yn mhellach o deimlo, weithiau, ragoriaeth eglurhad nad oeddwn, er hyn, yn gallu ei dderbyn yn llwyr. Dylwn ofyn maddeuant aml un, efallai, a ddarlleno y llyfr, am fod ambell frawddeg Ladin wedi myned i mewn. Yr wyf wedi gweld bechgyn yn bugeilio defaid a allent eu deall yn hawdd, ac o awydd iddynt hwy gael mwynhau swyn cyntaf ambell frawddeg dda, ni omeddwyd i'r rhai hyn, yn gynil, gael lle ar y tudalenau hyn.

Hyderaf hefyd y bydd y Cyfieithiad Newydd sydd gyfochrog a'r hen yn fantais ychwanegol. Yr oedd wedi ei ysgrifenu genyf eisoes, ond gwnaed ef o newydd gam a cham fel yr elwn drwy y llyfr, gyda phryder na newid-iwn ddim yn ddi-achos o eiriau gwych yr hen gyfieithiad, eto, gan geisio yn ofalus iawn newid lle yr oedd y synwyr, hyd y gwelwn, yn gofyn hyn. Darllenydd a cymharwyd yn mhob brawddeg y ddau gyfieithiad henaf i Gymraeg, yr eiddo William Salesbury (1567), a'r eiddo William Morgan (1588), a dodwyd i lawr yma ac acw eu cyfieithiad hwy.

Ar gais Pwyllgor yr Undeb ychwanegwyd cwestiynau ar yr holl lyfr, ac y mae paratoi y rhai hyn wedi achosi i mi gryn bryder. Amcenis gadw mewn cof yr aelodau hyn o'r Ysgolion Sul ag yr wyf er ys blynyddau wedi bod mewn cyffyrddiad agos a hwy yn y Cyfarfodydd Daufisol.

Nid afraid hwyrach yw dweyd fy mod yn awr, wrth edrych ar y gwaith sydd yn myned o'm llaw, yn ymwybodol bellach o ddiffygion lawer sydd ynddo, rhai yn tarddu o'r angenrhaid i grynhoi i gwmpas bychan, a rhai na ddylasent fod ynddo o gwbl.

HUGH WILLIAMS.

CYNWYSIAD.

AT Y DARLLENYDD vii.

RHAGARWEINIAD:

i. Y Galatiaid ix.

ii. Adeg ysgrifenu yr Epistol xxi.

iii. Llyfr yr Actau a'r Epistol xxv.


iv. Iuddewiaeth Galatia—Tri Epistol : y Galatiaid, yr Hebræaid,
a'r Colossiaid xxxvii.

v. Amcan a Chynwys yr Epistol xlii.

Y Gair a'i Gyfeithiad lv.

YR ESBONIAD, CYFIEITHIAD NEWYDD, &c. 1—113

HOLIADAU AR YR EPISTOL 115



RHAGARWEINIAD.

I. Y GALATIAID.

I. MAE dyddordeb i Gymro, efallai, yn yr ymchwiliad i hanes y bobl hyn na all y Sais, nac ychwaith yr Ellmynwr, ei deimlo mor ddwfn. Un genedl arall yn Ewrob—y Ffrancod—sydd wedi dangos tuhwnt i bawb fod iddynt hwythau ran a chyfran arbenig yn hanes y llwythau a grwydrasant i Asia Leiaf tua'r flwyddyn C. C. 278. Mae ysgrifeniadau Ffrengig yn lluosog a gorphenol neillduol arnynt, gan fod y Ffrancod fel cenedl Geltaidd o darddiad, er nad mewn iaith, yn teimlo eu bod fel ninau yn garedigion o ran y cnawd i'r bobl yr ysgrifenyd y llythyr hwn atynt. Mewn cylchgronau hanesyddol, ac mewn cyfrolau mawrion gwych, mae gwyr llafurfawr, o'u hudo gan y teimlad Celtaidd, wedi casglu gwybodaeth lawer am y rhan hon o Asia Leiaf. Teithiodd rhai o'r Ffrancod i'r dwyrain, a gwnaed ganddynt ymchwiliadau eang a manwl yn y lle yr oedd Galatia gynt. Un yn enwedig sydd o gymhorth, nid bychan, yw Perrot, yr hwn a fu ei hun yn Galatia, ac y mae firwyth ei ymchwiliadau mewn ysgrifau a llyfrau o ragoriaeth uchel.*

Dywedir gan rai ysgolheigion Celtaidd fod *Galatiad* yr un o ran tarddiad a'r hen air Gwyddelaeg *galdae*, o ystyr, *gwrol*, a dywed Zeuss fod iddo wreiddyn *gal*, yn golygu "ymdrech." Ond yr oedd i'r gair unwaith gymhwysiad eang, llawer eangach nag sydd iddo yn awr. Tua'r amser y croesodd y bobl a roesant ei henw i'r rhanbarth a elwir Galatia, dros y môr i Asia Leiaf, yr oedd GALATIAID yn enw cyffredinol am Geltiaid yn mhob man gydag un eithriad. Yr eithriad hono oedd Prydain. Nid ymddengys fod trigolion yr ynys hon gynt yn cael eu galw na Cheltiaid na Galatiaid,

* Galatie,—Exploration archeologique de la Galatie et Bithynie ;
De la disparition de la langue Galoise en Galatie,—ac eraill.

ond Brythoniaid yn unig, er fod mwy nag un ffurf i'r enw hwnw. Dywed Diodorus Siculus, yr hwn oedd yn byw tua deugain mlynedd cyn Crist, fod y bobl a drigent yn neheubarth Gaul (Ffrainc yn awr), yn cael eu galw yn Geltiaid, tra y rhoddid yr enw Galatiaid i'r rhai a boblogent y parthau eang sydd yn cyrhaedd o arfordir ogleddol Gaul trwy Ewrob hyd Scythia yn y dwyrain. Ond trwy ddylanwad y Rhufeiniaid, medd ef, rhoddwyd yr enw Galatiaid mewn amser i'r holl lwythau Celtaidd yn mhob man. Celtai neu Celtoi yw yr enw hynaf, yr hwn a arferir gan y Groegiaid yn foreu iawn (tua c. c. 500); a dywed Pausanias, ysgrifenydd o'r ail ganrif gwedi Crist, mai hwn oedd yr enw a roddent hwy arnynt eu hunain, ac mai "yn ddiweddar y bu eu galw yn Galatiaid." Hyd y drydedd ganrif cyn Crist hwn yw yr unig enw adnabyddus i'r Groegiaid yn ol a ellir gasglu, a gelwid yr holl wlad o Cadiz yn yr Hispaen, trwy y rhan fwyaf o Gaul, gan gynnwys yr Almaen hyd y Danube, yn Celtice. Yr enw a arferai y Rhufeiniaid oedd Galli, yr hwn a saif gyda hwy am Geltiaid yr Hispaen, yn ogystal ag am y rhai a drigent yn Gaul a gogledd Itali. Dyma yr enw oedd ganddynt hefyd am drigolion yr Almaen ar y cyntaf, a gogledd Ewrob, am y Celtiaid a grwydrasant i Asia Leiaf, neu y Galatiaid fel y galwai y Groegiaid hwy. Ond ar ol amser Julius Cesar mae yr enw yn dyfod yn fwy cyfyng, oherwydd fod gwybodaeth yn amlhau ac yn dwyn cenedl newydd i adnabyddiaeth, sef y Germaniaid.

Galleu enwi un enw eto, heblaw Celtai, Galatiaid, Galli, yr hwn a gododd yn y rhan a elwid gan y Rhufeiniaid Germania, neu yr Almaen. *Volca* oedd hwn, a ffurf arall arno yw *Valati*. Ceir ef yn *Waelsh*, enw Ellmynig yr Italiaid a'r Ffrancod, ac yn *Welsh*, yr enw sydd gan y Saeson ar gymydogion o Geltiaid. Cyfystyr a'r rhai hyn, ac mewn arfer am yr oll, pa le bynag y ceid hwy, o'r Celtiaid, oedd GALATAI. Mae Galatiaid yn ngenau Groegwr yr un peth a Gallus yn ngenau Rhufeinwr. Rhenir gan un hen awdwr * y darn anferth o Ewrob y dywedwyd fod y Celtiaid yn ei boblogi, sef Celtice, ac a gyrhaeddai o Gaul tu uchaf i'r Alpau hyd Thracia a Scythia yn y dwyrain, yn ddwy ran. O du y dwyrain i'r Rhine, medd ef, mae Germania, i'r gorllewin mae

* Dionysius Halicarnasius.

Galatia. Pe byddai i ran o'r boblogaeth aml yma groesi i Asia, nid annaturiol fyddai iddynt alw eu hunain a chael eu galw yno y Galatiaid, a'u gwlad pan gaent un yn Galatia.

Yn awr ceisiwn ddilyn eu hanes er dangos pa fodd y daethant yno. Awn yn ol yn agos i'r flwyddyn 300 cyn Crist, neu tuag ugain mlynedd wedi marwolaeth Alexander Fawr. Yr oedd un iaith, y Groeg, yn cael ei llefaru y pryd hyny drwy y dwyrain, ac yn bwerus feithrin undeb rhwng malurion ei ymherodraeth fawr ef; yn Ewrob, o'r ochr arall, yr oedd yr iaith, neu yr ieithoedd Celtiaid yn cyraedd o Brydain a'r Iwerddon hyd ymylon ymherodraeth Alexander yn y dwyrain, o'r Atlantic hyd y Mor Du, o fôr y gogledd hyd yr Adriatic. Mor gyfyng yw y tir erbyn hyn; mewn man ar ol man, mae yr ieithoedd Celtiaid yn cael eu llyncu gan rai eraill, a'r Celtiaid fel y cyfryw yn golledigion yn mhlith cenhedloedd y byd. O ran iaith y dylid dweyd hyn, gan fod poblogaeth Ffrainc a'r Hispaen, a rhai manau eraill, yn Geltaidd o ran gwaed. Dodwn yma ddau ddyfyniad am y Celtiaid, neu y Galatiaid, gan gredu na byddant allan o le yn y fath lyfr a hwn, nac yn ddiberthynas a'n hastudiaeth o'r epistol a ganlyn. Bydd y cyntaf allan o ysgrifeniadau y daearegwr Groegaidd Strabo, a'r ail o waith yr hanesydd diweddar Mommsen.* “Mae yr holl genedl a alwn yn awr yn Galliaid neu Galatiaid yn ymladdgar a nwydwyllt ac yn brysur i ryfela, ond mewn cyfeiriad arall pobl syml a didwyllt dynt. Pan eu cyffroir, hwy ruthrant yn finteioedd i ymladd, yn agored ac heb ystyriaeth, ac felly gorchfygir hwy yn hawdd gan y rhai sydd fedrus mewn cyfrwysdra. Gall unrhyw un eu cythruddo pan y myno a'r ffordd a fyno, ac y maent yn barod i unrhyw berygl heb ond eu rhuthr a'u rhyfyg i'w cynorthwyo. Eto, gellir eu denu at y peth sydd ddefnyddiol, ac felly ceir hwy wedi glynu wrth ddiwylliant a hyawdledd.” Ganwyd y gwr hwn heb fod yn mhell oddi wrth dalaeth Galatia, ac wedi teithio llawer yn Ewrob ac Asia, casglodd ystor o wybodaeth am y Celtiaid o'r hon y ceir y rhan fwyaf o hanes y Galatiaid hyd eu tiriad a'u sefydliad yn Asia. “Yr oedd y genedl Geltaidd,” medd Mommsen, “wedi ei donio âg amryw nod-

* Strabo, iv. 4, 2; Mommsen History of Rome, vol. i.

weddion cryf, a rhai dysglær iawn, ond yn ddiffygiol yn y cymwys-derau moesol a dinesig hyny sydd wrth wraidd pobpeth da a mawr yn nhwf y ddynoliaeth..... Anmherffaith oedd y cyfansoddiad politicaidd a feddent. Nid yn unig yr oedd undeb cenedlaethol yn cael ei gydnabod yn wanaidd fel rhwymyn perthynas—fel yn wir y mae yn bod gyda phob cenedl ar y cyntaf—ond yr oedd y llwythau neillduol yn ddiffygiol mewn bod o un feddwl, ac mewn hunanlywodraeth diysgog, mewn difrifwch ysbryd cyhoeddus a chysondeb amcan. Yr unig gyfundrefn ag y meddent gymhwysder iddi oedd yr un filwraidd, lle yr esgusodid dyn rhag y drafferth o lywodraethu ei hun gan rywmau dysgyblaeth. ‘Prif nodweddion y Celtiaid,’ medd eu hanesydd Thierry, ‘oeddynt, gwroldeb personol, yn yr hyn y rhagorent ar bob cenedl; tymer agored frwd-frydig, parod i dderbyn pob argraff; llawer o ddeall, ond ar yr un pryd anwadalwch eithafol; diffyg dyfalbarhad, annhueddrwydd i ddysgyblaeth a threfn, ymfrost a chwerylon diddiwedd.....’ Mae y fath nodweddion, nodweddion milwyr rhagorol, ond dinasyddion gwael, yn esbonio y ffaith hanesyddol fod y Celtiaid wedi ysgwyd pob gwladwriaeth, ond heb sylfaenu yr un.” Caled yw yr ymadrodd hwn, ond mae heb ddim chwerwedd ynddo yn ngenau y gwyr hyn; ac heb ychwaneg na chydabod y posibilrwydd o’i wirionedd, sylwn mai pobl y dywedir fel hyn am danynt oedd yn y bedwaredd ganrif cyn Crist yn aflonyddu dwyreinbarth Ewrob. Crwydrent yn finteioedd mawrion gan ddyfetha ac ysbeilio; ymosodwyd ar y Groegiaid ganddynt mewn tair ymgyrch; ond yn ystod yr olaf, pryd y difawyd hwy wrth y miloedd yn Delphi, ymwahanodd rhan o honynt, tuag 20,000 mewn nifer, gan gyfeirio at Byzantium ar y môr. Yr oedd y rhai hyn dan 13 o lywyddion, yn mhlith y rhai yr enwir Leonnorius a Lutharius fel y ddau benaf. O Byzantium (y ddinas a ail-adeiladwyd, chwe’ chanrif yn ddiweddarach, fel Caercystenyn), croesasant y môr i Asia Leiaf i gynorthwyo un o frenhinoedd Bithynia mewn rhyfel yn erbyn ei frawd. Yn y flwyddyn 278 neu 279 cyn Crist y bu hyn, a disgynyddion y bobl yma oedd y Galatiaid yr ysgrifennodd Paul ei epistol atynt.

Yn Asia Leiaf y pryd hyny yr oedd ei gwahanol frenhiniaethau wedi gwanychu yn fawr trwy lawer o ryfeloedd, y rhai, gan hyny,

oeddynt ddiallu i ymdrechu yn effeithiol yn erbyn y dyeithriaid gwyllt rhyfelgar hyn. Oherwydd hyny ymddengys iddynt ymlledaenu a chasglu cyfoeth yn eu gwlad newydd. Ond yn raddol dechreuodd rhai ymwroli i rwystro eu cynydd. Yn mhen dwy neu dair blynedd wedi iddynt groesi i Asia gorchfygwyd hwy gan Antiochus I., a thrwy y fuddugoliaeth hon rhoed terfyn ar eu hymledaeniad, a chyfyngwyd hwy i barthau canolog Asia Leiaf. Ond yn y flwyddyn c. c. y cyfyngwyd arnynt fwyaf, oherwydd eu concwerio gan Atalus brenin rhyfelgar, gwrol, Pergamus, ac wedi eu sefydlu yn y rhan a ddangosir yn y Map I., galwyd y rhan hono Galatia. Galatai, y pryd hwn fel y soniwyd eisoes, oedd yr enw cyffredinol ar y Celtiaid yn mhob man ;* felly wedi i gyfran o honynt gael eu didoli fel hyn yn nghanol Asia Leiaf, naturiol oedd iddynt alw eu gwlad ar eu henw eu hunain. Yr oeddynt yn dri llwyth, y Tolistoboji, y Tectosagi, y Trocmi, y rhai a breswylent eu gwlad yn y drefn ganlynol. Trigai y Tolistoboji yn y pen gorllewinol i'r wlad gyda Pessinus yn brifddinas, y Trocmi yn y pen dwyreiniol gyda Tavium yn brifddinas ; yn y canol yr oedd y Tectosages a'u prifddinas hwy oedd Ancyra, dinas nid anenwog yn y canrifoedd dilynol. Ceir hanes y Galatiaid wedi hyn yn ymladd ar du brenhinoedd Syria yn erbyn Atalus, yr hwn mewn canlyniad i hyn, a geisiodd ymwasgu a'r Rhufeiniaid, a daeth y gyfathrach hon yn fwy agos fyth tua'r flwyddyn 197, dan Eumenes II. Wedi ymladdfa bwysig Magnesia, yn 190, trwy yr hon y goresgynwyd Syria gan Rufain, gwahoddwyd y cadlywydd Rhufeinig gan Eumenes, neu gan ei frawd, i ddyfod i barthau canolog Asia Leiaf. Derbyniodd Cn. Manlius Vulso—efe oedd y cadlywydd—y gwahoddiad, pryd y darostyngwyd y Galatiaid ganddo i fod dan warogaeth i Rufain, eto gan sicrhau iddynt eu hannibyniaeth, ac adnewyddwyd y cytundeb yn 169. Am haner canrif wedi hyn, collir golwg yn llwyr ar y Galatiaid, o leiaf yn mhlith haneswyr : ond cyfeiria Perrot at feini marmor a gafwyd yn Armenia sydd wedi eu gorchuddio â llythyrau a anfonasid gan frenhinoedd Pergamus at archoffeiriad

* "Yn ddiweddar yr enillodd yr enw Galatai ei le am danynt, canys Celtai y gelwid hwy ar y cyntaf ganddynt hwy eu hunain, a chan eraill." Pausanias I, 3.

“Mam y duwiau” yn Pessinus, prif-ddinas y rhan orllewinol o Galatia a breswylid gan y Tolistoboji. Dengys hyn y modd y dygasid y Galatiaid i gofleidio addoliad y duwiau dwyreiniol, pa fath syniadau bynag oedd ganddynt eu hunain cyn hyny fel Celtiaid. Dyoddefodd y Galatiaid yn fawr yn rhyfel cyntaf Rhufain a Mithridates (B. C. 88—84); ond yn y deng mlynedd, 74—64, maent hwy ar ochr Rhufain yn erbyn Mithridates. Rhoes Pompey iddynt eu hannibyniaeth dan Dejotarus fel brenin, yr hwn a ddesgrifir fel gwr deallus a galluog, yn filwr gwrol, llawn bywiogrwydd a phrofiad, ond awyddus uwchlaw pobpeth i gadw cyfeillgarwch y Rhufeiniaid. Ar ei ol ef daeth Amyntas, gwr llawn o weithredoedd bradwrus, a helaethodd ef derfynau ei deyrnas i gynwys rhanau eang o Pisidia, Phrygia gydag amryw o'i dinasoedd (yn eu plith Antiochia), a Lycaonia. Ar farwolaeth Amyntas yn 25 cyn Crist, gwnaed ei deyrnas yn DALAETH RUFENIG, yn dwyn yr un enw, Galatia. O'r flwyddyn hon yn mlaen felly, ac yn enwedig wedi ychwanegu yn ddiweddarach ddarnau o Paphlagonia a Phontus,* mae Galatia yn enw ar ran llawer iawn eangach o Asia Leiaf nag a boblogid gan y tri llwyth Celtaidd. Fel talaeth Rufeinig yr oedd Derbe, Lystra, Iconium, ac Antiochia, ag yr ydym mor gydnabyddus a hwy o lyfr yr Actau, yn Galatia, ac os yr ystyr hon sydd i'r ymadrodd “eglwysi Galatia,” gallai y llythyr hwn fod wedi ei anfon i'r dinasoedd hyny yn y dehau (Gwel Map II.) Credwn y gellir profi mai *yr ystyr hynaf* sydd i'r enw Galatia yn llyfr yr Actau a'r epistol yma, yr hyn hefyd y ceisir ei wneyd ychydig yn mlaen; felly anturiwn yn yr adran nesaf ymholi beth yn ychwaneg a wyddys am y llwythau hyn o Geltiaid mewn cartref dyeithr, wedi eu hamgylchynu gan genhedloedd dwyreiniol yn nghanol Asia Leiaf.

II. Desgrifia Mommsen y rhanbarth hon, Galatia, fel “ynys Geltaidd yn nghanol tonau pobloedd dwyreiniol,” a pharhaodd felly yn hir. Cadwasant eu hiaith a'u harferion cenedlaethol, eto gyda chymysgedd o syniadau ac arferion newydd am addoliad y duwiau. Dygwyd y syniadau newydd hyn i mewn i'w plith o randir Phrygia

* Marquardt, Romische Staatsverwalt.

ar eu goror, a chyda'r cyfryw yr oedd beunydd ddylanwad gorchfygol hollbresenol yr iaith Roeg yn eu mysg ac o'u hamgylch. Daethant yn fuan yn gydnabyddus a hon, fel y cenedloedd eraill o'u deutu, os nad yn fwy, gan y gelwir hwy oherwydd eu cyfathrach agos a'r Groegiaid yn HELLENO-GALATAI, neu yn ol arfer ysgrifenywyr Lladin, GALLO-GRAECI. Myn Perrot, yr ysgrifenydd Ffrengig y cyfeiriwyd ato o'r blaen, iddynt golli eu hiaith yn foreu; ond yn hyn gwahaniaetha Mommsen yn gryf ac eglur oddiwrtho. "Gwyddom," trwy Strabo, medd Perrot, "nad oedd yn ei amser ef* yn Lydia gymaint ag ôl iaith Lydia. Yr oedd iaith Phrygia hefyd wedi diflanu.....Y fath oedd lledaeniad prysur, a dylanwad y Groeg, fel yr oedd tua'r ganrif gyntaf o'n cyfrif ni wedi disodli yr hen ieithoedd yn mhob man." Ar ol disgrifio y dull y diflanodd iaith Geltaidd Gaul yn Ewrob, ac y rhoddodd le i'r Lladin sydd yn bod yno yn awr fel sylfaen y Ffrancaeg, cesglir gan yr awdwr dysgedig hwn fod yr un peth wedi digwydd yn Asia Leiaf. "Y peth a ddengys â pha barodrwydd y bu i'r Galatiaid gymeryd eu trwytho gan ddylanwad Groegaidd, megys Celtiaid Gaul ar ol amser Cesar gan wareiddiad Rhufeinig, yw eu zel yn cofleidio y crefyddau haner Groeg haner Asiaidd oedd yn Asia Leiaf.....Nid oes hefyd gan eu tywysogion o'r amser y dechreusant fathu arian ond llŷn ac argraph Roegaidd arnynt. Nid ydys wedi cael ar hyd a lled y wlad a boblogid gan y Galatiaid, heb son am argraph Geltaidd, gymaint ag un gof-adail, cyhoeddus neu breifat, dim un math o adeilad ag iddo gymeriad gwreiddiol, ac un a ddygai i gof eu cartref pell yn y Gornllewin." Oddiar ystyriaethau fel y rhai uchod, a thystiolaeth geiriad marmorau wedi eu gorchuddio â hysbysiadau yn y Groeg a ddarganfyddwyd yn y wlad, yn y rhai y croniclir gweithrediadau cyhoeddus, dadleua Perrot fod dylanwad treiddiol diwylliant Groegaidd, a dylanwad gwleidyddol yr ymherodraeth Rufeinig, wedi peri i'r Galatiaid anghofio eu hiaith, yr hon oedd yn gares agos i'r Gymraeg, *tua diwedd y ganrif gyntaf*. Eto, gallwn ni yn Nghymru ymbwyllo peth cyn derbyn y fath gasgliad a hwn. Tra y ceir yn y fleithiau hyn brofion diymwad fod y Groeg yn gyffredin ac adnabyddus yn Galatia, mae genym, yn Nghymru ei hun, brawf eglur

* Ganwyd Strabo tua 33 cyn Crist, a bu farw tua A.D. 23.

y gall iaith fyw yn gryf tra y mae iaith arall i'w chael ar gof-adeiliau ac yn manau cyhoeddus y llywodraeth. Naturiol oedd iddynt fenthyca yn ehelaeth yr unig iaith a ddygai ddiwylliant celf a llenyddiaeth i'w cyrhaedd, ac ar yr un pryd arfer eu hiaith eu hunain mewn bywyd cyffredin. Mae genym, yn mhellach, dystiolaeth un o'r Tadau eglwysig—Jerome, yr hwn a fu yn Ancyra prif ddinas y Tectosages, fod yr iaith Geltaidd yn cael ei llefaru yno yn ei amser ef, sef yn y bedwaredd ganrif : cyn hyny, yn niwedd yr ail ganrif, sonia Pausanias am yr enw a roddai y Galatiaid “ yn eu hiaith eu hunain ” i blanhigyn neillduol : sonia Lucian (yr ail ganrif) hefyd am swynwr a'i anhawsderau digrif, pan ofynid cwestiynau iddo “ yn iaith Syria neu Galatia.” Pan aeth Paul i Galatia, credwn felly fod y bobl a dderbyniodd yr efengyl mor barod o'i enau, ac a ddangosodd iddo garedigrwydd nid bychan yn ei gystudd, yn deall Groeg yn gyffredin, ond eto fod ganddynt mewn arfer cyffredin eu hiaith Geltaidd eu hunain, un debyg i'n hiaith ni.

Dywed yr hanesydd Strabo fod pob un o'r tri llwyth Celtaidd a drigasai yn Galatia yn cael eu rhanu yn bedwar tetrarchaeth, y rhai a adawyd gan Pompey i ddwyn yn mlaen eu hachosion yn eu ffordd eu hun. Allan o'r deuddeg rhan hyn cyfarfyddai, medd ef, Senedd o 300 i drafod materion pwysig, yn arbenig rhai o ddynladdiad. Ond bernir, ar sail dda, fod Strabo yn cael ei gamarwain i fesur gan y gair Groeg Tetrarch, gan nad oedd a fyno y gair ddim a *phed-waredd* ran gwlad ; unig ystyr tetrarch oedd tywysog bychan Rhai tebyg i'r tywysogion Cymreig oedd y rhai hyn.

Mae enw y lle y cyfarfyddent yn awgrymiadol. Yr enw oedd Drunemeton,* yr hwn y bernir ar seiliau da sydd air cyfansawdd Celtaidd. Mae y rhan gyntaf *dru* yr un a'r gwreiddyn sydd yn y gair *druidd*, ac yn un, meddir, er fod lle i farnu yn wahanol, a'r Cymraeg *derw* ; ystyr yr ail ran, *nemeton*, yw *teml*, neu le cysegredig, gan mai nid adeilad oedd y deml gyntefig, ond rhandir gysegredig i ryw dduw neu gilydd. Dyfynir yn y Grammatica Celtica gan Zuess ddwy linell o farddoniaeth Ladin lle yr eglurir mai ystyr y gair *nemetis* yn yr iaith Geltaidd (*gallica lingua*) yw *teml*, ac mae hen lawysgrif Wydd-

* Strabo xii. 5.

elig yn rhoi *nemed* fel gair Gwyddelaeg am gafell sanctaidd.* Felly ystyr enw man cyfarfod y Galatiaid, lle yr eisteddent mewn barn, yw *templ y derw*, a cheir fod arferiad tra thebyg yn ffynnu yn mhlith y derwyddon gynt. Nid anhebyg fod yn yr enw eglur awgrym i ni o darddiad Celtaidd y bobl. Gellir sylwi eto fod yn mhob un o dair prif ddinas y tri llwyth, fel y dengys *inscriptions* yn yr iaith Roeg a gaed ynddynt, seneddau a chynghorau yn cyfarfod, a'r rhai hyny dan fân dywysogion yn ol arfer y Celtiaid yn mhob man.

Ymddengys fod y grefydd Geltaidd wedi rhoi lle i grefyddau oedd yn bod yn y parthau hyny o'r blaen. Yn ol y parodrwydd a berthyn i aml-dduwiaeth, cymerodd y rhai hyn ffurfiau Groegiaidd pan y daeth dylanwad iaith ac arferion y Groegiaid i'w mysg. Cawn hanes yn eu plith am deml i Asclepius, a delw fawr o Jupiter, ië, gyda'r Rhufeiniaid, codwyd yn Ancyra deml ysplenydd ar gost y tri llwyth i'r Ymherawdwr Augustus fel duw, a Rhufain fel duwies, yn yr hon y gwasanaethai gwyr blaenaf Galatia fel offeiriaid. Wrth ddarllen yr *inscriptions* helaeth sydd wedi cofnodi yr hanes am godi a chysegru hon, deuai cyfeiriad yr apostol at eilunaddoliaeth a thrist gaethiwed gwyddorion y byd yn fyw iawn i'r meddwl.

Allan o'r ysgrifenywyr—Groeg a Lladin—sydd yn cyfeirio at y Galatiaid, allan hefyd o'r croniclau a naddwyd ganddynt hwy eu hunain ar farmor, mae enwau a geiriau wedi eu casglu sydd yn dwyn delw Geltaidd. Gellir cymharu y rhai hyn â'r enwau sydd yn britho ysgrifeniadau Julius Cesar ac eraill, yn yr hanes a roddir ganddynt am Gaul a Phrydain. Gellir hefyd eu cymharu â ffurfiau henafol geiriau Cymraeg neu Wyddelig.* Prin yw cylch y gymhariaeth, eto mae o honi dystiolaeth led ddiamwys yn codi.

BROGORIS.—Dyma enw naddedig ar farmor yn Galatia. Yn y rhan gyntaf o hono—*brog*, gwelir yr un gair ag sydd mewn gair cyfansawdd Celtaidd—*allobroges*, yr hwn sydd gyffelyb i'r Cymraeg *allofro*. Mae yr un gwreiddyn hefyd mewn un arall lled adnabyddus i ni—*Cymro* neu *Cymmro* o *Cym-brog*, fel y daw cymmwd o cymbot.

* D'Arbois de Jubainville. *Litterature Celtique* I, 114, &c.

BITOVITUS.—Dyma enw eto o Galatia, ac yn Cesar ceir Bituriges fel enw Celtaidd, a thybir mai yr un yw y rhan gyntaf *bito* a'r Cymraeg *byd*.

CHOMBOLOMARUS, NEMETOMARUS.—Yn Rhys Lectures on Welsh Philology (p. 73), enwir Cunomori, tywysog yn Llydaw, a'i darddiad o *Cuno*, yr un â Cynan a *mor*, cyfystyr a *marwr*. Yn yr enwau uchod o Galatia mae *marus* fel *mor*, hefyd yr un peth a *marwr*. Gallwn gymharu Llanfor a Llanfawr.

ECCOBRIGA.—Lle yn ngogledd-ddwyrain Galatia, ond ceir Admagetobriga a Nemetobrigo fel enwau manau yn Gaul. Ymddengys fod *brig* i'w gael yn Gymraeg yn *bre*, fel yn y gair *Moelfre*, a'i ystyr yw "bryn."

Allan o adfeilion ieithoedd a marmorau, daw hefyd dystio'laeth, nid fel y dywed Holstein, mai "y Galatiaid hyn oedd y Germaniaid cyntaf a wybuant am efengyl Crist;" ond mai hwy oedd y Celtiaid cyntaf i'w derbyn, a'i derbyn fel "yr hon yr wyf fi yn ei phregethu yn mhlith y Cenhedloedd."

III. Yn y flwyddyn 25 cyn Crist, rhoddwyd yr enw Galatia gan y Rhufeiniaid i ran eangach o Asia Leiaf na'r parthau a breswylid gan y tri llwyth Celtaidd. Perthyna Antiochia (yn Pisidia), Iconium, Lystra a Derbe i dalaeth Galatia yn yr ystyr swyddogol hon; a barna amryw ysguifenywyr o bwys mai at eglwysi y dinasoedd hyny yr anfonir y llythyr hwn. O farnu fel hyn, daw golygiadau gwahanol am yr adeg y sefydlwyd eglwysi yn mhlith y darllenwyr ac y dygwyd hwy i'r ffydd, ac heblaw hyny ar amryw gyfeiriadau a wneir yn nghorff y llythyr. Ymddengys yn deg i ni ddweyd nad yw awdwr llyfr yr Actau yn defnyddio yr enw Galatia yn yr ystyr eangaf, gan ei fod yn Actau xiv. 6 yn galw Lystra a Derbe yn "ddinasoedd Lycaonia," ac yn enwi Antiochia fel yr un "yn Pisidia." Dwywaith hefyd, er nad yn yr un drefn, dywedir ganddo "Phrygia a gwlad Galatia," (Act. xvi. 6; xviii. 23) I Luc, felly, yr oedd yr hen enwau lleol yn fwy arferedig nag erw swyddogol yr ymherodraeth, a Galatia y Celtiaid yw Galatia ganddo ef. Naturiol fuasai i Paul arfer yr enw yn yr un ystyr. Ond gan y

dywedir yn amgen, er mwyn chwilio y cwestiwn yn mhellach, dygwn i gôf yn gyntaf "dair taith genhadol" yr apostol.

(1.) Er fod Paul wedi pregethu ar wahoddiad Barnabas i'r cenedloedd cyn yr hanes a roddir yn Actau xiii., eto, yno yr ystyrir yn gyffredin ei fod yn dechreu ei "daith" gyntaf. Wedi i'r eglwys yn Antiochia neillduo Barnabas a Saul i'r gwaith y galwasai yr Ysbryd hwy iddo, hwy a dramwyasant trwy Seleucia a Cyprus, ac o Paphus yn Cyprus i Perga, ac yna i Antiochia yn Pisidia, Iconium, Lystra a Derbe, gan ddychwelyd i Antiochia o'r lle yr oeddynt wedi eu gorchymyn i ras Duw i'r gorchwyl a gyflawnasant.

(2.) Ar ol mawr helynt y frwydr yn y cyngor yn Jerusalem, a gweled tawelu eglwys Antiochia ar gwestiwn defod Moses, cychwynodd Paul a Barnabas yr ail dro i ymweled a'r "brodyr yn mhob dinas y pregethasom air yr Arglwydd iddynt," (Actau xv. 36.) Yr ydym yn cofio y cychwrf a fu rhwng y ddau apostol am dymor, a'r modd y bu raid i Paul deithio heb Barnabas y tro hwn. Tramwyasai ef a Silas trwy Syria a Cilicia hyd Derbe a Lystra (sylwer ar drefn yr enwau y tro hwn ragor y tro cyntaf), ac yma enwaedwyd ar Timotheus "o achos yr Iuddewon." Yr oeddid wedi gwrthod ymostwng i hyny yn achos Titus, pan yr oedd y cwestiwn cyffredinol am osod defod Moses ar y cenedloedd yn cael ei benderfynu. Gan ymdaith yn y callineb cymedrol ac ymarferol hwn, hwy "a draddodasant iddynt gadw y penderfyniadau a farnasid gan yr apostolion a'r henuriaid yn Jerusalem" (Act. xvi. 4.) Mae cyfnewidiad mewn un gair yn newid ffurf yr hanes yn y symudiad nesaf. "A hwy a dramwyasant trwy Phrygia a gwlad Galatia oherwydd gwarafun iddynt gan yr Ysbryd Glân bregethu y gair yn Asia."* Dyma y sen cyntaf am Galatia, ac amraidd yr Ysbryd a arweiniodd yr efengylwyr yno, gan osgoi Asia ar y chwith. O ran dim sydd yn yr hanes gan Luc, gallasant fod yma dymor lled faith, digon, i'r gwaeledd, y coffheir mor deimladwy gan yr apostol am garedigrwydd y Galatiaid tuag ato yno, a'r efengylu dilynol. "Ac wedi iddynt ddyfod ar hyd Mysia hwy a geisient fyned i Bithynia,

* Yn y Testament Cyffredin, "Ac wedi iddynt dramwy trwy Phrygia a gwlad Galatia, a gwarafun iddynt....."

ac ni oddefodd Ysbryd yr Iesu iddynt.” Yna, Troas a'r weledigaeth a arweiniodd yr apostol i Macedonia a'r efengyl i Ewrob.

(3.) Ar ol ymweled a Jerusalem, daeth Paul “i waered i Antiochia” (Act. xviii. 22.) O'r ddinas hon y cychwynodd eto ei drydedd daith, “gan dramwy trwy wlad Galatia, Phrygia, mewn trefn, a chadarnhau yr holl ddysgyblion.” Yr ail dro hwn yr enwir Galatia yr oedd yno ddysgyblion i'w cadarnhau.

Os yn yr ystyr eang y defnyddir y gair “eglwysi Galatia” yn nghyfarchiad y llythyr hwn, (neu yn 1 Cor. xvi. 1; 2 Tim. iv. 10; 1 Pedr i. 1,) gellir yn deg ystyried fod yr eglwysi hyn wedi eu sefydlu pan ddygwyd Derbe, Lystra, Iconium a Pisidia i'r ffydd ar daith gyntaf yr apostol.

Dywedir o blaid hyn, (a) fod yr ymadrodd “fel yr arhosai gwirionedd yr efengyl gyda chwi,” yn cynwys fod credinwyr yn Galatia *cyn* y cyngor yn Jerusalem y rhoddir eu hanes yn Actau xv., ac felly iddynt dderbyn yr efengyl yn ystod y daith gyntaf. Gan nas gallai hyn fod yn wir am Galatia y Celtiaid, oblegyd wedi y cyngor yr aed yno gyntaf, cesglir mai yr ystyr eangaf sydd i'r enw Galatia, ac mai eglwysi y dinasoedd a enwyd yw eglwysi Galatia gan Paul. Ond ni raid i ni feddwl fod y geiriau a ddyfynwyd yn awgrymu hyn o gwbl: yr oedd buddugoliaeth Paul a Barnabas yn sicrhau i'r gwirionedd *barhau* neu *aros* i'r cenedloedd oll dros byth. Dywedir hefyd (b) fod enwi Barnabas yn y llythyr hwn yn golygu eu bod yn gydnabyddus ag ef: yr oedd Barnabas gyda Paul yn eglwysi Galatia yn ol yr ystyr Rufeinig neu yr eangaf, sef ar y daith gyntaf, ond ymwahanasai oddiwrtho pan yr ymwelodd yr Apostol a Galatia y Celtiaid. Silas a fu ei gydymaith yno. Ond enwir Titus hefyd, ac nid oes genym un sail i gredu iddynt ei weled ef; heblaw hyn cyfeirir at Barnabas yn 1 Cor. ix. 15, tra mai Silas a fuasai gyda Paul yn Corinth. Dadleuir eto (c) os mai ar yr ail daith (Actau xvi. 6) y sefydlwyd yr eglwysi hyn, na allai y llythyr fod wedi ei ysgrifenu cyn yr ail ymweliad (Actau xvii. 23), ond yr oedd Paul wedi bod yn Jerusalem dair gwaith y pryd hwnw, tra na enwir ond dwy ymweliad yn y llythyr. Yn wyneb hyn, gellir ateb nad oedd a wnelo gwaith yr apostol yn cario casgliad eglwysi Syria i

dlodion Jerusalem ddim â phwnc yr epistol hwn. At yr henuriaid yr anfonwyd Paul a Barnabas y pryd hyny, ac wedi iddynt gyflawni eu gweinidogaeth yn nglyn a'r casgl i'r saint, dychwelasant o Jerusalem (Actau xii. 25). Anfantais i amcan yr apostol yn ein llythyr ni a fuasai enwi y fath ymweliad o gwbl. Nid yw rhif yr ymweliadau felly yn sail i unrhyw ddadl.

Gwelwn fod a wnelo afiechyd Paul a'i arosiad yn Galatia i efengylu; yn awr, os mai ar y daith gyntaf yn neheubarth y dalaeth, a elwir yn swyddogol Galatia, y bu yr efengylu, prin y meddyliwn y gallai Luc adael yr afiechyd hwnw allan o hanes mor fanwl ag a geir am dramwy Paul a Barnabas trwy Iconium, Lystra, a Derbe. Wrth ddarllen llyfr yr Actau xiii., xiv., teimlwn nas gallai yr afiechyd fod yr adeg hono, ond gallai fod ar yr ail daith (xvi. 6). Heblaw hyn, defnyddir nid yn unig yr enw Galatia, ond Galatiaid, ac er fod trigolion Iconium, er engraifft, yn ystyried eu dinas fel dinas o Galatia, ni buasent byth yn galw eu hunain yn "Galatiaid," nac yn cael eu galw gan eraill. Ond wrth edrych drwy y copiau, a rydd Perrot yn ei lyfr ar Galatia, o'r marmorau naddedig yn Ancyra a dinasoedd eraill o'r rhanbarth Celtaidd, gwelir beunydd y gair "llywodraeth (to koinon) y Galatiaid." Yno ystyrient hwy nid yn unig eu bod yn perthyn i dalaeth Galatia, ond hefyd, a dyma eu dull cyffredin o eirio, mai GALATIAID oeddynt mewn ystyr neillduol, yn hollol fel yr enwir hwy gan Paul yma.

Gellir yn deg gasglu fod hwn yn llythyr wedi ei ysgrifenu at Gristionogion a ddychwelwyd i'r ffydd ar ail daith yr Apostol, ac mai lle eu trigiad oedd y Galatia a welir ar Fap I., nid y Galatia sydd ar Fap II.

II. ADEG YSGRIFENU YR EPISTOL.

Os uniawn y bernir mai ar ail daith Paul y sefydlwyd eglwysi Galatia, mae rhai golygiadau am amser ysgrifenu y llythyr hwn yn gyfryw nas gellir eu derbyn. Ysgrifenyd ef, medd rhai, yn fuan wedi y cyngor yn Jerusalem, neu cyn y drydedd daith. Desgrifia y mwyaf swynol o fywgraphwyr yr apostol ef wedi dychwelyd i Antiochia ar ddiwedd ei ail daith, yn cael yno, er ei fawr lawenydd, ei hen gydymaith Barnabas, ac efallai ei hoff

ddysgybl Titus. “Tra yr oedd Paul yn Antiochia daeth Pedr yno. Ar y cyntaf nid oedd yno ond llawenydd a chydgoriad. Yr oedd apostol yr Iuddewon ac apostol y Cenhedloedd yn caru eu gilydd, fel bob amser y mae dynion o galon dda ac o galon gref yn caru eu gilydd pan y deuant i gysylltiad y naill a’r llall.” Pan yr oedd Pedr yn byw yn rhydd fel y Cenhedloedd eu hunain, daeth rhai oddiwrth Iago i Antiochia, ac yna dechreuodd yr hanes trist a adroddir gan Paul yn ein llythyr ni. Myn yr hanesydd yr ydym yn cyfeirio ato, i’r rhai hyn ag oeddynt, medd ef, yn genhadon Iago, fyned o Antiochia i Galatia, hyny yw, yn ystyr eangaf yr enw, i Iconium, Lystra, Derbe, &c. “Pobl hawdd eu denu oedd y Galatiaid hyn : yr oedd yr olaf a ddeuai atynt yn enw yr Iesu bron yn sicr o fod yn iawn.” Wrthynt hwy traethai yr ymwelwyr o Jerusalem yr un pethau ag a draethasent yn Antiochia—fod yn rhaid cadw defod Moses er mwyn bod yn gadwedig ; haerent hefyd nad oedd gan Paul ddim ond a ddysgasai gan yr apostolion hynaf, &c. Wedi clywed am hyn, yr oedd Paul, medd yr awdwr hwn, yn orlawn o ddiig : dyma y drydedd waith i’r blaid Phariseaidd geisio dinystrio ei lafur. “Heb oedi, mae yn eofn a thanbaid yn anfon y llythyr gwych yma, yr hwn, ag eithrio dawn ysgrifenu, y gallwn ei gymharu â’r prydfferthaf o’r gweithiau clasurol, ac yn yr hwn y mae angerddoldeb ei natur wedi ei baentio mewn llyth’renau o dân.” O Antiochia yr ysgrifeni ef.

Yn awr, teimlwn fod yr amseriad yma i gyd-gyfarfyddiad Paul a Phedr yn un cywrain, ac yn haeddu sylw ; ond mae yr awdwr yn gallu gosod ysgrifenu y llythyr ar yr adeg y gwna, ac o’r man a enwyd, am ei fod yn golygu mai ar y daith gyntaf y dychwelwyd derbynwyr y llythyr, ac mai yr ystyr ymherodrol sydd i’r enw Galatia. Gan nas gallwn dderbyn y ddau beth olaf hyn, rhaid chwilio am amser arall a lle arall.

Yn ol y llythyr, yr oedd yr apostol wedi bod ddwywaith yn Galatia—“chwi a wyddoch mai oherwydd gwendid y cnawd yr efengylais i chwi y waith gyntaf,” iv. 13. Bu yno ar yr ail daith (Act. xvi. 6), ac ar y drydedd (Actau xviii. 23), wedi iddo “dramwy trwy y parthau uchaf” (bryniau Galatia), daeth i Ephesus, Actau xix. 1. Bu yn

Ephesus dros ysbaid dwy flynedd, ac er nad ystyrir fod y gair "mor fuan" (i. 6) yn cyfeirio yn *uniongyrchol* at amser byr wedi ei ymadawriad diweddaf o Galatia, eto gall gynwys nad arhosodd yn hir yn Ephesus cyn ysgrifenu y llythyr hwn at y Galatiaid. Yr oedd ei hun wedi gweled pan yn eu plith argoelion o'r ymosod a fyddai ar eu ffydd, ac wedi "rhag-ddywedyd" wrthynt am dano. Ymddengys yn naturiol i ni gasglu mai yn ystod arhosiad yr apostol yn Ephesus yr anfonwyd y llythyr hwn i Galatia, ac os bu hyny yn weddol gynar ar y ddwy flynedd, rhaid ei osod o flaen y cyntaf at y Corinthiaid, a thua haf y flwyddyn 55 A.D.*

Gwrthodir y farn yma am yr amser a'r lle gan Dr. Lightfoot, ac y mae De Wette yn cytuno. Trefn epistolau yr adeg hon, yn ol Lightfoot, yw 1 Corinthiaid, 2 Corinthiaid, Galatiaid, Rhufeiniaid, ac ysgriifenwyd yr un at y Galatiaid, medd ef, o Macedonia neu Achaia yn ngauaf neu wanwyn y blynyddoedd 57, 58, A.D. Mae y ddau reswm cyntaf sydd ganddo yn cytuno hefyd a'r amser a roddwyd genym yma, ac os yw yr eglurhad a roddir ar y "mor fuan" yn yr esboniad hwn yn weddol gywir, nid yw yr hyn a ddywedir ar hyny ychwaith gan y gwr dysgedig hwn yn cyffwrdd o gwbl a'r farn hono am yr amser. Prif ddadl Dr. Lightfoot yw un sylfaenedig ar gymhariaeth helaeth fanol rhwng yr epistolau a'u gilydd. Ni ellir, yn sicr, ddilyn hono bob yn rhan yma, er teimlo fod ei golwg yn fwy na'i chynwys at y pwrpas hwn o brofi amser yr ysgrifenu. Mae amryw sydd wedi dyfod ar ol Lightfoot yn anmharod i dderbyn ei gasgliadau oddiwrth y gymhariaeth fanwl hon; felly, yn enwedig, y mae Sieffert, Lipsius, Zöckler. Mae grym yn yr hyn a ddywedir am dwf, yn ffordd yr apostol o ddadleu a'r blaid Iuddewig, yn erbyn gosod y ddau lythyr at y Corinthiaid rhwng y Galatiaid a'r Rhufeiniaid. Ond, er cydnabod y twf graddol a fu yn apostol y Cenhedloedd, mae grym yr ymresymiad yma yn gwanhau yn fawr, pan sylwom fod amryw o'r ymadroddion pwysicaf a goffheir gan Dr. Lightfoot yn cael eu defnyddio gan Paul wrth wrthwynebu Pedr yn Antiochia, ac felly yn mhell cyn iddo ysgrifenu i

* Gosodir yr amser gan Holsten (I. 64) ar y daith i Ephesus, Actau xix. 1, a chan eraill.

Corinth. Ymddengys fod yr ymadroddion o'r epistol hwn, cyffelyb i'r rhai sydd yn y Rhufeiniaid, y rhai o'u cymharu sydd yn arwain Dr. Lightfoot i'r casgliad na allai fod ond ychydig fisoedd rhwng y ddau lythyr, yn rhai sylfaenol i'r efengyl fel efengyl i'r cenedloedd, neu i'r holl fyd. Oni allai meddyliau felly, pan godai y cyffelyb wrthwynebiad, ddyfod i'r golwg yn annibynol hollol ar ryw dair blynedd o amser?*

Yr oedd y meddyliau a fynegir ynddynt mor foreu a'r ddadl fawr yn y cyngor yn ddiâu. Cyfarfyddir a hwy, oherwydd eu nodwedd sylfaenol, yma ac acw yn holl epistolau Paul, yn arbenig yn yr un at y Philipiad, ac i'm teimlad i mae y tebygrwydd rhwng yr Ephesiaid a'r Colossiaid o fath arall. Cytunai pawb fod y profion hyn yn dangos mai y Galatiaid a ysgrifenydd gyntaf o'r ddau, ond gallai fod achos i'r cyffro meddwl yn yr hwn y gwelir rheswm dros osod 2 Corinthiaid a'r Galatiaid yn lled gyf-amserol lawer adeg yn mywyd gwr fel Paul. Os edrychwn hefyd ar y tair rhestr a roddir gan Dr. Lightfoot (tudalen 49) i ddangos y drefn,—2 Corinthiaid, Galatiaid, Rhufeiniaid, gellid gosod ochr yn ochr a hwy restr yr un mor darawiadol o ran tebygrwydd o Colos. iii. 6, 8 ac Eph. iv. 31 : v. 5, 6, sef o epistolau diwedd oes yr apostol.

Nid ymddengys fod y naill na'r llall o'r ystyriaethau hyn yn ddigonol i gludo gyda hwy y casgliad a osodir o'n blaen gyda'r fath rym yn y tudalenau yma o Ragarweiniad yr awdwr dysgedig. Er engraifft, y mae y geiriau, "O hyn na flined neb fi, canys dwyn yr wyf yn fy nghorff nodau yr Arglwydd Iesu," yn ol Dr. Lightfoot, i'w deall fel iaith "un oedd newydd fyned trwy brofiad tanllyd, ac un o edrych yn ol arno, yn y funyd gyntaf o'i leihad, tra yr oedd y cof eto yn fyw, a welai yn ei ymdrech ddiweddar, ymgysegrïad newydd i fywyd o hunanymwadiad, a zel ychwanegol wedi ei roddi ar ei awdurdod apostolaidd." Lle naturiol hwn, medd ef, yw "*ar ol* yr ystorm o ofid a dyr allan yn yr ail epistol at y Corinthiaid."

* A.D. 54 neu 55 yw y dyddiad os ysgrifenydd o Ephesus.

A.D. 57 neu 58 os o Achaia neu Macedonia, yn ol Lightfoot.

Onid yw yr un mor briodol, os nad yn fwy, meddwl fod yr apostol, wrth son am "nodau yr Arglwydd Iesu," yn enwi rhywbeth y gwyddai y Galatiaid eu hunain am dano, rhywbeth a welsent hwy â'u llygaid, sef ôl yr erlid cyntaf a fuasai arno pan anturiodd efengylu i'r Cenhedloedd?

Mae Wieseler yn ychwanegu un rheswm arall wedi ei sylfaenu ar ymchwiliadau manwl a gytuna a diwedd haf A.D. 54 neu 55. Dywed yr apostol (iv. 10) "Cadw yr ydych ddiwrnodiau, a misoedd, ac amseroedd, a BLYNYDDOEDD." Yr oedd y flwyddyn o gynhauaf 54 i gynhauaf 55 yn flwyddyn Sabbath, ac ysgrifenedig y llythyr yn 55, gallai hyny, medd Wieseler, fod yn rheswm dros ychwanegu cadw "blynyddoedd"*

Yr ydym yn gorphwys felly gydag amser tua A.D. 55 fel yr adeg, ac Ephesus fel y lle, yr ysgrifenedig y llythyr hwn.

III.—LLYFR YR ACTAU A'R EPISTOL AT Y GALATIAID.

1.—Y PUM' YMWELIAD A JERUSALEM.

2.—Y CYNGOR YN JERUSALEM: EI DDYBEN; EI WEITHREDIADAU.

3.—CANLYNIADAU Y CYNGOR—PAUL, PEDR, IAGO, Y CENHEDLOEDD.

Tybiwn y gellir o dan y tri phen uchod chwilio pa fodd y saif yr hanes a geir yn llyfr yr Actau o'i gymharu â chynwys dwy benod gyntaf yr epistol hwn.

1. Gan Luc yn yr Actau dangosir ddarfod i Paul ymweled â Jerusalem bum' waith wedi ei droedigaeth. (1) Ar ol "cyflawni llawer o ddyddiau," diangodd o Damascus, a daeth i Jerusalem, gan "geisio ymwasgu a'r disgyblion." Barnabas oedd y cyfaill a'u perswadiodd hwyi'w dderbyn, ac wedi ei anfon ymaith i Tarsus, Barnabas

* Nid yw Wieseler yn rhoddi y profion hyn yn ei Esboniad, ond cyfeiria yno at lyfr arall o'i eiddo lle y ceir hwy.

hefyd a'i cyrchodd oddiyno i fyned at yr eglwys newydd o Roegiaid oedd yn Antiochia, Actau ix. 26—30, xi. 20—26. (2) Pan oedd y ddau yn aros yn Antiochia, anfonwyd hwy i fyny i Jerusalem i ddwyn cymhorth i'r brodyr oedd yn Judea, Actau xi. 30, a xii. 25. (3) Wedi i Paul a Barnabas orphen eu taith gyntaf, ac "aros dros hir o amser gyda'r disgyblion" yn Antiochia, daeth rhai i waered o Judea, gan ddysgu fod yn rhaid enwaedu y Cenhedloedd yn ol defod Moses. Cododd ymryson a dadleu nid bychan, nes y bu i'r eglwys yn Antiochia ordeinio fyned o Paul a Barnabas a rhai eraill o honynt at yr apostolion a'r henuriaid, yn nghylch y cwestiwn yma Actau xv. 1, &c. (4) Ar ddiwedd ei ail daith aeth i fyny drachefn o Ephesus, ond ni ddywedir dim am helynt yr ymweliad yma, Actau xviii. 21, 22. (5) Mae y pumed ymweliad yn un nas gallai yr epistol hwn gyfeirio ati o gwbl,—ei ymweliad olaf cyn ei anfon i Rufain, Actau xxi. 17.

Yn ol yr amser a roddwyd uchod, ysgrifenyddwyd y llythyr hwn ar ol i'r Apostol fod yn Jerusalem y bedwaredd waith; eto ni sonir ganddo ond am ddwy waith yn yr epistol. Y tro cyntaf aeth i fyny i ymweled â Chephas, a'r ail mewn canlyniad i ddatguddiad. Prin y mae un amheuaeth nad yr un ymweliad yw y gyntaf o'r ddwy a'r un y ceir ei hanes yn Actau ix. 26, &c. O Damascus y cychwyna, yn ol y ddau hanes; ni raid teimlo un anhawsder i gydnabod fod "dyddiau lawer" neu "dyddiau ddigon" Luc yn gyson â thair blynedd yr epistol hwn. Mae y dyben a roddir yma, iddo fyned er mwyn ymgydnabyddu â Chephas (i. 18), i'w weled hefyd lle y dywedir yn yr Actau, "efe a geisiai ymwasgu a'r disgyblion." Ar yr olwg gyntaf ymddengys fel pe bai Paul yn gwrthddweyd yr hanes a rydd yr Actau, gan na welodd, medd ef, neb arall o'r apostolion heblaw Iago brawd yr Arglwydd, tra y dywed Luc i Barnabas ei ddwyn "at yr apostolion." Ond gwyddom fod i'r enw apostolion gylch eangach na'r "deuddeg," gan y gelwir Barnabas yn apostol mewn man arall o'r Actau, ac nid oedd Iago ei hun, yr hwn a elwir yma yn apostol, o'u nifer hwy. Naturiol fuasai i Paul yma enwi ei ymweliad cyntaf a Jerusalem, ac ni allasai yn ol y dyben oedd ganddo wneyd yn amgen; o'r ochr arall, yr ymweliad a

goffeir yn Actau ix. yw y gyntaf yno hefyd. Yr un hanes felly sydd yn Galatiaid i. 19, ag Actau ix. 26.

Pa un o'r tri nesaf yw ymweliad Galatiaid ii. 1, bedair blynedd ar ddeg ar ol y cyntaf? Dywed Calvin a rhai eraill mai un Actau xi. ydyw; dros Actau xviii. 21, saif Chrysostom, ac yn mhlith ysgrifenywyr diweddar y llafurfawr Wieseler. Ymddengys yn hollol naturiol ar yr olwg gyntaf, i'r ail a enwir yn y Galatiaid fod yr un ymweliad a'r ail a enwir yn yr Actau. O blaid y syniad hwn dygir y rhesymau canlynol yn mhlith eraill. Pan y dywed yr apostol fod yn rhyfedd ganddo weled y Galatiaid yn symud "mor fuan" oddiwrth yr hwn a'u galwodd i efengyl arall, dywedir fod y geiriau yn golygu mor fuan wedi eu dychweliad, ac yn cynwys felly i'r epistol gael ei ysgrifenu yn rhy gynar i ni ystyried Galatiaid ii. 1. ac Actau xv. yr un. Yn mhellach, dadleuir fod Paul a Barnabas yn cael eu hanfon allan fel apostolion i'r Cenhedloedd yn Actau xiii. 2, yr hyn nis gallai fod, meddir, cyn cael eu cydnabod fel y cyfryw gan y cyngor. Bu felly gyngor cyn un Actau xv. Ond yr oedd Paul wedi bod, yn ol Galatiaid ii. 1, o leiaf bedair blynedd ar ddeg yn y gwaith heb gael, na cheisio, ei gydnabod gan ddynion o gwbl, a syniad na cheir dim lliw o hono yn y Testament Newydd yw fod ar Paul angen awdurdodiad oddiwrth yr apostolion. Cyfeirir hefyd at absenoldeb Ioan o hanes llyfr yr Actau xv., ond ni sonir am dano ef wedi Actau viii. 14—25, yr hyn oedd cyn troedigaeth Paul. Dylem weled hefyd a chwilio y rhesymau a ddygir dros ystyried fod yr ymweliad â Jerusalem a goffeir yn penod ii. yr un â'r ymweliad a enwir yn Actau xviii. 27, ac yn hyn dilynir y goreu sydd wedi ysgrifenu o blaid hyny, sef Wieseler. (1) Yn y lle cyntaf, mae gan yr awdwr hwn ddatl ag yr ydys eisoes wedi cyffwrdd â hi. Pan y dywed Paul (ii. 5) "fel yr arhosai gwirionedd yr efengyl *gyda chwi*," rhaid ei fod wedi pregethu yn Galatia cyn amser y ddatl yn Jerusalem. Ond yn amser Actau xvi, 6, y bu yno gyntaf, felly y casgliad naturiol yw i'r ddatl hono fod ar ymweliad diweddarach nag Actau xvi., sef ar yr un a goffeir yn penod xviii. 21. Ond teg yw dweyd fod y "*gyda chwi*" yna i'w ddeall o safle yr Apostol fel yn ysgrifenu, gan gyfeirio at ffrwyth y ddatl flaenorol, yn yr hon yr oedd i bob

Cenedl-ddyn ran. (2) Mae y geiriau "yr hyn beth hefyd y bum i ddiwyd i'w wneuthur" (ii. 10) yn cynwys i Paul ar unwaith wedi y cyngor ddechreu casglu i'r tlodion. Ond nid oes un awgrym ddarfod iddo wneyd hyny ar ol Actau xv., tra y mae yn dra thebygol, yn ol 1 Corinthiaid xvi. 1, iddi ymgymeryd a'r gwaith hwnw yn ddiattreg wedi xviii. 21, a hyny yn Galatia ei hun. Ond nid yw dadl oddiwrth ddystawrwydd yn un gref, ac nid oedd un alwad ar Luc i gofnodi pob casgl a wnaed gan yr Apostol. Dyma fu ei arfer ar lawer o achlysuron, fel y gwelir oddiwrth Actau xi. 30, a xxiv. 9., ac nid yw y geiriau yn ii. 10, yn gofyn mwy na hyn o ystyr.

(3) Dywed yr awdwr hwn yn mhellach mai gwr o Corinth oedd Titus, ac na allai un felly fyned gyda Paul i fyny i Jerusalem cyn ymweliad yr Apostol ei hun â Corinth (Actau xviii.) Chrysostom yn y bedwaredd ganrif sydd yn son am hyn gyntaf, ond nid oedd ganddo ef, mwy na ninau, un sail i hyny heblaw llyfr yr Actau. Yn xviii. 7, darllenir gan rai, yn eu plith awdwyr y Cyfieithiad Diwygiedig Saesneg, TITUS JUSTUS, a dyma yr unig sail sydd i'r dyb hon. Nid yw 2 Corinthiaid viii. 23, "fy nghydymaith a chydweithydd tuag atoch chwi," ar ei ben ei hun yn golygu hyny, mwy na xii. 17, 18, o'r un epistol, lle yr enwir Titus fel un o amryw a anfonasid i Corinth. Ond yn yr adnod uchod o'r Actau, mae Tischendorf a Westcott-Hort yn darllen TITUS JUSTUS, gwr gwaahanol i Titus.

(4) Yn mhellach, gosodir troedigaeth Paul gan Wieseler yn y flwyddyn A.D. 40, a chan mai yn mhen pedair blynedd ar ddeg ar ol ei droedigaeth, yn ol ei farn ef, yr aeth Paul i Jerusalem, mae yr hanes a roddir yn ii. 1 yn perthyn i'r flwyddyn A.D. 54, sef blwyddyn Actau xviii. Yn erbyn hyn, ail-adroddir yma y casgliad y deuir iddo yn yr Esboniad hwn ar ii. 1, mai pedair blynedd ar ddeg ar ol yr ymweliad cyntaf a Jerusalem a feddylir, ac felly ni bu yr ail ymweliad hyd ddwy flynedd ar bymtheg wedi troedigaeth yr Apostol. Yn ol hyn, mae yr amseriad A.D. 40 yn anghywir, a'r casgliad a sylfaenir arno yn syrthio.

Erbyn hyn, teimlwn ein bod yn cael ein cydgau i'r casgliad mai ymweliad Actau xv. a goffeir yn yr ail benod o'r llythyr hwn, neu ryw ymweliad arall na roddir ei hanes gan Luc. Yn ol Galatiaid ii.

aeth Paul a Barnabas i fyny i Jerusalem yn nghylch yr efengyl a bregethid yn mhlith y Cenhedloedd, ac oddiwrth y cyfeiriad at Titus a'r "gau frodyr," gwelir yn amlwg i ddadl frwd godi yno am y rhyddid sydd yn Nghrist Iesu, a'r enwaediad. Dyma yn hollol y cwestiwn yr anfonwyd yn ei gylch yr un ddau wr gyda "rhai eraill," yn ol Actau xv., a'u prif wrthwynebwyr (eu hunig wrthwynebwyr, efallai,) yno oedd "y rhai o sect y Paariseaid, y rhai oedd yn credu." Yn y ddau hanes mae Pedr ac Iago a rhan arbenig flaenllaw iddynt, ond bod Ioan hefyd yn cael ei enwi gan Paul. Ymddengys yn hollol anmhosibl y gallai yr un cwestiwn godi ar adeg arall, a chael ei drafod fel y disgrifir yn y ddau lyfr, gan yr un personau, heb i awdwr llyfr yr Actau ddweyd cymaint a sill am dano pan yn adrodd i Paul fyned i fyny i Jerusalem yn xi. 30, neu xviii. 21; ymddengys yr un mor anmhosibl y gallai hyny fod ar ymweliad nad yw yr Actau yn son dim am dani. Eto, gwahaniaetha y ddau hanes mewn rhai pethau; nid yw Paul yn son dim am yr achlysur i'r ymweliad a godasai yn eglwys Antiochia, nac am lythyr yr apostolion at yr eglwys hono; nid yw Luc o'r tu arall yn ein hysbysu am y dymuniad i gofio y tlodion. Y pwnc mawr gan yr apostol, yn ol fy marn i, yn yr ail benod yw, nid ei safle ei hun, nid ei awdurdod fel apostol, ond "gwirionedd yr efengyl" a'r "rhyddid yr hwn sydd genym yn Nghrist." Dibwys felly, wrth adrodd yr hanes fel yr edrychai ef arno, oedd cyfeirio o gwbl at achlysur ei daith i Jerusalem. Gallai y dymuniad i gofio y tlodion fod yn rhy ddibwys neu yn rhy arferol gan Luc i wneyd sylw o hono, ond o'r tu arall, po fwyaf dibwys neu gyffredin oedd yr un peth a osododd yr apostolion ar Paul a Barnabas, egluraf oll y gwelwn feistrolwaith Paul yn gofalu ei enwi. Wedi yr holl ddadleu, yr oedd yr apostolion a'r henuriaid mor bell yn unfarn ag ef a Barnabas, fel na ddymunasant arnynt gadw na chofio dim ond yr hyn y gallasant ei ddymuno ar unrhyw achlysur arall—dymuno ar iddynt gofio y tlodion.

Wrth ddwyn i gof y dyben oedd gan yr apostol yn cyfeirio at yr ymweliad a fu y tro hwn, hawdd yw deall mor naturiol oedd iddo adael yr un a enwir yn Actau xi. 30, xii. 25, yn ddisylw. Heblaw

hyny, yr adeg hono yr oedd Iago brawd Ioan newydd ei ladd â'r cleddyf gan Herod, a Phedr yn ngharchar neu wedi myned i waered o Judea i Cesarea.

2. Mae yr hanes a roddir yn Actau xv., wrth fynegu achlysur yr ymweliad yma â Jerusalem, yn dangos hefyd y dyben oedd i'r cynulliad neu y cynullïadau lle yr oedd yr eglwys, yr henuriaid, a'r apostolion yn bresenol. Priodol y gelwir hwn yn GYNGOR cyntaf yr Eglwys Gristionogol, lle y cyfarfu Iuddewon a Chenhedloedd wyneb yn wyneb i benderfynu y "cwestiwn yma"—a oedd raid i'r Cenhedloedd a gredent ymostwng i gadw deddf Moses? Dywedir cymaint a hyn yn amlwg yn llyfr yr Actau, ond nid yw Paul yn yr ail benod o'r llythyr hwn yn dywedyd yn eglur pa amcan oedd ganddo yn myned i fyny i Jerusalem. Nid anhawdd yw casglu oddiwrth rediad ei holl eiriau beth yw yr amcan sydd ganddo ef yn coffau yr amgylchiad, ond er hyny, gellir yn deg ofyn, a yw yr hanes fel y mae yma yn awgrymu i ni yr un dyben i'r cynulliad yn Jerusalem ag a roddir gan Luc? Ymddengys i mi ei fod. Fe fyn rhai fod gan yr Apostol, yn ol yr hyn a ddywed yma, amcan personol yn myned i fyny, a bod hwn i'w weled yn yr ail adnod, "Mi a aethum i fyny yn ol datguddiad, ac a fynegais iddynt yr efengyl, yr hon yr wyf yn ei phregethu yn mysg y Cenhedloedd, ond o'r neilldu i'r rhai cyfrifol, rhag i mi mewn un modd redeg yn ofer, neu fy mod wedi rhedeg yn ofer." Aeth i fyny, dywedir, er mwyn gosod ei efengyl o flaen yr apostolion, fel y caffai sel eu cymeradwyaeth hwy iddi. Ond nid yw hyn yn y geiriau uchod o gwbl, lle na ddywedir ond "mi a aethum i fyny ac a fynegais," pryd yr oedd mor hawdd dweyd, "mi a aethum i fyny i fynegu." Nid oedd eisïau i Paul fynegu dyben y cenhadon yn y daith, ond yn unig ddangos fod gweithrediadau y cyngor yn Jerusalem yn profi fod yr eglwys yno a'r henuriaid a'r apostolion o'r un farn ag ef o ran yr hyn a ddysgai yn mysg y Cenhedloedd. Yr oedd wedi bod eisoes ddwy flynedd ar bymtheg yn Nghrist, ac annaturiol hollol fuasai tybied fod arno ef ei hun angen na chadarnhad na chymeradwyaeth, neu fod datguddiad ddwyfol yn ei arwain i gael hyny trwy y ffordd hon. Pan drown i lyfr yr Actau gwelwn fod "y rhai" a

ddaethant o Judea nid yn unig yn dysgu mai rhaid oedd dilyn defod Moses, ond hefyd eu bod yn gwneyd hyny dan gysgod enw yr eglwys yn Jerusalem, gan fod yr henuriaid a'r apostolion yn eu llythyr yn gofalu hysbysu y brodyr yn Antiochia na roesant hwy un gorchymyn iddynt. Hyn oedd y prif reswm paham yr anfonwyd i fyny, nid i gael sicrwydd (ar du Paul o leiaf) am y wir athrawiaeth, ond i dawelu meddyliau cythryblus, a oedd y gwyr Iuddewaidd hyn mewn gwirionedd yn gosod allan feddwl yr eglwys yn Jerusalem fel yr honent eu bod. Os felly, yr oeddynt yn gwyrddroi yr efengyl a bregethid gan Paul : yr oedd eglwys Jerusalem a Paul yn dysgu yn groes i'w gilydd, er fod pedair blynedd ar ddeg a mwy wedi myned heibio heb un argoel o'r fath beth. Caed sicrwydd ar hyn trwy y cyngor, lle y dangoswyd ac yr arwyddwyd yn ffurfiol fod y fam eglwys a'i harweinwyr yn llwyr o blaid efengyl *heb* enwaediad i'r Cenhedloedd. Gwrthodwyd yr alwad am enwaedu Titus, er ffyrniced fu y cœis i'w orfodi; ni roddwyd i Paul a Barnabas nac athrawiaeth na defod amgen nag oedd ganddynt yn flaenorol yn ystod eu pedair blynedd ar ddeg o lafur : rhoes tri gwr blaenaf yr eglwys iddynt yn ffurfiol ddeheu-ddwylaw cymundeb, *nid* i'w cydnabod yn bersonol o ran "awdurdod apostolaidd," ond *fel rhai ag oeddynt yn cynrychioli rhyddid, ac yn amddiffynwyr rhyddid, y Cenhedloedd*. Yr oedd eglwys Jerusalem o'r blaen yn ei gwyr goreu o'r farn hon, ond yn awr dangosodd a chadarnhaodd hyny, trwy lythyr medd Luc, trwy weithred ffurfiol medd Paul, ac nid oes dim anhawsder i ddeall fod y llythyr at eglwys Antiochia yn ganlyniad yr ysgwyd dwylaw.

Gyda golwg ar weithrediadau y cyngor dywed Dr. Lightfoot, "Pa ran a gymerwyd yn y ddatl gan apostolion yr enwaediad?... ar y cyfan mae yn debyg iddynt gynghori Paul i ildio y peth hwn, (enwaedu Titus), gan roi i fewn yn garedig i ragfarn y credinwyr Iuddewig : ond wedi eu hargyhoeddi o'r diwedd gan yr hyn a ddywedai ef, y byddai y cyfryw ildio ar y fath adeg yn andwyol, tynasant eu cyngor yn ol gan ei gefnogi ef." Mae deall yr hanes fel hyn, medd yr esboniwr dysgedig, yn cytuno â'r hyn a wyddis ac â'r hyn oedd debyg ; mae yn gyson hefyd a llwfrdra Pedr yn An-

tiochia, ac â chyngor Iago yn ddiweddarach (Actau xxi. 20). Yn yr un cyfeiriad, ond un cam yn mhellach, y dywed eraill "fod yn amlwg oddiwrth adroddiad Paul ddarfod i'r apostolion hynaf ar y dechreu *alw* am enwaedu Titus, ac mai gwrthwynebiad apostolion y Cenhedloedd a barodd iddynt ymatal oddiwrth hyny." Gwelwn gyfeiriad pellach y golygiadau hyn yn y desgrifiad canlynol, "Titus mewn gwirionedd oedd un o brif anhawsderau y ddadl. Yr oedd y Phariseaid oedd yn credu, yn foddlon i'r meddwl fod yn Antiochia yn nghanol Asia Leiaf ddigon pell oddiwrthynt hwy, Gristionogion heb eu henwaedu. Ond yn ngolwg Jerusalem, yr oedd goddef iddynt amlhau, a chaniatau y fath drosedd anfado'r ddeddf, wrth yr hwn y glynent o waelod calon, yn beth na allent gyd-ffurfio âg ef. Derbyniai Paul y fath alwad gyda mawr ochelgarwch. Yr oedd yn hollol argyhoeddedig mai nid o angenrhaid y galwent am enwaedu Titus, yr arhosai Titus yn Gristion pe heb gydsynio â'r ddefod hon, ond fel arwydd o ymostyngiad er mwyn y brodyr yr oedd eu cydwybod mor dyner fel na allent gymdeithasu ag ef. Cydsyniodd Paul, eto nid heb eiriau caled yn erbyn y rhai fynent y fath beth, 'y rhai hyn,' meddai, 'a ddaethant i mewn yn llechwraidd i leihau y rhyddid a grewyd i ni gan Grist Iesu.' Protestiai nad oedd mewn dim yn darostwng ei farn i'r eiddynt hwy, ei fod yn cydsynio yn unig am y tro, ac er mwyn heddwch. Ar yr amodau hyn rhoes ei gydsyniad, ac enwaedwyd ar Titus." Meddwl adn. 3, yn ol y golygiad hwn, yw ddarfod i Titus gael ei enwaedu, ond nid ei orfodi i hyny.

Wedi darllen yr holl hanes lawer gwaith, ymddengys i mi fod y ffyrdd hyn o ddesgrifio gweithrediadau y cyngor heb sail iddynt yn y geiriau sydd o'n blaen yn yr Actau a'r epistol hwn. Onid ydynt hefyd yn tarddu o syniad am wahaniaeth rhwng yr apostolion hynaf â Paul amgen na dim a warantir gan y Test. Newydd? Os oes iddynt ryw sail yn yr epistol hwn yna i'm teimlad i mae Paul a Luc yn dweyd pethau gwahanol. Yn sicr nid ymostyngodd Titus i'r ddeddf fel y dengys y defnydd a wneir o'r gair "gorfodi" yn ii. 14, a vi. 13. Diau y bu galw am enwaedu Titus gan "y gau frodyr," ond nid oes yn iaith yr ail benod o'r llythyr hwn gymaint a gair a ddengys ddarfod i'r apostolion ffafrio y fath alwad. Ie,

ydddengys yr hanes a rydd Paul am dano ei hun yn gwrthwynebu un o honynt wedi hyny yn Antiochia, yn awgrym gref nad oedd wedi gorfod gwneyd yr un peth ag amryw yn Jerusalem. Hefyd, mae ei waith yn galw ymddygiad Pedr yno yn *rhagrith* yn dangos fod ei ymddygiad ef yn cyngor yn gyfryw ag i beri iddo ddsygwyl rhywbeth amgen oddiwrtho. Ahyny cytunacyfarchiad Pedr ac Iago fel y ceir hwy gan Luc Anfonasid Paul a Barnabas a Thitus, nid at yr apostolion, ond at yr apostolion *a'r* henuriaid, a derbyniwyd hwy gan "yr eglwys a'r apostolion a'r henuriaid;" y pryd hwn y cododd rhai o sect y Phariseaid gan ddweyd "fod yn rhaid eu henwaedu hwy (Cenhedloedd) a gorchymyn cadw deddf Moses." Daeth yr apostolion a'r henuriaid yn nghyd yr ail waith "i edrych am y mater yma;" ac wedi bod ymddadleu mawr cododd Pedr, "Ha wyr frodyr, chwi a wyddoch ddarfod i Dduw er ys talm o amser ethol ar fod yn eich mysg chwi,* i'r Cenhedloedd, trwy fy ngenau i, glywed gair yr efengyl a chredu." Dyma eiriau un sydd yn cydsynio â Paul a Barnabas cyn iddynt hwy eu hunain siarad. "Mae," fel pe dywedasai, "*yn eich plith chwi eich hunain* Genhedloedd wedi eu dychwelyd trwof fi, paham y gwrthwynebw'n iddynt fod gyda'r eglwys draw ymhell yn Antiochia; rhoed gan Dduw yr Ysbryd Glan iddynt hwy megys i ninau; ni wneir dim rhagor rhyngddynt hwy a ninau yn effeithiau ffydd; trwy ras yr Arglwydd Iesu yr ydym ni yn credu ein bod yn gadwedig yr un modd a hwythau; paham y dodwn ar eu gwar iau na allai ein tadau na ninau ei dwyn." Cafodd yr araeth hon effaith nodedig, gan i'r holl liaws ddystewi i wrando ar Paul a Barnabas. Geiriau gwr ffafriol i apostolion y Cenhedloedd yw y geiriau hyn, a gellid dweyd yr un peth am gyfarchiad Iago. Mae y ddau yn cydnabod y Cenhedloedd dychweledig; sylfeinir hyny gan Iago ar yr Ysgrythyrau. Yn y goleu yma daw yr hanes yn yr Actau a geiriau Paul i gydgyfeirio at y ffaith bwysig ddarfod "i'r apostolion a'r henuriaid a'r holl eglwys," gydnabod yr efengyl a bregethai Paul.

3. With edrych yn mhellach ar ganlyniadau y cyngor hwn, mor bell ag y cawn oleuni ar hyny yn y Test. Newydd, gellid aros

* Dilynir yma y darlleniad diwygiedig "chwi" yn lle "ni."

y chydig gyda chwestiwn sydd ar riniog yr ymchwiliad. A oedd rhyddid yr Iuddewon yn cael ei gydnabod yn y cyngor? Deallir gan rai fod yr hanes a roddir gan Luc a geiriau yr apostol yn y llythyr hwn yn cyfleu i ni y meddwl mai y dealltwriaeth y daethpwyd iddo oedd fod pethau i aros fel yr oeddynt, h.y., fod y Cenhedloedd i fwynhau cwbl ryddid oddiwrth ddeddf Moses, ond y disgwyliid i'r Iuddewon oll a gredent barhau yn eu hufudd-dod iddi, nad oedd y rhyddid, ag yr oedd mor amlwg na allent ei atal oddiwrth y Cenhedloedd, yn gweddu i Iuddew. Un sail i'r farn hon yw y geiriau, "rhoddodd Iago, Cephas, ac Ioan, i mi, ac i Barnabas, ddeheu ddwyllaw cymdeithas, fel yr elem ni at y Cenhedloedd a hwythau at yr enwaediad." Ond edrycher ar y geiriau a geir yn adn. 8, "Canys yr hwn a nerthol weithredodd er Pedr i apostoliaeth yr enwaediad a nerthol weithredodd erof finau tuagat y Cenhedloedd." Yn ol fel y deallir y geiriau o'r blaen buasai raid deall yma na bu llafur Pedr ond gyda'r enwaediad yn unig, na llafur Paul ond gyda'r Cenhedloedd yn unig, tra yr oedd y naill wedi bod yn mysg Cenhedloedd, a'r llall yn mhob man lle caffai hwynt yn dechreu gyda'r Iuddewon. Mwy priodol yw deall mai y cytundeb oedd fod Paul a Barnabas yn rhydd i fyned at y Cenhedloedd, ac yr aent hwythau at yr enwaediad. Gwelodd yr apostolion hynaf fod y gwyr hyn "a roesent eu heneidiau dros enw yr Arglwydd Iesu," yn mhedair blynedd ar ddeg eu llafur, wedi eu nodi allan gan Dduw fel llestri etholedig i ddwyn ei enw i blith y cenhedloedd. Cydnabyddwyd awgrym rhagluniaeth—cai Paul y Cenhedloedd, yn ddirwystr o'u rhan hwy; cymerent hwythau yr enwaediad. Ond gellid ychwanegu fod rhyddid y Cenhedloedd yn cael ei ddadleu gan Paul ar seiliau sydd o angenrheidrwydd yn ei estyn i bawb, fel na ddichon enwaediad ddim, na di-enwaediad, ond ffydd yn gweithredu trwy gariad, oherwydd i Grist ein rhyddhau i ryddid. Nis gallai Paul, ei hun yn Iuddew, a Barnabas a fuasai Iefiad, bregethu rhyddid ond fel rhyddid i bawb. Felly hefyd y llafara Pedr yn y cyngor, ac felly yr ymddygodd ar y cyntaf pan y daeth i Antiochia. Nid yw ymddygiadau Pedr nac Iago *wedi* y cyngor yn un ddadl dros briodoli iddynt ystyr gyfyng yndo pan yr oedd egwyddor hanfodol mewn dadl. Aeth Paul

ei hun wedi y cyngor yn bell iawn "er mwyn yr Iuddewon," "er mwyn y thai dan y ddeddf," o ran y goddef doeth a berthynai i fywyd o gymedroldeb ymarferol. Yn yr adeg fawr hon pan yr oedd yr hen yn diflanu, a'r newydd a'i eang ryddid yn cryfhau, yr oedd eisiau callineb fel y sarff, yr oedd angen pwyll ac ireidd dra ysbryd arbenig, a chaed hyny yn y gwr na ildiasai gam yn y cyngor. Gallasai ef gydnabod fod rhagoriaeth i'r Iuddew a budd o'r enwaediad, a thra yn cyhoeddi i'r Iuddew ei fod yn wr rhydd yn Nghrist, ac yn ei fawr gymell i'w twynhau, gan ei rybuddio i beidio ymgyfiawnhau yn y ddeddf, ni omeddai i rai o gydwybod dyner fod yn wyr bucheddol ynddi.

Nid yw llyfr yr Actau yn son dim am ymweliad Pedr ag Antiochia. Mae yn hyn awgrym na wetodd awdwr y llyfr hwnw erioed mor epistol hwn. Ond gyda golwg ar yr amser y bu yno gellir gyda gradd o sicrwydd gasglu mai yn lled fuan ar ol y cyngor yr aeth Pedr i'r ddinas hono. Hi oedd mam ddinas yr eglwysi cenhedlig, lle y bu gyntaf alw y disgyblion yn Gristionogion, ac y mae yn rhyfedd mai Pedr yn unig o'r apostolion sydd yn defnyddio yr enw hwn. Aeth yno, mae'n debyg, gyda'r dyben da syml o gryfhau trwy ymweliad personol y cymundeb brawdol a adferasid yn yr eglwys. Os felly, gwyddai y rhan zelog dros y ddeddf o eglwys Jerusalem am ei hynt a'i neges; gwyddent hefyd fod Iago, fawr ei bwyll, am adael pethau fel yr oeddynt, heb geisio gwella yr hyn oedd mor dda, ac aethant i Antiochia ar ol Pedr gan honi, bid sicr, eu bod hwy wedi eu hanfon oddiwrth Iago. Buasai Iago mor anfoddlawn iddynt hwy ag oedd i Pedr; yn wir, iddynt hwy, buasai lwyr a hollol anfoddlawn

Mae ysgrifenywyr wedi galw sylw at yr hyn a elwir yn ddystawrwydd Luc am y dadleuon chwerw a'r Iuddewon: hawdd y gellid cydnabod nad yw llyfr yr Actau yn cyffwrdd â'r cwestiwn yma ar ol y bymthegfed benod, a bod ei awdwr yn fwriadol ddystaw arno. Eto, yr oedd ef ei hun yn nghwmni Paul yn lled fuan, o leiaf ar ol y tymhor yr ysgrifenywyd y pedwar epistol (Galatiaid, 1, 2 Corinthiaid, Rhufeiniaid) ynddo, ac fel y tystia yr epistolau diweddaf,

ni phallodd y gwrthwynebiad hwn tra parhaodd oes apostol y cenhedloedd. Nis gallai Luc fod heb wybod am danynt, a rhaid fod rheswm da am ei ddystawrwydd. Er hyny, ni raid i ni feddwl ei fod yn gosod llen dros yr hanes gan ddarn guddio pethau gofidus : mwy tebygol yw meddwl na pharhaodd yr anghydwelediad a fu yn Antiochia rhwng Pedr a Barnabas a'r apostol ond ychydig amser, ac a hyn y cytuna y dull yr enwir Barnabas ganddo yn 1 Cor. ix. 6. Gan fod arweinwyr yr eglwys yn cydweled, hawdd y gallasai Luc fyned heibio i'r ymrysonau yn nghylch y ddeddf yn ddi-sylw, yn enwedig wedi iddo yn pen. xv. ddesgrifio y penderfyniad a reolai yr apostolion. Yn ol un golygiad, edrychir ar y fath wrthwynebiad ag oedd yn awr yn Galatia fel rhan o ymdrech gyffredinol, yn cychwyn o Palestina, oedd yn cael ei gwneyd i wrthwynebu Paul. Cenhadaeth a aeth allan ar ol y Cyngor i wrth-weithio ei ddysgeidiaeth ef oedd : dilynent ei gamrau gan geisio, a zêl gynhenus chwerw, ddymchwelyd ei awdurdod, hudo ei ddysgyblion, a dinystrio ei waith, dan esgus o'i wella; deuai y cenhadau i eglwysi â llythyrau yn eu llaw, gan honi eu bod yn cynrychioli y deuddeg, a gwadu apostoliaeth Paul. Eir mor bell a chysylltu hyn ag Iago, ar sail y geiriau sydd yn ii. 12. Ond, i'm meddwl i, mae anhawsderau anorfod i'r dyb hon. Yn un peth, nid oes angen am dani, gan fod yr hyn a wyddom am Iuddewon y gwasgariad, eu zêl dros ddeddf eu tadau, yn ddigon i esbonio cyffredinolrwydd y gwrthwynebiad. Heblaw hyn, gwelir gwahaniaeth mawr yn y math o Iuddewiaeth oedd yn peri blinder i wahanol eglwysi, yn Corinth, er engraifft, a Colossae, a Rhufain ei hun. Nid yw yr apostol, ychwaith, yn un lle, yn cyfeirio at Jerusalem fel man cychwynol yr ymosodiad. Er fod y cyfeiriad at Iago yn ddyrus, gall yr eglurhad a roddir yn yr esboniad fod yn gyfryw ag i roddi rheswm boddhaol am dano. Arhosodd y gwirionedd i'r Cenhedloedd, a chynyddodd ; yn niwedd ei ddyddiau, gwelwn fod yr ymdeimlad o'r gwaith neillduol y penderfynwyd arno i'r apostol yn y cyngor, wedi tyfu yn fwy-fwy yn eiymdeimlad : " i'r hyn y'm gosodwyd i yn bregethwr ac yn apostol, yn athraw y Cenhedloedd mewn ffydd a gwirionedd."

IV.—IUDEWIAETH GALATIA.

TRI EPISTOL—Y GALATIAID, YR HEBREAIID, Y COLOSSIAID

Wrth edrych yn weddol fanwl i gynwys y gwahanol lyfrau yn y Testament Newydd ag y mae ynddynt athrawiaeth ymosodol ar Iuddewon oherwydd eu cais i lithio y darllenwyr oddiwrth yr efengyl, gwelwn fod y ddysg Iuddewaidd ei hun yn cynwys gwahanol fathau. Nid yr un Iuddewiaeth oedd yn Galatia ag sydd o flaen meddwl awdwr y llythyr at yr Hebreaid: un wahanol i'r ddwy a flinai eglwys Colossæ. Er y bu y gwahaniaeth hwn yn achlysur i ddwyn allan yn helaethach gyfoeth dadguddiad Duw yn Nghrist, eto nid ydym yn gosod helaethrwydd y gwirionedd i ddibynu ar wrthwynebiad i'r gwahaniaeth. Pa un bynag ai Paul ai rhywun arall yw awdwr y llythyr at yr Hebreaid, mae yr efengyl i'w gweled yn fwy cyflawn i ni o sylwi ar y modd y mae y llyfr hwnw yn gosod o'n blaen ffurf ar y gwirionedd dwyfol nad yw mor helaeth gan Paul. O'r ochr arall, ceir yn y Galatiaid a'r llythyrau eraill y mae enw Paul wrthynt, agweddau ar ddysgeidiaeth yr efengyl nad yw yr Hebreaid yn eu gosod allan yn yr un cyflawnder. Fel hyn y cyflenwir Gair Duw.

Iuddewon Phariseaidd oedd yn ceisio ludo eglwysi Galatia, rhai tebyg i'r hyn fuasai yr apostol ei hun gynt, ond ni raid i ni wedi dweyd fel hyn dybied mai o Judea neu Jerusalem y daethant i blith y Celtiaid hyny. Llawer llai boddlawm yw meddwl pwylllog at wirionedd, i roi lle i'r syniad mai cenadon Iago oeddynt, gyda'r gwaith o gario, yn mlaen ar hyd y byd genhadaeth wrthwynebol i Paul. Yr oedd digon o'r math hwn o Iuddewon yn ninasoedd Asia, ond yn byw mewn cymundeb fwy neu lai agos â'r ddinas sanctaidd. Yn Colossæ yr oedd Iuddewon wedi eu trwytho i ryw fesur â syniadau y Groegiaid, a chanddynt philosophi a'r awydd i fod heb arbed y corff, gan ymatal oddiwrth fwydydd a diodydd. Troai "yr Hebreaid" lygaid hiraethlawm mewn uchel barchedig-aeth at y gyfraith o ran ei hordeiniadau dwyfol—cysegr Jehofah, yr aberth dros bechod a'r puro, y sancteiddio, y cysegru a'i dilynai, a'r offeiriad hefyd a offryment roddion ac aberthau dros bechodau.

Gan Iuddewon Colossae a Galatia, er y gwahaniaeth oedd rhyngddynt, nid y wedd seremoniol hon oedd fwyaf yn y meddwl; edrychent hwy ar y ddeddf fel rheol buchedd, fel y ffordd o hyfforddiant dwyfol yr oeddynt i'w chadw, ac ymddyddan am dani, a'i dysgu. Oherwydd hyn yr oeddynt yn deall y ddeddf trwy gwmwl o draddodiadau, trwy weoedd yr ysgrifenyddion, nes peri fod yr hyn oedd dda, o'i ddeall fel y deallent hwy ef, yn amddifad o naturioldeb gwir ufudd-dod i Dduw. Y prif rinweddau oeddynt, zel mewn ymdrech i fod yn ddysgedig yn y gyfraith *fel* yr oedd y traddodiadau hyny gan athrawon lawer wedi eu hegluro, ac i gario allan mewn ymarferiad, ufudd-dod o gyflawni gyda manyldeb na edrychai ar wahaniaeth rhwng pethau bychan a phethau trymion y gyfraith, rhwng pethau hanfodol a phethau dibwys. Cadwai rhai fel hyn ddiwrnodau, wythnosau, a misoedd: yr oedd ganddynt rinweddau, crëedig ganddynt hwy eu hunain yn y fath gyflawniadau, fel yr oeddynt yn alluog i gyrhaedd safle uchel ynddynt, a throseddau crëedig, yr un modd, ag yr oeddynt gyda'u rhinwedd Rabbinaidd yr un mor alluog i gilio yn mhell oddiwrthynt. Ond yn hyn oll, nid oedd le mawr i'r ystyriaeth o aberth ac iawn dros bechod, o'r prynedigaeth a roddai gwyl y cymod. Nid y llythyr at yr Hebreaid a fuasai fwyaf cymwys i'r math yma pe dygent y meddyliau hyn a'r dymer hon i fewn i'r eglwys Gristionogol. Gogyfer â hwy, ac hefyd â'r un dymer falch bunangyfiawnhaol mewn amddifadrwydd o amgyffred ysbrydol am bechod, dros byth yn mhob man, ysgrifenydd rhan fawr o'r llythyr at y Galatiaid a'r llythyr at y Rhufeiniaid, a rhanau o'r ddau a anfonwyd i Corinth.

Gwelwn y gwahaniaeth y cyfeirir ato yn mhrif eiriau y ddau lythyr—y Galatiaid a'r Hebreaid. Yn yr olaf enwir Moses unarddeg o weithiau, dim unwaith yn y cyntaf, eto bychan yw hyny. Edrychwn ar eiriau ac ymadroddion fel,—ei orphwysfa ef, arch-offeiriad i offrymu rhoddion ac aberthau dros bechodau, urdd Melchisedec, urdd Aaron, perffeithio, cysegru, y gysegrfa a'r gwir dabernacl, gwasanaeth, allor, gwaed teirw a geifr a lludw aner, y nefoedd yn wir gysegr, rhyddid i fyned i mewn i'r cysegr drwy waed Iesu, a chyffelyb i'r rhai hyn. Dyma ymadroddion na ddar-

llenir o gwbl yn y Galatiaid. O'r ochr arall, nid ydym yn yr Hebraeid yn darllen am enwaediad, am weithredoedd y ddeddf, am fod dan y ddeddf, nac am ryddid; ni sonir yno am yr efengyl, am yr ysbryd yn wrthgyferbyniol i'r cnawd, am farw i'r ddeddf, am y rhai ysbrydol, am y cyfamod âg Abraham cyn y ddeddf, nac o gwbl am y cenedloedd. Eto dylem fod yn wylidwrus rhag rhoi gormod o bwys ar wahaniaeth ymadrodd. Ymddengys i mi fod yr un athrawiaeth yn fynych yn cael ei dysgu dan ymadroddion gwahanol. Yn y Galatiaid diflana y ddeddf fel y gyfundrefn amherffaith y rhoddid iddi yr enw "y cnawd," oherwydd rhoddiad a rheolaeth "yr ysbryd," yr un modd ag y diflana gwyniau a chwantau y cnawd; "os a'r ysbryd y'ch arweinir nid ydych dan y ddeddf." Gwelir yma gyfatebiaeth eglur i'r hyn a ddywedir gan yr Arglwydd ei hun yn efengyl Ioan, fod gwir addolwyr y Tad yn ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd, ac yn y Bregeth ar y Mynydd am natur yr ufudd-dod a berthyn i deyrnas nefoedd, fel ufudd-dod ysbrydol. I'm teimlad i, yr un peth sydd yn yr Hebraeid lle y dysgir am "y gwir" yn wrthgyferbyniol i'r amherffaith; wedi dyfodiad y pethau eu hunain, y gwir bethau, —y nefol,—rhaid i'r hyn a'u cysgodai beidio a bod, fel y mae y cnawdol yn y ddeddf yn diflanu o flaen yr ysbrydol sydd uwch nag ef. Mae *gwir a chysgodol* yr Hebraeid yn sylweddol gyfystyr ag *ysbrydol a chnawdol* y Galatiaid.

Wrth sylwi eto yn mhellach ar yr ymadroddion sydd yn dweyd na roddwyd deddf a allasai fywchau (iii. 21), a'i bod yn wan trwy y cnawd (Rhuf. viii. 3) gwelwn ynddynt gyffelyb feddwl i'r hyn a ddywed yr Hebraeid "na pherffeithiodd y gyfraith ddim" (vii. 19); at wyddorion llesg a thlodion y troai y Galatiaid wrth droi at bethau y ddeddf, a sonia yr Hebraeid yr un modd am "lesgedd ac afles y gorchymyn oedd yn myned o'r blaen gyda'i "ddefodau cnawd;" hyd oni ddelai yr hâd y rhoddwyd y ddeddf trwy drefniad angylion yn ol y Galatiaid, hyd amser y dirymiad yn ol yr Hebraeid: mae dirymiad iddi yn y ddau epistol.

Ond yma, sylwn ar wahaniaeth mawr yn y modd y portreadir y dirymiad yn y naill ragor y llall, ac yn holl epistolau Paul ragor

yn yr Hebreaid, pa un hynag ai efe ei hun a'i hysgrifenodd ai rhyw-un arall. Edrychir ar y ddeddf gan Paul fel un i'w chyflawni, i'w chadw, i'w gwneyd gan ddynion, "y dyn a wnêl y pethau hyn," medd ef, yw cymeriad y ddeddf; ac yn y wedd hon, gosodir ei chyflawni ganddo mewn gwrthgyferbyniad cryf i ufudd-dod ffydd: iê, mwy, mae yr ymarfer o honi nid yn unig yn ddilês, ond yn beth i'w gondemnio gan ei fod yn arwain i felldith. Ni all yr un dyn, yn ol Paul, gyflawni y ddeddf; felly, mae pawb sydd yn mynu aros dani, dan felldith; ond yn Nghrist mae wedi ei dileu. Yn yr Hebreaid, o'r tu arall, cyfundrefn o addoliad neu "wasanaeth" (leitourgia = liturgia) dwyfol yw y ddeddf, yn yr hon y ceir aberth i wneyd cymod dros bechod, ac i'w chyflawni, nid gan dynion yn gyffredin, ond trwy offeiriad. Yn yr aberthau hyn eu hunain, gan nad allent o ran cydwybod berffeithio yr addolydd, am mai i bur-eiddiad y cnawd yr oeddynt yn sancteiddio, a bod yn rhaid eu haberthu yn fynych—ynddynt hwy eu hunain, yn ol y llythyr hwn, ac yn ngwendid yr offeiriad, ac yn natur allanol faterol y cysegr, yr oedd y diffyg. Nid yw Paul heb y wedd hon, megys lle y sonia am yr hyn ni allai y ddeddf, oherwydd ei bod yn wan trwy y cnawd. Er hyn, saif y gwahaniaeth a nodwyd yn eglur. Ceir un rheswm am dano yn safle yr apostol: yr oedd ef wyneb yn wyneb â'r ddeddf mewn gwisg o eglurhadaeth oedd yn ei gwyrddio, wyneb yn wyneb â dynion oeddynt trwy eu dull eu hunain o'i dysgu, wedi eu dwyn i ddisgwyl cyfiawnder yn y cyflawniad o honi, ac yn ei chyflawni gyda'r bwriad hwnw. "Yr oedd yr offeiriad a'r ysgrifenydd wedi gwneyd pobl Dduw yn bobl ffurf a braint; ac yr oedd angen un i wneyd pobl y ffurf a'r rhagorfraint yn bobl Dduw." Felly, yn y pethau cryfion a ddywedir gan Paul am y ddeddf, nid yw yn eu dweyd, fel yr ymddengys i mi, am y ddeddf ei hun: sanctaidd oedd hono ganddo ef ei hun, "a'r gorchymyn yn sanctaidd ac yn gyfiawn ac yn dda," "canys ni a wyddom fod y ddeddf yn ysbrydol."* Yr hyn a gondemnir ganddo yw y ddeddf fel y gwelid hi, wedi dwyn agoriad gwybodaeth ymaith gan yr ysgrifenyddion, y ddeddf yn yr

* Rhufeiniaid vii. 12, 14.

arfer a wneid o honi, neu yn hytrach y camarfer, megys pe buasai wedi dirymu y cyfamod ag Abraham, tad y ffyddloniaid oll, yn mhob man cynifer ag sydd o ffydd Abraham. Deddf Iuddew oedd yn y wedd hon, nid deddf Hebreadd.

Defnydd gwahanol a wneid o'r ddeddf gan yr Hebreaid yr ysgrif-enir atynt yn y Test. Newydd. Troi yr oeddynt hwy mewn cyfeiriad arall, yn fwy at Moses gweinidog Duw, at yr angylion gwasanaethwyr Ion, at babel a chysegr Jehovah, ac at yr offeiriadaid meibion Aaron nid am gyfiawnhad gweithredoedd, ond am brynedigaeth, am bureiddiad, am sancteiddiad, a hyny yn nghanol ymdrech mawr o helbulon. Yn ngwyneb hyn dangosir nad oedd y cyfan o'r rhai hyn ond cysgod, a bod *y pethau eu hunain* i'w cael yn offeiriadaeth ac aberth Crist; yr oedd y rhai hyn mewn gwirionedd, felly, yn bod o flaen y lleill ac yn achos o honynt. Yr offeiriadaeth oedd sylfaen a hanfod yr holl osodiadau a berthynai i'r ddeddf; "cansys wedi newidio yr offeiriadaeth," medd y llythyr, "angenrhaid yw bod cyfnewid ar y gyfraith hefyd;" am hyny pan ddaeth y gwir archoffeiriad gyda'r gwir aberth, allor, a chysegr, darfu yr hyn a osodasid, o angenrheidrwydd, dros amser o hono ei hun.

Gwelir yn y ddwy ochr hyn ol y ddeddf a roesai Duw i Israel. Ei dylanwad mawr hi, seiliedig ar air mwyaf y deg gorchymyn, sef y cyntaf, MYFI YW JEHOVAH DY DDUW, a ddysgodd iddynt y syniad o ufudd-dod difrif, manwl, i Dduw sanctaidd a digyfnewid. Suddodd y manyldeb a'r difrifwch, fel y gwelwn, mewn rhai tebyg i'r athrawon Iuddewaidd a wrthwynebir yma, i ffordd fach gyfyng cyd-ffurfiad â ffurfiau a defodau y ddeddf. Ond yn yr apostol, enynwyd trwy yr un dylanwad mawr, ymdeimlad fod gorchymyn Jehovah yn dra eang: bu farw, medd ef, yn yr olwg ar fawredd y ddeddf sanctaidd a'i huchel alwad. Daeth iddo ef, a rhai tebyg iddo, ryddhad yn Nghrist heb y ddeddf; trwy ffydd y mae Duw yn cyfrif y cyfiawnder sydd mor bell, mor uchel: yn yr ysbryd, trwy angau Crist daw nerth a rheol bywyd newydd, heb y ddeddf eto. Yn y rhan arall o'r gyfraith, lle mae ebyrth ac offeiriadaid yn "adgoffa pechodau," datguddir ochr wahanol mae'n wir, eto mae ei thardd-

iad o'r un man. Dyma ddangosiad fod ufudd-dod dynion heb y perffeithrwydd a ofynir gan y gair, "Myfi yw Jehovah dy Dduw," ac awgrym hefyd o gymod. Eto, pe gofynid i ni *beth yw* bod Crist yn offeiriad, onid atebem fel Paul yn ein llythyr hwn, "Efe yw yr hwn a'i traddodes ei hun dros ein pechodau ni," neu, "yr hwn a ddaeth yn felldith erom ni."

Yn Colossæ yr oedd Iuddewon, fel yr oedd hefyd yn Rhufain, wedi eu dwyn dan ddylanwad syniadau o darddiad dwyreiniol mewn ymatal oddiwrth fwydydd a diodydd. Nid yn ystyr y ddeddf a roed i Israel y gwneid hyn, ond gyda'r bwriad o ddarostwng y corff, yn ol dysgeidiaeth haner Asiaidd haner Groegaidd, a hyny yn ychwanegol at ddefod yr enwaediad. Gyda hyn yr oedd ganddynt drwch o ddysgeidiaeth am gyfryngau o angylion ar ddull philosphi taenedig dros yr Ysgrythyrau, a'r oll ochr yn ochr a deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau. Yr oedd angen dysgu y rhai hyn mewn cyfeiriadau gwahanol i'r rhai blaenorol, yr hyn a fu achlysur i ni gael yr adran ryfedd o'r epistol a anfonwyd atynt sydd yn traethu am berson y Gwardwr. Ond gyda golwg ar y ddeddf ymddengys i mi fod Paul wrth ysgrifenu atynt hwy yn niwedd ei oes, yn sylweddol yn dysgu yr un peth ag yn y llythyr hwn. "Crist a'n rhyddhaodd ni," a ddywed yn y Galatiaid; yn yr un ystyr y dywedir yn y Colossiaid fod Crist wedi dileu ysgrifen-law yr ordeiniadau, fel na ddylai neb gymaint a'u barnu hwy am fwyd a diod neu ddydd gwyl, &c; "mi a fum farw i'r ddeddf, mi a groeshoeliwyd gyda Christ," yw iaith y boreuaf o'r ddau epistol, felly hefyd gofynir i'r Colossiaid, "gan eich bod wedi meirw gyda Christ (i wyddorion byd ac mewn canlyniad) oddiwrth wyddorion y byd, pahan megys pettych yn byw yn y byd y gosodir ordeiniadau arnoch chwi?"

V.—AMCAN A CHYNWYS YR EPISTOL.

1. Wedi ceisio cael syniad am y gwyr oedd yn Galatia yn cythryblu yr eglwysi, ac yn chwenych dattroi efengyl Crist trwy efengylu yn amgen nag y gwnaethai Paul, mae genym yn awr i ymholi pa beth yn fwy uniongyrchol yn eu gweithrediadau a barodd i'r apostol ys-

grifenu y llythyr hwn. Mae ei iaith wrth adrodd am y waith gyntaf y bu yn eu mysg yn dangos i ni iddo gael derbynriad gwahanol o ran ei garedigrwydd serchog i ddim a gawsai yn gyffredin yn Asia. Ni wnaethent hwy iddo ddim niwed er ei wendid, yr hyn a fuasai yn “ brofedigaeth ” i rai llai tyner-galon wneyd ymosodiad arno ; derbyniasant ef fel angel Duw, fel Crist Iesu ei hun, a hwy roesent y peth goreu oedd ganddynt, pe gallent, er mwyn ei wellhau. Yr oeddynt hwy eu hunain y pryd hyny yn gaeth i'r rhai nid ydynt dduwiau, am eu bod heb wybod am y gwir Dduw. Wedi iddynt adnabod Duw, a chael eu hadnabod ganddo, maent yn dechreu eu bywyd newydd yn yr ysbryd trwy ffydd, ac yn yr ysbryd yn cyrhaedd y rhyddid a'r etifeddiaeth a berthyn i deyrnas Dduw. Portreadwyd iddynt Iesu Grist fel yr un croeshoeliedig, yr hwn trwy ei angau a'u dygodd i ryddid y bywyd newydd yn yr ysbryd ; yr oeddynt wedi eu bedyddio i Grist Iesu, ac wedi derbyn ei ysbryd ef, ac wedi derbyn yr Ysbryd Glan, yr hwn a weithiai nerthoedd yn eu mysg. Efallai mai yr adeg hon yr hysbyswyd hwy gan yr apostol am ei ymarweddiad gynt yn y grefydd Iuddewaidd a'i droedigaeth, a'r modd, yn rhyddid yr efengyl, y daethai i “ fod fel hwythau,” yn ŵr rhydd yn Nghrist, heb wahaniaeth o gwbl rhyngddo â chenedl-ddyn. Mae ei gyfeiriad cynes at “ y waith gyntaf ” y buasai yn eu mysg, o hono ei hun yn awgrymu na bu ei ail ymweliad yn un hollol ddioid a dibryder. Cyn yr ail dro yr oedd Iuddewon a drigent yn Galatia ac a ddaethent i mewn i'r eglwys wedi dechreu dysgu ynddi yr athrawiaeth Iuddewaidd am y ddeddf. Cafodd achos, pan yn eu plith, i gyhoeddi melldith ar bwy bynag a efengylai iddynt amgen nag yr efengylasai ef, ac amgen nag yr oeddynt hwy eu hunain wedi ei dderbyn. Wrth ddweyd ei fod yn tystiolaethu *drachefn* (v. 3.) am bob dyn a enwaedir ei fod yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf, dengys fod y ddysg am yr enwaediad yn cael ei thaenu pan yr oedd ei hunan yn Galatia. Er fod yr ymosodiad Iuddewaidd wedi dechreu fel hyn yn ystod ei ail ymweliad, ni bu yno ymadawiad oddiwrth y ffydd hyd wedi iddo ef droi ei gefn, pryd y mae ei syndod yn aruthr eu bod yn symud mor fuan at efengyl arall. Gyda'r gobaith o'u henill yn ol i ryddid Crist, mae yn anfon y llythyr hwn, ac yn cymeryd yr

ysgrifbin ei hun i ysgrifenu yr wyth adnod olaf. Pa un bynag a oedd Iuddewon y parthau cylchynol erbyn hyn wedi eu cryfhau gan ddyfodiad rhai tebyg i'r rhai a ddaethai ddwywaith o Judea i Antiochia, ai peidio, amlwg yw mai yr un peth a ddysgid ganddynt. Dysgent fod yn rhaid, er mwyn bod yn blant Duw, ddyfod yn gyntaf yn blant Abraham trwy enwaediad, a thrwy hyn y gael y fraint o wasanaethu Duw yn ei ddeddf, er mwyn enill ynddi hi ei gyfiawnder. Yn *ychwanegol at* gredu yn Nghrist y galwent am hyn, megys yr oedd yr un peth ganddynt mewn Iuddewiaeth *gyda'r* aberthau. Dyma ddymchwelyd yr efengyl a gyhoeddai ryddid i *bob* dyn yn Nghrist, oddiwrth *bob* defod o grefydd ar wyneb y ddaear; dyma ddymchwelyd yr athrawiaeth fod ffydd seml yn y fynwes tuagat Dduw a Christ yn gwneyd dyn yn etifedd cyfiawnder a gobaith cyfiawnder, y fendith, a'r Ysbryd.

Mae ysgrifenydd yr epistol hwn yn gyffredin yn dweyd fod y gwrthwynebwyr Iuddewaidd oedd yn Galatia yn mhellach yn gosod pwys mawr ar beth arall. Yma, mae darllen yr epistol ei hun wedi tywys fy meddwl i mewn ffordd wahanol iawn; eto dymunwn chwilio y mater a'i osod gyda phob gwylder. Gellid dyfynu mynegiad o'r hyn yr wyf yn cyfeirio ato allan o lawer llyfr, ac nid yw o fawr bwys o ba le y cymerir ef. Fel hyn y dywed Sabatier am yr athrawon Iuddewig yn Galatia: "Mae y gwadiad sylfaenol hwn o efengyl Paul yn cynwys gwadiad o'i apostolaeth. Arweiniodd yr ymdriniaeth o'i olygiadau i ymosodiad personol ffyrnig arno. Pwy yw y newydd-ddyfodiad hwn i ddyrchafu ei hun yn erbyn yr apostolion cyntaf, ac yn erbyn gair Duw ei hunan? Beth yw ei awdurdod? Nid yw wedi gweled Crist; ni wnaed ef yn apostol. Mae yr ychydig a wyr ef am yr efengyl wedi ei ddysgu oddiwrth wir ddysgyblion yr Arglwydd; ac yn awr mae mewn gwrthryfel yn eu herbyn! Paham y mae yn gwahanu ei hun oddi wrthynt hwy? &c." Hyn oedd sylwedd teg bethau a fedrus daenid er mwyn gwneyd Paul yn elyn i'r Galatiaid. Gosodir ymresymiaidau gwrthwynebwyr Paul gan yr awdwr hwn dan dri phen, ond y cyntaf yn ol gogwydd y geiriau a ddyfynwyd uchod, yw "Gwudent darddiad dwyfol ei efengyl, ac annibyniaeth ei apostoliaeth: mae yr oll a wyr am yr efengyl, meddant, wedi ei dderbyn oddiwrth yr

apostolion eraill, ac y mae ei awdurdod am hyny yn is-raddol i'r eiddynt hwy." Yn erbyn hyn, rhaid i Paul "brofi annibyniaeth ac awdurdod ei apostoliaeth." Dywedwn yr un peth eto yn ngeiriau gwr diweddarach, ond agos iawn at yr awdwr a roes i Sabatier y meddyliau uchod: "Cyfeirid eu prif ymosodiad at awdurdod personol apostol y Cenhedloedd. Oddiwrth y dull y mae Paul yn amddiffyn ei hun, rhoddir i ni bortreidiad eglur o ddull yr ymosodiad. Nid yw Paul, meddant, yn apostol, ond cydweithiwr a chynorthwy-ydd is-raddol. Cafodd ei awdurdod i bregethu yn mysg y Cenhedloedd, gyntaf yn Jerusalem. Lle y mae ei efengyl yn gwahaniaethu oddiwrth bregethu gwir ddysgyblion y Messiah, nid ei awdurdod ef ond yr eiddynt hwy sydd i sefyll; hwy yw yr apostolion penaf, colofnau yr eglwys, y rhai a wyddant oreu beth a ddysgodd y Messiah mewn gwirionedd.....Nid yw yr apostolion hynaf yn gwybod dim am dderbyniad diamodol y Cenhedloedd i deyrnas y Messiah. Maent hwy, yn wir, yn dymuno dychweliad y cenhedloedd, eithr trwy y ffordd reolaidd, trwy eu derbyn i gymundeb Israel." Cydnabyddir y gall fod i'r gair *awdurdod* ystyr deg, er hyny yma ymddengys fod yn glynu wrtho feddwl pell oddiwrth amcan Paul.

Yr wyf, rywfodd, yn methu ymryddhau oddiwrth y teimlad fod y gair "awdurdod apostolaidd" yn un sydd yn cyfleu syniad llawer iawn diweddarach nag oes yr apostolion eu hunain. Yr ydys yn gynefin iawn ag ef yn y bedwaredd ganrif, pryd y daeth y meddyl-ddrych o awdurdod i enill lle yn yr eglwys Gristionogol nad yw wedi ei golli eto. Nid at "yr apostolion" yr anfonir gan eglwys Antiochia, ond at yr apostolion a'r henuriaid, ac y mae y llythyr a anfonir o'r cyngor yn Jerusalem yn ffrwyth yr hyn a "welwyd yn dda gan yr apostolion a'r henuriaid ynghyd a'r holl eglwys," ac yn enw yr "apostolion a'r brodyr hynaf,"* yr anfonwyd y llythyr at eglwys Antiochia. Nid oedd yr enw "apostolion" ei hun yn cael ei arfer mewn cymhwysiad cyfyng yn eu dyddiau hwy eu hunain: gelwir Barnabas felly yn Actau xiv. 14, ac o gymharu i Thess. ii. 7 ag adn. 18, ymddengys fod Silvanus a Thimotheus yn dyfod o dan yr enw: mae Paul ei hun yn galw

* Dilynir yma y darlleniad cywiraf Actau xv. 23.

Iago felly, yr hwn nad oedd yn credu hyd wedi adgyfodiad yr Arglwydd, ac nid oedd ei "awdurdod" ef ddim is na'r eiddo Pedr.

Efallai fod yr ymadrodd "efengyl Paul" hefyd yn un cyfleus, ac un y mae iddo ystyr deg, ond nid yw Paul ei hun yn dywedyd "fy efengyl i" yn yr ystyr a roddir i'r ymadrodd "efengyl Paul." Ei eiriau cyffredin ef ydynt yr efengyl, efengyl Duw, efengyl Crist. Yn yr epistol hwn dywed "yr efengyl a efengylwyd genyf fi," "yr efengyl yr wyf fi yn ei phregethu yn mysg y cenhedloedd," ond defnyddia yr un geiriau yn 1 Cor. xv. 1, wrth gyfeirio at adgyfodiad y meirw, a bydd Duw, medd mewn man arall, yn barnu dirgelion dynion "yn ol fy efengyl i;" nid yw Paul ei hun, fe ymddengys, yn ymwybodol fod ei efengyl ef yn wahanol i efengyl yr apostolion eraill. Yn wir dywed am y peth neillduol a gysylltir ag ef, ac a gysylltir yn briodol ag ef uwchlaw pawb, nad oedd "y dirgelwch, y byddai y cenhedloedd yn gyd-etifeddion, ac yn gydgorff, ac yn gyd-gyfranogion o'i addewid ef yn Nghrist trwy yr efengyl, wedi ei ddatguddio yn oesoedd eraill, fel y mae yr awrhon wedi ei ddatguddio i'w *sanctiaidd apostolion a'i brophwydi* trwy yr Ysbryd."* Nid ymddengys ychwaith fod yr apostolion eraill yn meddwl felly. A oedd yn debyg gan hyny y buasai cymaint defnydd yn cael ei wneyd o'r fath ddatl gan ei wrthwynebwyr, gan rai hefyd oeddynt yr un mor wrthodedig gan yr apostolion hynaf ag oeddynt ganddo yntau, fel y tystia Actau xv?

Amlwg yw fod y blaid Iuddewaidd yn Galatia yn gwadu fod "efengyl Paul" yn ddwyfol: ond dynol ydoedd yn eu cyfrif hwy *o'i chymharu a'r ddeddf, nid o'i chymharu â dysgeidiaeth yr apostolion eraill.* Nid oes yn Actau xv. gymaint a gair yn awgrymu fod y gwrthwynebiad i efengyl y cenhedloedd yn cael ei sylfaenu ar y gwahaniaeth rhwng Paul a'r apostolion hynaf o ran safle nac *awdurdod.* Yr oedd mwy o wahaniaeth rhwng safle Iago a'u safle hwy yn yr ystyr hon. Ymddengys i mi nad yw dwy benod gyntaf y llythyr hwn ychwaith yn dangos dim o hyn. Mae ton y cyfarchiad (1—5) yn gyf-

* Eph. iii. 5, 6.

ryw ag i'w osod yn hollol ar yr un tir a dechreu epistolau eraill yr adeg hon, "Paul, wedi ei alw i fod yn apostol, wedi ei neillduo i efengyl Duw," fel y darllenir yn nechreu y llythyr i Rufain, lle, gyda chyffelyb wrthwynebwyd, nid oes yn sicr air o gyfeiriad at "awdurdod apostolaidd" yr awdwr. Yn nechreu y Galatiaid cyhoedda anathema yr un mor groew ar y rhai sydd yn efengylu amgen nag a dderbyniasai, hyny yw, a gydnabyddasai y Galatiaid eu hunain, ag ar y rhai a efengylent amgen nag a efengylasai ef ei hun. Gwelir rhediad ei holl amcan yn adn. 11—"hysbysu yr wyf i chwi, frodyr, am yr efengyl a efengylwyd genyf fi nad yw hi yn ol dyn, canys nid gan ddyn y derbyniais hi, nac y'm dysgwyd hi." Dangosir yn yr hanes dilynol na chafodd gyfleustra i'w derbyn lle yr oedd debycaf o'i cheisio. Yr efengyl i'r byd mawr cenhedlig—bod hono wedi ei chael oddiwrth Dduw oedd yn fawr yn ngolwg Faul. Yn yr ail benod, gydag ymadroddion cyflawn o barch i'r apostolion, cyfeiria at yr adeg arbenig y bu ystyriaeth ddifrifol, nid i'w safle ef, ond i gwestiwn yr enwaediad gyda golwg ar y Cenhedloedd, gan ddangos y modd y gorchfygwyd rhai fel athrawon Iuddewaidd Galatia, brodyr gau a fynent gaethiwo, a'r modd y safodd yr apostolion o blaid hyny, heb chwanegu dim iddo.

"Yn mhellach, yr oedd ei apostoliaeth mor anibynol ar yr eiddo dysgyblion eraill Iesu, fel y galluogwyd ef ar un achlysur yn rhinwedd ei alwad ddwyfol a'r awdurdod a osodasai arno i geryddu Pedr a'i ddwyn yn ol i'r iawn lwybr." Fel hyn y dywed yr awdwr a ddyfynwyd o'r blaen, ond dywed Paul iddo ei wrthwynebu, am nad oedd ef ac eraill "yn iawn-droedio at wirionedd yr efengyl," ac nid oes air o awgrym yn y geiriau dilynol ei fod yn adrodd yr hanes am y cyfryw reswm personol ag a roddir y ny geiriau uchod. Dangos y mae Paul fod ymddygiad Pedr yn anghyson a'i waith yn credu er mwyn ei gyfiawnhau heb y ddeddf.

Mae lle i feddwl fod tòn newydd o ymosodiad wedi dyfod dros eglwysi Galatia ar ol i'r apostol eu gadael. Cyn hyny yr oedd pwysau ei ddylanwad personol mawr ef, fel mur i amddiffyn y Celtiaid syml-galon; wedi hyny, mae y rhai newydd, gwyr a fynent

ymdecau yn y cnawd, rhai nad oeddynt eu hunain yn cadw y ddeddf a osodent fel iau o gaethiwed ar warau y dysgyblion newydd—maent hwy yn ymosod ar yr efengyl newydd fel un ddynol, er na fuasent ar ol y profiad chwerw a gawsai eu plaid yn y Cyngor yn Jerusalem, byth yn breuddwydio bellach am gyfeirio at awdur-dod Iago na Phedr nac Ioan. Diau iddynt hwy eu hunain gyfeirio meddyliau y Galatiaid at gyfamod Duw âg Abraham ac a'i hâd, dan insêl yr enwaediad. Trwy yr enwaediad yn unig y gellid dyfod yn blant Abraham, a thrwy hyny yn blant Duw: ac fel plant Duw, y ddeddf oedd i fod yn rheol buchedd, gan ddechreu—ac yma y teimlai y Galatiaid fod eu cwch yn hwylio dan awelon cynefin iddynt yn y crefyddau paganaidd—gyda chadw diwrnodau, misoedd, amseroedd, a blynyddoedd.

2. Teg yw casglu fod cynwys yr epistol mewn rhan yn dilyn y ddysg wrthwynebol a ledaenid yn Galatia. Eto, afresymol fuasai meddwl fod a wnelo hyny ond mewn rhan a'r gŵr oedd ei hun yn athraw y Cenedloedd mewn ffydd a gwirionedd. Trwy gydol ei iaith gref, daw i'r golwg beunydd, gyferbyniadau newydd eu hystyr. Saif *ysbryd* ar gyfer *cnawd* mewn dwy wedd. I gychwyn, yn wrthgyferbyniol i'r holl ddeddf dan yr enw "cnawd," megys y dywedir yn y llythyr at yr Hebreaid "defodau cnawd," "gorchymyn cnawdol;" yr un modd hefyd ag yr hona yr apostol yn Phil. iii. fod ganddo le i "ymffrostio yn y cnawd." Yna, yn ail, yn wrthgyferbyniol i "gnawd" yn ystyr ddofn Rhuf. vii. viii. am y rhan hono o ddyn nad oes dim da yn trigo ynddi—magwrfa gwyniau pechodau. Mae cyfiawnhad o ffydd eto a chyfiawnhad trwy weithredoedd, cyfamod addewid a chyfamod deddf, rhyddid a chaethiwed, yn sefyll mewn cyffelyb wrthgyferbyniad pwysig ac amlwg.

O ran trefn, cytunir gan bawb bron, fod yr epistol yn naturiol yn rhanu ei hun yn dair rhan. PERSONOL, ATHRAWIAETHOL, CYMHELLIADOL, yw y tri phenawd y gosodir ei gynnwys danynt gan Dr. Lightfoot: defnyddia un arall y tri ymadrodd COMISIWN PAUL, ATHRAWIAETH YR EFENGYL, YR EFENGYL YN EI HEFFEITHIAU YMARFEROL: ac un arall, y tri, HANESYDDOL

AC AMDDIFFYNOL, ATHRAWIAETHOL, ANOGAETHOL. Efallai y gellid gyda phriodoldeb ddweyd nad yw un math o raniad fel hyn yn *hollol* gywir, eto, mae yn neillduol o adeiladol, yn enwedig os gwelwn allan o'r llyfr ei hun y meddyliau byw yn gosod eu hunain ar y cyfan mewn trefn arbenig.

Mae y pum' adnod gyntaf yn cynwys y cyfarchiad arferol, er ar un wedd, ychydig yn wahanol i'r un a geir yn llythyrau diwedd oes yr apostol, wedi i'r eglwysi gynyddu mewn cymeriad yn ogystal ag mewn rhif. Cyffyrdda y pum' adnod arweiniol nesaf (6—10) ag achlysur y llythyr : mae y Galatiaid wedi troi at efengyl arall nad yw mewn gwirionedd yn efengyl o gwbl, gyda phrysurdeb sydd yn synu yr apostol. Yr oedd yno rai, dyna y gwir, yn chwenych datroi yr efengyl ; “ ond mae efengylu pethau amgen nag a efengylwyd genyf fi, neu o'i gyfleu yn nes atoch, pethau amgen nag a gydnabyddwyd genych chwi eich hunain yn beth i'w osod dan Anathema. Ystyriwch fy nyben : a wyf fi yn ceisio cymeradwy-aeth dynion ynte Duw? Neu a wyf fi yn ymgyrhaedd at foddhad dynion? Pe felly, ni byddwn weinidog Crist. Yn awr, *fel y cyfryw*, yr wyf yn eich hysbysu am yr efengyl a efengylwyd genyf nad yw *hi* yn ol dyn.” Yn y geiriau olaf y dechreuwa prif ran gyntaf yr epistol (i. 11—ii. 21.)—YR EFENGYL A EFENGYLIR I'R CENHEDLOEDD. Dywedir tri pheth am dani, y rhai a brofir neu a ddarlunir mewn ffordd hanesiol. (1) Nid yw yr efengyl hon yn ddynol o ran ei natur ; (2) mae wedi ei chydabod gan yr eglwys yn Jerusalem ; (3) mae safle anghyson y rhai a fynant ei newid er mwyn dwyn Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd wedi ei ddangos yn nglyn a Phedr ei hun ar adeg neillduol pryd yr hudwyd ef dros amser i'r rhagrith hwn. (1) Nid yw yr efengyl a bregethai Paul yn ddynol o natur oherwydd nis cafodd hi gan ddyn, ac nis dysgwyd ef ynddi gan ddyn : Iesu Grist ei hun a'i datguddiodd iddo. Profir hyn trwy ddangos i gychwyn (a) ei fod ef yr anhebycaf i ddynion allu ei droi at y fath efengyl a hon : un fel efe a erlidiai yr eglwys ac a ragorai ar ei gyfoedion mewn zêl dros draddodiadau y tadau, beth ond gwaith Duw yn datguddio ei Fab o'i fewn a allasai ei ddwyn ef o bawb i efengylu i'r Cenhedloedd? Pan roddes Duw hyny nid

oedd angen ychwaneg: yn y fan, penderfynodd nad ai am hyfforddiant at ddynion wedi datguddio iddo Fab Duw a'r "dirgelwch." Mae adegau o uchel ysbrydoliaeth yn bod, pan nad yw y dynion goreu, a rhai gwell na ni, o fawr gymhorth. Adeg felly oedd hon, pan y tywynai goleu newydd y weledigaeth nefol ordeutu enaid y gwr hynod hwn, yn cyfeirio ei gamrau mewn dyeithr fodd at y Cenhedloedd; penderfynodd, yn y ddoethineb a berthyn i adeg fawr felly, mai gwell oedd peidio ymgynghori â dyn. (b) Yr unig rai a allasant ei hyfforddi, neu y rhai y buasai ef debycaf o geisio ei ddysgu ganddynt oedd yr apostolion. Eto ni chafodd hyn. Wedi treulio tair blynedd rhwng Arabia a Damascus aeth i fyny i Jerusalem i ymgynabwyddu â Chephas: gwnaeth ei oreu i ymwasgu a'r apostolion, ond yr unig un a welodd heblaw Cephas, oedd Iago brawd yr Arglwydd. (c) Aeth wedi hyny i dueddau Syria a Cilicia. Pan yn pregethu yno i'r Cenhedloedd yr oedd yr eglwysi yn Judea mor ddyeithr iddo nes nad adwaenent ef wrth ei wyneb, eto, yr oeddynt hwy yn llawenychu yn ei waith ac yn gogoneddu Duw ynddo. (2) Wedi pedair blynedd ar ddeg o efengylu i'r Cenhedloedd yn benaf, aeth i fyny i Jerusalem gyda Barnabas, ac aeth a Titus, yr hwn oedd Roegwr, gydag ef. Eglurodd iddynt, sef i'r eglwys a'r henuriaid a'r apostolion, y modd y pregethai yn mysg y Cenhedloedd: wedi gorchfygu plaid Iuddewaidd a fynai gaethiwo, rhoddwyd trwy Iago a Chephas ac Ioan, iddo ef a Barnabas, ddeheu-ddwylaw cymdeithas fel rhai yr oeddid yn cymeradwyo iddynt fyned, fel o'r blaen, at y Cenhedloedd. Cymeradwywyd yn y wedd ffafriol hon yr efengyl a gynrychiolid gan y ddau. (3) Pan ddaeth Pedr wedi hyn, i Antiochia, mi a'i gwrthwynebais yn ei wyneb am ei fod ar fai. Yr oedd ef fel finau, ar y cyntaf, wedi arfer ei ryddid, gan fwyta gyda'r Cenhedloedd a byw fel hwy. Llithiwyd ef gan ofn i ymddwyn yn wahanol: yr oedd ei ymddygiad newydd, croes i'w deimlad a'i argyhoeddiad, yn gosod gorfod ar y Cenhedloedd a hoffent fwynhau cymundeb yr eglwys i fyw fel Iuddewon dan y ddeddf. Dygwyd hyd yn nod Barnabas ymaith gan y llif, ac yna gwelais fod yn rhaid i rywun wrthwynebu. Dangosais i Pedr ei anghysondeb; dangosais iddo hefyd ei fod ef a minau unwaith wedi credu yn Nghrist i gael ein cyfiawnhau trwy ffydd heb weithredoedd, fel pob pechadur

o'r Cenhedloedd. Wrth fyned at y ddeddf yn awr, yr oedd ef yn weithredol yn cydnabod mai camgymeriad oedd y credu syml cyntaf hwnw. Yr wyf fi, o'r ochr arall, trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf, ac yn derbyn nerth bywyd newydd trwy ffydd Mab Duw. Mwy peth yw i Grist fyw ynof, na holl ragorfraint y ddeddf. Anhawdd iawn yw canfod yma gyfeiriad at annibyniaeth ac awdur-dod Paul: gwelir, yn syml, waith un oedd yn iawn-droedio at ffydd yr efengyl yn argyhoeddi un arall nad oedd yn gwneyd felly.

Teimlwn fy hun yn gogwyddo i osod y brif-ran gyntaf hon dan y penawd EFENGYL Y CENHEDLOEDD.

Mae yr ail brif-ran yn cyrhaedd o ddechreu y drydedd benod hyd y ddeuddegfed adnod o'r bumed (iii. 1—v. 12), a dwy is-ran ynddi. (1) Cyfeirir i gychwyn at brofiad y Galatiaid eu hunain, y modd y derbyniasent yr ysbryd a'i nerthoedd trwy ffydd nid trwy y cnawd. A oedd y cyfryw brofiadau i fod yn ofer? Fe gaed yn eu plith hwy drosodd drachefn hanes Abraham, yr hwn a gredodd ac a gyf-iawnhawyd (1—5.) Yna daw hanes ymwneyd Duw â dyn yn mlaen.

Mae yr addewidion dŵyfol wedi eu rhoddi i'w cyflawni ar sail ffydd, y rhai sydd o ffydd yw plant Abraham, ac nid yw y ddeddf wedi gwneyd un cyfnewidiad yn y drefn y caed y fathamlygiad o honi yn mherthynas gyfamodol Duw ag Abraham ac a'i hâd (6—18). Paham gan hyny y rhoddwyd y ddeddf? Ychwanegwyd hi oherwydd troseddau yr adeg yr oedd teulu Abraham yn cael eu gwneyd yn genedl. Fel hyn, ac nid trwy lywodraeth deuluol batriarchaidd y gellid amlhau a sicrhau yr ymdeimlad o bechod mewn cenedl; rhoddwyd iddi hi y ddeddf gan hyny hyd nes y delai yr amser y byddai cenedl yn rhy gyfyng i deyrnas Dduw, sef hyd oni ddelai yr hâd i'r hwn y mae yr addewidion. Trwy angelion yn llaw cyfryngwr y rhoddwyd hi, ac y mae enwi y cyfryngwr yn adgof parhaus o'r troseddau hyny a achosodd yr alwad am dano ef rhwng y Duw sydd yn un blaid a'r genedl o'r ochr arall. Tebyg i'r gwas sydd yn gofalu am hyfforddiant ac addysg y plant mewn teulu a fu y ddeddf, a hi a'u dygodd at Grist. Hi ei hun a

gauodd i ni bob adwy o ymwarded ond ffydd, trwy gyd-gau bob peth dan bechod. *Yn ei lle hi* yn awr y mae ffydd, gan nad ydym mwyach dan gyfarwyddyd y gwas ; mae y Cenhedloedd yn blant Duw yn Nghrist trwy ffydd ; yn Nghrist mae y gwahaniaeth rhwng Iuddew a Groegwr, caeth a rhydd, gwrryw a benyw, wedi ei ddileu, a phawb yn un, felly y rhai sydd eiddo Crist yw gwir hâd Abraham, a'r etifeddion. Dyma y ddeddf wedi darfod yn Nghrist (19—29). Cyffelyb i sefyllfa gaeth etifedd, o ddefnyddio cymhariaeth newydd, oedd sefyllfa yr Iuddew dan ei ddeddf, a'r Celtiaid dan ddefodau is crefydd gyffrous Phrygia, yn ninasoedd Galatia. Daeth i'r ddau fabwysiad ysbrydol yn Mab Duw, a rhyddid etifedd mewn oed (iv. 1—7).

2. Cyfeiria yr apostol mewn dull ymarferol at y modd yr oedd y rhyddid hwn yn cael ei golli trwy i'r Galatiaid droi eto at elfenau llesg a thlodion (8—11). Geilw hwy yn ol gan adgofio iddynt yr amser cyntaf y derbyniasant yr efengyl a'r gwynfyd oedd ganddynt y pryd hyny, a dangos natur y mawr serch a roddid arnynt yn awr gan eu hathrawon newydd (12—20). Yna daw yr alegori i ddangos allan eto y ddau gyfamod, un yn tywys i gaethiwed a'r llall i ryddid ; plant yn ol y cnawd i'r gaethferch, fel Ismael, yw y rhai a fynant aros dan y ddeddf ; plant yn ol yr ysbryd i'r wraig rydd yw y rhai sydd yn credu, fel Isaac (21—31). I ryddid y rhyddhaodd Crist ni. Sefwch heb oddef eich caethiwo. Ond sylwch, insel caethiwed yw yr enwaediad yn awr ; gwylwch yr hyn a'ch gwna yn rhwym i'r holl ddeddf.

Yma y dechreu trydedd brif ran y llythyr (v. 13—vi. 10). Wedi eu galw i ryddid, maent i ochel ei gymeryd yn achlysur i'r cnawd ; yn hytrach yn eu rhyddid, galwad cariad yw ar iddynt fod yn rhwym i'w gilydd ; mae y ddeddf wedi cael ei gwir gyflawni gan yr hwn sydd yn ca'u. Dan y ddau air, *gweithredoedd y cnawd, ffrwyth yr ysbryd*, desgrifir dau fywyd, yn y rhai y gwelir y ddau osodiad—(a) Os rhodiwch a'r ysbryd ni chyflawnwch drachwant y cnawd ; (b) os arweinir chwi a'r ysbryd nid ydych yn aros dan y

ddeddf (13—26). Daw yn y deg adnod nesaf (vi. 1—10) gymhellion i addfwynder ysbrydol, cydymdeimlad, gostyngeddwrwydd, ysbryd cymundeb, hau i'r ysbryd.

Ysgrifeniir yr wyth adnod olaf gan yr apostol a'i law ei hun. Cynwysa y geiriau diweddaf hyn rybudd am ddyben y rhai sydd yn mynu gosod arnynt ddefod yr enwaediad—chwenych y maent orfoleddu ynoch; ond cyffes fy unig orfoledd i yw croes yr Arglwydd, gan mai trwyddi hi y croeshoeliwyd y byd i mi a minau i'r byd. Unwaith eto mewn cwmpas byr crynhoir ei ddatl gyda hwy—yn Nghrist Iesu nid yw enwaediad ddim, nid yw dienwaediad ddim, y peth sydd yn bod yw creadigaeth newydd. Dyma y wir reol; daw tangnefedd ar bawb a rodio yn ol hon a thrugaredd, sef ar y rhai a wnant i fyny Israel newydd Duw.

Cynllun y llythyr yn ol yr hyn a ddywedwyd uchod yw hwn :—

I. CYFARCHIAD A SYLWADAU YN MYNEGU ACHLYSUR A THEIMLAD YR APOSTOL. i. 1—10.

II. EFENGYL Y CENHEDLOEDD FEL YR EFENGYLAI PAUL HI. i. 11—ii. 24.

- (1) Nid yw ddynol. Cafwyd hi trwy ddatguddiad, oherwydd—
 - (a) Yr oedd ef y mwyaf anhebyg i gael ei arwain iddi drwy allu dynol.
 - (b) Ni bu yn nghwmni y rhai cymwysaf i'w ddysgu am dair blynedd wedi ei droedigaeth.
 - (c) Wedi ymweliad byr â hwy aeth i dueddau Syria a Cilicia.
- (2) Cafodd yr efengyl yn y ffurf y pregethai ef hi ei chydabod gan arweinwyr yr eglwys yn Jerusalem.
- (3) Dangoswyd yr anghysondeb o gilio oddiwrthi at y ddeddf, mewn un a fyddai wedi ceisio cyfiawnhad trwy gredu yn Nghrist heb y ddeddf, yn achos Pedr ei hun.

III. YR EFENGYL YN EI HATHRAWIAETHAU NEILLDUOL. iii. 1—v. 12.

- I. (a) Ysbryd a chnawd; wedi dechreu a'r ysbryd, ffol yw iddynt feddwl gorphen a'r cnawd.

- (b) Cyfiawnder ffydd yn Abraham; y rhai sydd o ffydd yw ei wir blant ef. -
 - (c) Tystiolaeth yr ysgrythyr; bendithio yn Abraham; mell-dith sydd dan y ddeddf.
 - (d) Y prynedigaeth sydd o Grist; bendith Abraham a'r addewid am yr Ysbryd yn dyfod trwy ffydd.
 - (e) Ni all y ddeddf ddirymu cyfamod yr addewid ag Abraham ac a'i hâd.
 - (f) Dyben y ddeddf i'w weled mewn troseddau.
 - (g) Fel gwas teulu mae yn arwain y plant at Grist; rhyddid mewn ffydd.
 - (h) Etifedd dan oed yn gaeth—rhaf felly oedd Iuddewon a Chenhedloedd dan wyddorion y byd; rhyddid mabwysiad sydd yn eu gwneyd yn feibion ac etifeddion trwy Dduw. iii. 1—iv. 7.
- 2.
- (a) I gaethiwed y myn y Galatiaid ddychwelyd o'u rhyddid.
 - (b) Y cyfnewid a fu o gaethiwed crefydd baganaidd i gael eu hadnabod gan Dduw.
 - (c) Effeithiau yr efengyl yn eu mysg ar y dechreu.
 - (d) Y mawr serch a roddir arnynt yn awr a'i ddyben hunanol.
 - (e) Yr alegori sydd adnabyddus am y ddwy wraig a'u dau fab; caethiwed a rhyddid.
 - (f) Rhyddid: ei freintiau. iv. 8—v. 12.

IV. ANOGAETHAU. v. 13,—v. 10.

- (a) Rhyddid; mwynhewch ef a sefwich yn ddiysgog.
- (b) Rhyddid heb fod yn achlysur i'r cnawd; yn achlysur i'r cariad sydd yn gyflawniad o'r ddeddf.
- (c) Yr ysbryd a'r cnawd, gweithredoedd y cnawd a ffrwyth yr ysbryd.
- (d) Addfwynder ysbrydol i'w ddangos mewn adgyweirio a chydymdeimlad.
- (e) Bod i ddysgyblion gadw cymundeb a'u hathrawon yn mhob peth da.

V. Y CYFARCHIAD DIWEDDAF, yn llawysgrif yr apostol ei hun. vi. 11—18.

- (a) Rhybudd am ddyben y rhai sydd yn mynu eu henwaedu—gorfoleddu ynddynt ac osgoi erledigaeth.
- (b) Swm ei ddysgeidiaeth yn y llythyr—nid yw enwaediad ddim, na dienwaediad, ond creadigaeth newydd.
- (c) Dymunwn bellach fod yn rhydd oddiwrth aflonyddwch, fel un na all fod yn ddim ond eiddo Crist.
- (d) Gras fyddo gyda chwi. Amen.

Y GAIR A'I GYFIEITHIAD.

Mae meddwl am y dull y gall y cyfnewidiadau sydd yn y cyfieithiad a roddir yn y llyfr hwn daro meddwl rhai, yn fy hudo i wneyd ychydig nodiadau gyda golwg ar Air y Testament Newydd. Nid ffordd arall o gyfieithu yw amryw o honynt : mae yr hyn a gyfieithir yn wahanol. Cyhoeddwyd y Testament Groeg gyntaf yn 1516, dan olygiaeth yr ysgolhaig goreu yn Ewrob y pryd hyny, ond parotowyd ef i'r wasg yn frysiog iawn. Daeth y Diwygiad Protestanaidd yn fuan wedi hyny, a chyda'r deffroad ysbrydol hwnw, alwad didor am yr Ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol. Ad-argraffwyd Testament Groeg Erasmus lawer gwaith, ond heb lawer o'r cywiro a allasai ddyfod o ymchwiliad newydd a manwl. Gwaith yr oes hono, yn ol trefn rhagluniaeth, oedd lledaenu gwybodaeth o'r Gair, a gwnaed hyny yn arbenig gydag epistolau Paul. Yr oedd Awstin yn niwedd y bedwaredd ganrif wedi dangos Athraw y Cenhedloedd mewn goleu newydd i'r byd, ond yn y Diwygiad Protestanaidd daeth i fwyth o eglurdeb.

Yr amser yr oedd John Calvin, William Farel, a Theodore Beza, yn Geneva, yn ymboeni yn y llafur yr ymdaenodd ei ddylanwad dros yr holl fyd, y ddinas hono oedd y fan yr edrychid tuag ati am y Testament Groeg. Cyhoeddwyd aml argraffiad yno, eto heb ond ychydig o gywiro beirniadol ; a phan y cyfieithwyd y Beibl i Gymraeg, cyfieithwyd ef dan ddylanwad uchel, diwylliedig, a duwiolfrydig Geneva, ond gyda'r amherffeithrwydd oedd mewn manau eto yn glynu yn y gwreiddiol. Yr haner cau' mlynedd o 1831 i 1881 a fydd byth mewn cof, fel yr adeg yr aeth gwyr rhagorol trwy ymchwiliad faith, fanol, megys yn ol i

ddyddiau yr ysgrifenydd sanctaidd eu hunain, gan chwilio beunydd a dangos gyda sicrwydd mawr beth oedd gwir eiriau yr ysgrifenydd sanctaidd. Rhoesant eu heneidiau dros enw yr Arglwydd Iesu yn y gorchwyl hwn ; yr ydym ninau yn myned i mewn i'w llafur hwy, gan deimlo fod llawer darlleniad ansicr neu amheus wedi ei osod mewn goleuni a sicrwydd. Mae y dynion hyn, Lachmann, Tischendorf, Tregelles, Westcott a Hort wedi gwneyd gwaith ag y mae y byd oll yn brysur yn troi at ei oleuni, ei sicrwydd, ei hyfrydwch a'i fendith. Mewn teimlad o ddiolchgarwch dwys yr ydys wedi cymeryd y Testament Groeg a olygwyd gan y ddau wr diweddaf, yn brif sylfaen y cyfieithiad newydd a gyflwynir yma i'r darllenydd. Os edrychir ar y dyfyniadau a wneir o Destament Salesbury (1567), gwelir bod ynddo yn arbenig ôl dylanwad cyfieithiad Beza i'r Lladin (Geneva 1557). Ond gwelir hefyd mai yn anuniongyrchol, i raddau pell, y bu hyny, gan fod Salesbury ar y cyfan yn cyfieithu i Gymraeg o'r Beibl Saesneg a gyhoeddwyd yn Geneva yn 1560, yr hwn oedd "odidog waith" y symudiad Puritanaidd. Rhoddir llawer prawf o hyny yma. Yr wyf yn casglu fod William Morgan (1588), wrth gyfieithu y Galatiaid, wedi ymgynghori llawer â gwaith enwog Luther ar yr epistol (1535), eto, mae ôl ei feddwl ef ei hun yn amlwg ar bob adnod. Aeth cyfieithiad diwygiedig Richard Parry (1620), yr un sydd genym yn awr, yn lled bell, mewn dilyn y cyfieithiad diweddaraf a wnaed i'r Saesneg (1611).

Dymunwn ychwanegu, wedi y mynych gyfeiriadau a wneir yn nghorff y llyfr, eiriau y gwr hybarch a enwyd ddiweddaf yn ei lythyr cyflwyniad i'r brenin Iago I.

" 'Pa beth, gan hyny,' fel y dywed Jerome 'a ydym yn con-demnio yr henafiaid? Nac ydym ; ond wedi eu hymchwiliadau "hwy yr ydym yn gweithio, hyd y gallom, yn nhŷ yr Arglwydd.' " Mae lloffa, wedi casgliad y grawnwin, yn oddefol, a hêl tywys ar "ol cynhauaf."

Mae W. S. yn dynodi CYFIEITHIAD WILLIAM SALESBURY (1567).

" M.	" "	WILLIAM MORGAN (1588).
" GEN.	" "	BEIBL GENEVA I'R SAESNEG. (1560).
" LXX	" "	YR HEN DESTAMENT I'R GROEG GAN Y DEG A THRIUGAIN (tua 250 C.C.)

AT Y GALATIAID.

Fel hyn y mae y teitl byr syml yn y llawysgrifau hynaf sydd ar gael (tua A.D. 340), tra nad yw y foreuaf o'r rhai sydd yn ei roddi yn helaethach yn hynach na'r nawfed ganrif.

PENNOD I.

CYFIEITHIAD NEWYDD.

PAUL, apostol, nid oddiwrth ddyinion na thrwy ddyin,

CYFIEITHIAD 1620.

PAUL, apostol, (nid o ddyin- ion, na thrwy ddyin, eithr

PENNOD I.

I. 1—10. Cyfeiriad y Llythyr. Y Cyfarchiad efengylaidd arferol. Achlysur ysgrifeniad y Llythyr, a mynegiad o safle yr Apostol yn wyneb hyny.

1. Paul, apostol, nid oddiwrth ddyinion na thrwy ddyin.—Os ysgrif enwyd y llythyr hwn, fel y mae genym le cryf i gasglu, cyn y ddau at y Corinthiaid, a chyn yr un at y Rhufeiniaid, dyma y lle cyntaf yn ei ysgrifeniadau yr enwa Paul ei hun yn apostol. Gallai hyn ynddo ei hun roddi rhyw gyfrif am ei waith yn gwneyd hyny mewn dull gwahanol i'r modd y gwna mewn epistolau eraill. Eto, y farn gyffredin yw fod llygaid yr ysgrifenydd yn y geiriau cyntaf hyn ar bethau a daenid yn ei gylch gan wrthwynebwyr yn Galatia. Yn ol y syniad hwn, dywedir fod y rhan gyntaf o'r ymadrodd uchod—"nid oddiwrth ddyinion"—yn ei osod *ar wahan* oddiwrth y gau-apostolion, a'r ail—"na thrwy ddyin"—yn ei ddwyn yn *gyfochrog a gogyfuwch* â'r apostolion hynaf. Yn ol yr un syniad hefyd, rhaid i ni dybied fod y dysgawdwy'r Iuddewaidd yn bychanu awdurdod apostolaidd Paul, gan ei osod yn israddol i'r apostolion hynaf, ac yn apostol felly heb yr un awdurdod a hwy. Gwedd bellach ar hyn yw dweyd y taenid ar hyd Galatia mai oddiwrth yr apostolion hyny y derbyniasai ef y safle a gawsai, neu ddweyd yn y gwrthwyneb fod ei wrthwynebwyr yn honi na fynai "y gwir apostolion" gydnabod yr un anhymig hwn a'i ddysg ddeythr. Ymddengys cynwys y llythyr hwn i mi yn un sydd yn awgrymu rhywbeth gwahanol iawn. Yr wyf yn methu cael ynddo fod yr athrawon Iuddewaidd eu hunain yn sefyll allan fel "apostolion" o gwbl, nac ychwaith eu bod yn sylfaenu eu dysgeidiaeth Iuddewaidd ar gymhariaeth rhwng Paul â'r apostolion hynaf. Yr oedd yr apostolion mor wrthwynebol iddynt hwy ag oedd Paul ei hun. (Gwel ar adn. 12). Ymddengys hefyd nad oes genym yn ngeiriau yr adnod hon ond ffurf arall ar yr un peth o ran sylwedd ag a fynegir yn Rhuf. i. 1, "Paul. . . . *wedi ei alw yn apostol, wedi ei neillduo i efengyl Duw. . . . trwy yr hwn (Iesu Grist) y derbyniasom (h.y., y derbyniais) ras ac apostoliaeth;*" neu yn I Cor. i. 1, "Paul *wedi alw yn apostol trwy ewyllys Duw.*"

eithr trwy Iesu Grist a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw, a'r brodyr oll sydd trwy Iesu Grist, a Duw Dad, yr hwn a'i cyfododd ef o feirw;) a'r brodyr oll y rhai 2

Nid yw Ioan yn defnyddio yr enw apostol o gwbl am dano ei hun nac am arall, oddieithr yn yr ystyr gyffredinol, "yr hwn a ddanfonwyd," Ioan xiii.16. Wrth gofio ystyr gyntaf y gair, gwelwn hefyd amcan ymadrodd cyntaf yr adn. hon; fel apostol, cenad oedd Paul, ond nid "oddiwrth ddynion." Megys yr oedd ei efengyl yn ddwyfol, felly yr oedd ei anfoniad ef i'w phregethu wedi dyfod o uwch dechreuad nag un ddynol. O'u deall yn y wedd syml yma, ymddengys y geiriau yn fwy eu pwys.

Nid *trwy gyfrwng* dyn ychwaith y gosodwyd ef yn y swydd. Yr cedd offeiriadaeth Aaron a'i alwad yn ddwyfol, eto trwy Moses yr urddwyd ef iddi: felly hefyd prophwyd oddiwrth Dduw oedd Eliseus, eto trwy Elias y galwyd ef. Gyda'r ddau air gwneir apostoliaeth Paul yn berffaith annibynol ar ddynion, fel y cyfryw, heb gyfeiriad o gwbl at y rhai oeddynt apostolion o'i flaen.

Eithr trwy Iesu Grist a Duw Dad.—Fel y gwelwyd, yr oedd lle i wadu yr "oddiwrth" a'r "trwy" gyda golwg ar ddynion, ond pan ddeuir at Iesu Grist a Duw Dad, mae y "trwy" o angenrheidrwydd yn cynwys yr "oddiwrth." Gallasai un fod *oddiwrth* Dduw ac ar yr un pryd *trwy* ddy, ond nis gall neb fod trwy Dduw ac oddiwrth neb arall. Dyma y rheswm, feallai, pahan na ail adroddir y gair *oddiwrth*, ac ni raid i ni felly feddwl fod yr *oddiwrth* i'w ddeall yn ychwanegol gydag enw Duw Dad. Arglwydd yr eglwys, mewn modd nas gwyddai neb, ac heb yn wybod i neb, a alwodd y gwr hwn i fod yn apostol, ond mewn undeb hefyd â Duw Dad.

Duw Dad. Dyma y ffurf wreiddiol, mae'n debyg, o enwi y Duw sydd hefyd yn Dad. Gyda hyn, dywedir hefyd "Duw ein Tad," "Duw a'n Tad," "Duw a Thad," "Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist," ac y mae yn dra thebyg mai at Dduw fel Tad Iesu Grist y cyfeiria yr enw yn yr adn. hon.

Yr hwn a'i cyfododd ef o feirw.—Sylwer mai "o feirw" ac nid "o farw" a ddywedir; o blith y meirw, o'r bedd, bro marwolaeth, y cyfodwyd yr Arglwydd. Diau fod yr ychwanegiad hwn yn cynwys mwy nag awgrym fcd galwad Paul, er wedi yr adgyfodiad, oddiwrth y Tad yn gystal ag oddiwrth Iesu Grist. Mae cyffelyb son am yr adgyfodiad yn nghanol cyfarchiad dechreuol yr epistol at y Rhufeiniaid, "yr hwn a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu... trwy yr adgyfodiad oddiwrth y meirw, trwy yr hwn y derbyniasom ras ac apostoliaeth," Rhuf. i. 4, 5. Gallwn yn deg gasglu oddiwrth benodau cyntaf llyfr yr Actau fod perthynas arbenig rhwng apostoliaeth pob un o'r deuddeg apostol âg adgyfodiad Iesu Grist, a naturiol yw meddwl mai y berthynas gyffredinol hono sydd yn meddwl yr apostol yma, megys yn y geiriau a ddyfynwyd o'r Rhufeiniaid.

2. A'r brodyr oll sydd gyda mi.—Nid yw yn dywedyd, "y brodyr yr wyf fi gyda hwynt." Casglwn oddiwrth y ffordd hon o ymadroddi mai y rhai oedd wedi ei ddilyn ar ei daith ac a gydlafurient âg ef yn ngweinidogaeth y gair oedd y brodyr hyn. Nid yn ddiffuriad y dywed fod yr *holl* frodyr oedd gydag ef (yn mhlith y rhai y gallai Timotheus, y dysgybl a enwaedasad, fod, gwel i Cor. iv. 17) yn ymuno mewn cyfarchiad serchog, gan awgrymu felly eu bod o'r un feddwl ag ef ei hun mewn athrawiaeth hefyd,

gyda mi, at eglwysi Galatia:	sydd gyda mi, at eglwysi
3 gras i chwi a thangnefedd	Galatia : gras fyddo i chwi
oddiwrth Dduw ein Tad a'r	a heddwch oddiwrth Dduw
4 Arglwydd Iesu Grist, yr hwn	Dad, a'n Harglwydd Iesu

3. rat fo gyd a chwi a thangneddyf.—W. S. heddwch.—M.

Yr ydym wedi cael "rhad" (rhat)—"yn rhad Duw a'i dangnef,"—a "gras," o'r Lladin *gratia*, y cyntaf trwy gollu sain ddechreuol y gair, a'r olaf trwy y Saesneg, mae'n debyg.

Cawn yn ngeirlyfr Dr. Davies (1632) "Tangc, *Pax*, 'Archaf danc cyn tranc trwy eiriolodd.'—P.M. Tangnef, *Pax*, 'Aed lle mae'r eang dangnef, ac aed y gerdd gydag ef.' Tangnefedd, *Pax*, dywed W. S. yn gyfeiliornus, a dilynwyd ef gan gyfieithwyr y Beibl,—Tangneddyf."

At eglwysi Galatia.—Y rhan hono o Asia Leiaf a breswylid gan bobl oedd o haniad Geltaidd fel y Cymry, ac nid y dalaeth Rufeinig a elwid ar yr enw hwn. Yn yr ystyr olaf hon, buasai eglwysi Galatia i'w cael yn Lystra, Derbe, ac Iconium. Yn erbyn hyn, gwel y Rhagymadrodd a'r ddau Fap.

Mae y ddau lythyr a ysgrifenasid cyn hwn yn cael eu cyfeirio at "*eglwys* y Thesalonïaid," a'r ddau a'i dilynodd at "*eglwys* Dduw yr hon sydd yn Corinth," tra y cyfeirir y lleill sydd ddiweddarach na hyny at "y saint," gan adael allan y gair "*eglwys*." Yn marn amryw, mae y ffaith nad yw yr apostol yn ychwanegu dim at yr ymadrodd noeth "*eglwysi Galatia*,"—mor wahanol, er engraifft, i'w eiriau yn Rhuf. i. 7, "at bawb sydd yn Rhufain, yn anwyl gan Dduw, wedi eu galw i fod yn saint,"—yn arwydd o deimlad dolurus tuag atynt. Ymddengys eu deall felly i mi yn anghyson â thôn addolgar y tair adnod nesaf, heblaw ei fod yn eglurhad di-eisieu; digon, feddylïem, yw cofio mai yn ddiweddarach ar oes yr apostol y cawn eiriau o serchowgrwydd neu o barch yn cyflenwi geiriau cyfarch ei epistolau; heblaw hyny, nid yw absenoldeb y cyfryw yn beth dyeithrol mewn llythyr at amryw eglwysi fel yr epistol hwn.*

3. Gras i chwi a thangnefedd.—Yn gyffredin, byddai yr anerch dechreuol mewn llythyr yn diweddu a geiriau fel rhai adn. 1, 2, gyda y gair "*anerch*," fel y gwelwn yn llythyr yr apostolion at eglwys Antiochia (Act. xv. 23) ac yn nechreu epistol Iago. Mae Paul yn ei holl epistolau yn ychwanegu y mynegiad hwn o'i ddymunïad, a gwna Pedr yr un peth, ond ni cheir ef gan Ioan oddigerth yn nechreu llyfr y Datguddiad. Yr oedd "*tangnefedd i chwi*" yn gyfarchiad Hebreig arferedig, ond trwy yr ychwanegiad "*gras a thangnefedd*," daw yn un Cristionogol, er y myn rhai (Fritzche, er engraifft, Ep. ad Rom, i. 1) fod "*gras fyddo i ti oddiwrth Dduw*," hefyd o darddiad Hebreig ac yn gyfystyr a'r gair, "*yr Arglwydd a fyddo gyda thi*." Golyga y cyntaf—*gras*—nid y rhodd ddwyfol o ras, fel yn y geiriau "*y gras a roddwyd i mi*" (ii. 9), ond y gogwydd o dynerwch yn Nuw a Christ ag y ca yr

* Yn 1 Thes. i. 1, mae "yn Nuw Dad" yn well o'i gymeryd gyda rhyw air fel "*anerch*." Nid oes yno felly ond yr un geiriau noeth ag yn y Galatiaid, "at eglwys y Thesalonïaid:" yr un modd y mae yr ail epistol, "Paul a Silfanus a Thimotheus at eglwys y Thesalonïaid."

a'i rhoddes ei hun dros
ein pechodau ni, fel y
gwardai ni oddiwrth y byd
drwg presenol, yn ol ewyllys

Grist; yr hwn a'i rhoddes ei
hun dros ein pechodau, fel
y'n gwardai ni oddiwrth y
byd drwg presenol, yn ol ew-

4. val in gwardai y wrth y cydrychiol vyd drwc yma.—W. S. er ein gward oddiwrth y byd drwg presennol.—M.

annehilwng brofiad o hono: *tangnefedd* yw y rhodd arbenig a gyfrenir, yn ol y dymuniad yma, fel amlygiad o'r teimlad hwnw sydd yn Nuw. Cynwysa dawlwch yn y fynwes, a'r oll sydd oddiallan yn ei feithrin.

4. **Yr hwn a'i rhoddes ei hun.**—Yn yr un ystyr y defnyddia yr apostol eilwaith y gair yn nglyn ag ef ei hun yn bersonol,—"yr hwn a'm carodd ac a'i dodes ei hun dros of fi," ii. 20. Defnyddir tri arddodair yn nglyn a marwolaeth y Gwardwr—*oherwydd (peri)*, *dros (hyber)*, ac *yn lle (anti)*, ac er na ellir dweyd fod y ddau gyntaf neu yr ail yn gyfystyr a'r olaf, eto pell ydynt o'i gau allan. Bydd y peth a wneir *yn lle* arall yn cael ei wneyd *er ei fwyn* neu *drosto*, ac am mai yr olaf sydd yn mynegu *dyben* y weithred dyma y gair a ddefnyddir amlaf. Defnyddir y gair *dros* wrth son am bersonau, ac hefyd yn yr ymadrodd "dros bechodau," oddigerth y dywedir hefyd yn y cysylltiad olaf yma *oherwydd* pechodau. Nis gall fod un gwahaniaeth pwysig rhwng *oherwydd a thros*, gan y ceir y ddau air yn fynych yn agos i'w gilydd ac yn yr un arfer o honynt. Yn yr adnod gyntaf o Heb. v. dywedir fod pob archoffeiriad yn offrymu rhoddion ac aberthau *dros* bechodau, ac yn y drydedd ei fod yn offrymu *oherwydd* pechodau. Unig ystyr y gair "rhoddi ei hun" yw rhoddi ei hun i farw, "Megys y carodd Crist ei eglwys ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni yn offrwm ac yn aberth i Dduw," Eph. v. 2. Yn mhellach, wrth roddi ei hun *dros* ein pechodau, dyben yr Arglwydd oedd gwneyd iawn am danant neu drostynt, a byddai yr ystyr yr un pe darllenid yma yn ol geiriad arall, "*oherwydd* ein pechodau." Ond dylid sylwi hefyd fod gwahaniaeth rhwng *dros* yn nglyn a phersonau a *dros* yn nglyn a phechodau: yn yr olaf, y meddwl yw, fod diffyg moesol yn cael ei gyflawni; yn y cyntaf, fod lles yn cael ei enill neu ei sicrhau i eraill.

Fel y'n gwardai ni.—Edrychwn yn gyntaf am ystyr y gair *byd* a *byd drwg*. Wrth ddarllen, "felly y carodd Duw y byd," "fod Duw yn Nghrist yn cymodi y byd ag ef ei hun," "chwychwi ydych o'r byd hwn," "goleuni y byd ydwyf fi," mae genym yn y Groeg air gwahanol i air yr adnod hon. Yr un yw hwn ag a geir yn yr ymadroddion, "na chydymffurfiwch a'r byd hwn," Rhuf. xii. 2, "doethineb y byd hwn," i Cor. ii. 6, "duw y byd hwn," 2 Cor. iv. 4. Daw y ddau air i'r un frawddeg unwaith, "yn y rhai y rhodiasoch gynt yn ol *helynt* y byd hwn," Eph. ii. 2, a'r gair a gyfieithir *helynt* yma yw gair yr adnod hon am *byd*. Dengys y dyfyniad olaf nad yw y ddau air yn gyfystyr, er fod rhai cysylltiadau ag y mae yn anhawdd dangos y gwahaniaeth rhyngddynt. Yn nghyfieithiad y LXX o'r Beibl Hebraeg i'r Groeg, arferir y gair hwn am *oes* neu *genhedlaeth faith ddi-derfyn*, am *amser diddiwedd* neu *byth*; mae yr ystyr hon iddo yn fynych yn y Testament Newydd, ac nid oes gan Ioan yr un arall. Yr ydym yn gydnabyddus iawn ag ef yn y geiriau, "yn oes oesoedd," neu "byth bythoedd." Ond wedi adeg yr ysgrifenywyr sanctaidd yn Hebraeg yr Hen Destament, daw defnydd ac ystyr newydd i'r gair Hebraeg y safai hwn am dano. Daeth

5 ein Duw a Thad, i'r hwn y yllys Duw a'n Tad ni; i'r 5
byddo y gogoniant yn oes hwn y *byddo* gogoniant yn
 oesoedd. Amen. oes oesoedd. Amen.

6 Y mae yn rhyfedd Y mae yn rhyfedd 6

hyny yn iaith a dysg yr ysgrifenyddion neu y rabbiniaid. Yn y defnydd newydd yma, gwahaniaethir rhwng dwy oes neu ddau fyd—"y byd hwn," a'r "byd a ddaw" (Math. xii. 32), gan gyfleu y syniad o ddau amser maith, eto un o honynt, o leiaf, a therfyn iddo. Y *byd hwn* yw yr amser hyd ddyfodiad y Messiah, pryd y dechreua yr oes a ddaw neu y *byd a ddaw*. Golyga y gair fwy na'r meddwl o amser; mae ynddo hefyd fywyd y ddyndoliaeth a phob peth a gymer lle mewn amser, "pob mater a gallu, achosion a phethau, fel y maent yn ymddangos ac yn dilyn eu gilydd yn ddifwlch yn nghylch amser," ac felly mewn ystyr eang—**byd**. I'r rhai hyny gynt, cysylltai y meddwl o bechod ei hun a'r gyfundrefn hon a alwent yn oes neu fyd presenol; drwg ddiobaith ydoedd; rhaid ein gwaredu o allu y drygioni sydd mor bwerus ynddo er cyraedd iachawdwriaeth.* Dododd yr Arglwydd ei hun dros ein pechodau ni, fel y gwaredai ni oddiwrth allu a thrais y byd hwn o'r hwn yr ydym ni ein hunain yn rhan, yn ei *ddrwg*, yn ei bwer andwyol i ddrygu, ac y mae y ferf yn cynwys y syniad o gipio o afael gelyn cryf. Dyma ddyben marwolaeth iawnol y Gwaredwr. Gwel 2 Cor. v. 15.

5. Yn ol ewyllys ein Duw a Thad.—Ymddengys i mi yn naturiol i gysylltu y geiriau hyn a rhan gyntaf yr adnod, er y goddefai y synwyr i ni eu cysylltu a'r geiriau agosaf atynt. Y meddwl felly yw, fod aberthiad Iesu Grist o hono ei hun dros ein pechodau ni yn *ol* ei ewyllys Ef, sydd i ni yn Dduw a Thad. Sylweddoli ei gariad Ef,—a gogwydd ei gariad yw ei ewyllys,—yr oedd y farwolaeth hono; am hyny gorphenir â mawl wers.

Yn oes oesoedd.—Cyfieithiad llythyrenol yw y geiriau hyn, a'r geiriau cyfystyr "byth bythoedd," o'r Groeg. Yn nghyfieithiad y LXX y ganwyd yr ymadrodd; gair Beiblaidd oedd i'r Iuddewon Groegaidd megys i ninaw. Ac er mai "oes" oedd ystyr y gair mewn arfer gyffredin, daeth iddo yn yr Ysgrhythyr ystyr arall, sef diderfyn oes cynwysedig o oesoedd, neu dragwyddoldeb. "Hyd byth a hyd byth bythoedd," Dan. vii. 18, y *byth* a wneir i fyny o lawer *byth* neu *bythoedd*.

I.

I. 6—10. Dyma ddechreu yr Epistol, ac amlyga yr Apostol yn yr adran hon ei syndod fod y Galatiaid wedi troi mewn byred amser at efengyl gau. Rhaid iddo, fel un sydd ei hunan a'i olwg nid ar ddyinion ond ar Dduw, gondemnio yr hwn a efengyllo hono pwy bynag fo.

6. Mor fuan.—Mae y syndod sydd yn llenwi yr apostol at gyflymder y cyfnewidiad yr aethai y Galatiaid drwyddo yn dangos mai nid mor fuan ar ol eu dychweliad i'r ffydd a feddylir yma. Yr oedd ei hunan wedi eu gwelod a'r ei ail ymweliad a Galatia ar ol hyny. Gallasai yn ddiâu synu os daeth

* Cyfyng yw y gair Cymraeg "oes" i osod allan feddylddrych a gynwys y gyfundrefn bresenol yn mywyd nid un dyn ond y ddyndoliaeth: gwell felly yw cadw at y gair "byd," a chofio y rhan dymhorol a moesol o'i ystyr.

genyfeich bod yn symud mor fuan oddiwrth yr hwn a'ch galwodd yn ngras Crist 7 i efengyl arall, yr hon nid yw arall; ond bod rhai sydd yn eich cythryblu chwi	genyf eich symud mor fuan, oddiwrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist, at efengyl arall: yr hon nid yw 7 arall; ond bod rhai yn eich trallodi chwi, ac yn chwenych
---	---

6. Ryvedd yw genyf mor vuan ich ysmutwyd ymaith i evangel arall, y wrth yr un a'ch galwesei yn rhat Crist.—W. S.

Rhyfedd yw gennif morr fuan (gan ymadel a Christ, yr hwn a'ch galwase i ras) i'ch symmudwyd i efengyl arall.—M.

Mae Salesbury fel arfer yn cyfieithu yn ol Beibl Geneva, ond dilyna Morgan Luther yn rhan gyntaf yr adnod a Beza a'r Vulgate yn y rhan olaf, "i ras Crist" (*in gratiam Christi*).

7. Yr hwn nyd oes *Evangel* arall.—W. S. Which is not another gospels.—Gen.

bod rhai yn eich blino chwi.—M.

y newydd am eu gwrthgiliad yn fuan wedi yr ymweliad hwnw. Eto, oni all ystyr arall fod yn fwy cymhwys am y syndod aruthr hwn—iddynt gyfnewid yn brysor? Byr waith a gaed i'w hudo, ac at hyn y rhyfeddai yr apostol.

Oddiwrth yr hwn a'ch galwodd yn ngras Crist.—Yn ei esboniad ar y geiriau hyn rhydd Luther gyfieithiad arall—"oddigrth y Crist hwnw yr hwn a'ch galwodd mewn gras,"* a chytuna Calvin ag ef o ran sylwedd. Addefir fod "oddigrth yr hwn a'ch galwodd mewn gras, sef Crist," yn gyfieithiad posibl o ran gramadeg, ond iaith y Testament Newydd yn mhob man yw mai Duw sydd yn galw; "uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu," yw yr alwad, "Ffyddlawn yw Duw trwy yr hwn y'ch galwyd chwi i gymdeithas ei Fab ef." 1 Cor. i. 9. "Ac yn ymbil ar rodio o honoch yn deilwng i Dduw, yr hwn a'ch galwodd chwi i'w deyrnas a'i ogoniant," 1 Thes. ii. 12. Yma, gan hyny, yr hwn a'u galwodd yw Duw, ac yn ngras Crist, yn y cyhoeddiad o'i ras trwy yr efengyl, ac mewn profiad o'r gras hwnw, y galwyd hwy. Mae Luther yn y fan hon, gan gyfeirio at y farn a goleddai rhai mai Germaniaid oedd y Galatiaid, yn gwneyd yn hollol yr un sylwad- au ag a wneir mor fynych, bid sicr, am y Celtiaid. Myn Luther fod tebygrwydd mawr rhwng y Germaniaid a'r Galatiaid, "Yn mhob peth yr ydym ar y cyntaf yn llawn tân, ond pan ddechreuo zel y teimladau cyntaf dawelu yr ydym ar unwaith yn fwy diofal, a chyda'r un byrbwylldra ag oedd genym yn dechreu, yr ydym yn bwrw ymaith ac yn esgeuluso."

At efengyl arall yr hon nid yw arall, ond fod rhai...—Os ydym i roddi pwys ar wahaniaeth rhwng y ddau air sydd yn y Groeg am "arall," hwyrach y gellid gwneyd hyny trwy gyfieithu "At efengyl wahanol, yr hon nid yw arall." Wrth ddweyd "efengyl arall," teimla yr apostol ei fod fel pe yn awgrymu fod mwy nag un efengyl, a chywirow awgrymiad felly a *all* fod yn ei eiriau, yw dyben yr ychwanegiad "yr hon nid yw arall." Mae yr efengyl yr ydych wedi symud ati yn un dra gwahanol i efengyl Crist, mae yn rhywbeth arall, lle mae Crist yn Fessiah *a'r* ddeddf yn drefn cyfiawnhad,

* Ab eo Christo qui vocavit vos in gratia.—Luther.
 A Christo qui vocavit vos in gratia.—Calvin.

ac a fynant ddattroi efengyl
8 Crist. Eithr pe byddai, ie, i
ni neu i angel o'r nef efengylu
i chwi amgen na'r hyn a
efengylasom i chwi, bydded
9 anathema. Megys y rhag-
ddywedasom yr ydwyf yr

dattroi efengyl Crist. Eithr 8
pe byddai i ni, neu i angel
o'r nef, efengylu i chwi am-
gen na'r hyn a efengylasom
i chwi, bydded anathema.
Megys y rhag-ddywedasom, 9
felly yr ydwyf yr awrhon

8. pa un bynac ai nyini ai angel o'r nef a bregetho i chwi amgen.—M. malldigidic vo.—W. S.

ond y gwirionedd yw nid efengyl *arall* ydyw, i'w hystyried yn ychwanegol at yr hon a gofeidwyd genych ar y cyntaf: nid efengyl o gwbl ydyw* Yr hyn *sydd* yn bod yw, nid efengyl arall ond efengyl Crist wedi ei dattroi gan rai a fynant eich cythryblu. Diau mai nid trallodi yw ystyr y ferf yn y frawddeg hon; yn hytrach cythryblu, neu flino, fel y cyfieithia Dr. Morgan; felly y cawn yr un gair yn Actau xv. 24, "yn eich cythryblu chwi a geiriau," ac am yr un gorchwyl o wneyd eneidiau yn sigledig ac ansicr, yn Antiochia. Dyben y llythyr yw rhwystro y cythryblu, a dangos fod dattroi efengyl Crist yn beth croes i'r gwirionedd.

8. Eithr pe byddai, ie, i ni neu angel o'r nef. . . —Yr ydym i ddeall y gair a gyfieithir "amgen" yn ol ystyr y geiriau diweddasaf "dattroi" efengyl Crist, sef, yn wahanol, neu yn groes i'r hyn a efengylasom. **Angel o'r nef.** —Gwelwn yn y gair yma hyf feiddgarwch argyhoeddiad yr apostol o wirionedd yr hyn a bregethasai. Feallai hefyd fod yn ei feddwl gyfeiriad at angylion fel y rhai, yn ol iii. 19, y trefnwyd y ddeddf trwyddynt.

Bydded anathema.—Bydded beth melldigaid. Nid "awdurdod" apostolaidd sydd yn llefaru, ond argyhoeddiad yn cynefu yn fflam yn wyneb effeithiau dirywiol cyfeiliornad. Mae dwy ffurf i'r gair Groeg, *anathema*, ac *anathema* gyda'r 'e' yn fer, ond ni cheir yr ail hyd amseroedd cymharol ddiweddar, a chan mwyaf yn nghyfieithiad y LXX^y gwelir ef. Ystyr y gair yn ei ffurf gyntaf yw, rhodd wedi ei chyflwyno i un o'r duwiau, a'i gosod i fyny yn y deml, ac oherwydd hyny, un nad yw byth i'w chyffwrdd gan ddyn i arfer gyffredin (Luc xxi. 5), a cheir rhai engreiffitiau, er yn anaml, o'r gair yn yr ail ffurf, yn dwyn yr un ystyr. Ond pan ddarllenwn yr Hen Destament yn y Groeg (ag eithro dau fan yn yr Apocrypha Iudith 16, 17, 2; Macc. 2, 13), gwelwn fod i'r gair *anathema* ystyr newydd. Yma saif am air Hebraeg a ddwg yr ystyr o gyflwyno, mae'n wir, ond o gyflwyno hefyd fel dioffryd-beth i ddynstr; peth ydyw dan felddith ddwyfol, ysgymunbeth, Act. xxiii. 14; Rhuf. ix. 3; 1 Cor. xii. 3; xvi. 22. Daeth y gair i gael ei arfer yn rhy foreu a rhy barod yn Nghyngorau yr Eglwys, yn Elvira A.D. 305 gyda golwg ar ddrwg fuchedd, a Chaercystenyyn A.D. 381 uwchben athrawiaeth gyfeiliornus, "pob heresi."

9. Megys y rhagddywedasom. . . —Gall y ferf hon ddwyn yr ystyr o "ddywedyd yn flaenorol," mewn traethawd neu lythyr, fel y cawn hi, mae'n

* Ymddengys y gwahaniaethau cywrair a wneir rhwng "allos" a "heteros" yn aughymwys yma, gan fod y ddau air yn cael eu defnyddio yn gyfystyr yn fynych Ceir "allos" yn Mt. v. 30, am y "rudd arall," ac am "y dysgybi arall" yn Ioan xx 4, lle y dysgwyliasiad "heteros." Felly hefyd yn 2 Cor. xi. 4; Heb. v. 6; Plato Rep. 433 B. O'r Tadau Groegaidd, ystyrir fod Theodore o Mopsuestia yn un neillduol o graffus ar eiriau, eto nid yw ef yn gwneyd un sylw o'r ddau air hyn. Nid yw Chrysostom ychwaith,

awrhon hefyd drachefn yn dywedyd, Os yw neb yn efengylu yn amgen na'r hyn a dderbynniasoch, bydded ana-
 10 thema. Canys yr awrhon ai perswadio dynion yr wyf

drachefn yn dywedyd, Os efengyla neb i chwi amgen na'r hyn a dderbynniasoch, bydded anathema. Canys yr
 10 awrhon ai peri credu dynion yr wyf, ynte Duw? neu

10. Can ys owrhon *ai* precethu 'r wyf *athrawieth* dynion ai 'r *yddo* Duw.—W. S. For now preach I man's doctrine or God's.—Gen. Yr awrhon ai annog (derbyn) dynion ynte Duw yr wyf?—M.

debyg, yn 2 Cor. vii. 3, ond yn Heb. iv. 7, gellir ei deall yn wahanol. Yma nid da y dywedir, yn yr ystyr hwn, mai cyfeirio at yr hyn a ddywedasai yn flaenorol yn adn. 8 y mae yr apostol. Dwy ystyr a ellir roddi i'r gair (1) dywedyd ar adeg flaenorol, (2) rhagfynegu fel prophwyd, y ddau yn golygu mynegu yn mlaen llaw. Dyma y: ystyr yn v. 21, "Am y rhai yr wyf fi yn yn rhagddywedyd wrthych, megys ag y rhagddywedais," "rhagddywedais i chwi, ac yr wyf yn rhagddywedyd," 2 Cor. xiii. 2. Pan oedd yr apostol yn Galatia ddiweddar gwelsai arwyddion fod cludwyr addysg y ddeddf yn debyg o wneyd ymosodiad ar y ffydd, a'r pryd hyny fe raglefarodd yr un condemniad ag a adroddir yma.

Os yw neb yn efengylu.—"Pe byddai i ni efengylu amgen" a ddywedasai wrth son am dano ei hun a'i gydlafurwyr, a'r posibilrwydd iddynt wneyd y cyfryw beth; yn awr mae yr ymadrodd yn newid—os *yw* neb, fel yn sicr y mae, yn efengylu amgen. O'r blaen hefyd "amgen nag a efengylasom" ni ein hunain, ond yn awr yn fwy agos dywedir "amgen nag a dderbynniasoch chwi," gan gyfleu y meddwl eu bod hwy, y Galatiaid; wedi amgyffred y wir efengyl. Gellir "derbyn" mewn dwy ystyr: un ydyw y derbyn sydd yn cynwys cydnabod, megys "a'r eiddo ei hun nis derbynniasant ef," Ioan i, 11. "Y rhai a ddysgasoch ac a dderbynniasoch. . . . y pethau hyn gwnewch," Phil. iv. 9. Wrth dderbyn fel hyn yr ydym ni ein hunain yn cydsynio, ac yn arwyddo ein boddlonrwydd i'r hyn a gyflwynir i ni. Ar y tu arall, golyga "derbyn" yn unig fod pethau wedi eu cyflwyno i ni, megys "myfi a dderbynniais gan yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi," 1 Cor. xi. 2; 3. Yn yr adnod hon ymddengys mai yr ystyr gyntaf yw y fwyaf naturiol, "ysgymun fyddo yr hwn sydd yn efengylu amgen na'r hyn a gydnabyddwyd genych chwi eich hunain."

10. **Canys yr awrhon ai perswadio dynion yr wyf ynte Duw.**—Oddiar y safle a ddangosir yn y geiriau dilynol mae gan yr apostol hawl i gondemnio y rhai sydd yn cythryblu trwy athrawiaeth ddeieithr. Fel hyn y deallwn y "canys" yma. Gwelwn uchod wahanol ffyrdd i ddeall y geiriau "perswadio dynion," lle mae W. Salesbury yn dilyn Beza.* Ond nis gall y fferf fod o'r ystyr yma—"perswadio athrawiaeth dynion, neu yr eiddo Duw"—tra bo iddi wrthddrych personol fel yr adnod hon. Cyfartyddwn yn fynych âg ystyr sydd gymwys yma, sef dylanwadu ar feddwl un nes ei wneyd yn foddolawn neu yn ffafriol i ni, enill un o'n plaid. "Ac os clyw y rhaglaw hyn ni a'i perswadiwn ef." Math. xxviii. 19; gwel hefyd i Ioan iii. 19. Mae ton y gofyniad yn arwain i'r unig ateb—nage; ac nid yw y

ynte Duw? neu a wyf fi yn
ceisio rhyngu bodd dynion?
Pe bawn eto yn rhyngu
bodd dynion ni byddwn
was Crist.

II Canys yr ydwyf
yn hysbysu i chwi, frodyr,

a ydwyf fi yn ceisio rhyngu
bodd dynion? canys pe
rhyngwn fodd dynion eto, ni
byddwn was i Grist.

Eithr yr ydwyf II
yn hysbysu i chwi, frodyr,
am yr efengyl a bre-

gofyniad ond dull cryf o ddweyd, nid ar ddynion yr wyf fi yn ceisio dylanwadu i beri iddynt fy nghymeradwyo ond ar Dduw. Difrifwch gwr sydd yn argyhoeddedig nad yw yn ceisio cymeradwyaeth dynion, ond Duw sydd yn llefaru.

Yr awrhon--h.y., yr amser yma ar fy mywyd.

Neu a wyf fi yn ceisio rhyngu bodd dynion?—Yr un meddwl sydd yn yr ail gwestiwn hwn, ond mewn gwedd newydd. Yn y gwaith o efengylu, ai fy nyben i yw boddhau dynion? Ymddengys yn llawer mwy priodol i ni ddeall "dynion" yn gyffredinol, mewn brawddeg fel hon sydd yn cyfeirio at ddyben bywyd, ac nid yr apostolion hynaf. Mae y frawddeg nesaf yn ddull dyrchafedig o rodri ateb nacaol; mae yn anmhosibl bod yn foddlonwr dynion a bod yn was Crist. Nid da, feddyliwn, y newidwr ystyr y ferf gan rai yn y frawddeg hon—"pe bawn yn un y cai dynion eu boddhau ynof." Yn hytrach ail adrodder hi fel yn y frawddeg o'r blaen, "Pe bawn eto, wedi fy holl ymdrech yn mhlaidd yr efengyl yr wyf yn dadleu drosti, yn boddloni dynion (mae ffurf y frawddeg yn awgrymu nad oedd felly) ni byddwn was Crist." Nis gall yr hunangar a geisio foddhau dynion fod yn was i'r Croeshoeliedig, er, yn ysbryd Crist, y gallai Paul ddweyd, "Yr ydwyf finau yn rhyngu bodd i bawb yn mhob peth heb geisio fy lleshad fy hun, ond lleshad llaweroedd, fel y byddont hwy gadwedig." I Cor. x. 33.

II.

Y BRIF ADRAN GYNTAF. I. II—II. 22.

- A. Nid yw yr efengyl a bregethir gan Paul yn ddynol, i. II—24.
- B. Mae rhyddid oddiwrth yr enwaediad wedi ei gydnabod yn ffurfiol yn y Cyngor yn Jerusalem, ii. I—10.
- C. Yn Antiochia fe brofwyd, yn achos Pedr, anghysondeb dysgeidiaeth Iuddewig â'r athrawiaeth am y cyfiawnder sydd trwy ffydd Crist, ii. II—21.

A. NID YW YR EFENGYL A BREGETHIR I'R CENHEDLOEDD YN UN DDYNOL.

II. Canys yr ydwyf yn hysbysu i chwi.—Mae y geiriau hyn yn sail i'r nacad sydd yn nhôn cwestiynau cryfion y geiriau blaenorol; gan fod pob un o honynt yn awgrymu y gwrthgyferbyniol—"nid wyf yn perswadio dynion, Duw yn unig a geisiaf fi o'm plaid; nid wyf yn ymdrechu boddhau dynion, gwas Crist wyf fi, canys (dyma y rheswm) nid yw yr efengyl a ef-

nad yw yr efengyl a efengylwyd genyf fi yn ol dyn ;
 12 canys nid oddiwrth ddyn ychwaith y derbyniais i hi, nac
 gethwyd genyf fi, nad yw hi ddynol. Canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd ; eithr trwy

11. Weithion y mynnaf iwch wybot, vrodyr . . . nad oedd *hi* erwydd dyn.
 —W. S. Weithian frodyr yr wyf yn yspysu i chwi . . . nad dynol oedd hi.
 —M. Nowe I certifie you brethren . . . was not after man.—Gen.

engylwyd genyf fi yn ol barn a meddwl dyn." Nid fel un yn mynegu peth newydd, nac ychwaith fel un yn adgoffa y peth a wyddid eisoes, ond oedd ry ddisylw, y dywed yr apostol ei fod yn eu *hysbysu* am ei efengyl. Mae, yn hytrach, yn hysbysu hyn fel gwirionedd sylfaenol; efengyl yw yn meddu nodweddion uwchlaw y rhai a geir yn y pethau a berthyn i ddyn; nid dynol yw o ran ei natur, ac yn yr adnod nesaf ceir yr achos o hyny—mae ei tharddiad yn ddwyfol.

12. **Canys nid gan ddyn ychwaith y derbyniais i hi.**—Yr wyf yn sicrhau na dderbyniais i mo honi oddiwrth ddyn. Cryfheir y dywediad cyntaf nad *math* ddynol o efengyl oedd, gan un arall,—na dderbyniodd Paul hi oddiwrth ddyn, a chan na ddaeth oddiwrth ddyn nis gallai ei gwedd a'i dull fod yn ddynol. Wrth gofio mor fynych yr arferir rhagenwau yn iaith wreiddiol y Testament Newydd, prin y gellir casglu fod yr apostol yma yn awgrymu, fel y dywed rhai, "nid gan ddyn y derbyniais i hi ychwaith, mwy na'r lleill o'r apostolion."* Wrth ddweyd "ychwaith," ei feddwl yw gwadu, yn *ychwanegol* at yr hyn a ddywedasai am ei natur, fod ei efengyl o ran ei tharddiad, o ddyn.

Nac y'm dysgwyd hi.—Yn y gair *nac* gwelwn awgrym fod "ei ddysgu" yn rhywbeth arall gwahanol i'r "derbyn." Nid oddiwrth ddyn y cyflwynwyd yr efengyl iddo; dyma feddwl y rhan gyntaf, ond cafodd yn ychwanol ei hegluro iddo, hyfforddwyd ef yn ei hystyr, rhoddwyd iddo amgyffred y lled a'r hyd, y dyfnder a'r uchder, eto nid gan ddyn. Yr wyf fi yn ffaelu gwelod fod yn y geiriau blaenorol un cyfeiriad neillduol at yr apostolion eraill hynach na Paul ei hun. Wrth ddweyd nad oedd yr efengyl a bregethwyd ganddo yn ol dyn, wrth sicrhau na ddaeth iddo oddiwrth ddyn, diau y cynwysir yr apostolion, ond cynwysir hwy fel dynion, nid fel apostolion. Os yw y gair hwn, "nad yw hi yn ol dyn," &c., yn cael ei ddweyd yn erbyn honiad ar du y gau athrawon, rhaid ei fod yn erbyn eu gwaith yn honi fod efengyl Paul (a gynwysai ddifodi y ddeddf) yn ddynol fel peth gwrthwyneb i ddwyfol darddiad y ddeddf, ac nid i athrawiaeth dybiedig yr apostolion eraill. Mae y ddeddf yn ddwyfol, meddent, ond dysg ddynol sydd gan Paul wrth fynu difodi y ddeddf. Y peth tebycaf i elynion yr apostol honi oedd *na* chafodd ei efengyl erioed oddiwrth Pedr, ac Iago, ac Ioan, a'u cydapostolion, felly ni buasai angen iddo ddatgan hyny ei hun. Heblaw hyn, nid yw yr hanes a geir yn llyfr yr Actau am y dadleu yn Antiochia, na'r hanes yn yr Actau a'r epistol hwn am y cyngor yn Jerusalem yn nghylch enwaediad y cenhedloedd, yn rhoddi cymaint ag awgrym fod y ddadl o gwbl wedi hudo dynion i fychanu "awdurdod" yr apostol Paul o'i gymharu a'r apstolion eraill. Yn yr hyn a ddywed adn. 17, "nid

* Mac Buttman Gramm. N. T., 115, yn galw sylw neillduol at amledd yr arfer o'r rhagenwau "mi" a "thi," er gochel y duedd gywrair i roddi pwyslais na fwriddid gan yr ysgrifenydd.

y'm dysgwyd *hi*, eithr trwy ddadguddiad Iesu Grist.
ddadguddiad Iesu Grist.

aethum ychwaith i fyny i Jerusalem at y rhai oedd o'm blaen i yn apostolion, eithr mi a ymadewais i Arabia," mae yn cyplysu y lle tebycaf iddo gael dysgu ei efengyl â'r lle anhebycaf, er mwyn dangos un ddolen bellach o'r gadwen o brawlion a ddangosent y ffaith gyffredinol mai nid gan *ddyn* ei dysgwyd.

Eithr trwy ddadguddiad Iesu Grist.—Mae yn bosibl cysylltu y geiriau hyn â diwedd yr adnod flaenorol,—

"Yr wyf yn mynegu i chwi, frodyr, yr efengyl yr hon a efengylwyd genyf fi, nad yw yn ol dyn—(canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd)—eithr trwy ddadguddiad Iesu Grist."—*Zimmer*.

Un frawddeg gyfansawdd, yn ol y cyflead cywrain hwn, yw y ddwy adnod; eto, hwyrach, pe felly, y buasem yn deg yn dysgwyl i'r apostol ddweyd "*yn ol dadguddiad*," fel y gwna yn wir yn ii. 2; Eph. iii. 3. Tecach yw gwneyd un frawddeg o adnod 12, a deall y ddwy ferf, derbyn a dysgu, yn gadarnhaol, gyda'r ymadrodd olaf—"derbyniais hi, ac fe'm dysgwyd hi trwy ddadguddiad Iesu Grist." Yn adn. 16, Iesu Grist yw gwrth-ddrych y dadguddiad, ond nid yw hyn yn ein rhwymo i'r un meddwl yma; yma deallwn y dadguddiad a roddodd yr Arglwydd i Paul trwy ymddangos, a thrwy "egiuro ei hun" wedi ei adgyfodiad. At ba ddadguddiad y cyfeirir yma? Ai at (1) y weledigaeth nefol ar y ffordd i Damascus? ynte (2) at ryw un o "weledigaethau a dadguddiedigaethau yr Arglwydd" a roddwyd iddo wedi ei droedigaeth? (2 Cor. xii. 1—4), ynte (3) cyfanswm y dadguddiedigaethau a gafodd Paul yn nechreu ei yrfa a gwedi? Gall y geiriau "yr efengyl a efengylwyd genyf fi," olygu yr holl athrawiaeth, eto golygir hi mewn cysylltiad arbenig a'r rhan hono o honi oedd yn cynwys yr hyn a elwir yn yr epistolau at yr Ephesiaid a'r Colossiaid "y dirgelwch," a "dirgelwch Crist." "Wrth hyn," meddir yn Eph. iii. 3—6, "y gellwch wybod fy neall i yn nirgelwch Crist y byddai y cenedloedd yn gydetluddion, ac yn gydgorff, ac yn gydgyfranogion o'i addewid ef yn Ngarist trwy yr efengyl." Yn ol dadguddiad yr hysbyswyd y dirgelwch hwn iddo, medd ef (Eph. iii. 3), ac o adn. 16 casglwn i hyn gael ei ddechreu cyn ei ymweliad cyntaf a Jerusalem. Yn Damascus yr adeg hon, yr hyn a ddysgir gan y dysgybl hwn, oedd i fod yn llestr etholedig i ddwyn enw yr Arglwydd gerbron y cenedloedd, yw, mai yr Iesu yw Mab Duw, Actau ix. 20, 22. Dyma y dechreuad a ddygodd yn nhwf ei gynydd pellach, trwy ddadguddiad eangach, yr athrawiaethau sydd mor wir blethedig a'u gilydd, fod pawb yn un yn Nghrist, a phawb yn gyfiawn trwy ffydd. Catodd hyn cyn iddo fyned at y cenedloedd, ac felly gosodir adeg y dadguddiad y cyfeirir ato yma rywbryd rhwng amser troedigaeth yr apostol a'i ymweliad cyntaf a Jerusalem. Pan drow'n i lyfr yr Actau, gwelwn fod adn. 20 o'r ail benod a'r hugain, sy'n desgrifio teimlad Paul ei hun, yn cytuno yn rhyfedd a'r hyn a ddywedir yn ix. 26; nid anhawdd yw casglu fod a wnelo y weledigaeth hono a gafodd mewn llewyg yn y deml ar amser ei ymweliad cyntaf a Jerusalem (sef yr un a enwir yn adn. 18), hefyd â'r dadguddiad Iesu Grist a grybwyllir yn yr adnod hon. Yr oedd dwy ochr i effaith y tymor hwn arno; ar y naill law, yn ol Phil. iii., daeth i gyfrif y pethau a fuasent elw iddo yn golled er mwyn Crist, neu yn ol ii. 16, isod, dilewyd

- 13 Canys chwi a glywsoch am fy ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig, fy mod i dros fesur yn erlid eglwys Dduw, ac yn ei hanrheithio
 14 hi, ac i mi gynyddu yn y Canys chwi a glywsoch fy 13 ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig, i mi allan o fesur erlid eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi, ac i mi 14 gynyddu yn y grefydd Iudd-

13. vy cytro i gynt yn y ddeidyf Iuddewic, val y tra erlynais ar eccles Duw.—W. S. I'a wedd yr ymddugym i gynt yn y ddeddf Iuddewig fel yr erlidiais i eglwys Dduw yn dra rhagorol.—M.

14. Ac a vuddiais yn y ddeddf Iuddewig. — W. S. ac y llwyddais yn yr Iuddewig ddeddf.—M.

ynddo am byth y meddwl am gyfiawnder o'r ddeddf; ar y llaw arall gwelodd yn y cyfnewidiad mawr personol hwn alwad ac anfoniad yn mhell at y cenedloedd.

13. **Canys chwi a glywsoch** . . . —Dyben y rhan hanesyddol hon yw profi na bu i Paul, ar un adeg cyn iddo ddyfod yn athraw y cenedloedd, gyfleustra y gallasai dderbyn ei efengyl *gan ddyn*. Enwir ganddo ddau beth oedd amlwg yn ei fuchedd Iuddewig, ac achos y ddau oedd ei fawr zel dros draddodiadau y tadau; y ddau hyn oeddynt, ei erlid eithafol o eglwys Dduw, a'i uchel ragoriaeth ei hun yn y grefydd Iuddewig, ac yn y ddau gwelir tymer meddwl hollol anghyfadde i dderbyn na dysgu efengyl. Yr oedd Paul fel hyn yn gyfryw o ran amgylchiadau ei fywyd a'i duedd, fel yr oedd yn rhaid cael dadguddiad i'w ddwyn i gofleidid yr efengyl.

Fy ymarweddiad i.—Ystyr y gair henafol "arweddu" yw cario neu ddwyn, "megys y arweddesam ddelw yr un daiarol, felly yr arweddw ddelw yr un nefol."—W. S. Felly mae ymarweddu yn golygu "cario ein hun," ac yn gyfystyr a chyffelyb o ran tarddiad i un arall "ymddwyn," "ymddygiad," y dull y mae dyn yn dwyn neu yn cario ei hun. Pan chwilir i hanes y gair Groeg, cawn mai un iweddar ydyw yn yr iaith hono, wedi ei eni yn mywyd prysur dynion dinasoedd poblog, oddiwrth ymsymud ol a blaen—eu hymdro.* Agos iawn yw syniad a ffigiwr y gair tarawiadol hwn yn y Gymraeg a'r Groeg, ac ynddo desgrifir yr holl fywyd diflino gynt cyn i Grist orchfygu. Nid yr un gair na'r un meddwl sydd yn Phil. iii. 20, "canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd."

Yn y grefydd Iuddewig.—Ni cheir y gair a gyfieithir fel hyn ond yn y ddwy adnod yma; golyga ddyseidiaeth a thraddodiadau, yn ogystal a defodau addoliad yr Iuddew, a safai yr enw Iuddewiaeth yn foreu am hyn, yn neilldu i mewn gwrthgyferbyniad i grefydd Crist.

Erlid ac anrheithio.—Trwy erlid yr oedd yn anrheithio, hyn yw, yn ceisio dinystrio. Hwyrach fod y ddau air a ddefnyddir ganddo am dano ei hun, yn 1 Tim. i. 13, yn cyfateb i'r rhai hyn, "yr hwn oeddwn o'r blaen yn erlidwr ac yn drahaus."

14. **Ac i mi gynyddu yn y grefydd Iuddewig.**—Wrth sylwi ar y geiriau nesaf, "gan fod yn fwy zelog dros draddodiadau y tadau," gellir casglu mai nid cynydd mewn gwybodaeth yn unig a feddylir yma, ond cynydd

* Felly y ceir, gyda'r un meddwl, y Lladin *conversatio*, a'r Saesneg deilliedig o o hono, *conversation*, yn ei hen ystyr.

grefydd Iuddewig yn fwy
na llawer o'm cyfoedion yn
fy nghenedl, gan fod yn fwy
zelog dros draddodiadau fy
15 nhadau. Eithr pan welodd

ewig yn fwy na llawer o'm
cyfoedion yn fy nghenedl fy
hun, gan fod yn fwy awydd-
us i draddodiadau fy nhad-
au. Ond pan welodd Duw 15

hefyd mewn ymroad i fyw wrth y ddeddf, i fod yn ol y cyfiawnder sydd ynddi hi yn ddiargyhoedd, yn aiddgar hefyd trosti, tuhwnt i'r gwyr ieuainc eraill o Iuddewon oedd yn Jerusalem.

Yn fy nghenedl.—Defnyddir y gair a gyfieithir yma "cenedl" gan Josephus am "sect," ac nid anghymwys iawn a fuasai "fy nghyfoedion yn fy sect;" eto, yn ol ystyr arferol y gair, gwell cadw at "genedl."

Gan fod yn fwy zelog dros draddodiadau y tadau.—Ar un olwg yr oedd y cyfnewidiad dwfn a ddaeth yn hanes Paul yn fwy yn nglyn a'r rhai hyn nag yn nglyn a'r ddeddf ddwyfol ei hun, gan mai ynddynt hwy yr oedd, yn arbenig, y pethau a "gyfrifai yn elw" iddo. Ar ol y dychweliad o Babilon, cododd a chynyddodd yn mysg yr Iuddewon zel newydd dros y gyfraith: dangosai hwn ei hun mewn ymgais newydd i'w hegluro a chadarnhau ei hordeiniadau trwy fanylach gyfarwyddiadau am y modd perffeithiaf i'w chadw. Mewn amser codai dynion newydd, yn ngrym y cynhyrfiad hwn, i fod yn athrawon yn lle yr offeiriad; daeth nifer mawr, hefyd, o'r genedl i gael eu llanw â brwdfrydedd tanbaid dros yr eglurhadaeth newydd, a'r un modd dros y rheolau deddfol newydd o fanyldeb. Y rhai cyntaf oedd yr Ysgrifenyddion, a'r olaf y Phariseaid. Pobl y ddeddf oeddynt, nid fel deddf Moses yn unig, ond y ddeddf yn ngoleuni yr addysg newydd gynyddol. I Ezra y priodolir cychwyn yr hyn oedd yn sicr ar y cyntaf yn ddiwygiad grymus—"cansys Ezra a baratoisai ei galon i geisio cyfraith yr Arglwydd, ac i'w gwneuthur, ac i ddysgu yn Israel ddeddfau a barnedigaethau," Ezra vii. 10; Neh. viii. 4. Cynyddodd yr ysbryd hwn yn ysbryd ymchwiliad i'r Ysgrifthyrau, ond yn neillduol i'r ddeddf, er mwyn dwyn allan "ddeddfau a barnedigaethau" cymhwys i fywyd newydd y genedl. Casglwyd mewn amser ystor fawr anferth o reolau er cyfarwyddo dyn i arwain bywyd hollol unol a'r ddeddf. Yn raddol daeth arferion newydd, wedi eu geni o'r awydd i fyw yn unol a hi, i sefydlogrwydd mawr a sylw parchus crefyddol, er heb eu gorchymyn yn ffurfiol yn y Pum' Llyfr. Cedwid y cyfarwyddiadau i hyn, a threfnid y rheolau nes iddynt enill ffurf sefydlog yn yr addysg a gyfrenid "wrth draed" athrawon o'r ddeddf, eto ar lafar yn unig. Fel hyn yr oedd yn Israel megys dwy ddeddf, y naill yn ysgrifenedig yn yr Ysgrifthyrau, y llall yn cynwys dosbarthiad ar fywyd Iuddew crefyddol, a chyfarwyddiadau at fod yn wir grefyddol, yn cael eu cludo o enau i enau gan genhedlaethau o ddysgawdwy. Dyma "y traddodiadau." Gorchymynai y ddeddf, er engraffft, gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath, ond yn ol rheolau manwl y Mishna yr oeddidi yn ei sancteiddio. Trwy amllder a manylder y rhai hyn ciliaasai, mewn amser, anhawsder y ddeddf o'r lle y dylai fod, o'i hysbrydolrwydd, gan ymlechu fef anhawsder newydd mewn ordeiniadau. Oddiyno tarddodd syniad newydd o gyfiawnder heb ystyr ysbrydol, ac yn nghyraedd dyn ei enill. Zelog dros y rhai hyn oedd dysgybl Gamaliel, ac ynddynt hwy y cynwysid y pethau a gyfrifwyd ganddo yn golled er mwyn Crist.

Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam ac a'm galwodd trwy ei ras, ddadguddio ei Fab yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac a'm galwodd i trwy ei ras, i ddadguddio ei Fab ef 16

16. val y byddei y my y euangelu ef ymplith y cenhethloedd.....nyd ymchwedleyais a chrawt a gwaed.—W. S. i ddatguddio ei Fab ef trwof fiyn gyflym nid ymgynghorais a chig a gwaed.—M.

15. Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd.—Col. i. 19, "ryngodd bodd." Mae y gair a'i gyfeiriad at gyngor Duw, at weithrediad ei ewylllys yn rheoli y byd, agos yn yr un ystyr a phe dywedasad, "pan benderfynodd Duw;" felly nid tiriondeb ei Dduw tuag ato sydd yn arbenig o flaen meddwl yr apostol. Mae Hofmann, yn gywrain a tharawriadol, yn cysylltu y geiriau nesaf yn wahanol i'r cyffredin,—“Pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam ac a'm galwodd, trwy ei ras ddadguddio ei Fab ynof fi,”—gan edrych ar y neillduo a'r galw yn un weithred a wnaed arno o'r groth. Ond wrth gcfio ystyr gyffredin y gair *galw*, yn enwedig yn y geiriau “wedi ei alw i fod yn apostol, wedi ei neillduo i efengyl Duw” (Rhuf. i. 1), tueddir ni i dderbyn yn sicr yr eglurhad cyffredin fod y gair yma yn golygu naill ai ei alwad trwy ras ar y ffordd i fod yn Gristion, neu ei alwad, hefyd trwy ras, wedi hyny i'r swydd apostolaidd. Mae ymadroddion fel “trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf” (1 Cor. xv. 10), “i mi.....y rhoddwyd y gras hwn i efengylu” (Eph. iii. 8), yn cysylltu y ddwy alwad â gras Duw. Eto, gan mai desgrifiad o Dduw yn ei berthynas a'i hares ef ei hun fel apo:tol ac efengyllydd sydd gan Paul yn y ddau ymadrodd,—*a'm neillduodd, a'm galwodd*,—mwy naturiol yw meddwl mai yr alwad i fod yn apostol sydd yma. Ni wyr neb pa bryd y bu hyny; gwyddom ei fod cyn y neillduad a fu yn eglwys Antiochia (Actau xiii. 2), ond nid yw amser gorphenol y fef yma, *a'm galwodd*, yn penderfynu dim, gan mai o'i safle bresenol, tra yn ysgrifenu y llythyr hwn, y defnyddia yr apostol yr amser hwnw.

16. Ddadguddio ei Fab ynof fi.—Ceir y golygiadau a ganlyn ar y frawddeg hon,—1. Dadguddio ei Fab ynof fi i eraill, gan gymeryd *ynof fi* felly yn gyfystyr a *trwof fi*. “Trwof fi” yw cyfieithiad Dr. Morgan yn Meibl 1588, a dyma farn Dr. Lightfoot. Ond y mae yn anhawdd gweled pa fodd y gallai hyny fod yn sail i'r weithred nesaf, “yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed.” Nid yw y gair ychwaith yn ymddangos o'r un cyfeiriad a'r geiriau a ddyfynir gan Lightfoot i gadarnhau y meddwl yma, “hwy a ogoneddasant Dduw ynof fi,” adn. 24, nac yn gyffelyb i 1 Tim. i. 16, “fel y dangosai Iesu Grist ynof fi yn gyntaf bob hirodder er esiampl.” 2. Ynof fi, yn yr ystyr “o'm mewn i,” yn fy enaid i,—dadguddiwyd Mab Duw i lygaid ei feddwl yn y dyn oddimewn. O ddeall y geiriau fel hyn, mae y penderfyniad i beidio ymgynghori â chig a gwaed yn dyfod i mewn yn naturiol. Hyn hefyd, o ran sylwedd, yw y meddwl a roddir gan eraill a ddywedant fod *ynof fi* yr un ag “i mi.” Yr oedd y weledigaeth nefol yn nghyffiniau Damascus yn fwy na'r goleuni tanbaid a lewyrchodd o'i amgylch,—o fewn yr oedd ei phrif waith yn agor llygaid y meddwl. Eto dechreu oedd hyd yn nod hyn ar ddadguddio parhaol, ac yn niwedd ei oes uchaf ddyhead y gwr hwn oedd, “y'm cair ynddo ef, fel yr adnabyddwyf ef.”

ynof fi, fel yr efengylwn ef
yn mhlith y cenhedloedd,
yn y fan nid ymgynghorais
17 â chig a gwaed, nid aethum

ynof fi, fel y pregethwn ef
yn mhlith y cenhedloedd;
yn y fan nid ymgynghorais
â chig a gwaed; ac nid euth- 17

Fel yr efengylwn ef yn mysg y Cenhedloedd.—Dyma yr unig ddyben i'r dadguddio ag yr oedd angen ei enwi yn y fan hon. Dywedasai yr Arglwydd wrth Ananias am Paul, "Y mae hwn yn llestr etholedig i mi, i ddwyn fy enw gerbron y cenhedloedd" (Actau ix. 15), ac y mae adroddiad yr apostol o eiriau Ananias (Act. xxii. 15) yn dangos fod y gwr da hwnw wedi penderfynu hysbysu iddo, mewn rhan o leiaf, fwriad y nef. Yn y geiriau hyn mae Paul yn cario efengyleiddiad y cenhedloedd,—ac yn hyny ei ffordd ei hun o efengylu iddynt,—yn ol at fwriad Duw.

Yn y fan.—Mae y gair yn sefyll ar wyneb cyntaf y frawddeg. Dywed amryw ei fod yn perthyn i'r holl adran ddilynol, y rhan gadarnhaol fel yr un nacaol—yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed, yn y fan nid aethum i fyny i Jerusalem, yn y fan mi a ymadewais i Arabia. Ond os gellir deall fod yr apostol yn dweyd iddo *yn y fan* ymado i Arabia, mae y fath air yn hollol anghywys gyda'r rhan nesaf, "A thrachefn, yn y fan, y dychwelais i Damascus." Yn ol llyfr yr Actau, nid aeth "yn y fan" o Damascus mwy nag y *dychwelodd* iddi "yn y fan." Wrth ddweyd "Nid aethum *ychwaith* i fyny i Jerusalem," awgrymir peth newydd, a chredwn fod y frawddeg hon hefyd i'w chau allan fel un nad oes a wnelo *yn y fan* a hi. Un peth felly a fu yn ddiatreg, y penderfyniad a droes holl frwd ei oes, nad ymgynghorai â chig a gwaed, a chanlyniad hyn yw y pethau eraill a nodir.

Nid ymgynghorais a chig a gwaed.—Nid y peth a ddysgwyliaisid a fu. Mae yflawnder yr hyn a ddywedir yma mewn dwy ffordd—*nid ymgynghorais* â dynion, *nid aethum* i fyny i Jerusalem, *ona* mi a ymadewais i Arabia unig, &c., yn gosod argraff ddofn ar y meddwl na allai efengyl y fath wr fod yn ddynol nac wedi ei dysgu iddo gan ddyn. Yn ddiatreg wedi i Dduw ddadguddio ei Fab yn fy enaid, teimlais rym, gwelais ystyr, yr uchel alwad oedd yn y dadguddiad, ac o'r foment hono sefais fy hunan yn annibynol ar bob dyn. Yr oedd y dadguddiad ei hun yn ddigon. Naturiol yw meddwl fod *cig a gwaed* yma yn yr un ystyr ag yn ngeiriau Crist i Pedr, "Nid cig a gwaed a ddadguddicodd hyn i ti" (Math. xvi. 17), ac ystyr y ferf yw, cario ein hun at rywun gyda'r bwriad o ymgynghori âg ef, felly daw yn syml hefyd yn yr ystyr o "ymgynghori." Nid ydym, yn ol hyn, i ddeall yma ymatal oddiwrth ymgynghori a'i deimladau ei hun, a llawer llai ymgadw rhag ymgynghori a'r apostolion eraill yn arbenig, ond yn syml "nid ymgynghorais â dyn o gwbl, yn enwedig gan fod "cig a gwaed" yn cynwys y meddwl o ddynoliaeth yn ei gwendid a'i hanmherffeithrwydd. Arhosodd yr apostol am amser yn Damascus (Actau xi. 19), a'r dysgyblion yno hwyrach, rhai fel Ananias, "gwr defosiynol yn ol y ddeddf, ac iddo air da gan yr Iuddewon oll, a'r rhai oedd yn preswyllo yno," sydd fwyaf arbenig yn ei feddwl yma, fel rhai nid ymgynghorodd â hwy.

17. **Nid aethum ychwaith i fyny i Jerusalem.**—Yn ol y darlleniad goreu yma yr ydys yn newid "dychwelyd" i "myned i fyny." Dyma y cam cyntaf a godai o'r argyhceddiad nêd oedd angen iddo ymgynghori â dynion; o ddynion oll, yr apostolion oedd y rhai cyntaf y buasai yn awyddus i ymgynghori â hwy, a chael ei addysgu ganddynt. Trwy gysylltu y geiriau

ychwaith i fyny i Jerusalem at y rhai oedd o'm blaen i yn apostolion, ond mi a ymadewais i Arabia, a dychwelais drachefn i Damascus. Yna ar ol tair blynedd yr aethum i fyny i Jerusalem

um yn fy ol i Jerusalem at y rhai oedd o'm blaen i yn apostolion; ond mi a euthum i Arabia, a thrachefn y dychwelais i Damascus. Yna ar ol tair blynedd y daethum yn fy ol i Jerusal-

17. a ddychwelais eilwaith i Ddamascus.—M.

18. y daethym drachefn i Caerusalem.—W. S. y daethym yn fy ol i Ierusalem. - M.

nesaf am ei ymadawiad i Arabia â'r ymadrodd "yn y fan," ac a'r geiriau "fel yr efengylwn ef yn mhlith y cenedloedd," dywed Meyer ac eraill mai ei amcan yn ymado i Arabia oedd i ddechreu heb oedi yno, yn mysg yr Arabiaid, ar y gwaith o efengylu. Ond ar ol ei ymweliad â Jerusalem, yn ol adnod 21, y dechreuodd ar y gwaith hwnw. Mwy cyson yw meddwl iddo, wedi cyffro y dwfn gyfnewidiad yr aethai drwyddo, gilio i ddystawrwydd ac unigedd, i ddyfnhau yn ei ysbryd argraffiadau newydd y dadguddiad. Nid oedd Arabia bell iawn o Damascus, gan y gelwid y rhandir i'r de-ddwyrain, Aurantis, wrth yr enw hwn, Feallai i dymor byr o bregethu tanbaid—"ac yn ebrwydd yn y synagog efe a bregethodd Grist, mai efe yw Mab Duw" (Actau ix. 20)—ei argyhoeddi ef, fel ei gyfaill Apolos yn ddiweddarach, fod arno angen dysgu iddo ffordd Duw yn fanylach. Cafodd hyny, medd rhai, yn ystod dwy flynedd o amser, ond nid oes ddigon o hysbysrwydd i neb anturio dyfalu hyd y tymhor.

A dychwelais drachefn i Damascus.—Awgryma y geiriau hyn yn y fan hon, gan mai yma yr enwir Damascus gyntaf, fod y Galatiaid, megys y "clywsent am ei ymarweddiant gynt" fel Iuddew, wedi clywed yn mhellach mai yn gyfagos i'r ddinas hono y bu ei droedigaeth.

18. Yna ar ol tair blynedd yr aethum i fyny.—Mae ein cyfieithwyr ni wedi dilyn Erasmus, Beza, a Calfin, trwy gyfieithu "daethum drachefn, neu, yn ol i Jerusalem."* Nid yw hwn yn cael ei roddi o gwbl yn Ngeiriadur Grimm fel ystyr y ferf, a'r meddwl yn gyffredin yw "myned i fyny," Yr oedd Jerusalem yn brif ddinas, ac yn mynydd d'r Judea, priodol felly y dywedir myned i fyny am fyned yno. Dyma ymweliad cyntaf Paul a'r brif ddinas, yr un y cawn ei hanes yn Actau ix. 26, &c. O Damascus y mae yn myned i fyny yn ol y ddau hanes, ac nid oes dim gwir anghysondeb rhwng y "tair blynedd" a enwir yma, a'r "llawer o ddyddiau" sydd yn yr Actau.† Ond pe gwrthodid hyn, mae ffordd arall deg iawn, i'm meddwl i, o egluro yr anghysondeb ymddangosiadcl. Darllener y pedair adnod Act. ix. 23—26, gwelir y gall y geiriau, "ac fel yr cedd llawer o ddyddiau yn cael eu cyflawni," gyfeirio yn unig at yr amser cyn ymadawiad Paul o

* *Redii Hierosolyman*, sydd gan y tri.

† Ystyr lythyrenol y gair a gyfieithir yma "llawer" yw "digon." Cawn ef yn yn Luc vii. 32, "censaint o foch ddigon," y rhai oeddynt yn ol Marc v. 13, "tua dwy fil." Mae "dyddiau ddigon" (llawer) gan Luc yn gyfystyr a "talm o amser," Act. viii. 11., "amser mawr," xiv. 3, ac mewn amryw fanau nid yw "dyddiau" yn cael ei arfer gan Luc yn ystyr gyffredin y gair, ond am amseroedd—diwrnodiau, megys "yn nyddiau Herod," Luc i. 5, gwel Actau xv. 7.—*Zimmer*.

i ymweled â Chephas, ac a arhosais gydag ef bymtheng
19 niwrnod. Eithr neb arall
o'r apostolion nis gwelais,
ond Iago brawd yr Arglwydd,

em i ymweled â Phedr; ac a arhosais gydag ef bymtheng
niwrnod. Eithr neb arall 19
o'r apostolion nis gwelais,
ond Iago brawd yr Arg-

Damascus y tro cyntaf i Arabia; yna, gan nad oedd y myned ymaith i Arabia a'r dychweliad i Damascus yn bwysig i Luc fel ysgrifenydd hanes yr eglwys, er eu bod felly i Paul o ran y pwrpas sydd iddo yma, mae yn syml yn eu gadael allan. Hawdd yw meddwl am gyfwnig o amser rhwng adn. 25 ac adn. 26 yn cyfateb i'r adeg y bu Paul yn Arabia ac eilwaith yn Damascus. Amcan Luc yw desgrifio yr hyn a gymerodd le yn Jerusalem, gan mai hon oedd y ffaith bwysig nesaf iddo ef ar ol yr ymadawiad cyntaf o Damascus. Amcan Paul, o'r tu arall, yw dangos y modd y bu y dadganiad a gawsai yn ddigon i wneyd hyfforddiad oddiwrth ddynion yn ddiangenrhaid. Nid ydym dan un orfodaeth i gydnabod anghysondeb yn y ddau hanes ond yr un ymddangosiadol sydd yn tarddu o fod y ddau o angenrheidrwydd yn rhy fyr i fod yn gyflawn. Cyson hollol oedd i'r apostol, serch teimlo yn annibynol, "ymwasgu â'r dysgyblion," fel yr adroddir am dano yn Act. ix. 26: mae annibyniaeth gywir ddiymhongar yn ddigon awyddus am gymundeb âg aneidiau eraill pan ddelo cyfleusdra.

I ymweled a Chephas.—Bron na allem gyfieithu "i ymgydnabyddu a Chephas." Mae tarddiad y ferf o wreiddyn a arwydda "gweled," ac y mae iddi ddwy ystyr yn yr arfer gyffredin o honi—(1) gwybod, (2) ceisio gwybod. Ymgydnabyddu â Phedr ei hun oedd amcan Paul, er nad yw hyn yn cau allan ei fod hefyd trwy Pedr am ymgydnabyddu yn helaethach â hanes y Gwaredwr ac âg athrawiaeth yr efengyl. Ond nid hyn y ddywedir yma. **Pymtheng niwrnod.**—Amser byr o'i gymharu a'r tair blynedd oedd eisoes wedi treiglo drosto fel un yn Nghrist, ac fel efengyllydd.

19. Eithr neb arall o'r apostolion nis gwelais.—Nid yw y geiriau *nis gwelais* mewn un modd yn golygu fod Paul wedi osgoi gwelyd y lleill: gallwn gasglu, fel y gwelir yn mhellach, iddo ymweled unwaith â Jerusalem heb weled neb o'r apostolion. Nid oedd gwr a geisiai Pedr yn debyg o osgoi y lleill, a gallai Ioan a'r lleill yn hawdd fod yn absenol yr adeg hon gyda'r gwaith o efengylu.

Iago brawd yr Arglwydd.—(1) A yw hwn yr un ag Iago fab Alpheus, brawd yr Arglwydd heb fod felly yn ystyr fanol y gair, fel mab i Mair? (2) Ai mab i Mair ydoedd, a gwir frawd felly i'r Arglwydd Iesu, heb gredu ynddo yn ystod ei fywyd (Math. xii. 46; xiii. 55; Marc vi. 3), ond wedi yr adgyfodiad i'w gael gyda'r apostolion (Actau i. 14)? (3) Ai yr un ydoedd a'r Iago a enwir yn ii. 9, 12? Nid yw y ffaith ei fod yma yn cael ei gyfrif fel apostol o gwbl yn galw arnom i'w gyfrif yn mhlith 'y deuddeg,' gan fod i'r gair hwnw weithiau ystyr eang yn cynwys y fath rai a Barnabas, Act. xiv. 4, 14. Yn yr ystyr eang hon i'r gair *apostol*, rhaid deall, yn ol yr hyn a ddywed Paul yma, eiriau llyfr yr Actau am Barnabas, "ac a'i dug at yr apostolion," ix. 27. Wrth ystyried hyn, ac yn wyneb yr ymadrodd eglur *brawd yr Arglwydd*, a chan fod i Mair amryw blant (Marc vi. 3), annaturiol yw mynu cael Iago fab Alpheus yn yr Iago a enwir yma. Nid tebyg yw, yn ol yr hanes am farwolaeth led foreu Iago brawd Ioan mai efe a gyfrifir yn un o'r colofnau yn ii. 9, nac ychwaith mai oddiwrtho ef y daeth rhai i Antiochia, ii. 12. Un

20 Ac am y pethau yr wyf yn eu lwydd. A'r pethau yr wyf 20
 hysgrifenu atoch, wele, ger yn eu hysgrifenu atoch,
 bron Duw nad wyf yn dy- wele, gerbron Duw, nad wyf
 21 wedyd celwydd. Yna y yn dywedyd celwydd. Wedi 21
 daethum i dueddau Syria a hyny y deuthum i wledydd

20. *Nachaf vi yn testiolaethu* geir bron Duw.—W. S. Beholde *I witness* before God.—Gen. Wele, gerbron Duw, nid wyf. M.

21. I dueddae Siria a Cilicia.—W. S. I derfynau.—M.

Iago sydd genym felly yn y llythyr hwn, un oedd mae'n wir gyda'r deuddeg ac yn apostol eto nad o'u rhif hwy, brawd yr Arglwydd ganedig o Mair. Cysylltir yr Iago yma, gan draddodiad boreu iawn, â'r eglwys yn Jerusalem.

20. **Wele gerbron Duw nad wyf yn dywedyd celwydd.**—Ymddengys y geiriau hyn i mi yn rhy gryf os amcan yr apostol, fel y dywed Meyer ac amryw o'r Almaenwyr, yw tystio ei annibyniaeth ar yr apostolion eraill. Ond wrth ddangos leied o gyfleusderau a gafodd i fod yn nghwmni yr apostolion, y rhai allent fwyaf o bawb ei gynorthwyo, dengys hefyd mor briodol oedd ei eiriau ar y cyntaf—nad oedd ei efengyl yn ol dyn, nas cafodd hi o law dyn, ac mai nid dyn a'i dysgodd ynddi. Ymddengys syniad Calvin yn deg iawn, fod y dull difrifol hwn o wneyd Duw yn dyst yn cyfeirio at yr oll a ddywedasai o adn. 11 hyd adn. 19.

21. **Yna y daethum.**—Wrth gymharu yr hanes sydd yma â'r un sydd yn Actau ix. 30, mae y lleoedd a enwir rhwng y ddau yn dri mewn nifer—Cesarea, Syria, Cilicia. Yr oedd dwy Cesarea, y naill ar fin y môr, ac yn cael ei galw Cesarea Stratonis, a'r llall—Cesarea Philippi—yn mbell i'r gogledd yn nghanolbarth y wlad, ac i gyfeiriad Damascus. Y gyntaf, yn ddiau, yw Cesarea Luc, fel y prawf y geiriau "dygasent ef *i waered* i Cesarea," sef i ddinas borthladdol. Yn ngogledd Palestina yr oedd talaeth Syria gyda'i phrif ddinas Antiochia, ac yn ymestyn hyd derfynau Cilicia, prif ddinas yr hon oedd Tarsus. Dengys y ddwy golofn isod ymdaith Paul yn ol y ddau adroddiad:—

Actau ix. 30.

Jerusalem.
 Cesarea (Stratonis)
 Tarsus (h.y. Cilicia).

Galatiaid i. 21.

Jerusalem.
 Syria.
 Cilicia (gan gynewys Tarsus).

Gan mai Tarsus oedd y man y cyrchid iddo, gellir dweyd fod Luc wedi gadael allan Syria, oedd ar y ffordd yno, os tybiwn mai ar hyd y tir y teithiai yr apostol, a Paul yma wedi gadael Cesarea heb ei henwi. Eto, prin y teimlwn fod angen y fath "gysoni," gan nad oes un alwad arnom i gyfyngu y myned i dueddau Syria a Cilicia i'r daith arbenig a ddesgrifir yn llyfr yr Actau. Ar wyneb yr hanes yno, ymddengys i Paul fyned i waered i borthladd Cesarea, a hwylio oddiyno dros y môr i arfordir Cilicia, gan gyraedd Tarsus. Ar ol hyny y bu y tramwy a enwir yma, gan ddechreu pan yr "aeth Barnabas i Tarsus i geisio Saul ac a'i dug i Antiochia, yr hon oedd yn Syria." I deimlad yr apostol yn awr, y ffaith fawr nesaf yn ei hanes, wrth draethu am natur yr efengyl a ymddiriedasid iddo, oedd, nid y ffoedigaeth frysiog, pryd yr oedd yn cael "ei ddwyn" gan y brodyr i Cesarea, a'i "anfon ymaith" i Tarsus, ond y blynyddoedd y

22 Cilicia ; ac yr oeddwn heb
fy adnabod wrth fy wyneb i
eglwysi Judea, y rhai sydd
23 yn Nghrist, ond yn unig
hwy a glywent, " Mae yr
hwnoedd gynt yn ein herlid
ni yn awr yn efengylu y
ffydd yr hon gynt a an-

Syria a Cilicia ; ac yr oedd- 22
wn heb fy adnabod wrth fy
wyneb yn eglwysi Judea y
rhai oedd yn Nghrist : ond 23
yn unig hwy a glywsent, fod
yr hwn oedd gynt yn ein
herlid ni, yr awrhon yn pre-
gethu y ffydd, yr hon gynt

22 Can ys ni'm adwaenit wrth wynep gan ecclesidd Judaia.—W. S. Canys ni'm adwaenid.....yn eglwysi yr Iuddewon.—M. For I was unknown.—Gen.

23 Eithr clywed a wnaethent wy yn unic, rei *yu ddywedyt*.—W. S. Heard only some say.—Gen. Audierant *qui discerent*.—Beza. Hic rumor apud illos erat.—Calvin.

Am danaf.—W. S. O'm plegit i.—M. For me.—Gen. De me.—Beza.

dechreuodd bregethu i'r cenedloedd, yr hyn a fu yn arbenig yn Syria (Antiochia) a Cilicia (Tarsus a Seleucia, Actau xiii. 4.) Dengys adn. 23, lle y sonir am yr hanes fod yr hwn oedd gynt yn erlid yn awr yn pregethu, mai dyna oedd ei ddyben yn myned i Syria a Cilicia, yr hyn sydd eto yn mhellach yn cryfhau y peth a ddywedwyd mai nid at y ffoedigaeth frysiog, a ddesgrifir yn yr Actau, y cyfeirir yn y geiriau "daethum i dueddau Syria a Cilicia." Hwn oedd y tymor y dechreuodd " mawr afiaeth " yr ymdeimlad fod ganddo efengyl nad oedd ei tharddiad na'i math yn ddynol, a chan mai yn Syria y bu hyny, nid rhyfedd iddo yma enwi y wlad hono, a'i henwi yn gyntaf.

22. **Ac yr oeddwn heb fy adnabod.**—Tra yn Syria a Cilicia yn efengylu yr oeddwn yn anadnabyddus i eglwysi Judea; eglwys Jerusalem yn unig, wedi pymthegnos o arhosiad, a allasai ei adnabod wrth ei wyneb. Yr oedd eglwysi Judea, lle yr oedd dysgyblion uniongyrchol yr apostolion, heb un berthynas a'r efengylu hwn yn mhlith y cenedloedd, ond wrth ogoneddu Duw yn mherson y pregethwr, dangosent nad oedd y gwaith yn anghymeradwy ganddynt, a'u hargyhoeddiad fod llafur a ddechreusai yn annibynol arnynt hwy, o Dduw. Gwelwn oddiwrth y geiriad, " yr *oeddwn* yn anadnabyddus," " yr *oeddynt* yn clywed," mai yr efengylu yn Syria a Cilicia sydd benaf yn meddlw yr apostol, ac iddo barhau am dymor nid bychan. Yr oedd Paul yn adnabyddus yn Jerusalem, ac wrth y son am dano, yn y parthau cylchynol, ond nid " wrth y wyneb," a phan ddarllenom ymadroddion fel " aeth allan ato ef Jerusalem a holl Judea," Mth. iii. 5; " Judea a Jerusalem," Luc vi. 17; nid oes un angenrhaid arnom yma i gynnwys Jerusalem yn mhlith eglwysi Judea.

23. **Yn unig hwy a glywent.**....—Hyn oedd y siarad gwlad; yr oedd y si yn eu plith, fel y dywed Calvin. Gwell cymeryd y geiriau fel y peth a ddywedid, heb y ffurf anuniongyrchol o ymadroddi trwy ddefnyddio y gair " fod "; yn y geiriau hyn y mynegid y newydd da gan rai a ddeuent o Syria i Judea—" mae yr hwn oedd unwaith yn ein herlid ni, yn awr yn efengylu y ffydd." Rhaid cyfaddef y *gall* y geiriau gyfeirio at ei " lefaru yn hyf yn enw yr Arglwydd Iesu pan yn Jerusalem," Actau ix. 29.

Y ffydd.—Yr efengyl, fel yn ii. 2, " yr efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu;" felly y defnyddir yr enw 'y credinwyr' am y rhai a'i proffesant.

24 rheithiai;" a hwy a ogoneddent Dduw ynof fi. a anrheithiasai. A hwy a 24 ogoneddasant Dduw ynof fi.

II. 1 Yna ar ol pedair blynedd ar ddeg yr aethum dra- Yna wedi pedair blynedd II. 1 ar ddeg yr euthum

24. **A hwy a ogoneddent Dduw ynof fi.**—Diau fod Beza (*de me*) wedi arwain y tri chyfieithiad—"am danaf" gan W. S., "o'm plegit," gan Morgan, a "for me" yn Meibl Geneva, i eiriad goddefol fel eglurhad neu arall-eiriad o'r llythrenol "ynof fi." Eto mae rhywbeth ychwaneg yn y gair "ynof fi"; gwelent yn y dyn yma a gawsai ras, ag oedd yn awr yn eofn yn pregethu y ffydd a anrheithiai gynt, achos i ogoneddu Duw. Diâu mai llais dyfnaf teimlad yr apostol ei hun, fel hwythau oedd, "Nid i ni, nid i ni, O Arglywydd; ond i'th enw dy hun dod ogoniant."

PENNOD II.

B. MAE YR EFENGYL FEL UN YN CYNWYS RHYDDID Y CENHEDLOEDD ODDIWRTH YR ENWAEDIAD WEDI EI CHYDNABOD GAN YR APOSTOLION AC ERAILL YN JERUSALEM, ii. 1—10.

1. **Yna ar ol pedair blynedd ar ddeg....**—Da fyddai ymholi yn nghylch *amcan* yr apostol yn cofnodi yr hanes hwn. Dywedir gan rai mai yr un amcan sydd ganddo yma ag oedd ganddo yn y benod o'r blaen, yn son am ei ymweliad cyntaf â Jerusalem. Wrth ddweyd felly, gosodir arbenigrwydd ar yr amcan o du yr apostol i brofi ei annibyniaeth ar y rhai oedd o'i yn flaen apostolion. Ymddengys i mi fod yma amcan newydd a gwahanol hollol. Wrth adrodd ffeithiau ei fywyd, yn y benod gyntaf, dengys yr apostol nad oedd wedi derbyn ei efengyl gan ddyn, nad oedd hyd yn nod y rhai tebycaf a mwyaf cymhwys i wneyd hyn wedi cael cyfleusderau i'w hyfforddi ynddi; oddiwrth Dduw y cawsai hi. Ond yma, ei ddyben yw dangos fod yr eglwys yn Jerusalem a'r apostolion penaf wedi *cydnabod* yr efengyl a bregethasai i'r Cenhedloedd, a bod rhyddid oddiwrth arwydd yr enwaediad a chadwraeth y ddeddf wedi ei gadarnhau yn y cydnabod hwnw.

Wrth chwilio i hanes yr ymweliadau hyn â Jerusalem, mae yn deg dweyd, os bu ymweliad â Jerusalem *ag oedd a dyben arall iddo* cyn pen y pedair blynedd ar ddeg; os aeth Paul i fyny ar neges arall heblaw pwnc yr enwaediad ryw adeg *cyn* i ymryson a dadleu nid bychan yn nghylch y ddedf hono a'r ddeddf godi, ni fuasid o gwbl yn dysgwyl iddo enwi ymweliad felly yma. Mae yr amcan arbenig sydd ganddo yn cofhau yr un a goffheir yn peri y buasai cyfeirio o gwbl at y fath ymweliad hyd yn nod yn anfantais. Nid ydym, felly, i synu pe gadawai yr apostol y cyfryw ymweliad heb un gair am dani yma.

Cyfyd dau gwestiwn yma a ddylent gael sylw mor fanwl ag y gellir genym. (1) O ba amser y cyfrifir y pedair blynedd ar ddeg hyn? (2) Pa un o'r pum' ymweliad a goffheir yn llyfr Actau yw yr un a enwir yma?

Gyda golwg ar y cwestiwn *cyntaf*, gellir rhoddi, a rhoddir, dau atebiad. (a) Cyfrifir pedair blynedd ar ddeg o adeg troedigaeth yr apostol; (b) gwneir hyn y o amser ei ymweliad cyntaf â Jerusalem (Actau vii,

chefn i fyny i Jerusalem, gyda drachefn i fyny i Jerusalem
Barnabas, gan gymeryd Titus gyda Barnabas, gan gymeryd
2 hefyd gyda mi; ond mi a Titus hefyd gyda mi. Ac 2
aethum i fyny yn ol dad- mi a euthum i fyny yn ol

1. Yno ar ben pedair blynedd ar ddeg.—W. S. Yr aethym i fyny eilwaith,
—M.

18). Nid ymddengys fod y gair "drachefn" yn ffafrio dim ar y naill olygiad ragor y llall. Os cyfrifir o amser y troedigaeth hyd yr ymweliad cyntaf yn y pedair blynedd ar ddeg, gellir felly ddweyd "drachefn" wrth enwi y nesaf. Nid yw y gair newydd sydd yma am "gwedi" ychwaith yn penderfynu dim: ni wna y gair ond yn unig awgrymu cyfwng o amser a'r mynediad i Jerusalem yn ei ddiwedd, eto gallai y cyfwng ddechreu gyda'r troedigaeth fel gyda'r ymweliad cyntaf.

Wrth ddweyd "*yna*" dair gwaith, mae yr apostol yn awgrymu trefn, "a thrachefn y dychwelais i Damascus, *yna*, ar ol tair blynedd.....*yna* y daethum i dueddau Syria a Cilicia.....*yna* wedi pedair blynedd ar ddeg.....," sef pedair blynedd ar ddeg wedi ei ymadawiad i (nid ei arosiad yn) Syria a Cilicia, hyny yw, pedair blynedd ar ddeg ar ol ei ymweliad cyntaf a Jerusalem. Dyma y wedd fwyaf naturiol ar yr amser.

Gyda golwg ar yr *ail* gwestiwn—pa ymweliad yw hwn? dylem ddwyn i'n cof y pum' ymweliad a Jerusalem a goffheir yn llyfr yr Actau. Ceir eu hanes yn (1) ix. 26; (2) xi. 30; (3) xv. 4 &c.; (4) xviii. 22; (5) xxi. 17. O'r rhai yma nid oes ond yr ail, y drydedd a'r bedwaredd yn bosibl fel rhai y gellir eu hystyried yr un a enwir yn y benod hon. Mae anhawsderau dirfawr i dderbyn yr ail; nid oedd ond ychydig amser rhyngddi a'r gyntaf, ac ni ellir yn sicr, fel y ceisir, gyfeithu geiriau yr adnod hon i ddweyd "*yn ystod* pedair blynedd ar ddeg." Heblaw hyny, unig ddyben hono oedd anfon cymhorth i'r brodyr yn Judea, ac y mae lle da i feddwl nad oedd yr un o'r apostolion yn Jerusalem ar y pryd*. Nid oedd angen enwi y fath ymweliad yma. Dyben arbenig y drydedd ymweliad (Act. xv.) oedd cael barn yr apostolion a'r henuriaid yn Jerusalem ar y pwnc neillduol a gododd oddiwrth lwyddiant mawr gweinidogaeth Paul a Barnabas yn mysg y Cenhedloedd. A oedd raid i'r Cenhedloedd gael eu henwaedu a chadw deddf Moses er mwyn bod yn gadwedig? Dyma y cwestiwn a benderfynwyd yn ffafr Paul, a theg iawn y cesglir mai at yr adeg hon y cyfeirir yn yr adnodau hyn. Dadleua Wieseler yn gryf dros yr ymweliad yn Actau xviii. 21, 22.—y bedwaredd; ond teimlwn fod y pedair blynedd ar ddeg yn gwneyd hono yn rhy ddiweddar; ac heblaw hyny hefyd nid oes yn ei hanes, hyd y gwyddom, ddim yn cyffwrdd a phwnc y llythyr hwn. Yn ol Actau xi. 30, a xv. 2, yr oedd Barnabas gyda Paul y ddau dro, ond ni enwir Titus o gwbl gan Luc. Gall, er hyny, yn hawdd fod yn mhlith y "rhai eraill o honynt," oedd, fel y dywed yr hanes yn Actau xv. 2, yn cydymdeithio a'r ddau brif genad o Antiochia i Judea.

2. Yn ol dadguddiad.—Mae eglwys Antiochia, (Actau xv. 1,) oherwydd dyfod rhai o Judea a dysgu na ellid bod yn gadwedig heb gadw deddf Moses, yn ordeinio fyned o Paul a Barnabas at yr apostolion a'r henuriaid yn Jerusalem yn nghylch y mater hwn. Nid yw hyny yn anghyson â'r hyn a ddywed Paul mai yn ol dadguddiad yr aeth i fyny. Y peth mwy-

*Gwel y Rhagymadrodd.

guddiad, ac a fynegais iddynt yr efengyl yr hon yr wyf yn bregethu yn mhlith y Cenhedloedd, (ond o'r neilldu i'r rhai cyfrifol), rhag mewn un modd i mi redeg

dadguddiad, ac a fynegais iddynt yr efengyl yr hon yr wyf yn ei phregethu yn mhlith y Cenhedloedd; ond o'r neilldu i'r rhai cyfrifol, rhag mewn un modd fy mod yn

2. Ac a escendais gan ddatymguddiat ac a gyd esponiais ac wynt yr Euangel... eithr o'r nailltu gyd ar ei oedd yn bennaf rac mewn un modd y rhedwn, neu y rhedeswn yn ofer.—W.S. a thrwy weledigaeth yr aethym i fyny... ond yn ddirgel i'r rhai cymmeradwy.—M.

af naturiol fuasai iddo betruso, a bod yn llwyr anewyllysgar i oddef i'r fath gwestiwn pwysig gael ei wneyd yn destyn apêl. Eto, cyfarwyddwyd ef, fel y deallwn yma o'i enau ef ei hun, gan Dduw i gydsynio a myned.

Ac a fynegais iddynt.—Neu, a gyflwynais iddynt, sef “i'r eglwys a'r apostolion a'r henuriaid,” Actau xv. 4. Nid oedd yr apostolion yn honi, os oeddynt yn gwybod dim eu hunain, am eu “hawdurdod” i benderfynu pethau dyrus. Yr oeddynt yno yn y cyngor, ond heb y cyngor ni fyndent wneuthur dim. Mynegai Paul a Barnabas “yr holl bethau a wnaethai Duw gyda hwynt... pa arwyddion a rhyfeddodau eu maint a wnaethai Duw yn mhlith y Cenhedloedd trwyddynt hwy,” a'u dadl oedd, fel Pedr cyn hyny, fod effeithiau eu gweinidogaeth yn brawf o wirionedd yr hyn a ddysgent. Nid yw y ddau hanes, yr eiddo Luc a'r eiddo Paul, yn eu manylion heb anhawsderau, eto teimlwn yn gryf nad oes anghysondeb rhyngddynt. Mae gwahaniaeth pwysig yn safle y ddau ysgrifenydd. Ysgrifena Luc fel hanesydd eglwysig, ac er mai cenad eglwys Antiochia oedd Paul yn ei olwg ef, desgrifia yr un gwrthwynebiad egniol, penderfynol i'r blaid ddeddfol ag a welwn yn adroddiad Paul ei hun yma. O'r tu arall, ysgrifena Paul yn y llythyr hwn iel un oedd yn neillduol gyfrifol am efengyleiddiad y Cenhedloedd, ac oherwydd hyn mae ei ymddygiad ei hun a chanlyniadau hyny yn eu perthynas ag ef yn cael sylw arbenig ganddo.

Ond (mi a'i mynegais) o'r neilldu i'r rhai cyfrifol.—Ni sonir dim am hyn gan Luc, eto, gwelwn oddiwrth eiriau adn. 4, 5, 6, yn Actau xv. fod mwy nag un cyfarfod wedi ei gynal. Rhwng y rhai hyn, yn yr hamdden a geid o'r neilldu, mae synwyr da yr apostol yn ei arwain i geisio cyfleusdra i ymddyddan âg arweinwyr yr eglwys. Caent felly gyflawnach gwybodaeth o'r hyn a ddysgid wrth efengylu i'r Cenhedloedd. Yn adn. 4, mae Paul a Barnabas “yn mynegu yr holl bethau a wnaethai Duw gyda hwynt,” i'r eglwys a'r apostolion a'r henuriaid. Mewn cyfarfod arall, gwelwn hwy eilwaith yn gwneyd yr un peth, adn. 6, 12. Nid oes yn yr Actau, nac ychwaith yn yr epistol hwn, hyd y gwelaf fi, un awgrym o annhueddrwydd ar ran yr apostolion yn Jerusalem i gyd-weled â Paul a Barnabas yn eu dadl. Cyfyd yr holl rwystr oddiwrth “rai o sect y Phariseaid oedd yn credu” (Act. xv. 5.) ac yn ol adn. 4 yma, oddiwrth “y gau frodyr a ddygasid i mewn”—yr un rhai yn ddiau.

Rhag mewn un modd i mi redeg yn ofer.—Mae y gwahaniaeth mawr sydd yn eglurhad yr esbonwyr goreu o'r frawddeg hon yn troi ar ystyr y ddau air a gyfeithir “rhag mewn un modd.” Rhaid adde fod dau gyfeithiad yn bosibl o ran ffurf gramadeg. Mae Meyer a Hofmann yn mhlith

yn ofer, neu fod wedi rhedeg yn ofer, neu ddarfod
 3 rhedeg. Eithr hyd yn nod i mi redeg. Eithr Titus, er 3
 Titus, yr hwn *oedd* gyda mi, ac ei fod yn Roegwr, ni chym-

3 Cyd bei ef Groecwr ny chympellwyt yw enwaedu er yr oll ffeils vrod-
 er.—W. S. For all the false brethren.—Gen. Ni yrrwyd i'w enwaedu.—M.

yr esbonwyr, a Grimm yn ei Eirlyfr i'r Testament Groeg, ar y cyfan yn
 cytuno i gyfieithu fel hyn,—

Ac a osodais o'u blaen hwy yr efengyl yr wyf yn ei phregethu
 yn mhlith y cenedloedd, *gan ofyn*, "A oeddwn mewn rhyw
 fodd yn rhedeg yn ofer, neu wedi rhedeg?"

Gofyn-air, yn ol y dull hwn, sydd yma, ac y mae yn gyfryw ag i ddysgwyl
 ateb nacaol.* Ffordd arall o gyfieithu y mae Winer a Buttmann, y Gram-
 adegwyr, De Wette a Lightfoot, yr esbonwyr, o ran sylwedd yn un arno
 yw;—

Rhag, mewn un modd, fy mod yn rhedeg yn ofer, neu
 wedi rhedeg.

Yn ol y cyntaf gosodai yr apostol ei athrawiaeth o flaen yr apostolion a'r
 henuriaid, gan ofyn a cedd yn gyfryw ag y gellid dweyd fod ei rediad ynddi
 yn ofer, neu wedi bod felly, a chan awgrymu hefyd yn ffurf ei gwestiwn, pa
 ateb ddysgwyliaid ganddynt.* Dywedir gan y rhai a ddadleuant dros ddeall y
 geiriau fel hyn, fod yr apostol, os cymerir yr ail gyfieithiad, yn sylfaenu y cwesti-
 iwn a oedd ei rediad yn ofer *ar farn rhai eraill*. Os cyfieithiwn "rhag mewn
 un modd," mae hyn yn gosod y peth, meddir, i hongian ar farn yr apost-
 olion, yr hyn yn sicr ni wna Paul byth. Ond gellir rhoddi dau atebiad i
 hyn, (1) Yn ol arfer Paul yr oedd rhagfarnau yn bethau i wylled rhag idd-
 ynt gael cyfleustra i niweidio, felly *er mewn eraill*, rhag rhwystro llu o rai
 gweiniaid, cymerodd drafferth i eglurhau ei ddysgeidiaeth i'r apostolion yn
 Jerusalem, fel na byddai i'w waith yn mhlith y cyfryw o'r Iuddewon fod yn
 ofer. Ni fuasai ef ei hun byth yn ildio; yr cedd yn bwysig felly iddo gael
 nid yn unig yr apostolion, ond yr eglwys hefyd, a'r henuriaid yn Jerusalem
 yn *ffurfiol* o'i blaidd. (2) Gan i Paul—mewn ufudd-dod i'r weledigaeth—
 gydsynio i osod y peth o flaen yr apostolion, buasai dyfarniad yn ei erbyn
 ganddynt hwy yn sicr o wneyd ei waith yn ofer. Rhaid fuasai iddo ef ei hun
 ymstyng i'w barn hwy, fel y rhaid i bawb wedi cytuno i apel. Gwnaeth ei
 oreu, felly, mewn mynegu ei efengyl, rhag i'w waith yn mysg y cenedloedd
 fod yn ofer, trwy i'r apostolion, oherwydd grym yr ymosodiad, wahaniaethu
 oddiwrtho yn y cyngor. Ar y tir hwn, mae'n briodol dweyd fod y cwestiwn,
 a fyddai ei waith yn ofer ai peidio, yn gorphwys ar ddyfarniad y cyngor. Gwell,
 oherwydd y rhesymau uchod, yn ol fy marn i, yw yr ail gyfieithiad, ac ym-
 ddengys yn mhellach fod y geiriau yn cyfeirio, nid at y presenol, ond at y dy-
 fodol a'r gorphenol—rhag i mi (yn y dyfodol) redeg yn ofer, neu ddarfod i
 mi (yn y gorphenol) redeg felly; neu yn ol geiriad rhagorol W. S., "rhag y
 rhedwn neu y rhedaswn yn ofer."

* Yn Gymraeg dywedwn "Nid wyf, a wyf fi, yn rhedeg yn ofer?" Nid oes
 genym ni y fath ofyn-air ag sydd gan y Groeg yma.

efe yn Roegwr, nis gorfodwyd* hellwyd* chwaith i enwaedu

Yn y rhan hon mynegir canlyniadau y cyngor yn Jerusalem :—

(1) Yn nacaol (3—6).

(a) Ni orfodwyd Titus, oedd yn genedl-ddyn, i dderbyn enwaediad.

(b) Ni fu yno ddim ildio o'n tu ni i'r blaidd Iuddewig.

(c) Ni roes yr arweinwyr ddim newydd i ni i'w ddysgu, neu i'w osod fel ordeiniadau ar y cenhedloedd.

(2) Yn gadarnhaol (7—10).

(a) Seliodd yr eglwys yn Jerusalem, trwy ei harweinwyr, Iago, Cephas, ac Ioan, eu cymeradwyaeth yn ffurfiol trwy roddi i ni ddeheulaw cymdeithas.

(b) Yr unig rwymedigaeth a osodasant arnom oedd dymuno ar i ni gofio y tlodion; cais heb ddim perthynas a'r pwnc mewn dadl.

3. **Eithr hyd yn nod Titus.**—Yn wrthwyneb i'r pryder a ddangosir yn y geiriau “rhag mewn un modd,” yn wrthwyneb hefyd i ddadleuon cyndyn y blaidd gyfyng a achosent y pryder hwnw, buont mor lwyddianus nes, heb son am benderfynu o blaidd enwaedu y cenhedloedd yn gyffredinol, na wnaed cais i enwaedu hyd yn nod yr unig genedl-ddyn oedd gyda'r cenhadau. Mae un esboniwr galluog yn dadleu mai fel hyn y dylid atalnodi y geiriau “Titus, yr hwn oedd gyda mi ac efe yn Roegwr;” mae y geiriau felly yn dangos mawr hyfder Paul, a chadernid ei ffydd, pan yr anturiai gymeryd yn gydymaith iddo wr dienwaededig, i.e. i Jerusalem. Ond mwy naturiol debygem yw y dull cyffredin; yr oedd y cwestiwn mawr yn fyw yn mherson Titus, am ei fod yn Roegwr, a hyny fuasai sail yr alwad am ei enwaedu. Iaith y blaidd gul oedd “mai rhaid iddynt eu henwaedu, a gorchymyn cadw deddf Moses,” eto ni bu un orfodaeth yn achos Titus, yr hwn oedd brawf amlwg fod rhyddid y cenhedloedd yn cael ei barchu a'i gydnabod. “Dygasai Paul Titus, Cristion cenhedlig heb ei enwaedu, gydag ef i Jerusalem, i ddangos trwy esiampl mor afresymol fuasai cydsynio â'r hyn a ofynid gan y Cristionogion Iuddewaidd, a lusgasant i mewn i eglwys Antiochia, gyda'r bwriad o ddynystro y rhyddid oedd ganddynt, ac a arferent yno yn Nghrist (ar sail ffydd yn Nghrist), ac o gaethiwo y rhai oedd rydd.” (Pfeiderer Paulinism ii. 5.) Pell, debygem, yw y geiriau o feddwl i Titus cael ei enwaedu, ond nid o orfod.

* Mae y gair Cymraeg “cymhell” wedi newid ei ystyr. Yn Nhestament Salesbury defnyddir ef am y gair Saesneg *compel* (cympell), gorfodi, ac arferwyd ef yn yr un ystyr gan Dr. Morgan, Marc vi. 45, “Ac yn y man efe a gymhellodd (orfododd) ei ddysgyblion i fyned i'r llong;” Act. xxvi. 11, “Ac a'u cymhellais (gorfodais) i gablu;” 2 Cor. ix. 7, “Nid yn athrist neu trwy gymhell” (o orfod.)

Yn Ngeiriadur Dr. Davies (1632) eglurir *cymhell*—*compelleere*, *coegere*, *coercere*, *adigere* (h.y. gorfodi). Item *coactio*, *compulsio*, heb un llw o'r ystyr gyffredin yn awr. Er nad yr un ferf sydd yn y gwreiddiol, yr un yw ystyr “cymhell” mewn manau eraill, “Pwy bynag a'rh gymhelo (orfodo) un filldir, dos gydag ef ddwy,” Math. v. 41, “Hwn a gymhellasant (orfodasant) i ddwyn ei groes ef,” Math. xxvii. 32.

4 i'wenwaedu, ac nis gorfodwyd ef oherwydd y gau-frodyr a arno: a hyny oherwydd y 4 gau-frodyr a ddygasid i

4. **Ac (nis gorfodwyd ef) oherwydd y gau frodyr.** Mae cysylltiad y geiriau hyn yn anhawdd er fod prif linellau y meddyliau yn lled eglur. Ar un tu, ymddengys fel pe bai yr apostol yn amllder llanw ei feddyliau yn gadael geiriau allan, gan ysgrifenu brawddegau toredig; ar y tu arall, mae fel pe yn arfer mwy o eiriau nag oedd raid oherwydd yr un rheswm. Pe cawsem yr "ac" yn nechreu y 4edd, neu "y rhai" yn nechreu y bumed allan, gallem wneyd ystyr esmwyth: ond mae hyd yn nod "attal dywedyd" y gwr sanctaidd yr ydym yn darllen ei iaith yn werth ceisio ei ddeall. Parhad sydd yma, yn ol Winer, o adn. 3. "Ni orfodwyd Titus i'w enwaedu, ac oherwydd y gau frodyr a ddygasid i mewn, nid ildiasom trwy ymostyngiad, naddo, dros awr." Fel hyn, medd ef, y *bwriadai* yr apostol ysgrifenu, eto, oherwydd meithder y frawddeg newydd a awgrymir gan enw y gau frodyr, newidir y gystrawen i orphen yn wahanol o ran ffurf trwy frawddeg newydd, er nad o ran mater, oherwydd yr un peth mewn gwirionedd yw pheidio ildio *iddynt* a pheidio ildio *o'u herwydd*. Mae amryw yn ystyried fod brawddegau yr apostol mewn ffurf-ddarniog yn cyfateb i dŵysder cyffrous ei deimladau, fel un yn ymladd drachefn yr hen frwy'r wrth ysgrifenu am dani. Felly dywedir gan Hofmann fod brawddeg newydd yn cael ei dechreu yma heb ei gorphen, a chan Lightfoot dygir geiriau i mewn i gyflenwi y synwyr na cheir hwy ar lawr o flaen nae ar ol y frawddeg hon, ond a awgrymir, medd ef, gan reidiad yr hanes. "Ond er mwyn y gau frodyr (fe'm cymbhellid gan yr apostolion i ildio)." Hyn oedd yn meddwl yr apostol i'w ychwanegu, medd Lightfoot, ond yn y lliw o feddyliau a gronent gwthir hwn allan i ymddangos yn y diwedd mewn ffurf arall, sef "y rhai cyfrifol ni chwanagerant ddim i mi." Teimla Dr. Lightfoot fod yn y paragraff fwy nag un awgrym i'r frwydr boeth hon weled apostolion yr enwaediad ar un adeg yn barod i berswadio Paul i ildio er mwyn y blaid eithafol, ac iddo orfod sefyll ynddi bron ei hunan heb neb gydag ef. Fe gafodd y dydd, ond bu galed arno, ac mae ôl hyny yn ei frawddegau yma. Gwnawn un cais pellach. Fel y gwelwyd, dywed Dr. Lightfoot "er mwyn;" mae i'r arddodair Groeg ddwy ystyr—"er mwyn" ac "oherwydd;" ond anhawdd cysoni yr ystyr "er mwyn" a'r ffaith mai lliw teimlad Paul, ac nid teimlad y rhai, yn ol yr eglurhad uchod, oedd am orfodi, sydd yn yr ymadroddion—"gau frodyr," "dynion oeddynt yn llechwraidd yspio." Mwy naturiol yn wyneb y cyfryw eiriau cryfion o gondemniad yw yr ystyr "oherwydd" neu "o achos." Gallwn felly gyflenwi y geiriau angenrheidiol o'r adnod flaenorol, "Ac nis gorfodwyd ef oherwydd y gau frodyr." O'u herwydd hwy, yn fwy na phawb, y tybiasid na buasai yr eglwys anfoddlawn i Titus gael ei enwaedu, eto hwy fu yr achos iddi benderfynu nad oedd hyd yn nod hyny i gael ei wneyd. Gwelodd Paul amgylchiad yr oedd yn foddllawn i enwaedu dysgybl; galleid enwaedu Titus yn awr, ond yr oedd eisiau y tro hwn benderfynu yn gyntaf y cwestiwn cyfredinol, a oedd raid enwaedu y cenedloedd, a chan i'r eglwys a'r henuriaid a'r apostolion ddyfod i benderfyniad croes i'r gau frodyr ar y cwestiwn yn ei ffurf gyfredinol, penderfynwyd hefyd nad oedd allwad am enwaedu Titus. Bu, ni welwn yn ol Actau xv. 5-7, ymddadleu mawr, ac mor chwerw oedd y blaid Iuddewig fel y bu raid, er mwyn sicrhau yr egwyddor o ryddid, eu gwrthod yn llwyr a hollol, *mewn peth a oddefasid ar amgylchiadau eraill*. Dywedent hwy

ddygasid i mewn, dynion a mewn, y rhai a ddaethant i
 ddaethant i mewn i ysbio ein mewn i ysbio ein rhyddid
 rhyddid ni, yr hwn sydd gen- ni, yr hon sydd genym yn
 ym yn Nghrist Iesu, fel y'n Nghrist Iesu, fel y'n caeth-

4 Er ydynt ein dwyn i gaethiwet.—W. S. Fel ein harweinient i gaethiwed.—M.

“rhaid enwaedu Titus am fod yn rhaid enwaedu pob cenedl-ddyn,” yr ateb oedd “yr ydym wedi penderfynu nad oes *raid* enwaedu neb o'r cenedloedd, ac felly, o *achos* eich honiad ystyfnig chwi, ni fynwn enwaedu Titus yn awr.”

A ddygasid i mewn.—Yn ol awgrym y gair cyfansawdd a gyfieithir fel hyn, yr ydym i ystyried y rhai hyn fel rhai wedi eu dwyn i mewn yn llechwraidd neu dan esgus bod yr hyn nad oeddynt mewn gwirionedd. Nid wedi eu dwyn i mewn felly i'r cyngor yn Jerusalem a feddylir, mae'n debyg, nac ychwaith i eglwys Antiochia, ond i'r eglwys Gristionogol. Daethent i'r eglwys, nid fel credinwyr, ond fel rhai nad oeddynt ond Iuddewon yn y dirgel. Dynion oeddynt wedi cydnabod Crist yn unig fel Rabbi Iuddewig o ddiwygiwr, ond yn danbaid eu zel rhag i'r ddeddf oddef dim lleihad mewn sylw a chadwraeth.

Dynion a ddaethant i mewn i ysbio ein rhyddid ni yr hwn sydd genym.—Eu dyben mewn dyfod yn ddirgelaid (mae y gair hwn eto yn meddwl hyny) i mewn i'r eglwys oedd, fel ysbiwyr bradwrus a fynent wneyd cynllwyn yn ein herbyn, edrych ein rhyddid yn Nghrist Iesu. Y gair hwn a ddefnyddir yn y cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament pan y dywed tywysogion meibion Ammon wrth Hanun mai “i chwilio” y wlad yr anfonasai Dafydd ei weision ato, a'r un meddwl sydd lle y dywedir i Josuah anfon i Sittim ddau wr “i chwilio yn ddirgel” y wlad a Jericho. Gellir edrych ar y rhyddid a enwir yma mewn tair agwedd—(1) rhyddid y Cristionogion cenedlig, sef nad oeddynt i fod yn ddarostyngedig i ordeiniadau deddf Moses; (2) rhyddid cyffredinol yr eglwys Gristionogol heb gyfeiriad at nac Iuddew na Groegwr; (3) gan rhoddi pwys ar y *ni*, rhyddid Paul a Barnabas, ac eraill a gydlasurient â hwy, i bregethu yn mhllith y Cenedloedd efengyl oedd yn rhyddhau oddiwrth y ddeddf. Yn ol yr ystyr olaf hon, gwyr oedd yr ysbiwyr a ddaethent cyn hyn i mewn i eglwys Antiochia, i wrthwynebu yr apostol a'i gydlasurwyr, ac a ddaethent i fyny hefyd i'r cyngor gyda'r un dyben. Ond yn wyneb yr ychwanegiad, “y rhyddid sydd genym yn *Nghrist Iesu*,” a'r hyn a ddywedir mewn man arall, “nid oes Iuddew na Groegwr chwaith,” “ni ddichon enwaediad ddim,” gwell yw yr ail ystyr, mai at ryddid yr efengyl i bawb y cyfeirir yma. Cadarnheir hyny yn erbyn y wedd gyntaf gan y ffaith nad yw Paul un amser yn gosod ei hun gyda'r Cristionogion cenedlig yn ddosbarth gwrthgyferbyniol i'r rhai oedd o'r Iuddewon yn credu. Mae y *ni* yma felly yn golygu pawb, Iuddewon yn ogystal a Chenhedloedd, ac y mae eu rhyddid yn cael ei sicrhau iddynt yn Nghrist Iesu, hyny yw, trwy undeb a chymundeb â Christ Iesu

Fel y'n caethiwent ni.—Awgrymir yn y gwreiddiol eu drwg ddyben yn mhellach yn ffurf y ferf hon na allwn ni ei fynegu yn dda yn y Gymraeg. Nid yr un ffurf yn hollol a ddefnyddir yn iv. 3., “wedi eich *caethiwo* dan wyddorion y byd,” eu bwriad bradychus oedd, *llwyr* gaethiwo, neu gaethiwo

5 caethiwent ni, i'r rhai nid iwent ni : i ba rai nid ym- 5
ildiasom mewn ymostyngiad, roisom trwy ddarostyngiad,
naddo, dros awr, fel yr ar- naddo, dros awr ; fel yr ar-
hosai gwirionedd yr efengyl hosai gwirionedd yr efengyl
6 gyda chwi. A chan y rhai a gyda chwi. A chan y rhai a 6
gyfrifir eu bod yn rhywbeth dybid eu bod yn rhywbeth,

6. A chan yr ei a dybit eu bod yn vawr *ny ddyscwis ddim* (beth oedden wy gynt ny'm dawr i ; ny chymer Duw ansawdd un dyn) er hyny yr ei pennaf ni chydesboniesant ddim a mivi.—W. S. And of them which seemed to be great *I was not taught*.—Gen. Canys yr rhai a'u gwelent *eu hun yn benaf* ni chwanesant ddim i mi.—M.

i ddinystr. Yma eto wrth y "ni" rhaid golygu Cristionogion oll, nid Paul a'r rhai oedd o'r Cenhedloedd yn credu, nid Paul a Barnabas fel efengylwyr i'r Cenhedloedd.

5. **I'r rhai nid ildiasom.**—Y dadleuwyr yn ol llyfr yr Actau oeddynt Paul a Barnabas, ac felly hwy a feddylir yma wrth y rhai nid ildiasant. Ar yr hyn a ddywedasad ganddynt hwy am ganlyniadau eu gweinidogaeth y seiliai y cyngor eu penderfyniad gyda golwg ar y Cenhedloedd, a gallwn feddwl fod achos Titus yn arbenig yn destyn dadl fuddugoliaethus. Anmhrïodol yn wyneb hyn, yw dweyd mai y cyngor oll, gan gynnwys Paul a'i gyfeillion, a feddylir, neu fod Titus hefyd i'w gyfrif. Gwydn ddadleu dau wr, a'r gwirionedd o'u tu, a orfu.

Mewn ymostyngiad.—Fel yn y cymhelliad a geir yn mbellach "na ddalier chwi dan iau caethiwed," nid ymostwng i'r blaidd Iuddewig yn y ddadl yw yr ystyr yma, ond i'w galwad am beri darostwng y Cenhedloedd i enwaediad Iuddewig a chadwraeth y ddeddf. Anhawdd hefyd yw gweled cymhwysder yr hyn a ddywed Holstein mai ymostwng i'r apostolion hynaf a feddylir.

Fel yr arhosai gwirionedd yr efengyl gyda chwi.—Dywed Wieseler : "Gall y *chwi* yma gynnwys, gyda'r darllenwyr, yr oll o Gristionogion cenhedlig yn gyffredinol ag oedd *eisoes* wedi credu. Rhaid casglu felly fod Paul, sylfaenydd eglwysi Galatia, *wedi* efengylu iddynt cyn yr ymweliad â Jerusalem a gofnodir yn Galatiaid ii. 1. Gan iddo efengylu iddynt tuag amser Actau xvi. 6, rhaid fod yr ymweliad hwn â Jerusalem wedi cymeryd lle *ar ol* y cyngor y cawn ei hanes yn Actau xv." Eto gall fod ystyr briodol iawn i'r geiriau, er i ni ystyried fod ymweliad Galat. ii., ac ymweliad Act. xv. yr un. Nid oedd eglwysi Galatia, mae'n wir, mewn bod yn amser y cyngor y rhoddir ei hanes yn Actau xv, eto medasant hwy o ffrwyth y peidio ildio a fuasai yno. Yr oedd gwirionedd yr efengyl wedi *dechreu* ei ledaenu yn ngweinidogaeth Paul, ond pe cawsai y blaidd Iuddewig eu ffordd, gosodasid terfyn arno, a'r unig ffordd i sicrhau ei *barhad* neu ei arhosiad oedd eu gorchfygu hwy. Yr oedd i bob Cristion cenhedlig ran yn y ddadl hon, a chafwyd iddynt hwy oruchafiaeth dros byth yn muddugoliaeth Paul a Barnabas.

6. **A chan y rhai a gyfrifir.**—Mae yn amlwg ddigon, yn y cyfieithiad cyffredin, fod y frawddeg gyntaf yn anorphenol o ran ffurf, a bod saerniaeth yr iaith yn doredig. Mynych y cyfarfyddwn ag esiamplau o hyn yn yr awdwyr goreu, trwy fod y meddyliau naill ai yn rhy gyflym neu yn rhy gryf

—pa fath bynag oeddynt gynt, nid yw ddim i mi; nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn—canys i mi ni chyflwynodd y rhai cyfrifol ddim;

(pa fath gynt oeddynt, nid yw ddim i mi; nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn); canys y rhai cyfrifol ni chwaneasant ddim i mi: eithr yn y gwrth- 7

Er nad wyf wedi anturio ei dderbyn yn y cyfieithiad uchod ymddengys y trefniad canlynol o'r geiriau a roddir gan Sieffert yn un a llawer iawn i ddyweyd o'i bláid. Cyflwynir ef fel y cyfryw i farn dda y darllenydd,—

“Ond, nid yw bod yn rhywbeth gan y rhai cyfrifol, pa fath bynag oeddynt gynt, yn ddim i mi; nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn. Canys i mi ni chyflwynodd y rhai cyfrifol ddim.”

i'r iaith. Ymddengys i mi fod y geiriau i'w deall fel y canlyn,—“A chan y rhai a gyfrifir yn rhyw beth *ni chyflwynwyd dim i mi.*” Dyma y meddwl syml oedd gan yr apostol i'w ddweyd ar y cyntaf, ond mae y gair “a gyfrifir” yn awgrymu iddo ychwanegu “pa fath bynag oeddynt gynt nid yw ddim i mi, nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn;” ac yna mae ffurf ddechreuol y frawddeg yn cael ei doddi heibio, a'r un meddwl ag a fwriadai ei ddweyd yn cael ei fynegu mewn dull newydd sydd hefyd ar yr un pryd yn bráwf pa fodd nad yw Duw dderbyniwr wyneb,—“canys i mi ni chyflwynodd y rhai cyfrifol ddim.” Megys y dywedir “y rhai cyfrifol” yn adn. 2, cadwn yr un gair yma; dynion o ddylanwad yr edrychai pawb i fyny atyt a feddylir yn ddiau, ac yn ol hyny y gosodwn y gair yn yr amser presenol.

Pa beth bynag oeddynt gynt.—Naturiol iawn ydyw cyfeirio y *gynt* at ddyddiau boreu yr eglwys yn fuan wedi y Pentecost, tuag ugain mlynedd yn ol o'r amser yr ysgrifennai yr apostol, dyddiau y clywsai Paul lawer, yn ddiau, gan Barnabas am danynt. Desgrifir hwy yn Actau ii. 41—47, a iv. 33, &c., “a'r apostolion trwy nerth mawr a roddasant dystiolaeth o adgyfodiad yr Arglwydd Iesu, a gras mawr oedd arnynt hwy oll, canys nid oedd un anghenus yn eu plith hwy,” &c. Gwawrddydd yr eglwys ydoedd, pryd yr oedd llawenydd a gogoniant newydd yn ei holl fywyd, a'r apostolion mewn cyfrif mawr, pan y gwerthai dynion diroedd neu dai (Barnabas ei hun yn eu plith) ac y dodent eu gwerth wrth draed yr apostolion. Ystyr arall a roir i'r gair yw, ei fod yn cyfeirio at y ffaith iddynt hwy fod gyda'r Gwardwr ar y ddaear; ond oni raid i ni ddeall *gynt* mewn perthynas a'r cyngor ac a'r cwestiwn a drinid ynddo, ac felly ei fod yn golygu y tymor o *oes yr eglwys cyn y cyngor*, yr amser boreuaf hwnw pan y teimlwyd gyntaf uchel awdurdod y gras a gawsai yr apostolion?

Nid yw Duw yn derbyn wyneb dyn.—Yn ol yr hyn a ddywedwyd eisoes, mae y frawddeg hon, sydd yn fwy grymus oberwydd sydynrwydd ei gosodiad heb un cysylltair, yn rheswm, dros i Paul ddweyd nad oedd *safle gyfrifol* yr un dyn mewn cwestiwn o fath bwys' a hwn yn gwneyd un gwahaniaeth iddo ef; gallai Duw roddi iddo ef yr un dadguddiad ag iddynt hwythau.

Canys i mi ni chyflwynodd y rhai cyfrifol ddim.—Tra y mae y geiriau hyn yn gorphen y frawddeg a ddechreuasid—“a chan y rhai cyfrifol,” er mewn ffurf newydd, gwasanaethai hefyd fel rheswm i brofi y gwirionedd nad yw Duw yn derbyn wyneb dyn. Yr un ferf sydd yma ag a gyfieithir “ymgyngori” yn i. 16. Yno, nid oes iddi wrthddrych, ond pan y mae iddi

- 7 eithr yn y gwrthwyneb, wedi iddynt weled fy mod wedi cael ymddiried i mi efengyl y dienwaediad, mēgys i Pedr
 8 efengyl yr enwaediad (cansys yr hwn a weithredodd er Pedr tuag at apostoliaeth yr enwaediad a weithredodd erof finau hefyd tuag at y Cenhedloedd), ac wedi iddynt
 9 wyneb, pan welsant ddarfod ymddiried i mi am efengyl y dienwaediad, mēgys ani efengyl yr enwaediad i Pedr : (cansys yr hwn oedd yn 8 gweithredu yn nerthol yn Pedr i apostoliaeth yr enwaediad, a nerthol-weithredodd ynof finau tuag at y Cenhedloedd): a phan wybu 9

wrthddrych uniongyrchol, y meddwl yw fod dyn yn cyflwyno rhywbeth at neu i un arall. Ni chyflwynodd y rhai cyfrifol ddim i mi, naill ai o athrawiaeth bellach i'w dysgu i'r Cenhedloedd neu o osodiadau newyddion; ni roisant i mi nac enwaediad na dim tebyg mewn ffurf o ordeiniadau deddfol eraill i'w cynwys yn fy efengyl. Ni adawodd Duw fi gyda diffygion i'w cyflawni ganddynt hwy.

7. **Eithr yn y gwrthwyneb, wedi iddynt weled.**—Un frawddeg gyfansawdd yw adn. 7, 8. Ar ol gweled fy mod wedi cael ymddiried i mi apostoliaeth yr enwaediad mor wirioneddol ag yr ymddiriedasid i Pedr ei waith yntau, wedi canfod hefyd y gras a roddasid i mi i gyflawni fy ngwaith, rhoes y tri gwr blaenaf o'r apostolion eu llaw i Barnabas a minau. Arwydd oedd hyn o gyd-ddealltwriaeth ac undeb. Ni ddywedir wrthym pa fodd y gwelsant, na pha fodd y gwybuant, ond diau fod a wnelo yr adrodd "am y pethau a wnaethai Duw gyda hwy" â hyny; ac efallai mai yr achos mwyaf argyhoeddiadol oedd y mynegu a fu o'r neilldu i'r rhai cyfrifol ag oeddynt o ran cymeriad a-deall yn gymhwys i farnu pethau ysbrydol.

Fy mod wedi cael ymddiried i mi efengyl y dienwaediad.—Nid oes yma ddim i awgrymu i ni y syniad fod Paul i arolygu y naill a Phedr y llall; y prif air yw *ymddiried*. Y peth a welwyd oedd, fod Paul yn y gwaith a wnaed ganddo wedi cael ymddiriedaeth gan Dduw yr un mor wirioneddol a Phedr yn y maes y buasai yntau yn gweithio. Cawn yr apostol mewn amrywiol fanau yn cyfeirio at yr ymddiriedaeth yma, 1 Cor. ix. 17, 1 Thes. ii. 4, 1 Tim. i. 2, Titus i. 3. Ni ddylid cyfieithu yma "efengyl dienwaediad," "efengyl enwaediad," fel pe buasai Paul o hyni allan yn rhydd i bregethu dienwaediad, a Phedr fel o'r blaen i bregethu enwaediad i'r Iuddewon; yn hytrach, cydnabyddiaeth o ffaith oedd wedi bod er's amser sydd yma—nad oedd Duw ei hun wedi gwneyd dim gwahaniaeth rhwng Paul yn mhlith Cenhedloedd a Phedr yn mysg Iuddewon; yr oedd wedi *ymddiried* ei efengyl i'r naill fel y llall. Heblaw hyn, defnyddir y ddau air yn fynych am bersonau, "yr enwaediad ydym ni," Phil. iii. 3; Rhuf. ii. 26; iii. 30; iv. 6.

8. **Canys yr hwn a weithredodd.**—Prin y mae yr ymadrodd yn goddef i ni gyfieithu "*yn* Pedr;" yn hytrach "*er* Pedr," hyny yw, yn gynorthwy iddo i gyflawni gwaith apostoliaeth yr enwaediad. Y dystiolaeth a barodd y gwybod a'r canfod y cyfeiriwyd ato oedd, fod Duw wedi amlygu gyda Paul, fel gyda Phedr, *nerth* yn nghyflawniad ei swydd. Ni raid i ni gyfyngu y nerth i arwyddion allanol pan yr oedd Duw hefyd trwyddynt hwy yn gweithredu mewn dynion "ewyllysio a gweithredu."

wybod y gras a roddwyd i mi, rhoes Iago a Chephas ac Ioan, y rhai a gyfrifir yn golofnau, i mi ac i Barnabas

Iago, a Cephas, ac Ioan, y rhai a dybid eu bod yn golofnau, y gras a roddwyd i mi, hwy a roddasant i mi ac i

9. Ac wedi iddynt wybod (adnabod) y gras.—Yn y gair *gweled*, adn. 7, y peth a welwyd oedd y ffaith fod ymddiriedaeth wedi ei rhoddi; ond yma, yn y gair *gwybod*, mae adnabyddiaeth o'i gymhwysder i'r gorchwyl. "Y gras Duw, yr hwn a roddwyd i mi yn ol gweithrediad ei gadernid ef;" "i mi... y rhoddwyd y gras hwn i efengylu i'r Cenhedloedd anchwiliadwy olud Crist," Eph. iii. 7, 8; "Trwy yr hwn y derbyniasom ras ac apostoliaeth i ufudd-dod ffydd yn mhlith yr holl genhedloedd," Rhuf. i, 5. Cynwysir yn y gras hwn yr oll a'i gwnaeth yn alluog mewn gair a gweithred yn efengyl y Cenhedloedd.

Rhoes Iago a Chephas ac Ioan.—Mae ychydig hen lawysgrifau yn darllen "Pedr ac Iago ac Ioan," mewn awydd, medd rhai, i gadarnhau y syniad o uwchafiaeth Pedr, ond yn fwy naturiol am fod dynion wedi cynffino a'r drefn hon o enwi y tri yn yr efengylau. Yr oedd Iago brawd Ioan wedi ei ladd gan Herod, felly nid efe yw yr Iago hwn. Dywed Wieseler y rhaid fod Iago yn apostol neu na enwasid ef o flaen dau apostol; o'r tu arall, dadleua Meyer, pe buasai yn un o'r deuddeg na buasid byth yn ei enwi o flaen Pedr. A yw trefn yr enwau yn haeddu sylw? Ar ol y cyfeiriad difrifol at Dduw fel un nad yw dderbyniwr wyneb, ymddengys yn beth bychan i chwilio am resymau o flaenoriaeth dybiedig, &c., yn sail am drefn yr enwau hyn. Barna Lightfoot fod Paul wrth gyfeirio at genadaeth gyffredinol yr eglwys (adn. 7, 8) yn rhoddi i Pedr y lle blaenaf, ond wrth gyfeirio at weithred eglwys Jerusalem, yn enwi ei bugail hi, sef Iago yn gyntaf, Onid oes gwell rheswm i'w gael yn hanes y cyngor? Ar gynygiad ac anerchiad Iago y penderfywyd yno fel y gwnaed. Ac *mewn cyngor* gallasai Iago fod yn fwy gwerthfawr gwr na Pedr er ei fod ef yn apostol; a chan mai dylanwad ei graffder a'i bwyll cymedrol ef a droes y ddadl, nid annaturiol iddo, fel y gwr a ddygodd i derfyniad hapus ddadleuon y diwrnod mawr hwnw, gael ei enwi gyntaf heb un meddwl am safle. Gan na sonir am Iago fab Alpheus yn hanesiaeth y Testament Newydd, nid oes genym ond casglu mai Iago brawd yr Arglwydd yw hwn. Gwel ar i. 19.

Y rhai a gyfrifir eu bod yn golofnau.—Er y goddef y gair ei gyfieithu yn y gorphenol, "y rhai a gyfrifid," eto gan fod y gwyr hyn yn parhau yn gyfryw—yn golofnau—priodol yw defnyddio yr amser presenol. Ffigiwr a arferir yn fynych iawn am rai y mae unrhyw achos yn dibynu arnynt benaf yw colofn: gwneir un dyfyniad o'r bardd Groeg Euripides gan amryw ysgrifenywr yma, "Plant gwrryw yw colofnau tai." Gwel i Tim. iii. 15, Dat. iii. 12. Mae enwi y tri hyn mor bell yn y frawddeg, gan ychwanegu y gair *colofnau* am danynt, yn peri i ni feddwl fod "y rhai cyfrifol," neu "y rhai a gyfrifir yn rhywbeth," yn cynwys nifer luosocach na hwy, ac hwyrach lluosocach na'r deuddeg apostol eu hunain, sef gwyr fel Barnabas. Gweithred arwyddocaol oedd rhoddi i Paul a Barnabas ddeheu-ddwylaw cymdeithas: trwy hon cydnabyddai y tri o Jerusalem yn enw yr eglwys hono fod y gwyr a lafuriasent yn mhlith y Cenhedloedd yn un a hwy. Ymddengys yn anheg iawn i ddweyd, fel y gwna Pfeleiderer, fod y cydnabod personol hwn o Paul ar yr un pryd yn cynwys gwrthodiad o egwyddorion neillduol efengyl

ddeheu-ddwyllaw cymdeithas,
fel *yr elem* ni at y Cenhedl-
oedd a hwythau at yr en-
10 waediad. Yn unig ar fod
i ni gofio y tlodion, yr hyn

Barnabas ddeheu-ddwyllaw
cymdeithas; fel *yr elem* ni
at y Cenhedloedd, a hwyth-
au at yr enwaediad. Yn unig 10
ar fod i ni gofio y tlodion;

9. Wy roesant i mi ac i Barnabas ddeheu-ddwyllaw cymdeithas, val *y byddai i ni preceithu* i'r Cenhedloedd.—W. S. That we should preach unto the Gentiles.—Gen. I (bregethu) o honom ni i'r Cenhedloedd.—M.

Gan rybuddio yn unig *ar vod* yni goffau'r tlodion; yr hyn hefyd yr oeddwn yn astud yw wneuthur.—W. S. Warning only.—Gen. Ac i ni feddwl am y tlodion yn unig yr hyn ymroddais i'w wneuthur.—M.

Paul yn arbenig gyda golwg ar Gristionogion Iuddewig. "Yr oedd," medd Pfeleiderer, "y cytundeb yn Jerusalem yn cael ei wneyd ar y dealltwriaeth fod y ddwy blaidd i ymgadw o fewn eu terfynau eu hunain, ond o fewn y terfynau hyny fod pethau i aros fel o'r blaen—y Cristionogion cenhedlig i aros y tu allan i'r ddeddf, y rhai Iuddewig dan y ddeddf. Mae yn amlwg na allai y cyfryw derfyniad fod yn un boddhaol o ran athrawiaeth nac o ran ymarferiad." (Paulinism ii. 10, 11.) Yn groes hollol i'r gosodiadau hyn y mynegir wrthym *seiliau* y weithred o rodde deheu-ddwyllaw cymdeithas, sef fod *yr un* ymddiriedaeth wedi ei rhoddi i Paul ag i Pedr, a bod Duw wedi rhoddi iddo ras arbenig gogyfer â'r gwaith. Yr oedd Paul ei hun yn Iuddew, a Barnabas yn Iuddew; pa fodd heb gydnabod rhyddid yr Iuddewon fel y Cenhedloedd y gallai y tri oeddynt golofnau gydsynio iddynt hwy bregethu i'r Cenhedloedd? Yr oedd gwaith Pedr hefyd yn myned i mewn at wyr di-enwaededig wedi cael cydsynio ag ef oherwydd tystiolaeth amlwg y nef-oedd (Actau xi. 18.) Eto, yn yr epistol hwn, megys yn y cyngor yn Jerusalem, rhaid cyfaddef mai y rhyddid yr ymdrinir ag ef benaf yw rhyddid y rhai nad oeddynt Iuddewon i beidio a byw yn Iuddewaidd.

Fel yr elem ni at y Cenhedloedd, a hwythau.—Oddiwrth air a gofheir gan Paul ei hun, "mi a th anfonaf yn mhell at y Cenhedloedd," mae lle cryf i gasglu mai ystyr leol sydd i'r ddau air yma; at y Cenhedloedd yw y tu allan i Judea; at yr enwaediad, Judea ei hun. Nid ydym i feddwl fod dwy eglwys Gristionogol i fod, y naill yn gynwysedig o Iuddewon a'r lall o Genedloedd. Yr oedd a wnelo tueddfryd yr apostolion eu hunain a'r rhaniad hwn, eto gallwn feddwl oddiwrth gyfeiriadau mynych yr Actau a'r epistolau fod sail y tueddfryd mewn cymhwysderau neillduol. Er hyny gwelwn Ioan, tua diwedd ei oes, yn ol amryw dystiolaethau credadwy, wedi dyfod i fyw a gweithio yn mhlith eglwysi cenhedlig Asia Leiaf, yn amzylchoedd Ephesus.

10. **Yn unig (hwy ddymument) ar i ni gofio y tlodion.**—Mae y gair cryf "yn unig" yn nechreu y frawddeg yn dangos mor llwyr yr oeddynt yn unfarn, ac mor rydd yr ymadawai Paul a Barnabas. Ni roddid un amod i'w rhwymo, ni theimlid fod arnynt angen un cyfarwyddid newydd. Un dymuniad yn unig, ac un nad oedd a wnelo ddim a'r pwnc mewn dadl, a ddatgenid, sef ar iddynt gofio tlodion eglwysi Judea. Dengys Rhuf. xv. 27, mewn ymadroddion prydfeth, yr ysbryd oedd yn y cyfryw waith. "Os cafodd y Cenhedloedd gyfran o'u pethau ysbrydol hwynt, hwythau hefyd a ddylent weini iddynt hwythau mewn pethau cnawdol." Ni fynegir i ni achos y tloidi hwn; yr oedd, yn ol 1 Thess. ii. 14, ffyrnigrwydd erledig-

beth y bum hefyd ddiwyd i'w
 11 wneuthur. A phan ddaeth
 Cephas i Antiochia, mi a'i
 gwrthwynebais yn ei wyneb,
 12 am ei fod yn feius. Oblegyd
 cyn dyfod rhai oddiwrth
 yr hyn hefyd y bum i ddi-
 wyd i'w wneuthur. A phan 11
 ddaeth Pedr i Antiochia, mi
 a'i gwrthwynebais yn ei
 wyneb, am ei fod i'w feio.
 Oblegyd cyn dyfod rhai oddi 12

11. Can ys y vot ar vai.—W.S.

aeth yn fawr yno lle yr oedd zel Iuddewaidd gryfaf. Gwnaed yn Antiochia cyn yr amser y cyfeirir ato yma gyffelyb gynorthwy ar adeg newyn (Actau xi. 29, 30), ac un arall gan eglwysi Macedonia ac Achaia ar ol ysgrifenu y llythyr hwn, Rhuf. xv. 26, 27; 1 Cor. xvi. 1—3; 2 Cor. viii. 1—15; Actau xxiv. 17.

Yr hyn beth y bum hefyd ddiwyd i'w wneuthur.—Gellid o ran ffurf y ferf yn y fath frawddeg a hon gyfieithu "yr hyn beth y buaswn ddiwyd," ac felly gyfrif y geiriau fel disgrifiad o arfer yr apostol cyn yr adeg hon, fel y gwelid yn y gwaith a wnaed ganddo tuagat dlodion Judea yn eglwys Antiochia (Actau xi. 29, 30). Eto mae y gair "hefyd" yn ein tywys i feddwl mai i'r amser wedi ei ymadawiad â Jerusalem y perthyn y diwydrwyd yma.

11. A phan ddaeth Cephas i Antiochia, mi. . . .—Nid oes gymaint ag awgrym am achos neu achlysur dyfodiad Pedr i'r ddinas hon, ac ofer yw y gwaith o ddyfalu. Wedi dychweliad Paul a Barnabas yno o'r cyngor yn Jerusalem gyda Judas a Silas, gallasant, yn ol yr ystyr y cyfeiriwyd ato o'r blaen i'r gair "dyddiau" (gwel i, 11) gan Luc, fod wedi aros yn y ddinas dymor gweddol faith (Actau xv. 36). Myn rhai osod yr ymweliad hwn ag Antiochia yn amser Actau xviii. 23, ond gwneir hynny oddiar y farn mai yr ymweliad â Jerusalem a enwir yn y benod hono (adn. 22) yw yr un sydd genym yma.

Am ei fod yn feius,—neu ar fai. Mae y cyfieithiad a roddir gan rai "am ei fod wedi ei gondemnio" yn ymddangos ar y cyntaf yn gywir a chymhwys iawn. Condemnid ef, beid arno gan y Cristionogion yn Antiochia, a hyny, medd Meyer, oedd yr achos i Paul ei wrthwynebu. Ond yn ol arfer gyffredin gan Paul, mae y ffurf hon o'r ferf yn ansoddair syml: cywirach cyfieithiad, felly, yw defnyddio y gair "beius." Yr oedd Pedr yn feius; nid yn unig yn un i'w feio, fel y mae Beza wedi arwain ein cyfieithwyr ni i eirio.* Am hyny y gwrthwynebwyd ef gan Paul, nid am fod pobl yn gweled bai arno ac yn ei gondemnio. Dywed Bengel yn rhagorol, ac ag ef cytuna Lightfoot a Hofmann, fod ei gondemniad mewn gweithredoedd anghyson o'r eiddo ei hun. Megys y dywedasid wrtho gynt, mae dy leferydd yn dy gyhuddo, y gellid yn awr ddweyd "y mae dy weithredoedd dy hun yn dy gyhuddo." Desgrifir yr anghysondeb yn yr adnod nesaf.

12. Canys cyn dyfod rhai oddiwrth Iago. . . .—Gwelwn yn ol Act. xv. 24, i'r rhai cyntaf a aethant i Antiochia ddysgu pethau yn enw yr apostolion heb un awdurdod oddiwrthynt hwy. "Yn gymaint a chlywed o honom i rai a aethant allan oddiwrthym ni eich trallodi chwi â geiriau. . . .

* Quod condemmandus esset.—Beza. "Was to be blamed."—Gen.

Iago, efe a fwytaî gyda'r Cenhedloedd, ond wedi iddynt ddyfod, efe a giliai ac a neillduai ei hun, gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad. A chyd-ragrithiodd ag ef y gweddill o'r Iuddewon hefyd, fel y

wrth Iago, efe a fwytaodd gyda'r Cenhedloedd: ond wedi iddynt ddyfod, efe a giliodd, ac a neillduodd ei ei hun oddiwrthynt, gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad. A'r Iuddewon eraill hefyd a gyd-ragrithiasant âg

13. Cydffuantu ac ef a wnaethant, yd yn y dducit Barnabas yw fiantu wy hefyd.—W. S. I'w lledrith hwy hefyd,—M. Yma y mae y ddau gyfeithydd yn dilyn Beibl Geneva, "into their dissimulation," yn groes i Beza, "eorum simulatione," ond yn unol a Calvin, "in illorum simulationem."

i'r rhai ni roesem ni orchymyn." Yn awr, pan ddarllenwn fod rhai wedi dyfod oddiwrth Iago, mae yr un mor bosibl casglu y dywedasai Iago na roesai efe erioed iddynt orchymyn, ac nid yw y geiriau "dyfod oddiwrth Iago" yn golygu dim ychwaneg nag iddynt ddyfod o'r eglwys ag yr oedd Iago yn weinidog arni. Nid oedd ef, efallai, wedi cyrhaedd i eangder rhyddid Paul, ac am hyny gallai rhai eithafol—rhai ag y buasai ef ei hun yn condemnio eu hymddygiad yn llym—enwi eu hunain ar ei enf ef. Dyfod "oddiwrth Iago" a wnaeth rhyw rai; ni ddywedir mai "rhai oddiwrth Iago" a ddaeth.

Efe a fwytaî gyd a'r Cenhedloedd.—Nid ydym i gyfyngu hyn i'r cariad-wleddoedd, gan i Pedr o'r blaen aros "dros enyd o ddyddiau" yn nhy Cornelius (Act. x. 48), a'r cyhuddiad a ddygasid yn ei erbyn ef y pryd hyny gan rai o'r enwaediad oedd, "ti a aethost i mewn at wyr dienwaededig, ac a fwyteaist gyda hwynt," (Act. ii. 3). Dyma oedd ei arferiad, gan gario allan yn ymarferol ysbryd cyd-ddealltwriaeth y cyngor yn Jerusalem. Arferai ei ryddid i fyned i dai ei frodyr cenhedlig a chyd-eistedd a hwy wrth y bwrdd, fel y gwnaethai wedi gweledigaeth Joppa, yn nhy Cornelius. Hyn hefyd, gallwn feddwl, oedd arfer dda yr eglwys oll yn Antiochia.

Efe a giliai ac a neillduai ei hun.—Dyma yr arfer newydd, yn tarddu nid o fod ei efengyl ef yn wahanol i'r eiddo Paul, ond o lwfrdra, a hyny er fod Paul ac ef yn un. Gwelwn mai yn araf y daeth hyd yn nod apostolion i'w perffeithrwydd. Nid oedd pobl ar unwaith yn deall yr ymddygiad dyeithrol newydd ar du Pedr, ac aeth peth amser heibio cyn i Paul anturio gwrthwynebu un oedd hynach nag ef, ac yn Nghrist o'i flaen. Ond pan ganfu y rhwyg a wneid mewn eglwys flodeuog gan ymddygiad Pedr (ni sonir dim am ei eiriau), a bod y gwirionedd mewn perygl, nid oedd dim arall i'w wneyd. "Efe a giliai"—dyma ei lwfrdra—dystaw lwfrdra; "efe a'i neillduai ei hun,"—dyma y weithred a rwygodd yr eglwys cyn hir. Trwy hyn hudid Iuddewon eraill i wahanu eu hunain oddiwrth eu cyfathrach arferol â'r Cenhedloedd crediniol.

Gan ofni y rhai oedd o'r enwaediad.—Gwel Actau x. 45, xi. 2; Rhuf. iv. 12; Col. iv. 11; Titus i. 10.

13. **A gyd-ragrithiasant ag ef.**—Mae hwn yn air cryf ond teg yn ei gyfeiriad at wir natur eu hymddygiad. Yr oedd Paul wedi dangos eisoes yn y ddinas hon ei argyhoeddiad personol ei hun, fod yn rhydd i Gristion,

dygwyd, ie, Barnabas ymaith gyda hwy trwy eu rhagrith. Eithr pan welais nad oeddynt yn iawn-droedio at wirionedd yr efengyl, miaddywedais wrth Cephas yn ngwydd pawb, Os wyt ef, yn gymaint ag y dygwyd Barnabas hefyd i'w rhagrith hwy. Eithr pan welais i nad oeddynt yn iawn-droedio at wirionedd yr efengyl, mi a ddywedais wrth Pedr yn eu gwydd hwy oll, Os

14. Troedio yn union:.....paam y cypelly *ni* y Cenetloedd y vyw mal yr Iuddewon.—W. S. Paham yr wyt yn peri i'r Cenhedloedd fyw yn Iuddewaidd.—M.

serch bod yn Iuddew, ymgyfeillachu a'r Cenhedloedd, a dangosai y gweddill o Iuddewon yr eglwys eu bod hwythau o'r un gred. Ond yn awr mae Pedr, o ofn dynion eithafol eu zel, trwy ymatal oddiwrth ei arfer flaenorol o gymundeb mewn bywyd cyffredin, yn ymddwyn yn groes i'w argyhoeddiad, ac craill, dan ddylanwad ei esiamp' ef, yn gwneyd yr un peth. Y ffaith mai ofn llwfr oedd yn cymhell y naill, a dylanwad personol y lleill, i weithredu yn groes i'w barn, sydd yn gyfiawnhau gair mor gryf a rhagrith. Eto, nid yw yr apostol yn eu galw yn rhagrithwyr. Ymddygasai Pedr ar y cyntaf yn unol a'i ymdeimlad o ryddid yr efengyl, ond nid oedd ei argyhoeddiad, oherwydd grym dylanwad y blynyddoedd o'r blaen yn Judea, efallai, mor glir ac mor gryf a'r eiddo Paul. Yr hyn oedd eithriadol yn mywyd Pedr oedd rheol bywyd yr apostol arall, a chydsyniai Paul ar adegau eithriadol er mwyn y "rhai dan y ddeddf," â dull arferol bywyd Pedr. Ond yn awr, trwy wrthod cymdeithas y Cenhedloedd a rhwygo cymundeb yr eglwys, yr oedd egwyddor fawr sylfaenol mewn perygl. Nid ymddengys fod Pedr a'r Iuddewon yn ymdeimlo â hyn; nid oeddynt, er y dylasant fod, yn mywybodol o hono, ac felly nid yw y gair rhagrith yn awgrymu c gwbl eu bod yn fwrriadol yn twyllo. Anghysondeb ymddygiad âg argyhoeddiad dirgel, oedd, trwy ymddidoli yn anfrawdol oddiwrth y Cenhedloedd, yn dwyn i'r golwg beth croes i uniondeb yr efengyl.

Fel ag y dygwyd, ie, Barnabas ymaith gyda hwy.—Enwir hyn gyda gofid dwys—ie, Barnabas fy mrawd a'm cydymaith—fel y prawf amlycaf o gryfder y llif. Trwy eu rhagrith y bu y fath beth; codai grym ffuant, chwedl W. Salesbury, y rhan Iuddewaidd trwy ddylanwad Pedr i'r fath uchder fel y dygwyd ymaith hwn, y gwr da a llawn o'r Yspryd Glan unwaith, ac un a safasai mor eofn yn y ddadl fawr yn Jerusalem.

14. **Eithr pan welais nad oeddynt yn iawn-droedio.**—Yr ystyr yw cerdded mewn llinell unionsyth, heb wyro ar y naill law na'r llall; ymadrodd cymhwys i ddangos y peth na cheir pan ddel llwfrdra i wneyd ei waith yn mywyd hyd yn nod dynion da.

At wirionedd yr efengyl.—Mae cerdded yn uniawn *at* y gwirionedd fel nod, yr un peth a cherdded yn uniawn *yn ol* y gwirionedd. Yr oedd buchedd Pedr yn awr yn gyfryw ag i gynwys gwadiad o athrawiaeth sylfaenol, sef cydraddoldeb pob dyn o flaen Duw yn Nghrist, neu fel y dywedir yn mhellach na all enwaediad ddim na dienwaediad, ond ffydd yn gweithredu trwy gariad

ti, a thi yn Iuddew, yn byw fel y Cenhedloedd ac nid fel yr Iuddewon, pa fodd yr wyt ti yn gorfodi y Cenhedloedd i fyw yn Iuddew-

wyt ti, a thi yn Iuddew, yn byw fel y Cenhedloedd, ac nid fel yr Iuddewon, pahan yr wyt ti yn cymhell y Cenhedloedd i fyw yn Iuddew-

Os wyt ti, a thi yn Iuddew, yn byw fel y Cenhedloedd, pahan, &c. ?

—Galleu yma osod dau ofyniad i lawr, (1) Pa fodd, gan mai fel Iuddew yr oedd Pedr yn byw yn awr, y defnyddir yr amser presenol—“ os *wyt* ti yn byw fel y Cenhedloedd ?” (2) Yn mha ystyr yr oedd yn *gorfodi** y Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd ? Gyda golwg ar y cyntaf, un eglurhad a roddir yw fod yr amser presenol yn cyfeirio at arfer Pedr pan yn mhllith Cenhedloedd ; pa bryd bynag y deuai yr alwad yr oedd, yn ol ei egwyddorion ac addysg gweledigaeth Joppa, yn byw fel y Cenhedloedd ; felly y meddwl yw—“ Os wyt ti, pan y deui i blith Cenhedloedd, yn byw fel y maent hwy yn byw.” Ond prin y defnyddid y geiriau yn yr ystyr yma ar adeg pan yr oedd mor bell ac mor ddifrifol wedi cilio oddiwrth y cyfryw arfer. Iaith ymresymiad syml yw y presenol, yn ol Holsten. “ Mae,” medd ef, “ yn unig yn gosod y ddau beth mawr yn ymddygiad Pedr,—ei fod ar un adeg yn byw fel Cenedl-ddyn, ei fod bryd arall yn tynu yn ol i fywyd Iuddew, a thrwy hyn yn gorfodi y Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd—mae yn gosod y rhai hyn yn eu hanghysondeb rhyfedd ochr yn ochr a'u gilydd, gan ddodi ei fys ar yr anghysondeb. Felly, ffurf ymresymiad heb gyfeiriad o gwbl at amser sydd yn y geiriau.” Efallai y gellid ychwanegu fod holl gwrs deublyg ac anghyson Pedr yn fyw o flaen meddwl yr apostol wrth ddweyd y geiriau—y ddwy ochr mor fyw a'u gilydd o flaen llygaid ei feddwl ar yr un foment danbaid hon.

Trwy y ffurf o gwestiwn yn yr ail ran gosodir allan yn rymus anghysondeb ymddygiad Pedr. Pa fodd yr wyt ti yn gorfodi ? Cyfystyr a dweyd, “ ni ddylit ti o bawb orfodi y Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd.” Nid oes genym gymaint ag awgrym fod Pedr pan y dechreuodd gilio wedi dysgu neu gyfarwyddo y Cenhedloedd fel hyn. Pa fodd, ynte, yr oedd yn eu gorfodi ? Gallai, fel y dywedir gan Meyer ac eraill, fod ei *esiamp*l yn gwneyd hyn. Dyma eglurhad Jerome yn y ddadl fawr a fu rhyngddo ag Awstin yn y bedwaredd ganrif, “ Efe a'u gorfoda, nid trwy orchymyn athraw, ond trwy *esiamp*l buchedd,”—(non docentis imperio sed conversationis exemplo, Ep. lxxx. 4.) Ond Iuddew oedd Pedr, Cenhedloedd hwythau : ac ni allai *esiamp*l Iuddew a giliai yn ol at arferion bywyd Iuddewaidd ddylanwadu nes “ gorfodi” dim arnynt hwy. Eto yr oedd gorfodaeth yn *nghanlyniadau* ymddygiad Pedr. Mae disgrifiad llyfr yr Actau o fywyd eglwys Antiochia ar ol y cyngor yn Jerusalem yn un o'r pethau prydfertaf yn yr holl lyfr, (Actau xv. 30—33.) Rhoesai llythyr yr apostolion, o'r rhai yr oedd Pedr yn un, iddynt lawenydd a dyddanwch mawr; ond yn awr, wele ef, gwr yr oedd ei law wrth y llythyr dyddanus hwnw, wedi peri rhywyg yn eu cymundeb. Yr unig ffordd, gan mor gryf oedd rhagfarn y rhai yr oedd eu hofn ar Pedr, iddynt adenill yr undeb a fwynheid o'r blaen, oedd trwy gydsynio i fyw yn Iuddewaidd. Gorfodid hwy i hyn gan y cyflwr y dygasid yr eglwys iddo trwy neillduad Pedr.

* Gwel gwaelod tudalen 24 ar y gair cymhell yn yr ystyr o “ orfodi.”

15 aidd? Nyni wrth naturiaeth ydym Iuddewon, ac nid o'r Cenhedloedd yn bechaduriaid, ond gan wybod o honom nad ydys yn cyfiawnhau dyn o weithredoedd y

aidd? Nyni, y rhai wrth 15 naturiaeth ydym Iuddewon, ac nid o'r Cenhedloedd yn bechaduriaid, yn gwybod 16 nad ydys yn cyfiaw nhau dyn trwy weithredoedd y ddeddf,

Mae y cyfieithiad newydd o adn. 15 fel yr eiddo Beza "*nos sumus Judaei*," ac yn sylweddol mae Calfin yn un âg ef.

15, 16. Nyni y *sawl ym* Iuddewon wrth anian.....sef *nyni, meddaf*, a credesam yn Iesu Christ.—W. S. We which are Jesus by nature.....even we *I say*.—Gen. Nyni yn Iuddewon o naturiaeth.....ie, nyni a gredasom yn Iesu Grist.—M,

15, 16.—Un frawddeg gyfansawdd yw y ddwy adnod hyn; ychwanegir, ar seiliau y feirniadaeth oreu, y gair "ond" yn nechreu adn. 16. Nyni ydym Iuddewon.....ond gan ein bod yn gwybod na chyfiawnheir dyn o weithredoedd y ddeddf.....ninau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu fel y'n cyfiawnheid.....Ymddengys yn dra naturiol i ni ystyried fod yr holl adran o adn. 15 hyd ddiwedd y benod yn rhoddi i ni *sylwedd* yr hyn a ddywedwyd yn ngwydd yr holl eglwys wrth Pedr. Yr un cwestiwn yn hollol oedd yn awr yn cythryblu eglwysi Galatia ag a fuasai y pryd hyny yn rhanu eglwys Antiochia; felly mae ail-adroddiad o'r geiriau a arferasid tuag at Pedr, trwy y rhai, yn ol pob tebyg, yr adferwyd undeb a gwirionedd yr efengyl yno, yn cael eu bwriadu i ateb yr un dyben gyda'r Galatiaid. Eto mae yr ymdeimlad ei fod yn dweyd y geiriau yn awr wrth bobl Galatia yn gosod ei ol ar ddullwedd iaith yr apostol, nes erbyn y diwedd y mae fel pe yn eu cyfarch hwy yn unig.

Nyni wrth naturiaeth ydym Iuddewon.—Cyfeirir trwy y ddwy adnod at bethau oedd gyffredin i'r ddau wr, "Yr wyt ti a minau yn Iuddewon, eto ni a geisiasom ein cyfiawnhau trwy ffydd Crist"—ac ar hyn seilir y gweddi-ill. Mae Paul yn mhellach yn fwriadol yn cymeryd safle hollol Iuddewaidd, yn ol yr hon yr edrychid ar y Cenhedloedd, o'u cyferbynu â'r had etholedig, yn bechaduriaid.

Ond gan wybod o honom na chyfiawnheir dyn.—Er ein bod y cyfryw, eto oherwydd ein bod yn gwybod na chyfiawnheir dyn trwy weithredoedd y ddeddf*, ninau hefyd, fel pe baem genhedloedd a gredasom yn Nghrist Iesu. Fel hyn, yn y gair sydd yn nechreu yr adnod "gan wybod," y ceir y rheswm am eu ffydd. Gyda golwg ar ystyr y gair pwysig "cyfiawnhau," yr hwn sydd yn ein cyfarfod yma am y tro cyntaf yn yr epistol, gellir gwneyd rhai sylwadau byrion. Mae ei ystyr i'w geisio yn unig o'r Ysgrythyr, yn neillduol o gyfieithiad Groeg y LXX ac o epistolau Paul. Yn Rhuf. iv. 2, 3, 6, eglurir y gair "cyfiawnhau" trwy yr ymadrodd "cyfrif cyfiawnder," ac nis gall "cyfrif" olygu ond *ystyried*, nid *gwneyd* dim ydyw. Pan mewn barn neu gyfraith y cyhoeddir am un cyfiawn ei fod yn gyfiawn,

* Mae amryw ysgrifenydd yn dweyd "gweithredoedd deddf;" ond er y teimlen ni wahaniaeth, buasai y gair felly heb ystyr i ddarllenwyr cyntaf yr epistol. Mae yn hynod nad oes yn y llythyr hwn un ystyr i'r gair deddf fel a geir yn yr Epistol at y Rhufeiniaid—deddf pechod, deddf ysbryd y hywyd. Deddf Moses a feddylir yma yn mhob man ond yn vi. 2.

ddeddfond trwy ffydd Crist Iesu, ninau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu fel y'n cyfiawnheid o ffydd Crist ac nid o weithredoeddy ddeddf; oblegyd o weithredoedd y

ond trwy ffydd Iesu Grist, ninau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnhaer trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf; oblegyd ni chyf-

neu am un euog yr ystyrir ef yn gyfiawn o ran o peth a wneir, neu a beidir a gwneyd iddo—dyna yw cyfiawnhau yn ystyr Paul. Nid ystyried un euog yn gyfiawn o ran yr hyn ydyw a feddylir, ond o ran *y mddygiad* Duw tuag ato, yn peidio ei gosbi, neu yn ei lwytho â daioni ei gariad, Mae llawer mwy na hyn yn nghadwedigaeth dyn a'i achubiaeth oddiwrth bechod, eto nid yw cydnabod hyny yn cyffwrdd dim ag ystyr y gair "cyfiawnhau." "Cyfiawnhad *neu* sancteiddhad," yw athrawiaeth eglwys Rhufain, gan olygu fod cyfiawnhau yn golygu hefyd *gwneyd* dyn yn gyfiawn o ran anian; cyfiawnhad *a* sancteiddhad yw yr athrawiaeth Brotestanaidd, ac nid yw dangos fod Duw yn ei iachawdwriaeth yn gwneyd dynion yn gyfiawn yn milwrio dim yn erbyn yr eglurhad uchod o gyfiawnhau. Cynwysir hyny gan Brotestaniaid dan y gair sancteiddio.

Un wedd ar yr ymadrodd *gweithredoedd y ddeddf* yw, gweithredoedd a berthynant i'r ddeddf; gwedd arall ag y dilyna y cyntaf o honi yw, y gweithredoedd hyny y mae y ddeddf yn eu gorchymyn. Er fod y rhaniad, deddf foesol, seremoniol, farnol, yn un manteisiol i ddeall y gyfraith, a'i brif linellau yn sicr yn llyfrau Moses, eto anhawdd dweyd fod y gair *deddf* yn y llythyr hwn yn cyfeirio at y naill na'r llall o'r rhaniadau hyny. Yr oedd Paul a Phedr yn unfarn na ellid trwy gyflawni pethau ordeiniedig gan y ddeddf (ac yn y meddwl o hyn cymysgai arferion seremoniol yn fynych a phethau moesol) gyfiawnhau neb.

Ond trwy ffydd Crist Iesu.—Mae *trwy* ffydd ac o ffydd yn yr adnod hon i'w gweled yn hollol gyfystyr. Ni ddywedir *trwy* weithredoedd o gwbl yn y Rhufeiniaid, nac yn y llythyr hwn, ond o weithredoedd, eto gan farnu oddiwrth y peth a welwn yn hanes y gair ffydd, ni wneir un camgymeriad pwysig wrth arfer yr ymadrodd *trwy weithredoedd* yn Gymraeg am o *weithredoedd*. Ffydd Crist yw ffydd yn Nghrist, a phan arferir y gair fel hyn, neu y dywedir "credu yn Nghrist," y meddwl yw ymddiried yn naioni a chariad Crist fel y mae yn Gyfryngwr rhwng Duw a dynion, neu yn Nuw fel y dadguddir ei gariad yn Iesu Grist. Pan ddywedir *trwy* ffydd, golygir fod presenoldeb y cyfryw deimlad yn yr enaid, y teimlad dynaf a all fod yn enaid dyn, yn *foddion* i sicrhau cyfiawnhad, ac ar yr un pryd yn *gymhwysder* i'w derbyn; yn y gair o ffydd mae y meddwl yr un, ond ar agwedd arall, gan yr edrychir ar y teimlad o ymddiried yn awr fel y *ffynhonell* o'r hon y tardd cyfiawnder.

Ninaw hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu.—Ninaw, fel y Cenhedloedd, oherwydd gwybod nad oes gyfiawnhad ond trwy ffydd Crist, a gredasom ynddo. Yr ydym yn cael yn lle Iesu Grist a Christ Iesu y cyfieithiad cyffredin, yn ol y darlleniad goreu, "Crist Iesu" ddwywaith, ond rhyfygus yw ceisio adeiladu dim ar y gwahaniaeth. Enw syml yw Crist Iesu fel Iesu Grist.

y ddeddf ni chyfiawnheir un
17 cnawd. Ond os, wrth geisio
ein cyfiawnhau yn Nghrist
y'n caed ninau hefyd yn
bechaduriaid, a yw Crist am
hyny yn weinidog pechod?

iawnheir un cnawd trwy
weithredoedd y ddeddf. Ac 17
os, wrth geisio eu cyfiawn-
hau yn Nghrist, y'n caed
ninau hefyd yn bechadur-
iaid, a ydyw Crist am hyny
yn weinidog pechod? Na

17. ym bell oedd (ar ymyl y ddalen, na ato Duw).—W. S. a ydyw Crist am hyny yn weinidog pechod? Nac ydyw.—M.

Oblegyd o weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir un cnawd.—Ail adroddiad sydd yma o eiriau cyntaf yr adnod, ond mewn gosodiad eangach trwy y gair *un cnawd*, fel y cauer allan bob posibilrwydd o'r fath gyfiawnhad gyda Duw. Er y gallai fod geiriau Ps. cxliii. 2, yn meddwl yr apostol, anhawdd yw gweled ei fod yn dyfynu yr Ysgrhythyr gyda'r bwriad o brofi ei osodiad; nid yw y geiriau "gweithredoedd y ddeddf" yn y Salm, a "neb byw yn dy olwg di" yw y gweddill. Yn rhediad y ddwy adnod y meddwl a gyfyd yw—rhaid dewis rhwng y ddeddf a ffydd, rhwng y bwriad i *enill* cymeradwyaeth Jehovah a'i *dderbyn*, gan ymddiried yn ei drugaredd. Paham y glywir *c gwbl* wrth y ddeddf tra yr ydym yn dilyn ffordd arall, hollol wahanol, o geisio iachawdwriaeth, ac yn ol ein cyfaddefiad ein hunain, yr unig ffordd?

17. Ond os wrth geisio ein cyfiawnhau.—Gwelir ystyr rymus geiriau yr adnod hon yn fwy eglur, hwyrach, o sylwi ar y pethau canlynol,—

1. *Ninau*, eto, yw Pedr a Paul.
2. Mae y frawddeg sydd yn dechreu ag *os* yn gosod o'n blaen dybiaeth o'r hyn sydd yn ffaith, ond yn ffaith *mewn ystyr Iuddewig* i Pedr a'i blaid, ac *mewn ystyr foesol ddofn* i Paul.
3. Mae yr ysgrifenydd yn fwriadol yn gosod i lawr oddiwrth hyn gasgliad anmhriodol—fod Crist *am hyny* yn weinidog pechod—er mwyn ei wadu yn gryf.
4. Oddiwrth hyny arweinir ef i ddangos nad yw y ddeddf ychwaith i lynu wrthi *fel rheol buchedd* mwy nag fel moddion cyfiawnhad, ac felly dymchwelir safle rhai fel Pedr a ddywedent "ffydd *a'r* ddeddf," gan ymochel rhag egwyddor Paul, "ffydd *heb* y ddeddf."

Yr oedd Pedr yn ogystal a Phaul wedi ymwrthod â'r ddeddf fel ffordd o gyfiawnhad gyda Duw, eto nid oedd yn ei duedd bresenol yn gollwng ei afael o honi fel y ffordd ddwyfol o ymarfer duwioldeb; nis gallai fod yn wr crefyddol, yn marn y blaid yr ymadawsai â hi, heb fod yn Iuddew defosiynol yn ol y ddeddf. I gyfarfod meddyliau o'r fath y dywed yr apostol yma, "fe'n caed ni *pan yn ceisio ein cyfiawnhau* yn Nghrist yn bechaduriaid," hyny yw, yn rhai heb wahaniaeth rhyngom a'r Cenhedloedd. Yn awr, gan fod bod heb y ddeddf yr un peth a bod yn bechadurus (fel y dywed y blaid Iuddewaidd), pan adawsom ni y ddeddf i fyn'd at Grist am gyfiawnder, fe'n profwyd ni yn bechaduriaid,—a yw Crist am hyny yn awdwr pechod? Ynddo Ef y'n caed ni *heb* y ddeddf (ar wahan iddi), ac felly yn bechaduriaid, onid yw efe yn gyfrifol o wneyd dau Iuddew yn bechaduriaid dim gwell na Cenhedloedd dienwaededig? Na ato Duw: nid yw yr hwn sydd yn dadguddio pechod yn achos o hono. Gan nad yw

- 18 Na ato Duw. Canys os y pethau a ddystrywiais, y pethau hyny yr wyf yn adeiladu drachefn, yr wyf yn gosod fy hun yn droseddwr.
- 19 Canys myfi trwy y ddeddf a fum farw i'r ddeddf fel y ato Duw. Canys os wyf fi yn adeiladu drachefn y pethau a ddystrywiais, yr wyf yn fy ngwneuthur fy hun yn droseddwr. Canys yr wyf fi trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf, fel y byddwn fyw

19. Can ys myvi trwy'r ddeddyf vum varw i'r ddeddyf, ac val y bawn byw i Dduw, im crogwyt y gyd a Christ.—W. S. For I through the Lawe am dead to the Lawe and that I might live unto God for I am crucified with Christ.—Gen.

Crist yn weinidog pechod (hyny yw, yn achos o bechod) pan y mae dynion yn cael eu cyfiawnhau ynddo Ef heb y ddeddf, nid yw ychwaith pan y mae dynion ynddo Ef hefyd yn cael ffordd newydd o dduwioldeb—yn cael ffordd seml ysbrydol o fywyd ymarferol, ar wahan i osodiadau y ddeddf.

18. **Canys os y pethau a ddystrywiais.**—Nid yw Crist yn weinidog pechod, canys mae pwy bynag sydd yn adeiladu drachefn y pethau a ddystrywiasai yn dangos mai efe oedd mewn pechod pan yn y gwaith o ddystrywio. Brawddeg yn mynegu gwirionedd mewn gosodiad cyffredinol yw hon, eto mae ei chyfeiriad at yr amgylchiad yn Antiochia a'r cwestiwn rhwng y ddau wr. Os wyf fi, neu rywun arall, yn adeiladu drachefn yr hyn a ddystrywiais, yr wyf yn cydnabod trwy ail godi i mi o'r blaen dros-eddu: dyma dy safle di, Pedr; yr wyt wrth droi yn ol at y ddeddf yn dy fuchedd feunyddiol yn cydnabod mai troseddwr oedditi pan y gadewaist hi i geisio dy gyfiawnhau; os rhaid i ti yn awr wrthi, ni ddylesit droseddu mor bell a'i gadael i gael dy gyfiawnhau. Nid yw Crist yn weinidog pechod. Nid wyf finau yn agored i gael dweyd yr un peth am danaf ag a ddywedais am danat ti. Y geiriau nesaf yw y rheswm.

19. **Canys myfi trwy y ddeddf a fum farw i'r ddeddf.**—Ymddengys fod pwyslais arbenig i'w osod ar y rhagenw **myfi** mewn gwrthgyferbyniad i'r cyfeiriad dirgel at Pedr yn adn. 18. Mae byw wrth y ddeddf i mi yn hollol anghydnaws â ffydd yn Nghrist, ac felly yr wyf wedi tori fy mherthynas â hi am byth; mi a fum farw iddi fel y dilynwn fuchedd arall mewn byw i Dduw. Mae peth amwysedd yn y geiriad Cymraeg ag y mae y Groeg yn gallu ei osgoi: nid ystad, ond gweithrediad a olygir yn y ddau air *marw* a *byw*, ac amcenir gosod hyny allan trwy ddweyd "mi a fum farw," yn lle "yr wyf wedi marw," gan feddwl "mi a ymwrthodais a hi yn hollol;" hefyd, "fel y byddwn byw," yn lle "fel y byddwn fyw," gan awgrymu y fuchedd oedd o hyn allan i fod yn fuchedd i Dduw.

Beth yw ystyr yr ymadrodd *marw i'r ddeddf trwy y ddeddf*? 1. Trwy y ddeddf yn y rhanau hyny o honi sydd yn cyfeirio at Grist, yw un eglurhad. Ond wrth ddweyd fel hyn yr ydym yn arfer y gair deddf am ran o'r hyn a gynnwysir ynddi. 2. Trwy ddeddf ffydd i ddeddf gweithredoedd, (per legem fidei legi operum), medd Bengel. Yr ydym yn sicr yn darllen "deddf Crist" (vi. 2.) yn y llythyr hwn, ond ni elwir yr efengyl a'i chynwys yn unman wrth y gair noeth *deddf*, a buasai y cyfryw gyfnewidiad yma yn un sydyn neillduol ac annealedig. 3. Dylem, yr wyf yn meddwl, gymeryd

20 byddwn byw i Dduw. Yr i Dduw. Mi a groeshoel- 20
 wyf wedi fy nghroeshoelio iwyd gyda Christ: eithr byw
 gyda Christ, eithr nid myfi ydwyf; eto nid myfi, ond
 mwyach sydd yn byw, ond Crist sydd yn byw ynof fi;
 Crist sydd yn byw ynof fi;

y gair *deddf* yn y ddau ymadrodd—"trwy y ddeddf," fel "i'r ddeddf,"—yn yr un ystyr. Dywed Paul. mewn man arall, "Nid adnabuaswn i drachwant oni bai ddywedyd o'r ddeddf na thrachwanta," ac yma mae efe eisoes wedi cyfeirio at ei waith ef a Pedr yn gadael y ddeddf i'w cyfiawnhau yn Nghrist. Galleid yn deg ddweyd mai trwy y goleuni a gawsent o'r ddeddf ei hun am eu hanmherffeithrwydd y gwnaethant hyny, yr hon ddeddf oedd i Paul yn ysbrydol ac yn sanctaidd ac yn dda. O'i gweled megys yn ngoleuni y bregeth ar y mynydd, yn ei hysbrydolrwydd, y dygwyd yr apostol i geisio cyfiawnder gan Dduw yn syml drwy gredu ynddo. Ond parhad o hyn ydyw marw i'r ddeddf; ymgodi ydyw i'r meddwl o gyfryw addoliad a buchedd ysbrydol ag y byddai ordeiniadau deddf Moses yn rhwystr ynddynt, ac yn y meddwl hwnw ei gadael yn hollol. Ni allasai, ac ni ddylasai, adael y ddeddf ond yn unig er mwyn llwyrach bywyd dan gymhellion uwch nag y gwyddai Iuddew, ie, Iuddew crefyddol am danynt.

20. Yr wyf wedi fy nghroeshoelio gyda Christ.—Yr oedd mwy yn hanes y marw i'r ddeddf na'i fod wedi cymeryd lle "trwy y ddeddf." Yr oedd hefyd yn rhywbeth a wnaed gyda Christ yr Arglwydd; un wedi ei groeshoelio ac nid un a groeshoeliwyd yn unig yw Iesu Grist: erys y croeshoeliad byth fel ffaith fyw yn ei berson Ef. Yr oedd marw i'r ddeddf yn weithred yn nglyn a Christ croeshoeliedig, ac y mae yn parhau yn y rhai ydynt eiddo ef mewn didoliad beunyddiol oddiwrth y gwyrni a godai o fywyd ar yr echel gam o geisio eu cyfiawnhau trwy weithredoedd. Dywedir *cyd*groeshoelio â Christ am fod y pwer ysbrydol a wnaeth hyn yn angau y groes.* Ceir ymadroddion cyffelyb i hwn,—cyd-gladdu, cyd-farw, cyd-blaniogion i gyffelybiaeth ei farwolaeth ef. Rhuf. vi. 4, 5, 6, 8; Col. ii. 12, 20.

Eithr nid myfi mwyach sydd yn byw.—Mae y rhaniad sydd wedi bod yn gyffredin o'r frawddeg hon er amser Erasmus a Luther yn awr yn cael ei wrthod bron yn gyffredinol, a'r un sydd yn y cyfieithiad uchod ei dderbyn.† Mae "myfi" pob dyn, sef ei ymwybyddiaeth o hono ei hun fel bôd ar wahan i bawb a phobpeth arall, wedi tarddu o angenrheidrwydd o holl orphenol bywyd; priodol, felly, yr ymddengys "myfi" yr apostol iddo ef fel yr hen ddyn, yr un a groeshoeliasid, a bod grym ei fywyd presenol yn dyfod o gyfeiriad arall. Y "myfi" iddo ef oedd y cymeriad a fuasai yn ol y ddeddf yn Pharisead, ac yn ol zel yn erlid yr eglwys. Gan nad yw felly yn awr, ei brofiad yw mai nid efe ei hun sydd yn

* "Our crosses are the lengthened shadow of the cross on Calvary."—Newman's Lectures on Just., vii.

† Mae yr atalnodi yn yr argraffiadau diweddaf a goreu o'r Vulgate yn gyffelyb wahanol iddynt hwy, "vivo autem jam non ego" yn lle "vivo autem, jam non ego."—Corssen Epist. ad Gal.

a'r hyn yr wyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr wyf yn ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd ac a'i dodes ei hun
 21 dros of fi. Nid wyf yn di- a'r hyn yr ydwyf yr awrhon yn ei fyw yn y cnawd, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw, yr hwn a'm carodd, ac a'i dodes ei hun dros of fi.
 Nid wyf yn dirymu gras 21

21. Nid wyf yn dirymio rrat Duw: o bleit a's ywrth y Ddeddyf y *mae* cyfiawnder, yno y bu varw Christ heb achos.—W. S. then Christ died without a cause.—Gen. Ni ddirymaf ras Duw.—M.

byw. Crist yn ei allu fel Gwaredwr yw yr egwyddor o fywyd sydd yn awr o'i fewn yn sancteiddrwydd ac anfarwoldeb.*

Onid yr hyn yr wyf yn ei fyw yn y cnawd, h.y., fy mywyd yn awr yn y cnawd. Mae y gair yr awrhon yn gyferbyniol i'r amser cyn iddo farw i'r ddeddf, pan oedd y "myfi" yn byw. Wrth son am ei fywyd yn y *cnawd*, cyfeiria yr apostol at y bywyd newydd fel ei gwelid ac y gweithredai yn mywyd arferol y corff o gnawd. Bywyd i Dduw oedd, o lafur a dyoddef mewn ffydd, gobraith, a chariad, a thra yr oedd y pethau hyn yn bod yn mywyd y cnawd, yr oedd iddynt ffynhonell y tu allan i bob peth a berthyn i gnawd. Hon yw ffydd yn Mab Duw. Mae ymddiried yn Nghrist, er yn weithred yr ewyllys, yn tynu yr holl ddyn iddi ei hun, ei ddeall a'i galon, a'r canlyniad yw byd newydd o brofiad; eto, mae y ffaith fod yr apostol yn *gallu* dweyd "nid myfi" mewn ymadrodd sydd yn llyth'renol yn anmhosibl—"nid myfi sydd yn byw"—ynddo ei hun yn fynegiad profiad Cristion yn yr ymdrech yn erbyn pechod, fod yr "hen ddyn" eto yn bodoli, er wedi ei ddiorseddu a'i symud o ganolbwynt bywyd. Beza a ddygodd i fewn y cyfieithiad "*trwy* ffydd Mab Duw;" onid gwell yw cadw o flaen ein llygaid, trwy gyfieithu geiriau yr apostol yn deg, ddwy ochr y bywyd newydd; mewn un ystyr yr oedd yn y cnawd, mewn ystyr arall yr oedd yn ffydd Mab Duw; man ei weithrediad yw y naill, achos ei fodolaeth a'i barhad y llall.

Yr hwn a'm carodd ac a'i dodes ei hun dros of.—Geiriau tododedig, llawn adgof diolchgar o'r peth yn hanes Mab Duw a barodd fod ffydd ynddo ef yn egwyddor o fywyd—ei gariad a'i aberth. Yr un gair a gyfieithir am Dduw yn Rhuf. viii. 32, a'i *traddododd* ef, efallai yn fwy cywir, gan mai y syniad o aberth—aberth o hono ei hun sydd yn yr ymadrodd.

Dengys yr holl adran hon y dyben uchel sydd i'r hyn oedd yn neillduol yn galw am sylw yr apostol. Rhyddid oddiwrth y ddeddf (a phob deddf yn yr ystyr yma), cyfiawnhad trwy ffydd heb weithredoedd, marw i'r ddeddf,—eu pwrpas oll yw, egluro bywyd Iesu yn ein marwol gnawd ni. Nid yw y rhyddid oddiwrth y ddeddf y dadleuir drosto,—y ddeddf y mynai rhai lynu wrthi, gan feddwl nad oedd yn bosibl bod yn grefyddol, defosiynol a chymeradwy gan Dduw hebddi,—yn arwain neb i fywyd annuwiol fel y Cenhedloedd, ond i'r gwrthwyneb, i fyw i Dduw yn ffydd ei Fab.

21. **Nid wyf yn dirymu gras Duw, canys**—Gall dwy ystyr fod i'r gair a gyfieithir "dirymu;" (1) rhwystro effeithioldeb peth, diddymu, dileu,

* "I will be near thee, I will be in thee.....inward in presence, and intimate in fruition, a principle of life and a seed of immortality.....In truth, the principle of our spiritual existence is divine, is an ineffable presence of God."—Newman, Lectures on Justification, ix.

<p>rymu gras Duw, canys os trwy y ddeddf y mae cyfiawnder, yna bu Crist farw yn ofer.</p> <p>III. O! y Galatiaid ynfyd,</p>	<p>Duw: canys os o'r ddeddf y mae cyfiawnder, yna y bu Crist farw yn ofer.</p> <p>O, y Galatiaid ynfyd, III.</p>
---	--

1 Pwy a'ch llygat-dynawdd chwi val na lynch wrth y gwirionedd, i ba'r ei y racyscythrwyt Iesu Christ o vlaen eich llygait, ac yn eich plith y crogwyt?—W. S. *And* among you crucifiad.—Gen. Oh! y Galatiaid anghall, pwy a'ch rheibiodd. ac a'i croeshoeliwyd yn eich plith?—M.

“deall y rhai deallus a ddilëaf” (1 Cor. i. 19); (2) gwrthod, diystyru, dirmygu; gwel Marc vi. 26, Ioan xii. 42, 1 Tim. v. 12. Yr ail ystyr yma a roddir i'r gair yn y fan hon gan Grimm. Felly Erasmus “*aspernor*,” y Vulgate “*abjicio*,” a Calvin “y fath anniolchgarwch ofnadwy yw diystyru gyfryw anmhrisiadwy ras Duw ac wedi ei sicrhau trwy bris mor fawr.” Defnyddir y gair eto (iii. 15) am ddirymu testament neu gyfamod, sef ei osod o'r neilldu, a da fyddai i ni fel y gwna Beza a'n cyfieithwyr ni gadw yr un ystyr yn y ddau le. Rhaid dewis naill ai y ddeddf heb ras, neu ras heb ddeddf. Nid wyf trwy ymgadw at y fath beth anghymarus a ffydd *gyda'r dde* ldf am wneyd gras Duw yn ddi-effaith.

Canys os trwy y ddeddf y mae cyfiawnder, yna bu Crist farw yn ofer.—Gair beiddgar yn ngenau apostol Iesu Grist, eto un buddugoliaethus. Mae yn gwynebu at yr holl gwestiwn; os yn y ddeddf y mae cyfiawnder, yr oedd marwolaeth Crist yn ddiangenrhaid, yn ddialw am dano.

Nid rhyfedd yn nghynhyrfiad y fath feddwl cyffrous i'r apostol gyfarch ei ddarllenwyr, “**O! y Galatiaid ynfyd.**”

PENNOD III.

III.

YR AIL BRIF RAN—ATHRAWIAETHOL. III. I—V. 12.

Yn hon profir gwirionedd athrawiaethau arbenig yr efengyl a bregethid yn mys y cenedloedd.

A. Gwelir yr hudo yr ildiasai y Galatiaid iddo yn eu gwaith yn cilio yn ol at y ddeddf pan yr oeddynt wedi derbyn yr Ysbryd Glan, a nerthoedd yr Ysbryd nid trwy weithredoedd y ddeddf ond trwy ffydd. 1—6.

1. **O! y Galatiaid ynfyd, pwy a'ch llygad-dynodd?***—Cyffroir yr apostol i'r cyfarchiad hwn gan y meddwl fod y ddyseidiaeth a gofleidiaeth id gandynt wedi eu tywys i fywyd oedd yn tybied fod Crist wedi marw yn

* Ar dystiolaeth y feirniadaeth oreu gadewir allan “fel nad ufuddhaech i'r gwirionedd.” Wedi eu doddi o'r neilldu, teimlir fod mwy min yn yr iaith heb-dynt; felly hefyd gadewir allan y geiriau “yn eich plith.”

pw y a'ch llygad-dynodd, i'r rhai o flaen eu llygaid y portreadwyd Iesu Grist *fel*
 2 *un* croeshoeliedig? Hyn yn unig a ewyllysiaf ei ddysgu genych, Ai o weithredoedd y ddeddf y derbyniasoch yr Ysbryd ynte o wrandawiad

pw y a'ch llygad-dynodd chwi felnad ufuddhaech i'rgwirionedd, i ba rai o flaen eu llygaid y portreadwyd Iesu Grist wedi ei groeshoelio yn eich plith? Hyn yn unig a ewyll- 2 ysiaf ei ddysgu genych; Ai wrth weithredoedd y ddeddf y derbyniasoch yr Ysbryd, ynte wrth wrandawiad ffydd?

2. Ai wrth glywet precethu'r ffydd.—W. S. Or by the hearing of faith preached.—Gen. Gwrandawiad y ffydd.—M.

ddiachos. Dyma yr unig fan y ceir y gair a gyfieithir llygad-dynu yn y Testament Newydd. Defnyddir ef am athrodi, neu ddifenwi, yna am effeithiau drwg tybiedig y cyfryw; defnyddir ef hefyd am effeithiau edrychiad llygad drwg oedd yn ol y dyb gyffredin yn tynu neu yn swyno eraill. Pwy fel swynwr a'ch tyncdd chwi a'i lygad, gan eich rheibio? Yn i. 6, y mae yr apostol yn synu eu bod yn symud *mor fuan*; yma ymddengys y peth, gan enyn cyffelyb syndod, fel gwaith y rhiniwr. Dywed Luther ei fod yma yn "esgusodi y Galatiaid, ac yn taflu y bai ar y gau apostolion."

Y portreadwyd Iesu Grist.—Mae i'r ferf yn ei ffurf seml yn y Groeg y ddwy ystyr o ysgrifenu a phortreadu fel y gwna arlunydd. Gyda'r blaendod sydd yma cawn yn ol yr ystyr flaenaf (1) ysgrifenu o'r blaen megys yn Eph.iii 3, lle mae cyfeiriad at ran flaenorol o'r llythyr hwnw, neu Rhuf. xv. 4, lle y cyfeirir at ysgrifeniadau y proffwydi. Yn ol yr ail ystyr (2) *portreadu* neu *ddarlunio ar gyhoedd*, ac weithiau o'r arfer o wneyd hysbysiadau cyhoeddus mewn ysgrifen, *cyhoeddi*. Mae iaith gyffrous ar ei cholled o beidio cadw y ffigiwr fydd yn gyffredin ynddi, felly yma, y meddwl yn ddiau yw darlunio ar gyhoedd, ond anhawdd yw mynegu hyn mewn un gair Cymraeg. Dylasai eglurdeb mawr y desgrifiad a gawsent yn mhregethau Paul, o natur a dyben marwolaeth Iesu Grist, eu cadw rhag unrhyw ddylanwad swyngyfareddol.

Fel un croeshoeliedig.—Mae cyfeiriad at y groes, yn gyffredin, yn ngeuau yr apostol hwn, yn tywys y meddwl nid at ddull ond at natur marwol-aeth Iesu Grist.

2. **Hyn yn unig a ewyllysiaf.**...—Bydd eich ateb i'r cwestiwn hwn ei hun yn ddigon i benderfynu y mater. Nid yw yn dysgwyl ateb i'r un blaenorol, ond dyma un y dylent ei ateb, ac nis gallent wrthod heb gondemnio eu hunain. Ai trwy weithredoedd y ddeddf, hyny yw, ai trwy y ffordd y'ch dysgir fod yn rhaid eich cyfiawnhau, y daethoch i afael o un *arall* o fendith ion Duw? A gawsoch chwi yr Ysbryd Glân o weithredoedd y ddeddf? Oni chawsoch y naill, paham y mynwch geisio y llall yn ffyrdd gweithredoedd?

Gwrandawiad ffydd.—Heblaw fod y gair Groeg yn gyfystyr a'r ddau ai^r Cymraeg *clywed* a *gwrando*, mae iddo yn y Beibl ystyr arbenig, a barn amryw yw mai yr olaf yw ei ystyr yma. Yn yr Hen Destament *clywed* y gair a leferir wrtho a wna y prophwyd, ac felly "peth a glywyd" yw ei genadwri at y bobl; mynegai ef "ei glywed" iddynt hwy. Yn nghyfieithiad y

3 ffydd? A ydych mor ynfyd A ydych chwi mor ynfyd? 3
 —wedi i chwi ddechreu a'r gwedi i chwi ddechreu yn yr
 Ysbryd a orphenwch chwi yr Ysbryd, a berffeithir chwi yr

3. A ydych chwi mor anghall, wedi dechreu yn yr Yspryd, a diweddu yr awron yn y cnawd?—M.

LXX mae i'n gair ni yr ystyr yma—y peth a glywyd ; y peth, am hyny, a ddywedir, a gyhoeddir. Mewn dau ddyfyniad o'r Hen Destament yn y Newydd, cawn yr un meddwl—"pwy a gredodd i'n *hymadrodd*?" (yn llyth-*'renol*—i'n clywed), Ioan xii. 38, a'r un geiriau yn Rhuf.x.16. Os derbynir hyn yn yr adnod hon gwelwn reswm am gyfieithiad W. S. a Beibl Geneva,—“ai wrth glywed pregethu y ffydd?” Dyma yr eglurhad a rydd y ddau brif Eiriad-ur (Cremer a Grimm)—cyhoeddiad neu bregethiad (o'r angen am) ffydd, “Pa un ai o weithredoedd y ddeddf y derbyniasoch yr Ysbryd ai o bregethiad ffydd?” Ymddengys i mi mai yr ystyr o *wrando* neu *glywed* yw yr unig un posibl mewn nifer dda o'r manau lle yr arferir y gair hwn yn y Testament Newydd, a'i fod yn eithaf priodol yn y gweddill, *oaddigerth y ddau le a enwyd uchod*, lle na cheir ond ymadrodd ac iaith neillduol y LXX. Mae gwrandaw yn fynych yn gyfystyr ag ufuddhau, ac yn ol y meddwl yma ymddengys fod “gwrandawiad ffydd” yr un petli ag “ufudd-dod ffydd.” Pa un ai wrth gyflawni y ddeddf ai wrth *ufuddhau mewn ffydd* y derbyniasoch yr Ysbryd?

3. **A ydych mor ynfyd?**—Rhaid fuasai iddynt ateb na dderbyniasent yr Ysbryd trwy unrhyw ffordd ond trwy wrandawiad ffydd, ond ar ol hyny gwelir yn mhellach yr ynfydrwydd o orpheniad cnawdol i ddechreuad ysbrydol. Gwelwn yma gyferbyniad dwbl,—(1) *Ysbryd, cnawd*; (2) *dechreu, gorphen*. Wrth “y cnawd” yr ydym i ddeall yma yr holl bethau hyny yn nglyn a chrefydd a alwem ni yn allanol, y rhai yr oedd iddynt ryw berthynas neu gilydd a'r corph; hwn oedd cymeriad gweithredoedd y ddeddf megys enwaedu, ymatal oddiwrth fwydydd, ymprydio, cadw diwrnodiau, bod o genedl Israel—cyfres o bethau ag yr oedd eu lle yn y cnawd. Ymddiried yn y cnawd yn ol Phil. iii. 4--6 oedd ymddiried yn enwaediad yr wythfed dydd, mewn bod o genedl Israel, a bod yn ol y ddeddf yn Phariseaid, erlid yr eglwys, &c. Nid yr un meddwl sydd i'r gair cnawd yn y cysylltiad hwn ag sydd iddo yn mhellach yn mlaen lle sonir am “weithredoedd y cnawd,” gan gynnwys y syniad o nwydau a chwantau llygreddig* Y cyferbyniad naturiol i ddechreu yw gorphen neu ddiweddu, nid perffeithio, fel yn Phil. i. 15, “y bydd i'r hwn a ddechreuodd ynoch waith da ei orphen.” Felly y mae cyfieithiad Dr. Morgan, “diweddu yr awrhon yn y cnawd.” O gymeryd y gair yn yr ystyr yma pell ydym oddiwrth golli y watwareg lem y cyfeiria Meyer ati fel yn bod yn ystyr oddefol y ferf “cael eich gorphen,” neu eich perffeithio. Wedi i chwi ddechreu yn yr ysbryd a ydych yn diweddu, hyny yw, a ydych yn aros neu yn gorphwys yn y cnawd: a hyny, “yn awr,” medd Bengel, “pan y dylasech fod wedi gadael y cnawd ac yn cynyddu yn fwy fwy ysbrydol.”

* Non appellat carnem (ut supra quoque monui) libidinem, passiones belvinas sen appetatum sensitivum. Ovia hoc loco non disputat de libidine aut de aliis concupiscentiis, carnis sed de remissione peccatorum, de justificanda conscientia de parcenda justitia coram Deo.—Luther.

4 awrhon a'r cnawd? A brof- awrhon yn y cnawd? A ddy- 4
 asoch gymaint yn ofer, os oddefasoch gymaint yn ofer?
 5 ofer hefyd? Yr hwn gan os yw ofer hefyd. Yr hwn 5
 hyny sydd yn rhoddi i chwi gan hyny sydd yn trefnu i
 yr Ysbryd ac yn gweithredu chwi yr Ysbryd, ac yn gwneu-
 nerthoedd ynoch chwi, ai o thur gwyrthiau yn eich plith,
 weithredoedd y ddeddf neu ai o weithredoedd y ddeddf
 o wrandawriad ffydd *y gwna* neu o wrandawriad ffydd y

5. *A wna ef hyny wrth weithredoedd y Ddeddyf ai wrth glywet y ffydd gwedi hei phrecethu?*—W. S. *Doeth he it through the workes of the Law,*—Gen. Ai o weithredoedd y ddeddf y *mae efe?*—M.

4. **A brofasoch gymaint yn ofer.**—Fel y fath air a “nwyd,”* neu y Saesneg “passion,” mae i'r gair Groeg a gyfieithir “dyoddef” yn yr adnod hon ddwy ochr. Y peth a fynegir yn wreiddiol trwyddo yw fod dyn yn brofiadol o gael ei gynhyrfu gan rhywbeth; gall gael ei gynhyrfu gan brofiad o dda yn gystal ag o ddrwg. Y rhan amlaf profiad o ddrwg a feddylir,* fel yn yr holl eiriau y mae y ddwy ochr hyn iddynt, “nwyd” er esiampl. Ond ar y llaw arall *mae* i'r gair ystyr dda, a hyny heb un gair arall gydag ef, ac er nad oes engraifft *arall* o'r cyfryw yn y Testament Newydd, yr oedd yn ddigon cyffredin i ni ddysgwyl ei gyfarfod yn yr Ysgrythyr.† Heblaw hyn nid yw yr apostol yn son o gwbl am erledigaeth yn Galatia; a thuaddir ni gan hyny i gredu mai nid *dyoddef* ond *profi* yw yr ystyr. “A brofasoch chwi gymaint—cael portreadu i chwi Iesu Grist yn groeshoeliedig, derbyn yr Ysbryd Glan, dechreu buchedd newydd yn yr Ysbryd—a brofasoch chwi gymaint a hyn yn ofer, fel yr ydych yn sicr o wneyd wrth ddiweddu yn y cnawd”?

Os ofer hefyd.—Awgrymir yn y geiriau hyn, medd Meyer, fod eu setyllfa yn waeth na dyoddef yn ofer—fe allai fod eich cyflwr erbyn hyn, wedi y pethau a ddyoddefasoch oddiwrth y dysgawdwy'r Iuddewig, yn waeth nag ofer. Ond buasai eisiau rhyw air ychwanegol i roddi y meddwl yma. Ymddengys y geiriau yn hytrach fel rhai yn agor o'u blaen y gobaith oedd eto yn mynwes yr apostol na fu y cyfryw brofiadau yn weithredol ofer.

5. **Yr hwn gan hyny sydd yn rhoddi i chwi yr Ysbryd.**—Cyfeiria yr ail adnod at brofiad personol y Galatiaid, ond yma gwneir apel at yr hyn a welant yn mywyd yr eglwys. Nis gellir meddwl am neb ond Duw fel yr un sydd yn rhoddi yr Ysbryd, neu yn ei gyflenwi. Efe hefyd sydd yn gweithredu nerthoedd ynddynt. hyny yw, nerthoedd ysbrydol yn eu bywyd newydd o gymundeb y saint. Bydded iddynt edrych o'u hamgylch ar y

* “O sancteiddia f' enaid, Arglwydd,
 Yn mhob *nwyd*, ac yn mhob dawn.”

† Dyma mewn Cymraeg lled llythyrenol, gyfieithiad o rai llinellau lle ceir y ferf yn hollol fel y mae yma, yn ngwaith un o feirdd Groeg:—

“Tydi, yr hwn a ddywedi i ti brofi,
 Y cyfryw bethau ag a brofaist oddiar fy llaw i,
 Eto ni wnei i mi dda, ond yn ol dy allu, drwg.”

Eurip. Hee II, 35.

- 6 *hyny?* megys y credodd Abraham i Dduw ac y cyfrifwyd iddo ef yn gyfiawnder; mae? Megys y credodd 6 Abraham i Dduw, ac y cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder.
- 7 *chwi a wyddoch felly mai y* Gwybyddwch felly mai y rhai 7

6. *Nid amgen* megys y credawdd Abraham.—W.S. *Yea rather as.*—Gen.

7. *Mai yr ei y sydd o'r ffydd.*—W.S. *Mai y rhai sy o'r ffydd.*—M.

rhai sydd yn cael cyfranu iddynt yr Ysbryd Glan, ac y gwelir ynddynt nerth newydd—rhagorol fawredd ei nerth ef tuag at y rhai sydd yn credu—ac ymofyn pa un ai o ddilyn y gweithredoedd a ofynir gan y ddeddf, ai o'r gwrandio sydd mewn ffydd gywir y daw hyny. Tystiolaeth y profiad Cristionogol yw y peth yr apelir ato yn yr adran hon; mae hwnw yn cario ynddo ei hun brawf o haniad llawer uwch na chydffurfiad a deddf gweithredoedd.

6. **Megys y credodd Abraham.**...Yr ydych chi yn cael yr ysbryd a nerthoedd dwyfol trwy ffydd, megys Abraham ei gyfiawnder. I'r blaidd Iuddewig, Abraham oedd y penaf o'r rhai a gyfiawnheir trwy weithredoedd, ond i Paul, efe yw tad y rhai sydd yn credu; tad yr Hebraeaid yw tad credinwyr. Yn y geiriau hyn, fel yn Rhuf. iv. 3, pan y dywedir i Abraham greu i Dduw, y meddwl yw iddo, heb ddim yn allanol i'w symbylu i hyny, oherwydd yr ymddiried oedd ganddo yn Nuw—yn ei wirionedd, ei allu, ei anrhydedd,—gyfrif ei addewid noeth yn un sicr, a phwyso arni. Ymddiriedodd ynddi heb amheuaeth yn unig am mai addewid Duw ydoedd. Nid ces yn y geiriau hyn, feddylw'n, gyfeiriad at obaith am y Messiah. Yn ol yr hanes yn Genesis xv. 4—6, gosododd Abraham ei hun yn gyfangwbl yn llaw Duw i'w fendithio. Mae y gair "*cyfrif yn gyfiawnder*" yn llawn ystyr; nis gall y fath air a hwn, neu "beidio cyfrif pechod," gyfleu y syniad o *wneyd* dyn yn gyfiawn. Ar sail ffydd, neu oherwydd bod Abraham yn ymddiried yn Nuw. ystyriwyd yn ei ffafr y cyfiawnder sydd yn gwneyd yn bosibl i ddyn fod yn gyfaill Duw. O ran y gair ei hun, gall y dywediad "*cyfrif yn gyfiawnder*" feddwl cydnabod cyfiawnder sydd yn bod yn awr fel yr awgrymir yn yr ymadrodd "*cyfrif o ddyled*" (Rhuf. ix. 4), ond megys yn wrthgyferbyniol i hyn y dywedir "*cyfrif o ras,*" mae holl rediad y manau lle sonir am gyfrif cyfiawnder, neu gyfrif ffydd yn gyfiawnder, yn dangos mai y meddwl yw cyfrif i'r annuwiol—i'r euog—y cyfiawnder y mae yn amddifad o hono, o ran y dull yr ymddygir tuag ato. Yma mae safle yr Iuddew a safle Paul yn hanfodol wahanol. "Gwel fy nghyfiawnder, O Dduw, a derbyn ef, canys gwasanaethais di," yw iaith y cyntaf, ond Paul—"Dod i mi dy gyfiawnder, Arglwydd, gan fy mod yn ymddiried ynot."

B. Mae yr Ysgrhythyr ei hun yn dangos fod cyfiawnder, a'r fendith a addawyd i Abraham yn dyfod o ffydd, ac i bawb sydd yn credu, fel gwir feibion Abraham. Nid o weithredoedd y ddeddf y daw y fendith, ond oherwydd i Grist ddyfod yn felldith, ceir hi gan y Cenhedloedd hefyd heb y ddeddf (7—14.)

7. **Chwi a wyddoch felly mai y rhai sydd o ffydd.**...—O ran ei ffurf gallai y ferf fod yn orchymynol, ac felly y cyfieithir hi gan y Vulgate,

rhai sydd o ffydd y rhai hyn
8 yw meibion Abraham. A'r
Ysgrhythyr yn rhagweled mai
o ffydd y mae Duw yn cyf-
iawnhau y Cenhedloedd, a
rag-efengylodd i Abraham,
"YNOT TI Y BENDITHIR YR

sydd o ffydd, y rhai hyny yw
plant Abraham. A'r Ysgrhyth- 8
yr yn rhagweled mai trwy
ffydd y mae Duw yn cyfiawn-
hau y Cenhedloedd, a rag-
efengylodd i Abraham, gan
ddywedyd, Ynot ti y bendith-

8. A rac euangelawdd i Abraham gan ddywedyt.—W. S. a ddywedodd o'r
blaen i Abraham fel hyn.—M.

gan Calvin a Meyer. Yr unig reswm a rydd Meyer dros hyn yw fod hyny
yn gwneyd y frawddeg yn fwy bywiog, ond wrth ystyried fod y geiriau
yn gosod o'n blaen wirionedd eang sylfaenol i'r drafodaeth hon fel casgliad
oddiwrth yr hyn a ddywedir am Abraham, mwy naturiol yw y modd myn-
egol. Felly y mae gan Luther, Beza, a Dr. Lightfoot.* Gan fod Abraham
wedi ei gyfiawnhau trwy ffydd mae yn anmhosibl i neb fod yn fab i Ab-
raham, a thrwy hyny etifeddu y fendith ar unrhyw sail ond yr un sydd yn
perthyn i Abraham ei hun. Wrth "y rhai sydd o ffydd" y meddylir, nid
fel pe y dywedasai, "y rhai sydd blant Abraham mewn ffydd yw gwir
blant Abraham," ond yn hytrach y rhai y mae eu cyflwr ysbrydol o gad-
wedigaeth wedi dyfod iddynt o ffydd. Gwel Rhuf. ii. 8 "y rhai sydd o
gynen;" iv. 14 "y rhai sydd o'r ddeddf." Nid yw Ioan byth yn dweyd
"meibion" ond "plant" Duw, ond tra y mae Paul yn ei epistolau eraill, hyd
y gallwn weled, yn defnyddio y ddau air heb un gwahaniaeth ystyr, yn hwn
gan mai am berthynas braint a rhagoriaeth y sonir dywedir *meibion* ac nid
plant.

8. A'r Ysgrhythyr yn rhagweled.... — Felly y dywedir yn iii. 22, fod
yr Ysgrhythyr yn cydgau: yn ol cynwys yr Ysgrhythyr yr oedd cyfiawnhad y
Cenhedloedd trwy ffydd yn cael ei ragweled a'i ragesfengylu yn y geiriau a
lefarwyd wrth Abraham.

A ragesfengylodd.—Tu allan i'r Beibl "rhagfynegu" neu "rhag-gyhoeddi"
yw ystyr y ferf hon, fel y dywed Philo fod "y seren foreu yn rhag-gyhoeddi
cyfodiad yr haul." Ond oherwydd ystyr arbenig y gair efengylu yn y
Testament Newydd, teg yw casglu fod yr apostol yn awgrymu fod y myn-
egiad i Abraham yn "efengyl cyn yr efengyl."

Mai o ffydd y mae Duw yn cyfiawnhau y Cenhedloedd.—Yma y
sonir gyntaf am gyfiawnhau rhai o'r tu allan i gylch Israel. Yn ol syniad
yr Iuddew nid oedd yn bosibl i neb gael Jehovah Sanct Israel yn Dduw, ac
felly yn foddolawn iddynt, heb ddyfod o rif pobl Israel trwy ddefod
ac enwaediad. Yr oedd profiad wedi dysgu yn amgen i Paul, ond yn awr
dengys fod yr Ysgrhythyr yn cydnabod yr hyn y cawsai ef brofiad amlwg o
hono, fod Duw yn cyfiawnhau y Cenhedloedd fel yr Iuddewon heb y ddeddf
ond yn unig o ffydd. O'r LXX y dyfyna yr apostol gan rydd gyfnewid yn
ol y geiriau blaenorol "yr holl Genhedloedd" am "holl dylwythau y
ddaear." Ond pa fodd y mae y fath addewid yn cynwys cyfiawnhad y

* Cognoscitis nempe.—Tertullian. Cognoscitis ergo.—Cyprian. Cyfieithiad yr
hen Ladin, yn ol y dystiolaeth hon oedd, "chwi a wyddoch.

9 HOLL GENHEDLOEDD." Felly y rhai sydd o ffydd a fendithir gydag Abraham ffyddio lawn. Canys cynifer ag ir yr holl Genhedloedd. Felly 9 gan hyny, y rhai sydd o ffydd a fendithir gydag Abraham ffyddlawn. Canys cyniefr 10

Cenedloedd o ffydd? Ymddengys mai yn y gair "ynot ti" y cynwysir hyny: nid "yn dy had di" a ddywedir yma, ond "ynot ti," fel 3wr o ffydd, fel un yn credu ac a fendithir felly, agos yn ystyr y geiriau nesaf "gyda thi." Mae bendithio y cenedloedd yn eangach na'u cyfiawnhau, gan gynnwys addewid yr Ysbyrd fel y gwelwn yn mhellach yn mlaen, eto mae yn seiliedig ar gyfiawnhad, ac felly mae yr Ysgrythyr sydd yn addaw bendith i'r Cenedloedd yn cynwys eu cyfiawnder hefyd.

9. **Felly y rhai sydd o ffydd a fendithir.**—Gair yn perthyn yn neillduol i'r Ysgrythyrau ac i grefydd yw "bendithio." Er y defnyddir ef weithiau yn ysgrifeniadau y Groegiaid, eto ei ystyr gyda hwy yw canmol neu lefaru yn dda am rywun. Pan ddelom at y Beibl gwelwn mai y syniad gwrthgyferbyniol yw, nid enllib neu ddifenwad, ond *mellidith*. Gwel Deut. xxx. 19. Sonir yn fynych am fendithio Duw yn yr ystyr o'i foli, fel yr arferai y Groegiaid y gair, ac am fendithio pethau a dynion trwy ddymuno iddynt ras a ffafr oddiwrth Duw,—“pan y'n difenwir yr ydym yn bendithio.” Eithr pan ddarllenwn am Dduw yn bendithio dyn daw lled a hyd newydd hollol i'r gair. Dyrchafiad dymuniad a gair sydd pan fendithio dyn Duw, ond daw dyrchafiad gweithredol pan fendithio Duw ddyn. Daw doniau y ffafr ddwyfol iddo yn rhoddion gwerthfawr gan ei ddirchafu a'i berffeithio. *Rhan* o hyn yw cyfiawnhad, ond pan gyfeirir at fendith Abraham i'r Cenedloedd efallai y cyfyngir yr ystyr i'r hyn a gafodd Abraham pan y cyfiawnhawyd ef.

Gydag Abraham ffyddlawn.—“Fe'n gelwir yn ffyddlawn,” medd Chrysostom, “nid yn unig am ein ffydd, ond hefyd am yr ymddiriedir i ni ddirgelion Duw.” Amwys yw y gair a gyfeithir yma ffyddlawn, ni welwn, yn Groeg fel yn y Gymraeg. Mewn ystyr weithredol, golyga “un sydd yn credu,” ac felly y cyfeithir yn 2 Cor. vii. 15, “pa ran sydd i gredadyn gydag anghredadyn;” o'r tu arall, yn oddefol, yr ystyr yw “un y gellir ymddiried ynddo,” megys “ffyddlawn yw Duw.” Gwell, hwyrach, o ran yr ymadrodd blaenorol “y rhai sydd o ffydd,” yw cadw y gair yn y ffurf hon, gan gofio mai ei ystyr yw “Abraham grediniol,” megys hefyd yn ei deitl “Tad y ffyddloniaid,” neu yn y Cyffes Ffydd “Eglwys weledig neillduol, yw cynulleidfa o ffyddloniaid” (o gredinwyr)*

Gydag Abraham.—Nid yn hollol fel y gair “yn Abraham;” yn yr un ffordd ag Abraham, neu yn nghymdeithas Abraham.

10. **Canys cynifer ag y sydd o weithredoedd y ddeddf.**—Ar ol y wedd gadarnhaol o'r gwirionedd am “y rhai sydd o ffydd,” daw yn awr y wedd gondemniol am y “rhai sydd o weithredoedd.” Hwyrach yw y ddau ddoesbarth y cyfeiria yr apostol ei sylwadau atynt. Mae y ddeddf yn eangach na thyb y rhai olaf hyn; yn eangder ei hystyr ysbyrdol, maent hwythau hefyd yn behaduriaid, ac felly o dan y fellidith a gyhoeddir ar drosoddwyr. Wrth fellidith golyga yr apostol y farwolaeth farnol sydd yn cau y cyfryw rai oddi wrth fendith.

* Erthygl xxxv.

y sydd o weithredoedd y ddeddf, danfelledith y maent; canys ysgrifenedig yw, "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau ysgrifenedig yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur
 II hwynt." Ac na chyfiawnheir neb yn y ddeddf gerbron Duw eglur yw, oher-

ag y sydd o weithredoedd y ddeddf, danfelledith y maent: canys ysgrifenydd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenydd yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt. Ac
 II na chyfiawnheir neb trwy y ddeddf gerbron Duw, eglur yw: oblegyd, Y cyfiawn a

11. Ac na chyfiawnir nebun wrth y Ddeddyf yn golwch Duw.—W. S.
 12. Y dyn a wnel y pethau hyny.—W. S.

Mae y geiriau nesaf yn cael eu dyfynu yn rhydd, heb fanyldeb gair am air, o Deut. xxvii. 26, yn ol y cyfieithiad Groeg, lle y darllenir "pob un," a "holl eiriau," er nad ydynt yn llythyrenol yn yr Hebraeg. O ran ystyr y maent yno; o ran sylwedd, yr un modd, y mae "y pethau sydd ysgrifenedig" yn cyfateb i "eiriau y gyfraith hon."* Ffigiwr am droseddu yw crwydro neu adael, felly aros yn y ddeddf yw bod yn ffyddlon iddi; gwneuthur yw y cyfan a ddywed hi; fel deddf, gweithredoedd yw ei thiriogaeth, ond mewn ystyr ysbrydol daw meddyliau a theimladau hefyd i'w cyfrif yn weithredoedd.

II. Ac na chyfiawnheir neb yn y ddeddf. — Nid anfuddiol fyddai gosod yma ddwy ffordd o gyfieithu yr adnodau hyn heblaw yr uchod.

(1) Ac, oblegyd na chyfiawnheir neb yn y ddeddf, eglur yw mai y cyfiawn o ffydd a fydd byw.

Yr wrthddadl i'r cyfieithiad yma yw, ei fod yn dwyn yn mlaen reswm am wirionedd a gynwysir mewn gair o'r Ysgrhythyr. Arfer yr apostol yw dwyn Ysgrhythyr yn mlaen i brofi gosodiad arall o'i eiddo ei hun.

(2) Ac, oblegyd na chyfiawnheir neb yn y ddeddf—(eglor yw y gair "y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd," a'r ddeddf nid yw o ffydd, eithr, "yr hwn a wna y pethau hyn a fydd byw trwyddynt),—Crist a'n prynodd ni oddiwrth felldith y ddeddf.—Hofmann.

Anhawdd yw dangos mewn Cymraeg byr pa fodd y mae y ddau gyfieithiad hyn yn bosibl, ond try yn benaf ar yr atalnodi a'r gair a gyfieithir *oblegyd*. Buddiol fyddai eu darllen. Ond er mor darawiadol a chywrain (rhy gywrain, fel arfer,) yw golygiad Hofmann, teimlwn fod sylledd y cyfieithiad cyffredin Cymraeg yn fwy boddhaol.

Yn y ddeddf.—Hyny yw, o fewn ei thiriogaeth hi ni chyfiawnheir neb gerbron Duw. Dyma y gwirionedd a brofir trwy Ysgrhythyr yn y geiriau nesaf. Oblegyd fod yr Ysgrhythyr yn tystiolaethu mai oherwydd ei ffydd y bydd y cyfiawn byw, mae yn anmhosibl i gyfiawnder a bywyd orphwys ar gyflawni y ddeddf; ond yn mhellach, nid ces a fyno deddf â ffydd nac â

* Fel hyn y mae cyfieithiad y LXX—"Melldigedig yw pob dyn yr hwn nid yw yn aros yn holl eiriau y gyfraith hon i'w gwneuthur hwynt."

wydd “Y cyfiawn a fydd
 12 byw o ffydd.” A'r ddeddf
 nid yw o ffydd, eithr “Yr
 hwn a wna y pethau hyn a
 13 fydd byw ynddynt.” Crist
 a'n prynodd ni oddiwrth
 fydd byw trwy ffydd. A'r 12
 ddeddf nid yw o ffydd: eithr
 Y dyn a wna y pethau hyn,
 a fydd bywtrwyddynt. Crist 13
 a'n llwyr-brynodd oddiwrth
 felldith y ddeddf, gan ei

13 Christ a'n prynawdd *ni* ywrth velldith y ddeddyf, pan wnaethpwyt ef yn velldith trosam.—W.S. Ond Crist an prynodd rhag melldith y ddeddf pan wnaed ef yn felldith trosom.—M.

Cafodd Morgan yr “ond,” debygem, gan Beza, “*At Christus nos redemit.*”

chredu, ond â gwneuthur, felly ynddi hi ni chyfiawnheir neb. Mae y fath eiriau a hyn yn dangos i ni nad yw yr apostol yn son am y ddeddf yn ei hystyr uchaf, ond yn ystyr y rhai a geisient gyfiawnder trwyddi. Dyfynir y ddau ymadrodd, “y cyfiawn a fydd byw o ffydd,” “y dyn a wnel y pethau hyn a fydd byw trwyddynt,” heb arwyddo mai o'r Hen Destament y cymerir hwy, am eu bod mor adnabyddus. O'u gosod ochr yn ochr a'u gilydd,—

a fydd byw trwy ffydd, a fydd byw yn ei weithredoedd,

gwelwn ynddynt ddwy ffordd wrthgyferbyniol i gael bywyd na allant byth gydfod. Gan nad yw yr olaf yn bosibl tra bo y cyntaf yn bod, a thystiolaeth yr Ysgrhythyr yw mai hon sydd yn bod, yna ni chyfiawnheir neb yn y ddeddf gerbron Duw.

13. Crist a'n prynodd ni . . .—Dan felldith y mae y rhai sydd o weithredoedd y ddeddf—dan felldith y ddeddf. Yma yn hollol ddigwmpas, heb gymaint a chysylltair, dangosir i ni yr hyn a wnaeth waredigaeth yn bosibl. Crist a'n prynodd oddiwrth y felldith na allai y ddeddf beidio ei llefaru. Nid yw y ferf yn awgrymu y meddwl sydd yn ein cyfieithiad ni—*llwyr-brynu*—a gadawyd y *llwyr* allan yn iii. 13; Eph. v. 16; Col. iv. 5; yn hytrach, y meddwl yw prynu *allan* neu *oddiwrth*, gan gyfeirio ein llygaid at brynu i waredu, nid prynu i feddianu. Yn ffgyrol, yn ddiau, y defnyddir y ddau air a gyfieithir prynu yn y Testament Newydd. Ni ellir dweyd fod Crist wedi prynu dynion ond mewn cyffelybiaeth, eto fe wnaed ganddo ef, ac ynddo ef, y peth a wneir yn mhob pryniant, ond yn enwedig mewn pryniant i waredu. Pan ddywedir wrthym fod dyn yn prynu unrhyw beth, fferm, er engraifft, mae un o ddau feddwl ynom. Ar un tu, y meddwl yw fod un newydd yn *cael meddiant o honi*, yn ei *guneyd yn eiddo iddo ei hun*. Fel hyn y dywedir i Grist brynu, yn I Cor. vi. 20; vii. 23; Dat. v. 9, er fod y ddwy adnod gyntaf hefyd yn awgrymu yr uchel werth a roddwyd. Ar y tu arall gallwn feddwl am y tal a rydd, gan ei fod yn ymado a rhywbeth arall sydd yn eiddo iddo er mwyn perchenogi y fferm. Cael trwy golli y mae y prynwr; aberth o un peth a ddwg iddo beth arall. Yma y daw ymddarostyngiad ac angau Iesu Grist, fel aberth gwirfoddol, yn debyg i'r tal a rydd y prynwr. Ond, uwchlaw pob peth, nid oddiwrth brynu cyffredin, prynu i feddu, y daeth y dull hwn o ddesgrifio gwaith y Gwardwr. Prynu i waredu, fel y prynir caethwas neu garcharor, trwy dalu iawn neu bris gollyngiad drosto, sydd yn y fath eiriau a prynedigaeath, prynu, pridwerth.

felldith y ddeddf trwy ddyfod yn felldith drosom ni, canys y mae yn ysgrifenedig, "Melldigedig yw pob un sydd yn nghrog ar bren,"
14 fel y delai i'r Cenhedloedd

wneuthur ynfelldith trosom: canys y mae yn ysgrifenedig, Melldigedig yw pob un sydd yn nghrog ar bren: fel
14 y delai bendith Abraham ar

Mae yma fwy o aberth nag mewn prynu cyffredin, sef aberth yn cael ei gymhell gan gariad, a'r cyffelyb ganlyniad dedwydd a bar fod y gair prynu mewn ffigiwr yn cael ei ddweyd am Grist. Swm a sylwedd ystyr y prynu oddiwrth felldith y ddeddf yw gwaredu. Gwel am y gair sydd yma 1 Cor. vi. 20; vii. 23; Dat. v. 9; xiv. 3, 4, ac yn ei ffurf gyfansawdd fel yn yr adnod hon, iii. 13; am y ferf arall a gyfieithir prynu Luc xxiv. 22; Tit. ii. xiv.; 1 Pedr i. 18; gwel hefyd Luc i. 68; ii. 38; Heb. ix. 12; hefyd Luc xxi. 28; Rhuf. iii. 24; viii. 23; 1 Cor. i. 30; Eph. i. 7, 14; iv. 30; Col. i. 14; Heb. ix. 15; xi. 35.

Gan ddyfod yn felldith trosom ni—Neu er ein mwyn ni. Awgrymir i ni yma eiriau 2 Cor. v. 21, "yr hwn ni wnaeth bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni." Gelwir y felldith yn felldith y ddeddf am mai y ddeddf sydd yn ei mynegu, er mai ei tharddiad cyntaf yw yr atgarewydd sydd mewn Bod perffaith sanctaidd tuag at bechod, ac un sydd yn llywodraethu y byd yn ol ei natur sanctaidd. Trwy ddyoddef y felldith, neu trwy y dyoddef a berthyn i gosbedigaeth pechod, y daeth Crist i ni yn gyfiawnder Duw. Pechod a ddywedir yn 2 Cor. v. 21, melldith yma, gan awgrymu na wnaed y Gwaredwr yn bersonol yn bechod, ac na ddaeth yn bersonol yn felldith, ond ddarfod iddo yn ei groeshoeliad ddyoddef y cyfryw farwolaeth ag oedd, yn ol y ddeddf y mae dyn yn byw dani, yn felldigedig. Sancteiddrwydd cariad yw sancteiddrwydd Duw, eto y gwirfoddol ddyfod yn felldith ar du Crist, y gwirfoddol aberth o hono ei hun i ddyoddef cosb a wnaeth yn bosibl i'r sancteiddrwydd hwnw beidio ymbellhau oddiwrth ddynoliaeth bechadurus, hyny yw, peidio cosbi am bechod. **DROSOM NI**—hyny yw, *erom ni*; ond er mai dyma ystyr amlwg y gair, nid yw yn cau allan y meddwl o fod "yn ein lle;" yn y gair "erom ni" yr amlygir fwyaf o gariad, ac am hyny hwn a ddefnyddir amlaf.

Canys ysgrifenedig yw "melldigedig yw."...—Gydag ychydig gyfnewidiad geiryddol, ond heb newid yr ystyr, cymerir y geiriau hyn o gyfieithiad y LXX. Deut. xxi. 23, "melldigedig gan Dduw yw pob un sydd yn nghrog ar bren." Gwaherddir yma i gorff un a grogid ar bren fod yno dros nos rhag aflanhau y wlad, gan fod y cyfryw yn felldigedig gan Dduw. Fe allai fod yr apostol yn teimlo na allai, na fyddai weddus iddo, arfer y fath air a "gan Dduw" wrth son am farwolaeth ei Waredwr; felly gadewir ef allan gan nad oedd angen am dano yn ol ei ystyr ef o'r dyfyniad.

14. Fel y delai i'r Cenhedloedd.....fel y derbyniem....—Dyma ddau ddyben cyfochrog i'r prynu; dyfod o'r fendith a gafodd Abraham i'r Cenhedloedd, ac nid i'r Iuddewon yn unig; derbyn o honom ni Iuddewon a Chenedloedd gyflawniad yr addewid o'r Ysbryd Glan. Gan mai trwy y cyfryw bryniad y daw gwaredigaeth, ac nid o gadw y ddeddf nid oes i'r Iuddew yn hyn ragorfraint; daw bendith Abraham (ac wrth hyn golygir cyfiawnhad, mae'n wir, ond hefyd fwy o lawer na chyfiawnhad) i'r Cenhedloedd heb un

fendith Abraham yn Iesu Grist, fel y derbyniem yr addewid am yr Ysbryd trwy
 15 ffydd. Y brodyr, dywedyd yr wyf ar wedd ddynol, Cyd na byddo ond cyfamod dyn wedi y cadarnhaer nid yw neb yn ei ddirymu neu yn
 y Cenhedloedd, trwy Grist Iesu; fel y derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd. Y brodyr, dywedyd yr wyf 15 ar wedd ddynol; Cyd na byddo ond amod dyn, wedi y cadarnhaer, nid yw neb yn ei ddirymu neu yn rhoddi

15. Dywedyd ydd wyf val y *gwna* dynion. Cyd na bo and ambot dyn,—W. S. I speak as men doe.—Gen. ni ddirymma neb ef ac ni ddry *ddim* wrtho.—M. Felly hefyd W. S. aut *aliquid ei* superaddit.—Beza.

alwad arnynt i ddyfod yn Iuddewon dan y ddeddf. Derbyn yr addewid yw derbyn cyflawniad yr addewid (gwel Heb. vi. 15), derbyn yr Ysbryd Glan ei hun, i gadw, i barhau a chynyddu y fendith wedi iddi ddyfod.

B. Nid yw addewid Duw yn rhoddi lle i'r ddeddf oedd yn gymaint diweddarach na hi: nis gall yr etifeddiaeth fod o'r ddeddf: rhodd gras Duw ydoedd i Abraham. 15—18.

15. Dywedyd yr wyf ar wedd ddynol, neu yn ol dyn.—Yn yr hyn sydd i ddilyn, fe gyfeiria at arfer dynion yn eu hymdraffodaeth a'u gilydd. Yn ngrym ei ymdeimlad o hyn, mae yr apostol wedi taflu y gair a gyfieithir "cyd na byddo ond" allan o'i le arferol i ymyl y gair *dyn*, gan arwyddo felly mai ar hwn y mae y pwyslais. Felly y *gwna* hefyd yn 1 Cor. xiv. 7, "Os cadarnheir trefniad dyn, nid yw neb er hyny (er mai trefniad *dyn* ydyw) yn ei ddirymu neu yn gwneyd trefniad chwanegol." Meddwl gwreiddiol y gair a gyfieithir *amod* yw *trefniad*, ac felly defnyddir ef i ddynodi (1) yn arbenig gan y Groegiaid, y trefniad a wna dyn o'i eiddo yn ei ewyllys olaf neu yn ei lythyr cymun, ei destament. Cawn yr ystyr yma yn Heb. ix. 16. (2) Y trefniad a wneir rhwng dwyblaidd mewn ffordd o gyfamod, er mai gair arall (*synthese*) a arferir amlaf gan yr ysgrifenywyr Groegiaid am hyn. (3) Yn 2 Cor. iii. 14, cyfieithir ef *Testament* am Ysgrhythrau yr Hen Destament fel talfyriad, dywedir, o'r ymadrodd, "Ysgrhythrau y Cyfamod." Yn yr ystyr yma mae mewn arferiad mor foreu ag amser Origen (ganwyd 185) am ddwy ran y Beibl. Ystyr fwyaf cyffredin y gair yn y Testament Newydd yw *cyfamod*, wedi ei fenthycu felly o gyfieithiad Groeg y LXX, lle y defnyddir ef beunydd am gyfamod Duw â dynion, tra na cheir gair cyffredin y Groegiaid ond teirgwaith. Efallai fod y defnydd eithriadol o'r gair fel hyn yn awgrymu mai *trefniad* grasol Duw yw ei gyfamod, yn yr hwn y mae Efe yn rhwymo ei hun i Israel. Efe ei hun a osodai y berthynas oedd yn cynwys ordeiniadau i'w cadw gan ddynion ac addewidion uchel i'w cyflawni ganddo ef. Mae gwahaniaeth pwysig, er hyny, rhwng ystyr y gair yn y Test. Newydd ragor mewn arfer gyffredin. Yn y Test. Newydd, yr addewid ddwyfol a sicheir, nid y peth a ofynir oddiar law dyn sydd fwyaf yn y golwg, ac y mae hyny i raddau, medd rhai, yn cyfiawnhau y farn mai testament (ewyllys) a ddylid arfer yn mhob man yn y Testament Newydd. Dyma y rheswm paham y mae *cyfamod* yn yr adran hon yn llithro i'r gair addewid. Y peth

16 rhoddi ato. I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion ac i'w had ef: nid yw yn dywedyd, "Ac i'w hadau," megys am lawer, ond megys am un, "Ac i'th had ato. I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megys am lawer; ond megys am un, Ac i'th had di, yr hwn yw

16. Ny ddywet ef, Ac i'r hadae.—W. S. Ni ddywedodd, Ac i'th hadau.—M.

y mae Duw yn *addaw* ei wneyd i'w bobl, yn benaf, yw ei gyfamod â hwynt.* Gwel Heb. x. 16. Mae y gair *cadarnhau* yn lled awgrymu testament neu lythyr cymun, eto mae cadarnhau ffurfiol yn bod i drefniant neu gyfamod a wna dyn, ac wedi hyny rhaid iddo sefyll fel y gwnaed ef; nid yw neb yn ei ddileu, ac nid yw neb yn trefnu yn chwanegol (dyma ystyr y ferf),—yn ychwanegu dim at y trefniant fel trefniant.

16. I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion.—Yn yr addewidion yr oedd trefniad neu gyfamod Duw âg Abraham, ac felly mae addewid a chyfamod bron yn gyfystyr yn y benod hon. Gwnaed yr addewidion, nid i Abraham ei hun, ond i Abraham *ac* i'w had. O'r adnod nesaf, yn y gair "a gadarnhawyd *o'r blaen*," arweinir ni i feddwl fod cyffelyb bwys i'w roddi ar y ffaith fod yr addewid wedi ei gwneyd a'i chadarnhau *cyn* y ddeddf. Rhoddwyd hi i Abraham, yr hwn oedd *cyn* y ddeddf; mae hefyd i gynwys yr had oedd *gwedi* y ddeddf: nis gall y ddeddf felly effeithio dim ar hon. Wrth chwilio am addewid ag y mae "i'th had di" ynddi, cyfyngir ni i Gen. xiii. 15 a xvii. 8. Addewidion am feddiant o wlad Canaan yn etifeddiaeth yw y rhai hyn, ond dylem gymeryd holl gwrs hanes dilynol Israel hefyd i'w hesbonio. Yn ol hwn, daeth meddiant o wlad Canaan yn fwy peth na thrigiad cenedl yno, oblegyd mai o honynt hwy yno fel cenedl etholedig yr hanodd Crist yn ol y cnawd, a dechreuwyd traethu yr efengyl oedd i fendithio y byd o fewn y tir sanctaidd.

Yn awr yr ydym yn gwynebu anhawsder mawr. Yn yr ystyr y dywed y geiriau nesaf na roddwyd yr addewidion mewn gwirionedd y rhoddwyd hwynt Yn ystyr briod yr addewidion, llawer yw yr had er mai y rhif unig a ddefnyddir o ran y gair. Pa un bynag ai yn yr Hebraeg, ai Groeg, ai Cymraeg y cymerir ef, lluosog yw ystyr *had* ac y mae geiriau olaf Gen. xvii. 8 yn dangos hyny "mi a fyddaf yn Dduw iddynt *hwy*." Nid yw y lluosog *hadau* yn ein hiaith ni mwy nag mewn ieithoedd eraill yn meddwl epil o gwbl. Ymddengys mai teg yw casglu, nid fod yma olion dysgeidiaeth foreuol yr apostol,—paham yma—yn nghywrair ddadleuon yr ysgrifenyddion, ond ei fod yn fwriadol yn defnyddio gair anmhrifodol ac anghramadegol er mwyn dangos yn gryfach mai nid i ddisgynyddion Abraham fel dynion lawer ar eu penau eu hunain y gwnaed yr addewidion (o ran eu cyflawnder), ond

* Yn Nhestament Salesbury, heblaw "testament," ceir "dygymbot" chwe' gwaith, "ambot" (lluosog, ambedae) ddwy waith. Gan Dr. Davies, yn ei ran ef o'r Testament, cyfieithir y gair, bob tro yn yr Hebraeid, yn "testament, oddigerth un waith lle ceir "ambot" (xiii. 20); ac yn Meibl Geneva "testament" a ddarllenir yn mhob man ond yr un tro hwn (xiii. 20), lle y ceir "covenant." Gair W. Salesbury felly yw "amod" yn yr adnod hon ac yn adn. 17. Nid yw "cyfamod" o gwbl yn Ngeirlyfr y Dr. Ican Davies; "amod" yu unig; reddir ganddo ef.

17 di," yr hwn yw Crist. A hyn yr wyf yn ei ddywedyd; nid yw y ddeddf oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddoedd wedi yn dirymu cyfamod wedi ei gad-

Crist. A hyn yr wyf yn ei 17 ddywedyd, am yr amod a gadarnhawyd o'r blaen gan Dduw yn Nghrist, nad yw y ddeddf, oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynydd-

iddynt oll fel yr oeddynt un. Felly y dywedir fod yr eglwys yn un corff. Yn yr ystyr hon, sylweddolir yr ystad o had yn unig yn y Messiah,—mewn un, yr hwn yw Crist. Wedi cyfeirio at ystyr luosog y gair *had*, ac at yr un ystyr o epil sydd hefyd yn y ffurf luosog i'r gair mewn Hebraeg diweddar, fel yr un a arferid yn amser Paul, ychwanega Meyer y sylwadau a ganlyn,—“ Mae ystyr wreiddiol yr addewidion hyn, ac ystyr y gair *had* yn y LXX, yn ddiameu yn cyfeirio at hil Abraham yn gyffredinol: felly nid yw yr addewidion yn cael eu llefaru am Grist ond fel yr oedd yn ddiwedd a choron y disgynyddion hyn; eithr nid yw darganfod y cyfeiriad hwn yn y rhif unig “ac i'th had di,” yn ddim ond math o orchestwaith cywreinerwydd rabin-aidd a gedwid eto gan yr apostol o'i addysg foreuol, fel peth oedd yn elfen neillduol yn niwylliant ei genedl.” Ymddengys hyn—peth na ddygir un engraipht o hono—i mi yn annaturiol iawn yn y fath wr a Paul, a gellir cael mewn awduron eraill engreiphtiau o ddefnyddio ffurfiau na allai gramadeg eu goddef, a hyny yn fwiadol. Yn y wedd y deallai Paul yn awr yr addewid i Abraham, gwelai bwrpas pellach na'u geiriad cyntaf, ac er mwyn amlygu hwnw mewn ffurf nacaol cryf, mae yn troseddu gramadeg.

17. A hyn yr wyf yn ei ddywedyd.—Fy meddwl yn y pethau a ddywedais yn awr yw hyn. Gan fod y cyfamod wedi ei wneyd âg Abraham (*ac a'i had*), a'i gadarnhau *cyn* y ddeddf, ni all y ddeddf a ddaeth gyhyd o amser gwedi na'i ddirymu nac ychwanegu “ei gweithredoedd” hi ei hun ato fel pethau angenrheidiol er cael yr etifeddiaeth. Y cadarnhau, mae'n debyg, oedd y mynegiad neu y dadguddiad o'r cyfamod gan Dduw ei hun.

430 o flynyddoedd gwedi.—Yn Act. vii. 13, dywedir 400, ond am arhosiad meibion Israel yn yr Aifft yn unig, ac felly Gen. xv. 13, fel rhif cyflawn, cryno, heb gais at fod yn fanwl. Ond gyda golwg ar 430 yr adnod hon mae'n amlwg ei fod yn rhif sydd yn cynwys y blynyddoedd o Abraham hyd roddiad y ddeddf, eto dim ond 30 mwy na'r llall. Dylasai o leiaf fod yn 100 mwy.* Yr unig esboniad teg yw i'r apostol gymeryd y geiriau hyn o gyfieithiad y LXX yn Ex. xii. 40, fel geiriau cyffredin ac adnabyddus i'r bobl oll. Nid yw gwahaniaeth o gan' mlynedd o ddim pwys i'w fater ef; diau y gwyddai ef fod y rhif yn anghywir, ond naturiol cedd iddo enwi yr amser fel yr oedd pobl yn gyffredin yn arfer gwneyd hyny dros y byd. Gwelir y gwahaniaeth rhwng y LXX a'r Hebraeg o'u gosod yn gyfochr:—

A phreswyliaid meibion Israel
tra y trigasant yn yr Aipht
oedd ddeng mlynedd a'r hugain
a phedwar can' mlynedd.

Ex. xii. 40, yn ol yr
Hebraeg, yn ein
Beibl ni.

A phreswyliaid meibion Israel
(hwy a'u tadau) yr hwn y preswylasant
yn ngwlad yr Aipht ac yn ngwlad
Canaan oedd bedwar cant a deg ar hugain o
flynyddoedd.

Yn ol y LXX.

* Yn Meibl yr Athraw gosodir y Cyfamod ag Abraham C. Crist 2021, a Moses fel barnwr, 1491; y gwahaniaeth yw 530.

arnhau o'r blaen gan Dduw, oedd wedi, yn ei ddirymu, i
i wneuthur yr addewid yn wneuthur yr addewid yn
18 ofer. Canys os o'r ddeddf ofer. Canys os o'r ddeddf 18
y mae yr etifeddiaeth, nid y mae yr etifeddiaeth, nid
yw mwyach o'r addewid; yw hayach o'r addewid: ond
ond i Abraham trwy add- Duw a'i rhad-roddodd i Ab-
ewid y mae Duw wedi *ei* rahan drwy addewid. Beth 19

17 Na ddichon *hi* ddiddymu yr Ambot yr hon a racgadarnheit gan Dduw erwydd Christ, val y dirymia hi yr addewit.—W. S. Ni ddichon ddiddymu yr ammod a sicrhause Duw o'r blaen o herwydd Crist.—M. Covenant.—Gen.

18. Nyd *yw ynteu* mwy wrth y gaddewit.—W. S. Nid yw haiach.—M.

I wneuthur yr addewid yn ofer.—Nid yw y ddeddf yn dirymu y cyfamod * fel peth wedi ei "gadarnhau;" ni all y ddeddf ei wneyd fel pe na buasai mewn grym, a thrwy hyny beri i'r addewid oedd ynddo fod yn ddieffraith neu yn addewid heb gyflawniad. Os dirymir cyfamod nis gall ei addewidion fod o ddim gwerth.

Glynai yr athrawon Iuddewaid wrth ffydd, wrth ras Crist, er hyny hwy fynent *ychwanegu y ddeddf at hyny*, er mwyn sicrhau yr etifeddiaeth gan Dduw, tra y dywedwyd yn adn. 15 na ellid newid cyfamod wedi ei gadarnhan trwy ychwanegu dim ato.

18. Canys os o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth.—Un ffordd a gynygir i egluro ymresymiad yr adnod hon yw fel y canlyn. Nis gall yr etifeddiaeth fod ond naill ai o'r ddeddf neu o'r addewid; nid yw o'r addewid os gwnaed yr addewid yn ofer trwy y ddeddf; ond mae yn ffaith adnabyddus yn hanes Duw ag Abraham iddo roddi yr etifeddiaeth iddo ef trwy addewid; nid yw y ddeddf, felly wedi gwneyd addewid yn ofer. Gellir, hwyrach, adael yr ail osodiad allan, a chael felly feddwl mwy syml. Mae yr adnod hon yn brawf nid o'r *oll* sydd yn adnod 17, lle cynwysir y cyfamod a'r addewid oedd ynddo, ond gosodiad sylfaenol yn nglyn a'r addewid ei hun yn ei pherthynas hi a'r ddeddf. Dwy egwyddor wrthgyferbyniol yw ddeddf ac addewid, y naill yn cau y llall allan; ac os o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth nid yw mwyach, (hyny yw, *wedi* i ni addef neu dybied ei bod o'r ddeddf) o addewid. Fel hyn cyfiawnher rhan ddiweddaf adn. 17, bod ddeddf yn gwneyd addewid yn ofer. Gogyfer a hyn gesyd yr apostol y ffaith mai trwy addewid y mae Duw wedi rhad-roddi yr etifeddiaeth i Abraham a golygir fod y rhoddiad fel rhoddiad Cyfamod yn un wedi ei gadarnhau nas gellir ychwanegu dim ato. Mae y rhad-roddi hwn, am hyny, yn beth sydd yn parhau. Yn yr adnod hon cawn hedyn y syniad a agorir yn helaethach yn Rhuf. iv. 4, 5, am wobr "o ras" ac "o ddyled." Mae iddynt o ran natur safle wrthgyferbyniol—

GRAS

DYLED,

ac ADDEWID RAD,

a DEDDF,

ac yn yr adnod nesaf gwelir cyferbyniad newydd, yn yr hon y mae yr addewid yn nes at Dduw na'r ddeddf.

* Mae yr hen gyfreithiau Cymreig yn dangos y gwrthwyneb i hyn. "Amod (cyfamod) a dyr ddeddf."—Leges Walliae.

19 rhoddi. Paham gan hyny y ddeddf? Oherwydd troseddau y rhoddwyd hi yn ychwaneg, hyd oni ddelai yr had i'r hwn y mae yr gan hyny *yw* y ddeddf? Oblegyd troseddau y rhoddwyd hi yn ychwaneg, hyd oni ddelai yr had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid; *a hi*

29. I ba beth gan hyny y *gwasanaetha* 'r Ddeddyf? O bleit trosoddeu y doded y hi, y'n y ddelei yr had hwnw y gwnaed yr addewid yddaw.—W. S. Wherefore then *serveth* the Law.—Gen.

C. Mae dyben y ddeddf yn is a gwahanol i ddyben yr addewid; gwelir hyn yn ei natur amserol a'r dull y rhoddwyd hi. Nid yw y ddeddf er hyny yn erbyn yr addewid; arweiniol ydyw; daw ei diwedd yn Nghrist; dileir pob gwahaniaeth, ac y mae had Abraham i'w cael yn y rhai sydd eiddo Crist. Amser plentyndod a chaethiwed oedd y tymor dan y ddeddf, yn y prunedigaeth mae rhyddid meibion ysbrydol sef etifeddion Duw. Mae yr un peth yn wir am y Galatiaid fel Cenhedloedd. iii. 19—iv. 11.

19. **Paham gan hyny y ddeddf?**—Gan nad yw y geiriau nesaf yn ateb y gofyniad, "*Pa beth* gan hyny yw y ddeddf?" ond yn hytrach yn ateb gofyniad arall am ei *dyben*, mwy priodol yw cyfieithu, "*Paham* gan hyny (y rhoddwyd) y ddeddf?" Mae yr ystyr hon i'r geiriau cyntaf yn gynefin i ddarlennwyr Groeg glasurol, ac y mae rhai engreifftiau yn y Testament Newydd. Yn y wedd hon, cwestiwn am ddyben y ddeddf yw hwn, a'r un yw cyfeiriad y nesaf, "A yw y ddeddf gan hyny yn erbyn addewidion Duw?" Cadarnha yr ateb yn mhellach y casgliad blaenorol, na all y ddeddf na dirymu na newid yr addewid.

Oherwydd troseddau y chwanegwyd hi.—Ei chwanegu at gyfundraeth hynach a gafodd, ond ei chwanegu gydag amcan neillduol. Dodwyd hi at yr addewid oherwydd troseddau. Mae esiamplau o ddwy ystyr i'r gair a gyfieithir yma *oherwydd*; heblaw yr un a enwyd, mae iddo hefyd y meddwl *er mwyn*, ac y mae yn lled bwysig pa un a gymerwn yma. "Oherwydd" yw y gair yn ddiau yn Luc vii. 47 a 1 Ioan iii. 12. Eglurir yr ymadrodd "oherwydd troseddau" mewn amrywiol ffyrdd, ac y mae a tyno pa un a ddywedwn ai *oherwydd* ynte *er mwyn* a'n gogwydd at y naill farn neu y llall. (1) Yn ol un farn a goleddir am Rhuf. iii. 30, "trwy y ddeddf y mae adnabod pechod," yn nglyn ag adn. 20, "y ddeddfa ddaethi mewn fel yr amlhai y camwed," dywedir mai y meddwl yn yr adnod hon yw i'r ddeddf gael ei hychwanegu er mwyn dadguddio troseddau ac hefyd er mwyn iddynt amlhau trwyddi hi. Yr oedd yn mwrriad Duw wrth roddi y ddeddf i bechodau ddod i'r amlwg yn eu ffurf gosbadwy fel troseddau, ac nid yn unig hyny, eithr yn ychwanegol trwy beri i'r drwg ddyfod yn fawr iawn, iddi wasanaethu yn nghyfeiriad iachawdwriaeth gan y rhagor-amlhai gras ar yr holl bechod. Anhawdd iawn, i'm teimlad i, yw derbyn y syniad hwn, ac nid yw y geiriau yn y Rhufeiniaid yn galw am dano. Nid yw tystiolaeth hanesiaeth ychwaith am effeithiau deddiau ar ddynion yn awgrymu hyn ond lle bo y ddeddf yn un ddrwg. (2) Oherwydd troseddau, naill ai i'w rhwystru neu i'w condemnio. Dylid edrych ar y troseddau fel pethau oeddi

addewid wedi ei gwneyd, a drefnwyd trwy angylion yn
wedi ei threfnu trwy angyl- llaw cyfryngwr. A chyfryng- 20
20 ion yn llaw cyfryngwr; ac

yn bod o'r blaen, ac felly mae y rhan gyntaf o'r esboniad blaenorol yn sicr yn gymhwysiadol yma. Moddion oedd y ddeddf i amlygu pŕchod ag oedd, er yn bod, yn cael ei ganfod yn amherffaith, "Nid adnabuaswn i drachwant," medd Paul, "oni bai ddywedyd o'r ddeddf na thrachwanta." Efallai y gellid ychwanegu fod y gair *trosedd* ei hun yn dangos ffordd yr amlygiad. Pan welir drwg fel trosedd o ddeddf ddwyfol, neu dyweder o egwyddor a fynegir mewn geiriau, fel peth a wneir *yn erbyn* gwaharddiad sanctaidd, mae yr ymdeimlad o'i bechadurusrwydd yn cael ei ddwystau. Oherwydd fod troseddau yn bod, wedi amlhad Israel o deulu i genedl, y dygwyd y ddeddf i mewn, fel y gwelid hwy mewn eglurdeb newydd yn ngoleu gwaharddiad. Daeth deddf a goruchwyliaeth Moses i mewn yr un amser ag yr oedd yr had etholedig yn dyfod yn genedl, a phan yr oedd angen y fath gyfundretn, yn wyneb troseddau dynion amherffaith, mewn cymdeithas eangach na theulu.

Wedi ei threfnu trwy angylion.—Yr unig fanau o'r Testament Newydd heblaw y geiriau hyn, y cyfeirir at angylion yn nglyn a rhoddiad y ddeddf yw Actau vii. 38, 53, a Heb. ii. 2. Nid yw yr Hen Destament yn son am danynt yn uniongyrchol. Eto, arweiniasiad y meddwl Iuddewig i ymhelaethu am wasanaeth angylion ar awgrymiadau yr Ysgrythyr. Yr oedd pob un a fynychai y synagog, neu a eisteddai wrth draed y Rabbiniaid, yn gyd-nabyddus iawn â'r meddwl fod angylion yn cynorthwyo Jehovah yn Sinai. Felly yr eglurid Ps.lxviii.17, "Cerbydau Duw dydynt ugain mil, set miloedd o angylion; yr Arglwydd sydd yn eu plith megys yn Sinai yn y cysegr." Gweir ol yr un gred yn nghyfieithiad y LXX o Deut. xxxiii. 2, "gyda myrddynau Cades, angylion ar ei ddeheulaw gydag ef," tra y ceidw yr hen gyfieithydd Aquila yn lled debyg i'n Cymraeg ni, "o fyrddynau sanct-eiddrwydd." Nid oes dim yn yr Hen Destament yn erbyn y gred hon, tra y mae yr ymadroddion y cyfeiriwyd atynt mewn gwirionedd yn dra ffatriol iddi, ac nis gallai cyfeiriad yr apostol faaelu bod ar unwaith yn ddealedig.*

Yn llaw cyfryngwr.—"Y cyfreithiau y rhai a roddodd yr Arglwydd rhyngddo ei hun a meibion Israel yn mynydd Sinai trwy law Moses," Lef. xxi. 46. "Yn llaw Moses," a ddywed y LXX. Gwel hefyd Deut. v. 2, 5. Pa beth bynag cedd gwaith angylion, cyfryngwr rhwng Duw ag Israel oedd Moses, ac y mae Philo yn rhoddi iddo yr un modd yr enw o gyfryngwr.* Wedi gofyn paham y rhed y ddeddf, gan nad yw yn gwneyd yr addewid yn cfer, gan hetyd nad yw yr etifeddiaeth o honi, mae yr ateb yn dangos (1) natur ei dyben,—ychwanegiad at yr addewid ydyw, dros amser yn wyneb troseddau dynion; (2) ei safle israddol, fel y gwelir yn null ei threfniad—trwy angylion a chyfryngwr y trefnwyd hi, nid fel yr addewid, a rad-roddwyd gan Dduw, yn ddigysfrwg, o ran angel neu ddyn, i Abraham ei hunan.

Mae dwy ris yn wir rhwng Duw a'r bobl yn rhoddiad y ddeddf—yr anglicn a'r cyfryngwr—ac yn y fath berthynas a hon ni ogoneddwyd yr hyn a cgoneddwyd, ac nid yw y cybwylliad am anglicn, fel yn Actau vii, a'i fwrriad i ddyrchafu y ddeddf. Daw y geiriau i mewn hefyd yn nglyn a gair sydd yn dangos natur y ddeddf fel peth dros amser. Hyd oni adelai yr had y mae, yr hwn a ddwg gyflawniad yr addewid i dragwyddol barhad.

* Philo de som, i. 22.

* Vit. Mos., iii. 19.

nid yw cyfryngwr i un, ac y wr nid yw i un; ond Duw

20. Sef Cyfryng-wr nid yw un.—M. Porro mediator unius non est.—Calvin.

20. **Ac nid yw cyfryngwr i un, ac y mae Duw yn un.**—Da y dywed Dr. Lightfoot am y gwahanol farnau ar y geiriau hyn, fod llawer o honynt yn codi o gamgymeriad yn nghylch y gair “cyfryngwr,” llawer ychwaneg yn ddiystyr o gysylltiad y geiriau, ac nid ychydig yn hollol benrhydd. Yn y cyfrif mawr a roddir, mae esboniadau yn cael eu rhifo na fuasai Ysgolion Sul Cymru yn foddlon i’w harddel am foment fel y cyfryw. Yn adn. 17—19, dangosir na all y ddeddf ddirymu y trefniad neu y cyfamod a wnaethid yn flaenorol iddi—trefniad oedd ar ffurf addewid ddwyfol i Abraham a’i had, sef Crist. O’r addewid hon y mae yr etifeddiaeth, neu fywyd, nid o’r ddeddf. Yna gofynir, “paham gan hyny (y rhoddwyd) y ddeddf?” Yr ateb yw, mai oherwydd troseddau, gan ychwanegu dwy nodwedd sydd yn dangos safle is-raddol y ddeddf, fel peth a chwanegwyd *oherwydd troseddau*. Dros amser y rhoddwyd hi, sef hyd oni ddelay yr had; dyma y ncdwedd gyntaf; a’r ail yw, mai trwy angylion yn llaw cyfryngwr y trefnwyd hi. Gadewir natur amserol y ddeddf a gwasanaeth yr angylion heb sylw pellach arnynt, ond helaethir yr awgrym am safle y ddeddf fel trefniad trwy gyfryngwr, a hwnw yn gyfryngwr dynol. A’r rhan ychwanegol hon yn unig o’r ateb i’r cwestiwn, “paham, gan hyny, y ddeddf?” y mae a fyno y geiriau sydd dan sylw. “Trefnwyd y ddeddf yn llaw cyfryngwr”—rhywbeth ag sydd yn y gwirionedd hwn yw yr hyn y bwriedir i’r ddwy frawddeg yma ei awgrymu, a hyny *am y ddeddf* fel y cyfryw, heb un cyfeiriad at ddim arall. Gwneir hyn trwy ddangos beth a gynwysir yn y syniad o gyfryngwr. Mae dywedyd am y ddeddf mai trwy gyfryngwr y trefnwyd hi yn cynwys fod rhywbeth arall na threfnwyd yn llaw cyfryngwr, a mynegir hyny yn adnod 18, lle y dywedir i Dduw roddi yr etifeddiaeth o ras i Abraham trwy addewid. Gwelwn felly Dduw ac Abraham *heb* gyfryngwr, ond Duw ac Israel yn eu troseddau, oherwydd y rhai y rhoddid y ddeddf, a chyfryngwr rhyngddynt. Mae Duw yn un yn y naill amgylchiad fel y llall, ond yn y cyntaf yn *ddi-gyfrwng*, yn yr ail *trwy* gyfrwng canolwr. Awgrymu, dywedwn eto, y peth sydd gynwysedig yn y ffaith olaf hon yw dyben geiriau yr adnod, ac ymddengys yn deg i wneyd y gosodiadau canlynol:—

1. Gan mai at ran o’r ateb i’r cwestiwn “paham gan hyny y ddeddf?” y daw y geiriau i mewn, ni all y gair olaf, “ac y mae Duw yn un,” gyfeirio at yr addewid o gwbl.

2. Mae *un* yn y rhan gyntaf yn cyfeirio at berson fel yn yr ail; felly rhaid deall “cyfryngwr nid yw i un person,” nid “cyfryngwr nid yw i un peth.” Dau berson neu ddwy blaid sydd yn y syniad o gyfryngwr.

3. Yn yr ail frawddeg, “mae Duw yn un,” un o ran rhif a feddylir, nid fel pe dywedasid “Mae Duw yn Un,” neu “mae Duw ei hunan heb arall.”

Oddiwrth y gair *cyfryngwr*, y meddwl yw fod Duw yn un *lle mae dau*, sef y ddau ag y mae iddynt ganolwr. Ymddengys i mi fod y ddwy frawddeg yn ddau osodiad sydd i arwain y meddwl at un arall na fynegir mewn geiriau, ond sydd i’w ddeall am y ddeddf fel trefniad y defnyddiwyd cyfryngwr yn ei gosodiad.

21 mae Duw yn un. A oedd y ddeddf gan hyny yn erbyn addewidion Duw? Na ato Duw: canys pe rhoisid deddf a allasai fywchau, o'r ddeddf yn wir y buasai cyf-

sydd un. A ydyw y ddeddf gan hyny yn erbyn addewidion Duw? Na ato Duw: canys pe rhoisid deddf a allasai fywchau, yn wir o'r ddeddf y buasai cyfiawnder. 21

Nid yw cyfryngwr i un,
Mae Duw yn un.

Felly nid yw dyben rhoddiad y ddeddf i'w gael yn Nuw yn unig, ond hefyd yn y blaidd arall a ddeallir yn y gair cyfryngwr. Yma arweinir ni yn ol â't adn. 19, at *droseddau* y bobl wargaled y rhai yr ewyllysiai tiriondeb dwyfol arfer goruchwyliaeth newydd y ddeddf tuag atynt. Nid y teimlad syml o ffydd yr hwn sydd yn dyrchafu dyn yn uniongyrchol at Dduw, y teimlad a ddygodd yr addewid i Abraham, oedd yn dwyn y ddeddf i Israel: yn hytrach, troseddau fu achos ei chwanegiad hi iddynt hwy, ac am hyny gwasanaethai un detholedig fel cyfryngwr. Er fod Duw yn un o'r ddwyblaidd yma, fel gyda rhoddiad yr addewid, mae presenoldeb cyfryngwr dynol yn tybied plaidd arall yn awr mwy amherffaith nag Abraham a wna'i y cyfryw wr yn angenrheidiol. Yr amherffeithrwydd hwn oedd y *troseddau*, ac awgrymu hyny yw dyben y ddau osodiad uchod.

Ffordd arall o egluro y geiriau sydd fel y canlyn,—Nid yw y cyfryngwr i un—pwy bynag a wasanaetho fel cyfryngwr nid yw i un, nid oes ganddo ddim i'w wneyd lle byddo *un* yn gosod i lawr ei ewyllys ei hunan; lle cyfryngwr yw yn y canol rhwng dwyblaidd. Ond ni pherthynai hyn i'r addewid; mae Duw yn un yno, ac nid yw, er peri i'w addewid ddiamodol fod mewn grym, yn defnyddio cyfryngwr fel yn rhoddiad y ddeddf. Yr anhawsder yma yw, fod *un* yn cael ei gymeryd fel pe dywedid "yn unig," neu, "ond y mae Duw ei hunan," ac heb awgrym ychwanegol yn mha beth y mae felly. Cyfundrefn yw y ddeddf, seiliedig nid ar ragoriaeth y rhai sydd yn ei chael, fel yn nghyfamad Abraham, ond o ran troseddau aml ag oedd yn galw am Gyfryngwr. Un yw Duw yn y fath drefniant a hwn wrth roddi y ddeddf. Onid yw y gosodiad, "nid yw cyfryngwr i un," yn galw am yr ystyr yn y frawddeg nesaf, fod Duw yn un *lle mae dau*, sef y ddau ag y mae iddynt gyfryngwr.

Ychwanegwn yma eiriau Holstein,—“Mae Duw wedi trefnu yr addewid heb gyfryngwr, a'r ddeddf trwy gyfryngwr. Y meddylddrych mewn cyfryngwr ydyw uno dau sydd ar wahan. Mae hyn yn perthyn i'r ddeddf. O'r ochr arall, nid oes yn yr addewid yr un ewyllys wahanol yn erbyn Duw, felly nid yw Duw wedi rhoddi hon trwy gyfryngwr. Yn awr y mae Duw yn un ynddo ei hun, a'r addewid yw un ewyllys Duw o iachawdwriaeth ynddi ei hun. Gan nad yw cyfryngwr yn perthyn i un ynddo ei hun, nid yw yn perthyn i Dduw yr addewid, ac ni pherthyn y ddeddf a roddwyd trwy gyfryngwr i'r addewid a roddwyd heb gyfryngwr.”

21. A ydyw y ddeddf gan hyny.—Mae yr un berthynas o ran natur rhwng y ddeddf a'r addewid ag sydd rhwng cyfryngwr a Duw. A ydyw y gwahaniaeth hwn yn gyfryw ag i beri fod y naill yn erbyn y llall? Na ato Duw. Dyna deimlad calon sydd yn gyflawn o barch i ddeddf Duw fel y cyfryw, canys—dyma y rheswm—pe rhoisid deddf a'i dyben i gyfranu bywyd, mewn gwirionedd o'r ddeddf ac nid o'r addewid y buasai cyfiawn-

- 22 iawnder. Eithr cydgauodd yr Ysgrythyr bob peth dan bechod, fel y rhoddid yr addewid o ffydd Iesu Grist i'r rhai sydd yn credu.
- 23 Ond cyn dyfod ffydd y'n cedwid dan y ddeddf, yn cael ein cydgau i'r ffydd yr Eithr cyd-gauodd yr Ysgrythyr bob peth dan bechod, fel y rhoddid yr addewid drwy ffydd Iesu Grist i'r rhai sydd yn credu. Eithr 23 cyn dyfod ffydd, y'n cadwyd dan y ddeddf, wedi ein cyd-gau i'r ffydd, yr hon

22. Eithr yr Scrythyr *lan* a argaeawdd yr oll petheu y dan pechot.—W. S. Eithr yr Ysgrythur a gaeodd bob peth dan bechod, fel y rhoddid yr addewid trwy ffydd yn Iesu Grist.—M.

23. ac in gwarchëit ir ffydd a ddatguddit rhac llaw.—W. S. ein cedwid yn rhwym dan y ddeddf i'r ffydd yr hon oedd i'w dadguddio.—M

der. Gwrthddadl yw un y cwestiwn hwn o galon Iuddew. Am hyny, gan fod y ddeddf o ran ei dyben a dull ei threfniad yn hollol wahanol i'r addewid, gan mai amlygu troseddau y mae yn lle cyfranu yr etifeddiaeth, ac mai yn llaw gwr canol y mae heb nesâd uniongyrchol at Dduw—a yw y ddeddf yn wrthwynebol i'r addewidion? Nac ydyw. Ond pe buasai y ddeddf yn gallu rhoi bywyd (fel yr ydych chwi yn dal), yna oherwydd fod bywyd yn seiliedig ar gyfiawnder, o'r ddeddf ac nid o'r addewid, y buasai cyfiawnder, ac fe welsid yn y ddeddf gyfundrefn lwyr wrthwyneb i addewid Duw, neu un yn ei gwneyd yn ddiangenrhaid.

22. **Eithr cyd-gauodd yr Ysgrythyr.**—Fel y dywedir yn adn. 8 fod yr Ysgrythyr yn rhagweled, felly yma eto priodolir i'r Ysgrythyr weithred Duw, am fod y gair yn cynwys y mynegiad o'r weithred hono. Defnyddir y gair *cydgau* yn Luc v. 6 am y pysgod a ddelir mewn rhwyd; ond mewn ymadroddion ffygyrol, ymddengys eglurhad Fritzsche ar Rhuf. xi. 32 yn briodol iawn. *Cydgau* yw, nid cau rhai gyda'u gilydd; defnyddir y blaendod *cyd* i gryfhau ystyr y ferf seml; felly, meddylir cau yn gwbl, cau fel na bo unman i ddianc. Yn yr adnod nesaf, ac yn Rhuf. xi. 32, dywedir cydgau *i*, yma cydgau *dan*, a'r meddwl yw, cau yn gwbl ac yn gyfan dan rym pechod, hyny yw, dan awdurdod a chondemniad pechod; a gwnaeth yr Ysgrythyr hyny drwy ei thystiolaeth ddiamwys mai *felly yr oedd* pob peth. Yn y pob peth, cynwysir Iuddewon a Cbenhedloedd gyda'u holl helynt. Dyma y rheswm pahan na allasai y ddeddf fywchau, ond dyma y rheswm hefyd pahan y daeth yr addewid a'i hetifeddiaeth drwy ffydd. Sylwn ar yr ail adrodd sydd yma: "trwy ffydd Iesu Grist"—trwy ffydd yn Iesu Grist—"i'r rhai sydd yn credu," yn yr hyn y cawn awgrym o'r ymadrodd tra adnabyddus "trwy ffydd *yn unig*."

23. **Ond cyn dyfod ffydd.**—Y ffydd y soniasid am dani yn y geiriau blaenorol; nid yr efengyl, ond y ffydd a ddaw i fynwes pob un a gredo. Hanes personol Iuddewon a ddygasid i fod yn gredinwyr sydd yn yr adnod hon. Cyn dyfod ffydd ynom, yr oeddym yn cael ein cadw fel y cedwir carcharorion dan awdurdod y ddeddf a'n condemnai, gan gael ein cydgau ar bob tu fel na chawsom un agorfa yn bosibl ond ffydd. Sylwer fod cywirach geiriad yn y Groeg yn rhoi i ni ystyr o beth parhaus; cedwid ni dan y ddeddf, a thra y'n cedwid felly fe'n cydgauid dan bechod, fe'n cwbl

- 24 hon oedd i'w dadguddio ; Y oedd i'w dadguddio. y 24
 ddeddf gan hyny oedd ein ddeddf gan hyny oedd ein
 gwas plant ni at Grist, fel hathraw ni at Grist, fel y'n
 y'n cyfiawnheid trwy ffydd. cyfiawnhaid drwy ffydd.
 25 Eithr wedi dyfod ffydd, nid Eithr wedi dyfod ffydd, nid 25
 ydym mwyach dan was plant. ydym mwyach dan athraw.
 26 Canys yr ydych oll yn feib- Canys chwi oll ydych blant 26

24. Y Ddeddyf oedd ein hathro *i'n dwyn* at Christ.—W. S. the Lawe was our schoolemaster *to bring* us to Christ.—Gen.

26. gan y ffydd yn Nghrist Iesu.—W. S. drwy ffydd yn Iesu Grist.—M.

gaid i droi at y ffydd oedd i gael ei dadguddio ynom ni. Yn y nodiad o eiddo Fritzsche y cyfeiriwyd ato, dywedir fod cydgau *i* yn golygu gorfodi i reolaeth gryfach na ni, sef ein gorfodi, fel rhai heb un ffordd arall o ddiangfa, i gofleidio ffydd.

24. Y ddeddf gan hyny oedd ein gwas plant ni at Grist.—Gan nad yw y swyddog hwn mewn teuluoedd yn ein gwlad ni, yr hwn oedd yn gyffredin yn gaethwas o ymddiried, mae yn anhawdd cael gair Cymraeg am dano. Byddai gofal symudiadau a chymeriad plant ar y cyfryw un, ac y mae yn ei enw syniad o lymder a manyluch gwarchaeol, er hyny yn gyfeillgar. Oherwydd hyn, cyferbynir tad â'r cyfryw weision yn 1 Cor. iv. 15. " Mae y gyffelybiaeth o was plant yn un ragorol : dylid felly ei hystyried yn fanwl. Er fod y gwas yn ddefnyddiol, ac yn wir yn angenrheidiol, i ddysgu a hyfforddi plant, eto dangoser i ni blentyn neu ddysgybl a fo yn caru y gwas. . . . Ni all plentyn garu hwn. Pa fodd y gall garu un y delir ef yn rhwym ganddo, un a'i rhwystra ef i wneyd a fyfno ? Os gwna rywbeth croes i orchymyn, beiri a cheryddir ef ar unwaith ganddo, ac yn mhellach gorfodir ef i gofleidio a chusanu y wialen (amplecti et osculari virgum). . . . P'an fo y gwas yn absenol, fe dyn y wialen neu fe'i teifi i'r tân, . . . eto mae y cyfryw was yn angenrheidiol i'r plentyn."—Luther. Trwy y ddeddf yr oedd adnabod pechod ; trwyddi hi hefyd y daeth y rhai a ddeallent ei difrif gondemniad yn awr, o weled hefyd ei hanmherffeithrwydd israddol, i deimlo eu bod y pryd hyny fel plant dan ofal caethwas, ond caethwas a wnaeth yn dda a hwy drwy eu dwyn at Grist.

25. Wedi dyfod ffydd.—Wedi ei dyfod yn bersonol i ni, nid ydym mwyach dan was. " Dyma anadliad rhyddid."—Meyer.

26. Canys yr ydych oll yn feibion Duw.—Mae y newidiad sydyn o *ni* i *chwi* i sylwi arno. Dengys fod yr hyn a roddasid fel hanes Iuddewon, dan bechod, dan ddeddf, eto fel y derbynem ni, fel y'n cyfiawnheid ni, &c., yn rhywbeth llawer mwy, ei fod, mewn gair, yn hanes y ddyfnoliaeth. Yr ydych *oll*, Iuddewon a Chenedloedd heb wahaniaeth, yn feibion Duw, ac efallai fod, fel y dywedir, yn y gair meibion, ryw awgrym o rai gwahanol i'r plant sydd yn ddealledig yn y gair " gwas i'r plant ;" rhai rhydd am eu bod mewn oed, a'r cyfryw ag a all ddyfod i mewn i etifeddiaeth.* Trwy ffydd y maent yn feibion, ac yn Nghrist ; yn y berthynas ddirgeledig agos

* Wrth alw y ddeddf yn was y plant awgrymir fod y rhai sydd dan y ddeddf yn sefyllfa plant.

ion Duw trwy ffydd, yn i Dduw trwy ffydd yn
 27 Nghrist Iesu. Canys cy- Nghrist Iesu. Canys cy- 27
 nifer o honoch ag a fedydd- nifer o honoch ag a fedydd-
 iwyd i Grist a wisgasoch iwyd yng Nghrist, a wisgas-
 28 Grist; nid oes Iuddew na och Grist. Nid oes nac 28

27. can ys chwychwi oll a'r a vatyddiwyd i Christ.—W. S. o herwydd pa rai bynnac ydych a'r a fedyddiwyd yng-Hrist, chwi a wiscasoch Grist.—M.

hon mae dynion yn dyfod mewn ystyr foesol ac ysbrydol trwy fabwysiaid yr hyn yw Crist yn hanfodol—meibion. Bod “*yn* Nghrist” yw yr ymadrodd Beiblaidd am yr un duwinyddol “*undeb* â Christ.”

27. **Canys cynifer o honoch ag a fedyddiwyd.**—Mae yn amlwg fod bedydd yn rhywbeth llawer mwy na ffurf mewn ymadrodd fel hwn; mae hefyd yr un mor amlwg mai nid rhwymedigaeth a osodir allan yn y geiriau “a wisgasoch Grist.” Ond o'r adnod flaenorol gwelwn mai eu ffydd yn Nghrist a wnaeth eu bedydd yn fedydd i Grist, ac nid yr ordinhad ei hun. Beth a feddylir wrth fedyddio i Grist? Edrychwn i'r geiriau y cawn yr ymadrodd bedyddio *i* ynddynt—

Bedyddio i edifeirwch, Mat. iii. 11.

“ i enw y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glan, Mat. xxviii. 19.

i ba beth y bedyddwyd chwi? *i* fedydd Ioan, Act. xix. 3.

i enw yr Arglwydd Iesu, Act. xix. 5.

i Grist Iesu, *i*'w farwolaeth ef, Rhuf. vi. 3.

i enw Paul, 1 Cor. i. 13.

i Moses, 1 Cor. x. 2.

i un corff, 1 Cor. xiii. 13,

Heblaw y rhai hyn mae hefyd—

yn enw Iesu Crist *i* faddenant pechodau, Act. ii. 38.

yn enw Iesu Grist, Act. x. 41.

Dywed Ellicott yn ei nodiadau yma fod “bedyddio *i*” yn dwyn dwy ystyr, (1) dyben neu bwrpas y bedydd, ac o dan y pen hwn gesyd Math. iii. 11; Act. ii. 38. (2) Undeb neu gymundeb ysbrydol a dirgeledig a'r un y bedyddir yn ei enw. Er y credwn fod yr ail hwn mewn bedydd, eto anhawdd iawn yw cydsynio fod y fath feddwl yn cael ei gyfleu wrth ddweyd bedyddio *i* Grist Iesu; yn wahanol i'r geiriau yn Mathew sydd yn enwi y Drindod, yn wahanol i'r gair “*yn* enw yr Arglwydd Iesu,” ac yn wahanol hefyd i'r lleill a ddywedant am *gvd*-gladdu gyda Christ, a *chyd*-gyfodi gydag ef yn y bedydd, ymddengys mai ystyr neillduol *i* yw dyben, hwyrach yr unig ystyr. Yr ochr allanol yw bedydd i un weithred o ymgyfwyniad i Grist, Gwystliasid y Galatiaid yn nwfr eu bedydd i aberth hollol o honynt eu hunain, ac yn y weithred hono hwy roisant Grist am danynt fel gwisg; ei safle Ef yw eu safle hwy, ei fywyd Ef eu bywyd hwy, gan mai Ef sydd yn byw ynddynt hwy. Cawn ein syniad yn eglurach o'r hyn sydd yn y gair gwisgo wrth gofio ymadroddion eraill, gwisgo anllygredigaeth, gwisgo anfarwoldeb. Gwel hefyd Col. iii. 10; Eph. iv. 24

28. **Nid oes Iuddew na Groegwr chwaith.**—Bid sicr, yn mhlith yr rhai a wisgasant Grist, mae pob gwahaniaeth yn diflanu, pa un bynag ai

Groegwr chwaith, nid oes caeth na rhydd chwaith, nid oes gwryw a benyw ; canys chwi oll un ydych yn 29 Nghrist Iesu. Ac os chwi Iuddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes na gwryw na benyw : canys chwi oll un ydych yn Nghrist Iesu. Ac os eiddo 29
28. canys yr un ydyw chwi oll.—W. S. canys un ydych oll.—M.

gwahaniaeth cenedl, ai gwahaniaeth safle, ai gwahaniaeth o ran natur. Cyfeiria y cwpl cyntaf, Iuddew a Groegwr, at syniad yr Iuddew o'i fawrfraint ef ;* ond yn y ddau arall, caeth a rhydd, gwryw a benyw, gwelwn syniadau cenedlig, gan fod sefyllfa caethwas a benyw, hyd yn nod yn mhlith cenedloedd gwareiddiedig, yn un wir israddol. Mae yr efengyl wedi difodi caethiwed y caeth a dyrchafu y fenyw ar sail y gwirionedd sydd yma,—mai un yw pawb yn Nghrist. Dyma y gyntaf o'r tair brawddeg nacaol gyda thair gadarnhaol sydd yn gosod allan athrawiaeth yr epistol am yr efengyl fel efengyl i'r Cenedloedd, sef efengyl i'r byd oll.

I. Nid oes Iuddew na Groegwr, nid oes caeth na rhydd, nid oes gwryw a benyw :
dyma wahaniaeth a wneir gan enedigaeth.

I. Mae pawb yn un yn Nghrist Iesu.

II. Ni all enwaediad, ni all di-enwaediad ddim yn Nghrist Iesu :
trwy enwaediad, er nad trwy enedigaeth, *gallai* Cenedloedd gael breintiau (tybiedig) Iuddewon. 5, 6.

II. Ffydd yn gweithredu trwy gariad a ddichon ddim yn Nghrist Iesu. 5, 6.

III. Nid yw enwaediad ddim, na dienwaediad. 6, 15.

III. Creadur newydd sydd yn rhywbeth. 6, 15.

29. **Ac os chwi yw eiddo Crist.**—Y rhai sydd eiddo Crist, pwy bynag fyddont, yw gwir had Abraham. Nid yw yr Israel yn ol y cnawd *oherwydd hyny* yn eiddo Crist, ac ni ddichon enwaediad eu gwneyd felly. Mor ofer felly yw cymhell yr enwaediad a'r ddeddf ar rai i'w gwneyd yn had Abraham, pan y maent felly eisoes.

Mae etifedd ac etifeddu yn y Testament Newydd gan amlaf yn golygu, nid un a ddaw i feddiant, ond un mewn meddiant, o etifeddiaeth. Felly y ceir yr ystyr yn Heb. vi. 17, "etifeddion yr addewid;" megys hefyd

* Dywedai y Groegiaid eu humain am bobl y byd—Groegiaid a barbariaid.

yweiddo Crist, yna yr ydych yn had Abraham, etifeddion yn ol addewid.

IV. Dywedyd yr wyf—dros gymaint o amser ag y mae yr etifedd yn blentyn nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas er ei fod yn arglwydd
2 ar y cwbl, eithr y mae dan ymddiriedolwyr a goruchwylwyr hyd amser gosodiad

Crist ydych, yna had Abraham ydych, ac etifeddion yn ol yr addewid.

A hyn yr wyf yn ddy- IV. wedyd: dros gymaint o amser ag y mae yr etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl; eithr y mae efe dan 2 ymgeleddwyr a llywodraeth-

29. etiveddion wrth addewit.—W. S. yna yr ydych yn had i Abraham, ac yn etifeddion i'r addewid.—M.

1. Weithian meddaf tra vo'r etifedd yn vachcen.—W.S.

2. Dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr yd y pryd a osodes y tat.—W.S. Ar ymyl y ddalen rhoddir *tutoriaid*, *arffedogion*, am *ymgeleddwyr*.

Yn ystyr Ladin y gair *tutor*, sef *guardian* neu *trustee*, *ymddiriedolwr*.

"etifeddu yr addewidion" yn yr un benod (13); Eph. i. 18, "golud gogonant ei etifeddiaeth ef yn y saint." Yn yr adnod gyntaf o'r benod nesaf er hyny, (megys yn Mathew xxi. 38.; Luc xx. 14, "hwn yw yr etifedd,") ceir ystyr arferol y gair.

Yn ol yr addewid.—Neu "yn ol addewid." Ar sail yr addewid y deuant yn etifeddion yr hyn, fel y gwelir oddiwrth 18 a 22, sydd yn cynwys eu bod yn etifeddion trwy ffydd.

PENNOD IV.

1. **Dywedyd yr wyf.**—Fy meddwl yw. Mae yr apostol wedi cyffwrdd eisoes a'r meddwl sydd yma pan yn son yn adn. 23, 24, am was y plant, dan fanwl gadwraeth ac arweiniad yr hwn y cedwid y rhai oedd dan y ddeddf. Cyfeiria y gymhariaeth at yr amser y bo etifedd dan oed heb hawl ganddo i wneyd a fyno a'i eiddo. Yn hyn y mae heb wahaniaeth rhyngddo a gwas neu gaethwas; ond cyfyd trefniad felly o'r ffaith mai tymor o amherffeithrwydd ac anaddfedrwydd yn adeg plentyndod, ac yma y mae pwynt y gymhariaeth. Oni bai hyn, ni buasai un tad yn gosod ymddiriedolwyr i reoli; gwell fuasai ganddo i'r hwn oedd, o ran hawl, yn arglwydd ar y cwbl, fod felly yn weithredol hefyd. Mae yr etifedd a ddesgrifir yma a'r rhai uid ydynt yn Nghrist yn gyffelyb yn hyn, fod tymor amherffeithrwydd yn un amddifad o ryddid.

2. **Eithr y mae dan ymddiriedolwyr.**—Dadleua rhai esbonwyr yn gryf fod y tad yn fyw yn y gymhariaeth hon; pe amgen, meddir, nid ewyllys y tad, ond y gyfraith, a fuasai yn penderfynu yr amser i'r mab fod dan ymddiriedolwyr. Ond mae y cyfeiriad at ymddiriedolwyr a goruchwylwyr yn awgrymu ewyllys yn cael ei chario allan wedi marw un, a diau y buasid yn eu penodi hyd yr amser arferol yn ol y gyfraith. Yn ngeiriad y cyfeith-

3 y tad. Felly ninau hefyd, pan oeddym blant, oeddym gaeth dan wyddorion y

wyr, hyd yr amser a osodwyd gan y tad. Felly ninau hefyd, 3 pan oeddym fechgyn, oeddym gaethion dan wyddorion

3. tra fuom fechgyn.—M.

iad uchod, dyma y meddwl : hyd amser gosodiad y tad, yw, hyd yr amser yr oedd gan y tad hawl i benu goruchwylwyr. Pe buasai y tad yn fyw, ni fuasai yr etifedd ond megys gwas, er bod yn llawn deugain mlwydd oed. Ond wedi ei farw ef yr oedd yr etifedd yn rhydd pan yn bedair ar ddeg oed, fel yn yr hen gyfraith Gymreig. Er y defnyddir y cyntaf o'r ddau air hyn yn fynych gan y Groegiaid am oruchwylwr tir (dyma yr ystyr yn Math. xx. 8 ; Luc viii. 3), gwell, yn y cysylltiad hwn, yn nglyn ag etifedd dan oed, yw rhoddi iddo ystyra geir yn y LXX, ac mewn rhai ysgrifenyddwyr Groegaidd hefyd, sef ymddiriedolwyr dan ewyllys.* Y goruchwylwr oedd y gwr a osodid gan ei arglwydd ar ei deulu i roddi iddynt eu cyfluniaeth, ac i arolygu derbyniadau a threuliadau yn nglyn a'r teulu a'r eiddo.

3. Felly ninau hefyd pan oeddym blant.—Dengys y geiriau hyn mai cyteirio at ei hanes personol ei hun a'i gyd-Gristionogion y mae yr apostol, ac nid at gwrs hanes cenedl Israel. Mae cyffelyb gymhariaeth, o ddwy sefyllfa o blentyndod ac addfedrwydd oedran, yn 1 Cor. xiii. 11 ; Eph. iv. 13 ; ond yno mae y ddau dymor o fewn bywyd yr eglwys Gristionogol, tra mai adeg plentyndod, yn ol y geiriau hyn, oedd yr amser *cyn* credu.

Oeddym gaethion dan wyddorion y byd.—Mae y gair a gyfieithir yma *gyddorion* i'w gael saith waith yn y Testament Newydd. Mewn dau o'r rhai hyn, 2 Pedr iii. 10, 12, defnyddir ef am yr elfenau materol y mae y ddaear wedi ei gwneyd o honynt. Yn Heb. v. 10, "egwyddorion dechreuad ymadroddion Duw," y meddwl yw pethau dechreuol, A B C yr ymadroddion dwyfol. Cyfyngir ni felly i bedwar o fanau,—yr adnod hon ; "egwyddorion llesg a thlodion," iv. 9 ; "gwyddorion y byd" ddwywaith yn Col. ii. 8, 20. Defnyddir y gair am (1) Lythyrenau y wyddor o ran eu sain, fel yr elfenau symlaf y ffurfir sillau o honynt. (2) Y defnyddiau cynhenid yn nghreadigaeth y byd a mater yn gyffredinol, megys—yn ol Empeocles, un o'r hen athronwyr cyn Plato,—daear, dwfr, awyr, tân, er mai nid y gair yma yw ei air ef ei hun. Y pethau a gyfrifid yn yr ystyr yma yn ddefnyddiau dechreuol pobpeth a alwyd wedi hyny wrth yr enw hwn, ac ymddengys mai Plato a ddechreuodd ei arfer felly. Dyma y meddwl yn 2 Pedr iii. 10, 12, ac mewn ychydig fanau yn llyfrau yr Apocrypha, a cheir ef felly yn fynych yn ysgrifeniadau Philo. (3) Gelwir y ser hefyd wrth yr enw hwn, yn enwedig y deuddeg arwydd a'r saith blaned a'r haul, er nad yn fynych. Yn Eusebius, Hanes yr Eglwys, iii. 31, 3, gelwir Ioan a Phylip yn yr ystyr olaf hwn o'r gair, yn "oleuadau mawr" am eu bod fel "goleu-

* Dyma hefyd, fe ymddengys, yw hen ystyr y gair Cymraeg "ymgeleddwr." Y geiriau Lladin a rydd Dr. Davies am dano yw "curator," "tutor," hyny yw, yn ol ystyr y Lladin, "ymddiriedolwr." Yn 2 Macc. xi. 1, darllenir, "Lysias, goruchwylwr (guardian) y brenin, a'i gar ;" ac ar ymyl y ddalen "ymgeleddwr." Ar ymyl y ddalen gan W. S., mae tutoriaid, arffedogion, sef "guardians," neu "trustees." "Rhaid i fab wrth arffedog hyd oni byddo yn bedair ar ddeg oed."—Y Cyfreithiau Gymreig.

4 byd; ond pan ddaeth cyflawnder yr amser anfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneud y byd: ond pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei

adau y nefoedd." Mae y gair yn fynych yn ysgrifeniadau y Tadau Eglwysig am yr haul, y lleuad, a'r ser, gan gyfeirio atynt fel y pwerau sydd yn rheoli amserau—blynyddoedd, misoedd, diwrnodau. Mae amryw o esbonwyr yr Almaen, gan ddilyn Hilgenfeld mewn ymchwiliadau dysgedig o'r eiddo a gyhoeddwyd 1858—1866, ac a geir hefyd yn ei arweiniad i'r Testament Newydd, yn pleidio golygiad y Tadau am ystyr y gair yma. "Gan fod y gwyliau Iuddewig fel pe yn dibynu ar yr haul a'r loer a'r ser, rhoddir y flaenoriaeth i esboniad y Tadau Eglwysig. Yn ol hwn yr Elfenau yw y cyrff nefol amlwg fel bodau byw, gan droadau y rhai y rheolir Sabbathau, y newydd-loerau, y gwyliau blynyddol (y Pasc, &c.), megis hefyd wyliau mynych y cenhedloedd. Edrychir ar y rhai hyn fel galluoedd angylaidd yn llywodraethu Iuddewon fel Cenhedloedd cyn eu dyfod yn Gristionogion." Yn yr un ystyr a'r geiriau hyn yr eglurir yr ymadrodd gan eraill, ond mae iddo eto ystyr ag y teimlwn ei bod yn fwy cymhwys yma ac yn y Colossiaid. (4) Yr elfenau cyntaf mewn gwybodaeth; felly y gelwir llyfr sydd weddol adnabyddus i lawer o bobl ieuainc "Elfenau Geometry" gan Euclid—y pethau dechreuol mewn athrawiaeth neu grefydd neu addoliad. Ystad o gaethiwed yw anwybodaeth, a'r ystad agosaf ati yw yr un y llywodraethir dynion gan syniadau anmherffaith, bychain, elfenol. Y math hwn a elwir yma "gwyddorion y byd," ac y mae "y byd" yn yr ymadrodd yn cynwys pethau Iuddewig yn ogystal a Chenhedlig. Er uchod oedd yr Iuddew fel un wedi ei ddysgu yn y ddeddf o'i gymharu a Chenedl-ddyn cyffredin, eto, yn enwedig trwy y warogaeth eithafol unochrog a delid y *pryd hyn* i Moses a'r ddeddf, elfenol oedd y syniadau a lywodraethent ei grefydd yntau. Yn ei gwrthyferbyniad i Grist a'i efengyl tebyg iawn oedd Iuddewiaeth i grefyddau eraill y dwyrain; am hyny, gosodir hi, fel hwythau dan y penawd "gwyddorion y byd." Sylfaenir cymhwysder yr ymadrodd "caethion dan wyddorion y byd," fel disgrifiad o Iuddewon yn ogystal a Chenhedloedd, gan rai, ar eu darostyngiad i'r byd materol o ran deddf oedd yn ei natur, a diffyg ei natur yn perthyn i'r byd yn y wedd faterol arno. Ond ymddengys y cyferbyniad rhwng y materol a'r ysbrydol yn lled ddy-eithr i'r adran hon.

4. **Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser.**—Enw yw y gair a gyfieithir "cyflawnder" ar y peth hwnw sydd yn gwneyd yr hyn a enwir ar ei ol yn llawn, fel y darn a roddir i wneyd gwisg yn gyfan, Math. ix. 16, ac megis y dywedir yn y gair "cyflawnder y cenhedloedd;" neu (2) digonoldeb, fel pan dywedir "cyflawnder Duw," "cyflawnder y Duwdod." Yn yr ystyr gyntaf, a'r unig un gymwys yma, y meddwl yw fod yr amser a arfaethwyd gan Dduw, (fel y tad yn adnod 1 yn penodi amser yr etifedd), yn wag nes y dirwynodd tymor nodedig i fyny. Gwel "goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd," Eph. vii. 10. Mynych y dywed Iesu Grist, "yr hwn a'm hanfonodd i," a phob tro yn yr amser gorphenol. Cyfeiria felly at weithred neillduol o eiddo Duw yn ei anfon fel un oedd yn Fabiddo cyn yr anfoniad.

Wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf.—Wedi dyfod yn ddyn, ac yn Iuddew. Mae y ddau ymadrodd yn fynegiad disgrifiadol o'r dull y gwnaed prynedigaeth oddiwrth gaethiwed dan y ddeddf. Yn

thur o wraig, wedi ei wneu- wneuthur o wraig, wedi ei
 5 thur dan y ddeddf, fel y wneuthur dan y ddeddf; fel 5
 prynai y rhai dan y ddeddf, y prynai y rhai oedd dan y
 fel y derbyniem y mabwys- ddeddf, fel y derbyniem y

4 Yn wneuthuredic o wreic, ac yn wneuthuredic y dan y ddeddf.—W. S.

5 Val y gallem dderbyn y braint mabwrieth.—W. S. fel y caem dderbyn mabwriaeth.—M.

ei anfoniad i brynu ganwyd y Gwaredwr o wraig, a ganwyd ef dan y ddeddf yn rhwym fel mab Iuddewes i holl ordeiniadau deddf Moses. Nis gall y gair "dan y ddeddf" yma, yn ei berthynas â Christ, ddwyn ond yr un ystyr ag sydd iddo yn ei berthynas a'r rhai a waredir, "y rhai dan y ddeddf." Efe yn sylweddol oedd yr Iuddew olaf, gan i rwymedigaeth pob Iuddew i'r ddeddf ddarfod yn ei farwolaeth ef; a'r pryd hwnw y darfyddodd hefyd werth pob cyfundrefn o'r un natur. Ni ellir gweled, debygem, yn y dywedid "dan y ddeddf" ychwaneg nag a ddywedwyd uchod, ac felly nid oes yma ond rhan o'r ufudd-dod a wnaeth fywyd a marwolaeth Crist yn rhinweddol i waredu.*

5. **Fel y prynai**, hyny yw, fel y gwaredai, yr Iuddewon, y rhai a ddelid yn gaethion dan y ddeddf, trwy y syniadau a ffynai am yr angenrheidrwydd i fod dani, ac i'w chadw, ac felly oeddynt hefyd yn agored i'w mellidith. Mae y prynu yn waredigaeth anfeidrol fwy na rhyddhau o gaethiwed meddwl deddfol, a'r rhwymedigaeth i ddeddf sydd yn nglyn ag ef, yn gymaint a'i bod yn gwared oddiwrth felldith pechod. Rhan o'r brynedigaeth eang hon oedd y rhyddhad a ddaeth i'r Iuddew oddiwrth ddeddf Moses; eto yn y rhyddhad hwnw symudid yr hyn a rwystrai fwynhad y cynwys helaethach oedd ynddi.

Fel y derbyniem y mabwysiad.—Nis gellir yn dda gydsynio a'r hyn a ddywedir gan rai fod y Cenhedloedd yn dyfod i mewn yma, am mai "derbyniem" nid "derbynient" a ddywedir. Gesyd yr ysgrifenydd ei hun yn syml gyd-a'r rhai dan y ddeddf; ond yn ei waredigaeth ei hun a hwy gwel bortread hefyd o waredigaeth y Cenhedloedd oddiwrth gyffelyb "wyddorion byd" Dengys rhediad yr adran beth yw ystyr y gair mabwysiad, sef dwyn o sefyllfa caethion i sefyllfa meibion; gwneyd un yn gyfryw ag y gellir ei gyfarch, "nid wyt ti mwy yn was ond yn fab." Mae'n wir na wneir hyny heb y geni drachefu a'r geni o Dduw, heb y creu o newydd yn Nghrist Iesu, eto nid am wneyd yn feibion yn yr ystyr hono y dywedir yma. *Safle* yr etifedd sydd yma; mae yn y geiriau nesaf fwy.

* Am yr un rheswm ag a fynegwyd o'r blaen, anhawdd iawn yw derbyn yma y geiriad "dan ddeddf," "y rhai dan ddeddf." Mae rheswm gramadegol dros adael y fanod allan yn y Groeg, ac yn sicr mae y meddwl sydd yn y fath air a "dan ddeddf" yn ddyeithr i iaith Paul a'r Test. Newydd,

MABWYSIAD.

Yn mhlith yr ymadroddion hyny a berthyn yn neillduol i apostol y cenedloedd, feallai mai y gymhariaeth o Fabwysiad yw yr un sydd wedi ei chorffori lwyraf yn iaith duwinyddiaeth ac addoliad. Prin yr edrychir ar y gair fel ffigiwr o gwbl. Peth cymharol anfynych yw mabwysiad yn mywyd cymdeithasol ein gwlad ni. Nid oes iddo le o gwbl yn ein cyfreithiau, a phrin y mae ganddo le neillduol yn ein harferion. Yn mhlith yr Iuddeuon hefyd yr oedd yn beth hollol ddieithr mewn ystyr gyfreithiol. Ond gyda'r Rhufeiniaid yr oedd yn weithred hysbys ddigon mewn cymdeithas, a mwy na hyny, yr oedd y defodau a berthynent i fabwysiad yn cael lle mawr a phwysig yn y gyfraith.

Trwy fabwysiad dan gyfraith Rhufain yr oedd estron perffaith o ran gwaed yn dyfod yn aelod o'r teulu i'r hwn y mabwysiedid ef mor hollol a phe buasai wedi ei eni ynddo. Cymerai iddo ei hun enw y teulu; byddai iddo ran yn nefodau cyfriniol aberthau y teulu, ac nis gellid tori y cysylltiad hwn wedi unwaith ei ffurfio, ond trwy ddefod arbenig o ryddhad. Gosodai mabwysiad y fath derfyn ar fywyd blaenorol yr un a äi drwy y ddefod, fel yr oedd, am amryw ganrifoedd, yn effeithio i ddileu ei ddyledion. Ond gwelir safle un mabwysiedig yn wyneb y gyfraith yn fwy eglur eto, yn y ffaith ei bod yn rhwystr i briodas äg aelodau eraill y teulu yn hollol fel pe bai y person yn gar o waed. Paul yn unig o'r ysgrifenywyr sanctaidd sydd yn defnyddio y gymhariaeth hon. Trwyddi hi treiglodd i iaith y meddwl Ceneddig athrawiaeth fawr Iesu Grist am yr enedigaeth newydd, " oddieithr geni dyn drachefn ni ddichon efe weled teyrnas Dduw;" dyma ddysg-eidiaeth fwyaf hanfodol yr Arglwydd, ac ar yr un pryd y fwyaf anhawdd ei dysgu i genhedloedd y byd; hi yw yr athrawiaeth am dderbyniad ysbrydol i'r deyrnas ysbrydol oedd i gael ei sylfaenu; ac yn lle y gymhariaeth naturiol o enedigaeth cymerodd Paul y gymhariaeth gyfreithiol o fabwysiad. Yr oedd y person a fabwysiedid yn ngolwg y gyfraith yn dyfod yn creadur newydd. Genid ef drachefn i deulu newydd. Trwy y ffigiwr hwn gallai y cenedldd yn sylweddoli mewn dull byw fod Duw yn Dad, fod y ffyddloniaid yn frodyr, fod pob cosb wedi ei dileu, a bod iddo hawl i'r etifeddiaeth newydd. Daeth yn abl i sylweddoli fod y weithred ysbrydol hon yn peri " i'r hen bethau fyned heibio a gwneuthur pob peth yn newydd."

Cymerwyd sylwedd y sylwadau uchod o erthygl gan gyfreithiwr enwog, W. E. Ball, LL.D. ST. PAUL AND THE ROMAN LAW.

6 iad. Ac oblegyd eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'n calonau ni, yn llefain, Abba, Dad. mabwysiad. Ac oherwydd 6 eich bod yn feibion, yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonau chwi, yn llefain,

6 *rhwn* sy yn llefain Abba, Dat.—W. S. Who crieth.—Gen. gan lefain Abba, y Tad.—M.

6. Ac oblegyd eich bod yn feibion.—Megys yn yr adnod flaenorol yr oedd Paul yn mhlith y rhai dan y ddeddf a waredasid, yn awr y mae yr un modd yn un a'r Galatiaid, fel y gwelir trwy y llithro o'r *chwi* i'r *ni*. Yn nglyn a'r cyfnewidiad o *chwi* i *ni* gwna Wieseler y sylwadau a ganlyn, "Anghofir mai ar y ferf *bod* sydd flaenaf, ac nid ar yr enw *meibion* y mae y pwyslais, ac felly mai gwirioneddolrwydd eu mabolaeth a wneir yn ämlwg yn y frawddeg. Yn mhellach, gan mai 'i'n calonau ni,' ac nid *chwi*, a ddarllenir, nis gallai y ffaith fod y Galatiaid yn feibion, fod yn sail anfoniad yr Ysbryd Glan, nid yn unig i'w calonau hwy, ond i galon Paul hefyd." Yr ystyr a rydd ef felly yw, "O ran y ffaith eich bod chwi yn feibion, fe ddanfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'n calonau ni yn llefain Abba, Dad. Felly, nid wyt ti (fel y tystiai y llef hon) mwy yn was." Mwy syml yw, fel y gwneir gan y rhan fwyaf, cyfieithu y gair cyntaf yn "oblegyd," heb gydnabod fod y *chwi* a'r *ni* yn galw am sylw mor arbenig.* Mae yr Ysbryd Glan—Ysbryd y Mab yn yr un ystyr ag Ysbryd Crist, nid anian y Mab—yn aros o fewn yn dystiolaeth brofiadol o'r ffaith sydd yn bod cddiallan; i galonau rhai sydd yn feibion yr enfyn Duw Ysbryd ei Fab. Ysbryd ei Fab yw yr Ysbryd Glan fel yr oedd yn gweithredu yn Mab Duw; ac nid amhriodol iawn ychwaith fyddai i ni ddweyd mai yr Ysbryd a lywodraethai yr Arglwydd Iesu yn ei holl fywyd a feddylir.

Yn llefain Abba, Dad.—Mae dylanwad yr Ysbryd mor effeithiol fel y dywedir mai efe sydd yn llefain. Arferir yr un dull i ddesgrifio dylanwadau cryfion eraill, megis, pan y dywedir fod cenfigen dyn yn greulawn, pryd mai efe ei hun, dan ddylanwad cenfigen, sydd yn greulawn. Felly Rhuf. viii. 13, "yn yr Hwn yr ydym yn llefain Abba, Dad," neu adnod 26 o'r un bendod, "mae yr Ysbryd ei Hun yn erfyn drosom ni."

Wrth *lefain* meddylir llef tristwch, neu ddirifwch a thaerineb at Dad; yr un gair, fel sylweddair sydd yn Heb. v. 7, "trwy lefain cryf a dagrau." Wrth yr enw Abba y cyferchid Duw yn hen addoliad y synagog; ac er mai gair Aramaeg ydyw, yr oedd wedi dyfod i arfer cyffredin yn mhlith y Groegiaid. Gan mai llef wrth gyfarch Duw yw hon, ni ellir esbonio yr ychwanegiad o'r ail enw fel un eglurhaol (Abba, y Tad); dwbl gri un teimlad o gyfyngder neu ymddibyniad, fel dolef Eliseus, "Fy Nhad, fy Nhad." Mae y Gymraeg fel y Groeg ddiweddar yn fynych yn arfer y fanod wrth anerch ("Y Tad, daeth yr awr," "y brodyr, deisyf arnoch yr wyf fi," &c.), er nad mor aml hwyrach; ond dengys Marc xiv. 36, "Ac efe a ddywedodd, Abba, Dad, pob peth sydd eisibl i ti," mai "Abba, Dad," nid "Abba, y Tad" a ddylid ddweyd yma.

* Gwelir cyffelyb lithro o *chwi* i *ni* yn Col. ii. 13, 14, (yn ol y darlleniad cywir.)

- 7 Felly nid wyt mwy was, ond mab, ac os mab, etifedd
 8 hefyd trwy Dduw. Eithr y pryd hyny, gan nad oeddych yn adnabod Duw, yr oeddych gaeth i'r rhai wrth naturiaeth nid ydynt dduwiau.
 9 Ond yn awr, wedi i chwi Abba, Dad. Felly nid wyt ti mwy yn was, ond yn fab ; ac os mab, etifedd hefyd i Dduw trwy Grist. Eithr y pryd hyny, pan oeddych heb adnabod Duw, chwi a wasanaethasoch y rhai wrth naturiaeth nid ydynt dduwiau. Ac yn awr, a chwi yn adna- 9

7 ac velly nyd wyt mwy was, amyn map, ac a's map yr wyt hefyd yn etifedd i Dduw.—W. S. *thou art also the heire of God.*—Gen.

8 Yr ei wrth anian nyd yn dduwieu.—W. S. Y gwasanaethasoch y pethau nid ydynt dduwiau wrth naturiaeth.—M.

7. **Felly nid wyt ti mwy was.**—Yr un *ti* yw hon ag a arferir genym ni yn gyhoeddus pan ddywedir rhywbeth sydd yn perthyn i bawb. Mae ei ffurf gyfeiriol yn peri i'r dywediad fod yn fwy cyffredinol nag wrth ddefnyddio *chwi*. Gan fod yr Ysbryd ynot, a'i lef mor eglur, nid wyt ti mwy, fel yn nyddiau caethiwed gwyddorion y byd, yn was. Yn mywyd cyffredin dynion y mab yw yr etifedd, ond nid pob mab, ac yn mhlith yr Hebreaid yr oedd deuparth yr eiddo yn fraint y cyntafanedig (Deut. xxi. 17). Tybir gan rai, felly, fod yma gyfeiriad at y ddeddf Rufeinig, yn ol yr hon pan fyddai tad farw heb ewyllys, yr oedd y meibion oll a'r merched, a phan a byddai plant ganedig, rhai mabwysiedig, oll yn dyfod yn etifeddion. Ond a raid i ni wrth ychwaneg yma nag mai meddwl yr apostol yw fod pob un a wneir yn fab i Dduw yn debyg i'r un hwnw na raid ond dweyd ei fod yn fab er sicrhau ei fod yn etifedd? Tebyg iddo ef yn y cysylltiad anwahanol hwn—mab ac etifedd—yw yr holl rai sydd wir feibion Duw, er mai trwy fabwysiad y gosodir hwy yn y safle wynfydedig hono.

Da fyddai i ni sylwi ar y gwahaniaeth y cytuna yr holl feirniaid arno, "trwy Dduw," yn lle "etifedd i Dduw trwy Grist." Duw ei hun sydd yn eu dwyn i'r fraint trwy ei ddaioni a'i gariad ; felly dywedir "trwy Dduw."

8. **Eithr y pryd hyny, gan &c.**—Sef yr amser blaenorol a awgrymir yn y "mwy" (7), cyn iddynt gredu. Efallai mai gwell yw dweyd "*gan* nad oeddych yn adnabod Duw ;" yn hytrach na "*pan* nad oeddych." Yr achos o'u heulun-addoliad oedd eu hanwybodaeth am y gwir Dduw.

Yr oeddych gaeth i'r rhai...—Dywedir hyn yn yr un ystyr ag y dywedir "caethion dan wyddorion y byd" yn adn. 3. Wrth ddweyd nad oedd y duwiau yn dduwiau o ran natur, y meddwl yw, nad oeddynt mewn gwirionedd y peth yr ystyrir hwy.

9. **Ond yn awr wedi i chwi adnabod Duw.**—Dyma ferf arall, yr un a ddefnyddir gan Iesu Grist yn y geiriau "hyn yw y bywyd tragwyddol, dy aduabod di yr unig wir Dduw." Lled debyg yw y gwahaniaeth rhwng gair yr adnod flaenorol a gair hon i'r hyn sydd yn ein hiaith ni. Yn Gymraeg yr ydym yn gwybod ffaith, ond yn adnabod person, yn adnabod wyneb. Ac y mae Olshausen yma yn dadleu fod tri gair y ddwy adnod yn dangos gradd-eg—pan oeddych heb wybod am Dduw, wedi i chwi adnabod Duw, wedi

adnabod Duw, i.e., mwy, wedi eich adnabod gan Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at y gwyddorion llesg a thlodion, y mynwch drachefn o newydd fod yn gaeth iddynt? 10 Cadw yr ydych ddiwrnodau,

bod Duw, ond yn hytrach yn adnabyddus gan Dduw, pa fodd yr ydych yn troi drachefn at egwyddorion llesg a thlodion, y rhai yr ydych yn chwenychdrachefn o newydd eu gwasanaethu? Cadw yr 10 ydych ddiwrnodau, a mis-

9 Pa wedd yr ymchwelesoch drachefn at egwan a thlodion wyddoreu, yr ei y mynwch ymgaethiwo yddynt drachefn, yn eich gwrthgarn?—W. S. Ie yn hytrach yn gydnabyddus gan Dduw, pa wedd yr ydych yn troi eil-waith at lesd wyddorion tlodion?—M.

cael eich adnabod gan Dduw. Y dechreu yw gwybodaeth *am* Dduw, ei fod; gan eu bod heb hwn yr oeddynt yn gaethion i'r rhai nid oeddynt dduwiau; yna yn ail mae adnabod Duw yn weithredol oddimewn; ac yn y trydydd lle, brofiad o'i gariad ef yn gweithredu ynddynt hwy. Mae cymharu y ddwy ferf sydd yma trwy y Testament Newydd yn ein harwain i'w hystyried bron heb un gwahaniaeth, nid ydynt yn sicr yn hollol fel y ddwy Gymraeg. Mae adnabod Duw yn cynwys amgyffred ei gymeriad; nid yn sicr o ran mawredd ei gynwys, ond o ran natur, fel Duw cariad a sancteiddrwydd. Wrth ddweyd "ie mwy," nid cywiro y dywediad blaenorol y mae yr apostol, ond ychwanegu ato, fel yn Rhuf. viii. 34; "Crist yw yr hwn a fu farw, i.e., mwy, a gyfodwyd." Ymddengys fod yma gyfeiriad tyner at waith Duw yn anfon Ysbryd ei Fab i'w calonau am eu bod yn feibion, neu yn ol y geiriad yma, am ei fod yn eu hadnabod fel meibion. Adweinir hwy ganddo mewn perthynas newydd ag ef, fel y dywed Iesu Grist am dano ei hun, y Bugail da, ei fod yn adnabod yr eiddo. "Bod i ni adnabod, yw i ni gael ein hadnabod gan Dduw."—Luther.

Pa fodd yr ydych yn troi drachefn.—Wrth droi at osodiadau Iuddew-aid, yr oeddynt yn troi at bethau, y rhai, o'u gosod wrth ochr uchel ryddid yr efengyl, a'r ysbryd sydd yn meibion Duw, oeddynt o'r un natur a'r pethau elfenol a adawyd ganddynt wrth adael gwasanaeth eu duwiau. Dyma y rheswm paham y dywedent "drachefn." Heb yr efengyl buasai gosodiadau y ddeddf yn anesurol uwch na'r lleill; ond i rai a adwaenasid gan Dduw yn Nghrist, yr oedd myned atynt *hwy* yn fyned yn ol at bethau oedd yn awr yn yr un dosbarth a'r pethau cenhedlig eu hunain. Yr efengyl ei hun yn ei mawr ragoriaeth a barodd hyny. Pethau elfenol oeddynt; *llesg* wrth ochr rhagorol fawredd ei nerth Ef yn Nghrist Iesu: *tlodion* o'u cymharu ag anchwiliadwy olud gras Duw. Dyma ddwy nod ystad o gaethiwed.

10. Cadw yr ydych ddiwrnodau.—Enwir y rhai hyn fel engreiffitiau o'r pethau yr oedd eu gwyneb arnynt, wrth droi at bethau elfenol. Yn y cyfryw bethau a hyn y gwelid canlyniadau dyfod yn Iuddewon, yn enwedig y llesgedd a'r tlodi ysbrydol a ddeilliai o hyny.

Diwrnodau.—Y ddeuddydd o ymptydic wythnosol, a enwir gan y Pharisead yn ei weddi; ac yn un o'r llyfrau Cristionogol hynaf (Athrawiaeth yr Apostolion—tua A.D. 120), dywedir fcd "y rhagrithwyr (yr Iuddewon

a misoedd, ac amseroedd, a
 11 blynyddoedd. Mae arnaf ofn
 ofn am danoch, rhag ddar-
 fod i mi boeni wrthyh yn
 12 ofer. Deuwch fel fi, canys
 myfi a *ddcuthum* fel chwi, y
 oedd, ac amseroedd, a blyn-
 yddoedd. Y mae arnaf ofn 11
 am danoch, rhag darfod i
 mi boeni wrthyh yn ofer.
 Byddwch fel fyfi, canys yr 12
zeyf fi fel chwi, y brodyr,

yn ymrydio ar yr ail a'r pumed dydd o'r wythnos." Ond yn benaf yma hefyd golygir y Sabbathau, "Na farned neb arnoch chwi o ran dydd gwyl, neu newydd loer, neu am Sabbath. Col. ii. 16.

Misoedd.—Y gwyliau misol, y newydd-loerau, fel yr awgryma y geiriau o'r Colossiaid. Dywed rhai mai misoedd cysegredig a feddylir yma, gan fod y newydd-loer yn dyfod dan y dosbarth cyntaf—diwrnodau.

Amseroedd.—Adegau gwyl o bob math, y rhai a allent fod yn aml iawn. Yr oedd y "diwrnodau" o fewn yr wythnos; yr oedd y lleill, y "misoedd," yn dyfod gyda'r lloer newydd; ond yr oedd dyddiau cysegredig lawer yn cael eu cadw yr adeg yma na enwir o gwbl yn y gyfraith.

Blynyddoedd.—Y gwyliau blynyddol, megis y Pasc, y Pentecost, &c. Gosodir y gwyliau hyn gan rai dan *Amseroedd*, ac yna golygir wrth "blynyddoedd" y blynyddoedd cysegredig a ddeuent bob saith mlynedd. Nid oedd yn bosibl fod y Galatiaid wedi cadw mwy nag *un* o'r rhai hyn, ond gellid egluro y rhif luosog fel yn dynodi y math o bethau sydd yn awr yn cael sylw gan y Galatiaid adfeiliedig. Mae Wieseler, trwy ymchwiliad manwla dysgedig, yn casglu fod y llythyr hwn yn cael ei anfon yn ystod blwyddyn Sabbathol—o wanwyn 54 i wanwyn 55—ac mai dyma y rheswm paham yr enwir blynyddoedd. Er hyny, oherwydd y rhif luosog, gwell yw yr eglurhad cyntaf mai at y gwyliau mawr a ddeuent bob blwyddyn y cyfeirir yn y gair olaf hwn. Am y flwyddyn Sabbath. gwel Lev. xxv. 2, 4, 6.

11. Mae arnaf ofn am danoch.—Mae i mi bryder mawr o'ch herwydd rhag fy mod, (ac mae yn y geiriau awgrym mai felly yr oedd), wedi ymboeni eroch yn ofer. "Mae dagrau Paul yn llenwi y geiriau hyn."*—Luther.

12. Byddwch fel myfi. neu deuwch fel myfi. Anhawdd yn Gymraeg yw cael yr un ystyr yn hollol ag yn y Saesneg *become*. Galwad sydd yma ar rai a giliasant oddiwrth y ffydd i ddyfod eto y peth nad oeddynt yn awr, seiliedig ar fywyd yr Apostol ei hun. Rhaid ail-adrodd yr un gair ar ol "canys" ag sydd yn y rhan gyntaf, a'i ail-adrodd hefyd yn yr amser gorphenol, "Deuwch fel fi,"—canys er fy ngeni yn Iuddew, a dwyn mawr zel i'r ddeddf unwaith—"daethum i fel chwi"—mewn ymryddhad oddiwrth gyfraith Moses, daethum i fod fel y cenhedloedd. Mae'n debyg ei fod yma yn cyfeirio, nid at y rhyddid a gofeidwyd ganddo yn gyffredinol ar ol ei droedigaeth, ond at ei fywyd pan y daeth a'r efengyl i'w plith yn Galatia, y modd y bu byw yno yn hollol fel hwythau. Eto gwelir yn y teimlad a gymhellai y fath ymarweddiad yn Galatia ffynhonell ei ymddatodiad cyffredinol, sef mewn cariad dwfn at y Cenhedloedd yn ogystal ag yn ngoleuni gwirionedd yr efengyl am ryddid pawb.

* Lacrymas Pauli haec verba spirant.

brodyr, atolwg i chwi. Ni
 wnaethoch i middim niwed;
 13 ond gwyddoch mai oher-
 wydd gwendid y cnawd yr
 efengylais i chwi y waith
 14 gyntaf, a'ch profedigaeth,
 atolwg i chwi: ni wnaethoch
 i mi ddim cam. A chwi a 13
 wyddoch mai trwy wendid
 y cnawd yr efengylais i chwi
 y waith gyntaf. A'm prof- 14
 edigaeth, yr hon oedd yn fy

12 Ni wnaethoch ddim eniwed i mi.—W. S.

Gan ddwyn i gof y dyddiau o'r blaen, dyddiau o garedigrwydd mawr yn Galatia, mae yr Apostol yn cymell adfer yr hen berthynas. 12—20

12. Ni wnaethoch i mi ddim niwed.—Gwell o lawer, yn ol fy nheimlad i, yw edrych ar y geiriau hyn fel dechreu adgof yr Apostol o ymddygiad y Galatiaid tuag ato pan yn eu plith. Maent felly i'w cysylltu ag adn. 13, ac yn sefyll yn gyntaf o dair ffaith. Ni wnaethoch i mi ddim niwed; ni ddiystyrasoch, ac ni ddirmygasoch fy ystad wael yn eich plith; derbyniasoch fi fel angel Duw. Er mai ystyr gyntaf y ferf yma yw ymddwyn yn anghyfiawn, neu wneyd camwri ag un, eto defnyddir hi yn aml iawn hefyd mewn ystyr fwy cyffredinol am *ddrygu* neu *niweidio*, fel am yr Aiphtwr a darawodd Hebrewr, Act. vii. 2—4; ac yn Luc x. 19, "ac nid oes dim a wna i chwi ddim niwed." Hyn hefyd yw ystyr cyfieithiad Lladin y Vulgate,* ac am y rhesymau hyn nid ydys yn cyfieithu—"ni wnaethoch i mi ddim cam." Y meddwl, yn y wedd hon, yw na ddarfu iddynt hwy, megis eraill, ei eilid pan y daeth i'w plith gyntaf i efengylu.

13. Eithr gwyddoch mai oherwydd gwendid y cnawd.—Dyma gyfeiriad at yr amgylchiad a barodd iddo aros yn Galatia, ac adgof o'r derbyniad tyner a gawsai gan y bobl calon gynnes hyn. Dyeithrddyn eiddil claf, ac oherwydd iddo dario yno mewn afiechyd, yn pregethu iddynt bethau dyeithr—dyma yr amgylchiadau sydd yn fynych yn hudo bagad o werin i ymosod. Nid gwrthgyferbyniad i'r geiriau o'r blaen sydd yma, ond mynegiad o ffaith oedd yn eglurach ddangos eu hymataliad oddiwrth un math o niwed i genad Crist. Ofer i ni geisio dyfalu natur neu achos y gwendid hwn, ond hawdd yw dirnad mor gu oedd gan yr Apostol y cof am yr efengylu cyntaf hwnw yn nghanol y fath dynerwch a charedigrwydd.

Y waith gyntaf.—Y cyntaf o ddau ymweliad â Galatia, sef yr un a enwir Actau xvi. 6, "wedi iddynt dramwy trwy Phrygia a gwlad Galatia."

14. A'ch profedigaeth yr hwn oedd yn fy nghnawd i.—Mae y cyfnewid- iad i'r ail berson "eich profedigaeth" yn lle "fy mhrofedigaeth," ar seiliau na ellir eu gwrthod, yn peri i'r frawddeg ymddangos yn fwy anhawdd. Nid yw y syniad o dristwch yn y gair profedigaeth o angenrheidrwydd; y meddwl yw prawf, ac felly y deallwn ef yma. Gosodwyd prawf ar garedigrwydd y Galatiaid gan wendid yr Apostol; denai y fath wendid yn y cnawd bobl gyffrous i ddiystyru.

yr hon oedd yn fy nghnawd
i, ni ddiystyrasoch, ac ni
ddirmygasoch, eithr derbyn-
iasoch fi fel angel Duw,
15 fel Crist Iesu. Pa le
gan hyny y mae eich gwyn-
fyd chwi? canys tystio yr
wyf i chwi, pe yn bosibl, y
nghnawd, ni ddiystyrasoch,
ac ni ddirmygasoch; eithr
chwi a'm derbyniasoch
megys angel Duw, megys
Crist Iesu. Beth wrth hyny 15
oedd eich dedwyddwch
chwi? canys tystio yr wyf i
chwi, pe buasai bosibl, y

14 A phrawfiad o hanof yr hyn *oedd* yn vy cnawt,—W. S. A'r profiad o honof yr hyn oedd yn fyng-nawd ni ddirmygasoch ac ni wrthodasoch, And the trial of me which was in my flesh.—Gen.

Et temptationem vestram.—Vulgate. Et explorationem mei.—Beza. Et experimentum mei.—Calvin.

Ni ddiystyrasoch ac ni ddirmygasoch.—Nid ymddygasoch at fy afiech-
yd fel peth i'w ysgornio, nac ychwaith fel peth atgas. Hudir fi yma i osod
i lawr adffurfiad ar yr holl frawddeg a gynygir gan dri beirniad galluog.*

Chwi a wyddoch, mai o herwydd gwendid y cnawd yr ef-
engylais i chwi y waith gyntaf, a'ch profedigaeth yn fy nghnawd
i; ni ddiystyrasoch *fi*, ni ddirmygasoch ychwaith, eithr derbyn-
iasoch *fi*, fel angel Duw, fel Crist Iesu.

Yr ystyr yn ol y trefniad hwn yw, chwi a wyddoch ddau beth—y gwael-
edd a achlysuroidd fy arhosiad yn eich plith y waith gyntaf, a'r brofedigaeth
a gawsoch trwy y gwendid hwn yn fy nghnawd i. Er nad ydys yn llwyr
dderbyn yr eglurhad meistrolgar hwn, teimlwn mai buddiol iawn yw i ni ei
ddarllen a'i gadw mewn cof.

Mae yn anhawdd gweled pa beth sydd yn y geiriau hyn, er eu cymeryd
gyda geiriau eraill, i roi un sail i'r dyb fod Paul yn dioddef yn gyffredin neu
y pryd hwnw oddiwrth wendid yn y llygaid, a llawer llai mai corff bychan,
dirmygus yr olwg arno, oedd ganddo, agored i gryndod a llewyg. Rhaid
synu at feiddgarwch yr honiadau neu y dychymygion hyn, tra y mae y
seiliau mor brin.

Derbyniasoch fi fel angel Duw.—Mae yn y fath ymadroddion a'r ddau
hyn le i feddwl ddarfod i'r efengylu cyntaf yn Galatia gael ei ddilyn gan ar-
ddeliad neillduol, pan roddent i Paul dderbyniad angel, i.e. mwy, derbyniad
fel yr un a roesent i'r Arglwydd ei hun.

15. **Pa le gan hyny y mae eich gwynfyd chwi.**—Gwelir yn y cyfieithiad
yma ddau gyfnewidiad seiliedig ar gyfnewidiadau yn y gwreiddiol, ag y mae
pob sail i feddwl eu bod yn gywir. Dywedir gyda llawer iawn mwy o rym
“*pa le y mae eich gwynfyd chwi,*” yn lle “*pa beth oedd.*” Yn gyffelyb yr
ymofynir “*pa le y mae y doeth?* &c., yn 1 Cor. ii. 20; ‘*pa le gan hyny y
mae gorfoledd?* Rhuf. iii. 27. Pa le, dyma yr ystyr, y mae y gwynfyd a
brofasoch y pryd hyny, erbyn hyn? Tair gwaith y ceir y sylweddair hwn
yn y Test. Newydd (Rhuf. iv. 6, 9), ac yn y tri lle mae W. Salesbury wedi

* Lachmann yn ei Destament Groeg: Buttman (Studien u. Kritiken, 1860, 379); Sieffert.

tynasech eich llygaid, ac a'i
 16 rhoisech i mi. Yr wyf, gan
 hyny, wedi dyfod yn elyn i
 chwi wrth ddywedyd y gwir
 17 i chwi! Maent yn rhoi
 mawr-serch arnoch nid yn

tynasech eich llygaid, ac a'u
 rhoisech i mi. A euthum 16
 i gan hyny yn elyn i chwi,
 wrth ddywedyd i chwi y
 gwir? Y maent yn rhoi 17
 mawr-serch arnoch, ond nid

17 Y maen hwy yn eiddigedus drosoch nyd yn iawnvod.—W. S. Y maent hwy ar gam yn eiddigus drosoch hwy a fynnent ein cau ni allan fel y dygech serch iddynt hwy.—M.

Mae Morgan yma yn dilyn darlenniad a chyfieithiad Beza, "ein cau ni allan," a'r hwn nid oes neb o'r beirniaid yn cytuno, er ei fod yn rhoddi synwyr da, (Imo excludere nos volunt), am nad oes odid ddim sail iddo.

arfer y gair dedwyddwch neu dedwyddy; ei air ef, felly, arferedig y pryd hyny, sydd genymyn yr adnod hon; megis hefyd yn "dedwydd yw y rhai y madd-euwyd eu hanwireddau,"* Llawer mwy priodol bellach yw gair y Bregeth ar y Mynydd—gwynfyd. Teimlai y Galatiaid eu hunain yn wynfydedig y pryd hyny; ond pa le y mae y gwynfyd hwnw yn awr?

Y tynasech eich llygaid.—Yr unig ffordd deg i ddeall y geiriau hyn yw fel gormodiaeth gref diareb; yn y gwynfyd a deimlent, yr oeddynt yn barod i wneyd unrhyw aberth i gynorthwyo yr Apostol yn ei afiechyd. Nid oes yma, debygwn, rith o le i gasglu ei fod yn dyoddef oddiwrth ddolur llygaid

16 Yr wyf gan hyny yn elyn i chwi.—Haner gwatwariaeth. Nid gan gyfeirio at ei ymweliad diweddaſ â hwy y dywed fel hyn, neu at effaith dybiedig ei lythyr hwn, ond at y peth oedd yn ol desgrifiad ei wrthwynebwyr—eu gelyn, a'r unig ffordd y gallasai fod wedi dyfod felly oedd trwy ddweyd y gwir wrthynt! Trwy ddygu i chwi wirionedd yr efengyl (gwel ii. 5), am gwbl ryddhad y cenedloedd mewn ffydd oddiwrth y ddeddf, fel y gwneuthum y tro diweddaſ bum yn eglwysi Galatia, a phan y dywedais uchod am yr efengyl ym amgen (19) nag y derbyniasoch, yr wyf, yn ol y pethau newydd a ddysgir i chwi, wedi dyfod yn elyn i iachawdwriaeth eich eneidiau!

Trwy fod y geiriau nesaf "y maent yn rhoi mawr serch arnoch," yn dyfod i mewn heb un awgrym pwy a feddylir, ymddengys i mi yn eglur mai gwaith yr un rhai sydd yma. Hwy, y dysgawdwy'r Iuddewaid, a'i gwnaeth yn nheimlad y Galatiaid yn elyn, a'u rheswm hwy dros hyny oedd ei fod wedi dweyd wrthynt y peth oedd iddo ef yn wirionedd am y ddeddf.

17. Maent yn rhoddi mawr serch arnoch.—Ni ddywed yr Apostol pwy sydd yn rhoddi mawr serch, am, medd Calvin, ein bod yn arfer gadael allan enwau y rhai y mae yn boenus neu yn ddiflas genym eu henwi. I'r un pwrpas y dywed Meyer fod Paul yn rhy ddig i'w henwi, Eto mae gan ddig ffordd i enwi. Mwy naturiol yw tybied eu bod yn llawn yn meddwl yr

* Mewn hen lyfr a gyhoeddwyd y flwyddyn wedi Testament Salesbury, 1568 darlennwn—

YR WYTH DEDWYDDWCH.
 Dedwydd yw'r tylodion o ysbryd, cans
 Hwytwy pie teyrnas nefoedd.
 Dedwydd yw'r gwaredigion, &c., &c.

dda, eithr ewyllysio y maent eich cau chwi allan, fel y rhoddoch chwi fawr-serch
 18 arnynt hwy. Eithr da yw cael gosod mawr-serch *arnoch* mewn peth da yn wastad, ac nid yn unig tra fyddwyf fi bresenol gyda

yn dda; eithr chwenych y maent eich cau chwi allan, fel y rhoddoch fawr-serch arnynt hwy. Eithr da yw 18 dwyn mawr-serch mewn peth da yn wastadol, ac nid yn unig tra fyddwyf bresen-

18, Eithr peth daionus yw cwbl garu yn wastad ym peth daionus.—W.S. But it is a good thing to love earnestly always.—Gen. Eithr peth da yw dwyn serch yn wastadol.....ac nid yn unig pan fwyf wydd yng-wydd a chwi.—M.

Apostol fel yr achos paham yr ystyrid ef, a gawsai y fath garedigrwydd gynt, yn awr yn elyn yn Galatia, ac mor llawn fel na theimlai angen eu henwi.

Mae y gair a gyfieithir "rhoddi mawr serch" i'w weled hefyd yn 2 Cor. xi. 2, "eiddigus wyf trosoch ag eiddigedd duwiol;" ond mae iddo hefyd ystyr ddrwg, megis yma, sef bod yn fawr eu zel gyda'r Galatiaid, cymeryd mawr drafferth gyda hwy, ond er mwyn eu dwyn drosodd atynt eu hunain.

Eithr ewyllysio y maent eich cau chwi allan.—Os edrychwn ar y cau allan yma o safle teimlad yr athrawon Iuddewaidd eu hunain, yna meddwl yr ymadrodd yw eu cau allan o ddylanwad athrawon eraill, fel y caffont hwy holl wargaeath eu meddyliau. Ond ymddengys yn llawn mwy cymhwys barnu fod yr Apostol yn disgrifio gwaith y rhai hyn o'i safle ei hunan. Yn ol hyny, y meddwl yw eu bod yn eu dysgeidiaeth, wrth ddweyd fod yn rhaid cadw deddf Moses, yn cau cenhedloedd allan o deyrnas Dduw. Oni ym-ostyngent i'r ddeddf, meddent wrthynt, ni allent fod yn gadwedig, a'r di-wedd fyddai troi at y ddeddf gan fawrhau y rhai a'i troesant. Mae Eglwys Rhufain yn ei hathrawiaeth yn cau pawb allan o'r wir eglwys ond sydd yn cydnabod awdurdod y Tad o Rufain; mae dysgu hyn wedi peri i lawer ofni fod eu henaid mewn perygl, a dychwelyd i fynwes yr eglwys hono, gyda zel llawer mwy tanbaid na'i phlant ei hun.

18. Ond da yw cael rhoddi mawr serch.—Rhaid deall y ferf yn oddefol, "Da yw bod yn wrthddrychau zel eraill," nid yn weithredol, fel yn y cyfieithiad cyffredin. Er na enwir gwrthddrych neu wrthddrychau y mawr serch yma, eto priodol yw casglu mai y rhai a feddylir yw y Galatiaid eu hunain a brofasant hyny eisoes, ac nid Paul. Mae yn nghudd yn y geiriau hefyd gondemniad o'r melusdra a gawsent eisoes mewn mwynhad o waith dynion yn cymeryd byd o drafferth gyda hwynt, gan nad oedd y mawr zel a'r helynt "mewn peth da," ond yn hytrach yn ffrwyth dybenion hunangar, awydd am lywodraethu eneidiau gweiniaid. Ond, er fod hyn yma fel awgrym gudd, y peth a fynegir yw, mai da yw iddynt gael rhoddi mawr serch arnynt, os bydd o'r iawn ryw, gydag amcan da. Cawsent hyny eisoes oddiwrth yr Apostol ei hun pan oedd yn bresenol gyda hwynt, ond da oedd iddynt ei gael hefyd, nid yn unig pan yr oedd ef yno gyda hwynt, ond yn awr pan yr oedd yn absenol, trwy gyngor a thrwy rybudd a thrwy athrawiaeth y llythyr hwn.

19 chwi, fy mhlant, y rhai yr ol gyda chwi. Fy mhlant 19
 wyf yn eu hesgor drachefn bychain, y rhai yr wyf yn eu
 hyd oni ffurfier Crist ynoch. hesgor drachefn, hyd oni
 20 Ond mi a fynwn pe bawn ffurfier Crist ynoch; ac mi 20
 yn awr gyda chwi, a newidio a fynwn pe bawn yn awr
 fy llais, oherwydd yr wyf gyda chwi, a newidio fy llais;
 mewn cyfyng-gyngor am oherwydd yr wyf yn ameu

20. Canys petrusaw ydd wyf am danoch.—W. S. Oherwydd yr wyf yn ammau o honoch.—M.

19. **Fy mhlant**. Mwy esmwyth yw cysylltu y geiriau hyn a'r rhai blaenorol. Nid "fy mhlant bychain" yw y gair yma, fel yn Ioan; daeth yr anghywirdeb i mewn yn foreu, ac nid yw ond un lythyren yn y gwreiddiol (*tecia* yn lle *teca*). Cymhara yr Apostol ei fawr bryder a'i ymdrech yn awr yr ail waith, i ail boen y tam, pe bai hyny yn bosibl, i roi genedigaeth eilwaith, ac fel hithau ni chofiai ei ofid mwy, pe gwelai ddelw Crist yn eu bywyd newydd hwy; "fel na byddo i chwi fyw na theimlo dim ond Crist Crist, ac nid Paul, sydd i gael ei ffurfio yn y Galatiaid (Christus non Paulus in Galatis formandus).—Bengel.

20. **Ond mi a fynwn fod yn bresenol**.—Dymuniad na ellir ei sylweddoli yw hwn, ond er hyny awgrymir ef i feddwl yr Apostol gan y crybwylliad blaenorol.

A newid fy llais.—Er na ellir, hwyrach, ei dderbyn fel esboniad cywir, mae un hen esboniwr Lladin yn rhoi esboniad prydfurth—“fel, yr arferwn yn gwbl megis mam, weithiau yr dengar, weithiau ochenaidd, weithiau ymbil, ac weithiau gerydd.” Pa newid a feddylir? (1) newid i fwy o lymder nag y mae yn arfer neu a arferasai; (2) newid i fwy o dynerwch nag a arferasai o'r blaen pan yr oedd "yn dywedyd y gwir" wrthynt, ac yn rhagddywedyd yn llym am y rhai a allent efengylu yn amgen iddynt; (5) newid ton ei eiriau presenol i un fwy tyner. Mae y syniad cyntaf o'r tri hyn yn anghydwedol a rhediad y paragraff a'r gymhariaeth o fam dyner, bryderus. Nid yw yr apostol ychwaith yn rhoddi i ni un lle i gredu y mynasai i'w ymddygiad yn yr amser a aeth heibio fod mewn dim yn wahanol; os felly ni all yr ail olygiad fod yn gywir. Mae serchowgrwydd y geiriau blaenorol yn ein tueddu at y trydydd olygiad. Fe fynai yr Apostol fod yn bresenol gyda'r Galatiaid, fel y gallai ton ledff ei lais fynegi y dwys deimlad oedd ynddo mewn dull na allai llythyr ei wneyd. Pe cawsai gyfleustra i'w hanerch, buasai "dagrau yn ei lais."

Canys yr wyf mewn cyfyng-gyngor am danoch.—Mae i mi gyfyngder meddwl yn yr olwg arnoch, fel yr wyf yn bryderus pa beth i'w ysgrifenu, a pha fodd; awyddus wyf i gyraedd eich calon, a byddai yn dda genyf gael bod yn bresenol yn hytrach na gorfod ysgrifenu fel hyn; gwyddwn yn well pa beth i'w wneyd. Ynoch chwi eich hunain, yn y sefyllfa drist yr ydych wedi eich dwyn iddi, y mae yr achos o'm cyfyng-gyngor i, nid mewn dim ansicrwydd o ran y gwirionedd yn fy meddwl fy hun. Dyma, hwyrach, rediad meddwl y geiriau, ac ni raid cyfieithu yn llythrenol—"yr wyf mewn cyfyng-gyngor ynoch chwi."

- 21 danoch. Dywedwch i mi, y rhai a fynwch fod dan y ddeddf, onid ydych yn
 22 clywed y ddeddf? Canys y mae yn ysgrifenedig, fod i Abraham ddau fab, un o'r gaethferch, ac un o'r wraig
 23 rydd. Eithr y mae yr un o'r gaethferch wedi ei eni yn ol y cnawd; a'r un o'r wraig rydd trwy yr addewid;
 24 id; yr hyn bethau *a ddeallir* o honoch. Dywedwch i mi, y rhai ydych yn chwenych bod dan y ddeddf, onid ydych chwi yn clywed y ddeddf? Canys y mae yn ysgrifenedig, fod i Abraham ddau fab; un o'r wasanaethferch, ac un o'r wraig rydd. Eithr yr hwn oedd o'r wasanaethferch, a aned yn ol y cnawd; a'r hwn oedd o'r wraig rydd, trwy yr addewid. Yr hyn bethau ydynt

Rhyddid yr Efengyl yn cael ei ddysgu yn mhellach trwy Alegori dau fab Abraham, y naill o'r wraig rydd, y llall o'r gaeth. 21—37.

21. **Dywedwch i mi.**—Mae yn dechreu fel pe buasai yn bresenol mewn gwirionedd. Wrth "glywed y ddeddf," meddylir. clywed neu ddeall y rhan gyntaf o'r Hen Destament—y Pum' Llyfr. Gwelir cyffelyb ystyr ddwbl yn Rhuf. iii. 19. Prin y mae yn ddigon i ni ddeall fod yn y geiriau hyn gyfeiriad at glywed y ddeddf yn y synagog neu yn nghynulliad yr eglwys; gwell yw meddwl fod yr Apostol yn gofyn, onid ydych yn deall ystyr cynwys y ddeddf, yr ystyr sydd o dan yr hanes a gynwysir ynddi. Mae yr ystyr hwn i'r gair yn 1 Cor. xiv. 2; Math. xiii. 15; Marc viii. 18; ac yn nghyfieithiad y LXX. yn Gen. lxxvii. 7, "fel na ddeallont iaith eu gilydd." (Heb)

22. **Mab y gaethferch.**—Ismael, Gen. xvi. **Mab y wraig rydd.**—Isaac, Gen. xxi.

23. **Eithr mae yr un o'r gaethferch.**—Yn ol arfer y Testament Newydd, gan fod yr enedigaeth yn beth presennol yn yr hanes, ni ddywedir "a anywyd." Mae genedigaeth mab y gaethferch yn ol trefn natur, ond genir y llall wedi amser oedran, trwy weithrediad goruwchnaturiol er cyflawni yr addewid; dwyn yr addewid i ben oedd mewn golwg yn yr hyn oedd mor wahanol i drefn natur, ac am hyny dywedir mai trwy yr addewid y mae genedigaeth Isaac. Gwneir y dyben yn achos. Dangosir yr un cyferbyniad ag sydd yma rhwng cnawd ac addewid, yn adnod 29, fel un rhwng cnawd ac ysbryd. Tu ol i drefn natur mae trefn ysbrydol neu oruwchnaturiol; heb hono ni buasai Isaac yn cael ei eni.

24. **Yr hyn bethau a ddeallir mewn alegori.**—Rhoddir i ni gan Dr. Lightfoot ddwy ystyr i'r ymadrodd yma (1) llefaru mewn alegori, (2) trin neu egluro mewn alegori. Wrth gymeradwyo yr ail ystyr yn yr adnod hon dywed fod yn bosibl fod Paul yn cyferio yma at ryw ddull o esbonio yr hanes a dderbynid yn gyffredin. Yr ydym felly i ddeall y geiriau fel hyn;

mewn alegori: canys y gwragedd hyn ydynt ddau gyfamod; un o fynydd Sinai, yn cenedlu i gaethiwed, yr hwn yw Agar;

mewn alegori: canys y rhai hyn yw y ddau destament; un yn ddiau o fynydd Sina, yn cenedlu i gaethiwed, yr hon yw Agar: canys yr

24. Wrth y petheu hyn y dyellir peth arall; can yr *mamae* hyn yw'r ddau Testament, un yr hon yw Agar o vynyth Sina sy yn cenedlu i gaethiwed.—W. S. By the which thinges an other thing is meant for these *mothers* are the two Testaments, the one which is Agar of Mount Sina, which gendereth unto bondage.—Gen. Y pethau hyn a arwyddocant beth arall.—M.

—yr hyn bethau a eglurir neu a ddeallir mewn alegori. “A ddeallir mewn ystyr arall,” medd Theodoret, “canys nid yw (Paul) yn tynu ymaith yr hanes, eithr yn dysgu yr hyn a rag-bortreadir yn yr hanes.” Y meddwl yw fod hanes o'r fath yma yn gyfryw ag y mae ystyr arall ynddo, ystyr gudd heblaw yr un hanesiol. Wrth gymharu y rhan hon a'r arfer o alegori mewn ysgrifenywyr fel Philo, gwelir gwahaniaeth dirfawr yn nghymhwysiad alegori at yr Ysgrhythrau. Yn ysgrifeniadau Philo, ceir esiamplau ddigon i brofi fod fleithiau yr hanes yn diflanu yn llwyr, ac weithiau nis gellir credu fod un math o ystyr ynddynt, iddo ef, ond yn yr ystyr gyfriniol.* Yn ei ddull ef o ddefnyddio alegori ni buasai angen credu i Ismael ac Isaac erioed fod yn weithredol; yn yr Ysgrhythyr yn unig y buasant yn bod. Llauer cymhwysach a ffyddlon i wirionedd yr hanes yw dull yr Apostol. Yma mae yr hanes yn hanes gwir, a'r cwbl a wneir yw dangos cyffelybrwydd neu gyfatebiad y fleithiau hanesyddol i rai eraill yn y gyfundaeth ysbrydol. Nid oes yn y fan hon un awgrym, fel y dywedasai Philo, mai *hyn oedd* y meddwl a fwriadai Moses ei hun, ond fod y meddwl hwn i'w gael trwy sylwi. Nid ydys yma ychwaith yn myned llawn mor bell a gwneyd y ddau fab yn gysgodau; fel y dywedir mai Ioan Fedyddiwr *oedd* Elias, ac mai galar Rachel am ei phlant, yr hon ni fynai ei chysuro, *oedd* galar Beth'e-hem, felly yma gwasanaetha dau fab Abraham i ddangos natur dwy eglwys seiliedig ar ddau gyfamod gwahanol.

Canys y gwragedd hyn ydynt ddau gyfamod.—Hyny yw, ydynt yn y defnydd a wna alegori o honynt; arwydd neu gyffelybiaeth o ddau gyfamod, ydynt fel y dywed Iesu Grist am y bara, “hwn yw fy nghorff.” O'r blaen, yr oedd yr Apostol yn gwrthgyferbynu deddf a chyfamod, ond yma edrychir ar y ddeddf hefyd fel cyfamod; ac wedi cael y gair hwn yn y ddwy ochr mae y cyferbyniad yn fwy cyflawn.

Cyfamod fel Addewid

Sara ac Isaac.

Rhyddid.

Cyfamod fel Deddf.

Agar ac Ismael.

Caethiwed.

Er nad ydym i ddeall fod yr holl ddeddf wedi ei rhoddi ar Sina, eto yn rhoddiad arbenig y Deng Air y daeth Israel i gyfamod â Duw a gynwysai y cyfan. Cymharer Heb. viii. 6—9.

* Hwyrach y goddefir cyfeirio at erthygl yn y ‘Traethodydd,’ Gorph. 1889, ar Philo,

- 25 (canys "Agar" yw mynydd Sinai, yn Arabia), ac y mae yn cyfateb i'r Jerusalem sydd yn awr, canys mae yn
 26 gaeth gyda'i phlant. Eithr y Jerusalem uchod sydd rydd, yr hon yw ein mam
- Agar yma yw mynydd Sina yn Arabia, ac y mae yn cyfateb i'r Jorusalem *sydd* yn awr; ac y mae yn gaeth, *hi* a'i phlant. Eithr y Jerusale- 26
 lem *hono* uchod sydd rydd, yr hon yw ein mam ni oll.

25. Can ys Agar *neu* Sina mynyth yw yn Arabia.—W. S. For Agar *or* Sina is a mountayne in Arabia.—Gen. Canys Agar yw Sina mynydd yn Arabia.—M.

26. Eithr Jerusalem hono uchod sydd rydd.—M. Mae Morgan yma fel Beza—illa vero quae sursum est Hierosolyma.

25. Ond "Agar" yw.—"Agar" (fel gair) yw, a olyga, mynydd yn Arabia, hyny yw, yn mhlith yr Arabiaid. Ystyr y gair Agar, neu Hagar, yw craig, ac yn ol hyn cymhwysir ef yn ngwedd allegawl yr adran hon at y graig neu y bryn Sina, a gallai ei fod mewn arferiad leol, yn enw er y bryn. Gan fod yr Arabiaid yn deilliaw o Agar gelwir hwy yn yr Apocrypha, Agareniaid neu meibion Agar, Baruch, iii. 23.

Ac y mae yn cyfateb—Nid mynydd Sina, ac nid Agar, ond y cyfamod, sydd yn cyfateb.

Canys y gwagedd hyn ydynt ddau gyfamod, un (cyfamod) yn cenhedlu i gaethiwed, yr hwn yw Agar (canys "Agar" yw mynydd Sina yn Arabia), ac y mae (sef y cyfamod) yn cyfateb, &c.

Dinas Jerusalem—y Jerusalem weledig—oedd cartref Iuddewiaeth, o ran crefydd ac athrawiaeth, ac felly edrychir arni fel mam y rhai a fynent lynu wrth y ddeddf. I hon y mae y cyfamod a gynrychiolir yn yr Alegori gan Agar yn cyfateb. Am ei bod (megys Agar yn ol y cnawd) yn gaeth gyda'i phlant, fel plant caethes yn gyffredin.* Cyfeiriasai yr Apostol eisoes at yr un caethiwed fel caethiwed etitedd dan oed.

26. Eithr y Jerusalem uchod.—Yr ydym yn adgofio yma, "dinas y Duw byw, y Jerusalem nefol," Heb. xii. 22; "y Jerusalem newydd," Dat. iii. 12; "y Jerusalem sanctaidd," Dat. xxi. 2. Yr oedd Iuddewon Galatia, er eu pellder, yn nghaethiwed y ddeddf, yn blant y Jerusalem sydd yr awrhon, felly y mae y rhai sydd yn Nghrist yn blant y Jerusalem uchod. Anhawdd meddwl am ystyr gwell i'r geiriau "y Jerusalem uchod" na'r nefoedd, gan mai hi yw canolbwynt neu gartref bywyd ysbrydol yr efigyl. Yn ol ei arfer ar adegau, mae yr Apostol wedi cilio yn mywiogrwydd ei feddyliau oddiwrth y dull y dechreuodd. Dechreusasai trwy ddweyd fod dwy wraig yn ddau gyfamod; ac mae wedi dweyd yn mhellach fod y naill gyfamod yn cael ei sylweddoli yn Jerusalem, a'r rhai sydd gyda hi yn gaethion y ddeddf. Ond yn awr, heb enwi y cyfamod arall, cychwyna gyda'r hyn sydd yn ei sylweddoli, sef y Jerusalem ysbrydol. Mae hon yn rhydd, megis y wraig rydd, a hi fel un rydd yw ein mam *ni*. Ymddengys i

* Sylwer ar *canys* yn lle ac "canys y mae yn gaeth."

27 ni. Canys ysgrifenedig yw, Llawenha, amhlantadwy, yr hon nid wyt yn epilio; tor allan, a llefa, yr hon nid wyt yn esgor; canys llawer fydd plant yr unig, tuhwnt *i blant* yr hon y mae
 28 iddi wr. A ninau, frodyr, yn ol Isaac, ydym blant
 29 addewid. Eithr megys y

Canys ysgrifenedig yw, 27
 Llawenha, di yr amhlant-
 adwy, yr hon nid wyt yn
 epilio; tor allan a llefa, yr
 hon nid wyt yn esgor; canys
 i'r unig y mae llawer mwy
 o blant nag i'r hon y mae
 iddi wr. A ninau, frodyr, 28
 megys yr oedd Isaac, ydym
 blant yr addewid. Eithr 29

28. Can hyny vroder, yd ym ni unwedd ac Isaac.—W. S. Therefore, bretheren, we are after the manner of Isaac.—Gen. Nos igitur fratres.—Beza. Nos autem fratres.—Calvin,

Yn y "gan hyny" yma, mae Salesbury gyda Beibl Geneva yn myned ar ol Beza, yn groes i'r cyfeithiadau eraill oll.

mi yn ddiamheuol fod gadael y gair "oll" allan yn gosod pwyslais arbenig ar y gair *ni*. Ein mam *ni* yw y wraig rydd, ac yn hyn yr ydym ninau yn rhyddion.

27. Wrth ymofyn beth yw dyben yr Apostol yn dyfynu y geiriau hyn, nid ydyw yr ateb yn eglur. Mae dyfyniadau yn fynych a'u cyfeiriad at deimladau na fynegir mewn geiriau, ond sydd er hyny yn gweithio ac yn dylanwadu ar feddwl yr ysgrifenydd. Rhyddid yw yr hyn y sonir am dano yn y rhan flaenorol, rhyddid plant y wraig rydd. Ond yn y dyfyniad nid oes gymaint a gair yn awgrymu rhyddid, ond llawenydd y fam a fuasai ddi-blant am eu bod yn awr yn aml. Y ffaith adnabyddus mai amhlantadwy a fu Sara hyd nes y cafodd Isaac yn ei henaint, ac o hono ef had aml fel y ser, sydd wedi awgrymu y geiriau hyn, lle y mae y Jerusalem uchod, fel y dywed y prophwyd, i fod yn aml ei phlant. Bu Jerusalem y dychweliad am dymor fel gwraig wrthoddedig (Es. liv. 1), yn ngwarthrudd gweddwdod; eto yn ol y prophwyd bydd plant hono, yr hon a adawyd, yn lluosog, tuhwnt i blant yr hon y mae iddi wr. Mae plant y ddwy wraig yn lluosog; ond bydd lluosogrwydd y naill yn fwy na lluosogrwydd y llall. Israel ei hun fel cenedl ar wahanol adegau yw dwy fam y dyfyniad,—“yr hon y mae iddi wr,” Israel cyn y caethgludiad, “yr unig,” ar ol y dychweliad o Babilon. Nid ydym felly i geisio Hagar a Sara yn ngeiriau Esaiah.

28. A ninau, frodyr.—Yma dangosir safle plant y Jerusalem uchod go gyfer a phlant y Jerusalem sydd yr awrhon. Yr ydym ni, yn ol Isaac, (neu fel y dywed W. S.—unwedd ag Isaac), yn blant addewid, wedi ein geni trwy ddeddf ysbrydol yr addewid yn Nghrist, ac nid yn ol deddf yr allanol a'r cnawdol.

29. Eithr megys y pryd hwnw.—Ar gyfer yr ystad wynfydedig yna, mae ffaith arall i'w gosod—un ag yr oedd ei thebyg yn yr hanes a wneir yn sail alegori yn nheulu Abraham. Yr oedd y cnawdol y pryd hyny yn gwrthwynebu yr ysbrydol, fel y mae Iuddewon o enedigaeth, neu y rhai o'r cenedloedd a wneir yn Iuddewon trwy orchymyn cnawdol yr enwaediad, yn erlid y rhai sydd yn glynu wrth yr ysbrydol. Sail y cyfeiriad hwn at erlid,

pryd hwnw, yr erlidiai yr hwn a anwyd yn ol y cnawd, yr hwn a anwyd yn ol yr ysbryd, felly yr awrhon
 30 hefyd. Ond beth y mae yr Ysgrhythyr yn ei ddywedyd? Bwrw allan y gaethferch a'i mab, canys ni chaiff mab y gaethferch etifeddu gyda
 31 mab y wraig rydd. Felly, frodyr, nid plant y gaethferch ydym, ond y wraig rydd.

megys y pryd hyny, yr hwn a anwyd yn ol y cnawd a erlidiai yr hwn a anwyd yn ol yr Ysbryd, felly yr awrhon hefyd. Ond beth y 30 mae yr Ysgrhythyr yn ei ddywedyd? Bwrw allan y wasanaeth-ferch a'i mab; canys ni chaiff mab y wasanaeth-ferch etifeddu gyda mab y wraig rydd. Felly, 31 frodyr, nid plant i'r wasanaeth-ferch ydym, ond i'r wraig rydd.

30. Bwriwch allan y wasanaethwreic *hi* ai map. Nid oedd y Groeg o flaen llygaid Salesbury wrth ysgrifenu "bwriwch;" felly Dr. Morgan "bwriwch allan."

mae'n debyg, yw yr hanes a geir yn Gen. xxi. 9. gan fod yr ysgrythyr hono yn cael ei dyfynu yn y geiriau nesaf. Felly, ni raid i ni wrth ystorïau y traddodiad Iuddewig. Awgrymir y gair ei hun, *erlid*, nid gan yr hanes yn yr Hen Testament, ond gan yr hyn a ddyoddefasai yr apostol ei hun a'r credinwyr oddiwrth yr Iuddewon. Mae ynddo hefyd swm brophwydol mai dyma fyddai eu rhan, "ie, pawb a'r sydd yn ewyllysio byw yn dduwiol yn Nghrist Iesu a erlidir."

30. Ond beth a ddywed yr Ysgrhythyr.—Yn ngwyneb yr erlid a ddyoddefwn. beth a ddywed yr Ysgrhythyr? Geiriau Sara yw y geiriau hyn (Gen. xxi. 9); ond gan i Dduw orchymyn i Abraham wneyd yn eu hol, dyfynir y geiriau fel rhai ag awdurdod ynddynt, ni raid i ni ddweyd, fel rhai Duw ei hun. "Ni chaiff mab y gaethes etifeddu gyda'm mab i Isaac," yw y geiriau yn ol y LXX, ac yma, yn ol rhediad yr holl baragraff, newidir y geiriau diweddaif i rai cyfystyr "mab y wraig rydd."

Daw rhan Ismael i'r Iuddewon a lynant wrth y cnawd; nis gallant etifeddu mewn ty ysbrydol. Chwith, yn ddiaw, a thrist, oedd gan yr apostol ysgrifenu geiriau oedd yn brathu fel y rhai hyn—hwy, plant Sara yn ol y cnawd, ar ol i "Israel Duw" godi, i ddyfod yn feibion y gaethes a bod y tu allan i wladwriaeth yr Israel newydd!

31. Am hyny, frodyr.—Anhawdd iawn yw derbyn yr esboniad a wna ddechreuad newydd o'r geiriau hyn, fel sail y cymhellion sydd yn y benod nesaf. Rhaid eu gosod o fewn terfynau y rhan a berthyn i'r alegori. Mae yr un mor anhawdd gosod adnod gyntaf y benod nesaf yn yr un paragraff a a'r adnod hon, gan nad oes i eiriau hono un ystyr allegawl. Ymddengys i mi yn fwy syml a naturiol i edrych ar hon fel casgliad oddiwrth yr oll a ddywedwyd o adn. 21 hyd yma, yn gosod allan yn fwy cyflawn yr hyn a awgrymir yn adnod 26, "yr hon yw ein mam ni." Trwy gadw y rhagenw "yr hwn" yn Groeg yn yr adnod gyntaf, y mae Ewald a Lightfoot yn cydio dechreu y benod nesaf â'r adnod hon.

PENNOD V.

Mae anhawsder, nid bychan, yn ngramadeg geiriau cyntaf y benod hon. Hyn, mae'n debyg, a arweiniodd gopïwyr boreu yr Ysgrythyrau, heb yn wybod iddynt eu hunain, neu gan ddyfalu fod rhyw gam-gopïo bychan wedi bod cynt, i ddwyn y rhagenw " yr hwn " i mewn (un lythyren ydyw yn y Groeg), ac i newid safle y gair " am hyny." Yn y dull hwn daeth ffordd o gyfleu y geiriau yn yr hen lawysgrifau ag y gall fod yn fanteisiol i ni eu darllen gyda'u gilydd, gan gofio hefyd fod gwahaniaeth y gellir ei egluro yn peidio a bod yn wahaniaeth mwy.

(1) Yn yr Eglwys Orllewinol lle yr arferid yr iaith Ladin, o'r Eidal hyd Brydain, ac yn ngogledd Affrica darllenid,

A pha ryddid y rhyddhaodd Crist ni sefwch gan hyny,

(2) Yn eglwysi y Dwyrain, wedi tua A.D. 250, yn gyffredinol darllenid,

.. gyda'r rhyddid a'r hwn y rhyddhaodd Crist ni. Sefwch gan hyny, ac na ddalier.....

Dyma y ffurf ar y frawddeg a gymeradwyir gan Dr. Lightfoot, ac o'i darllen fel hyn, mae yn rhaid ei chysylltu â diwedd y bedwaredd benod fel y gwneir ganddo ef.

Felly, frodyr, nid plant y gaethferch ydym, ond y wraig rydd, gyda'r rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist ni. Sefwch gan hyny ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed.

(3) Yn y Testament Groeg diweddaraf, a'r goreu, a olygwyd gan Westcott a Hort, gadewir allan y gair sydd yn y Groeg am " yr hwn," oherwydd fod hyny ar seiliau teg yn dwyn i ni ddarlleniad llawer hynach na'r ddau arall, ac un a rydd gyfrif am y ddau wabaniaeth a enwyd. Mae y tri prif feirniaid, Lachmann, Tischendorf, Tregelles, yn cytuno yn hyn. Syrth i'r llawr felly y cais i drefnu diwedd y benod hon a dechreu y nesaf fel un paragraff. Yn y ffurf hon y cyfieithir y frawddeg yn y llyfr hwn, ac oherwydd hyny gwahenir hi oddiwrth eiriau diweddaf y benod flaenorol, i ddechreu paragraff newydd. Dywedwyd eisoes fod y gramadeg yn anhawdd, ac y mae ystyr arall yn bosibl heblaw yr un a osodir yma, sef "gyda rhyddid y rhyddhaodd Crist ni," ond ar gyfrif y modd y daw yr apostol yn ol at yr un meddwl yn adnod 13, llawer gwell yw rhoddi yma yr ystyr sydd yno. Daw felly hefyd ragorach cysylltiad a'r cymhelliad i sefyll yn ddi-ildio.

V. 1 I ryddid y rhyddhaodd Sefwch gan hyny yn y V. 1

Cymhell adnewyddol i sefyll yn rhyddid Crist, ac i beidio bod eto yn gaeth i'r ddeddf, gan goffa fod cilio at y grefydd Iuddeuwig yn cynwys colli gras. 1—6.

1. **I ryddid y rhyddhaodd Crist ni.**—Unwaith cyn hyn (ii. 4) y cawsom y gair hwn—rhyddid—yn yr epistol, er hyny mae y bedwaredd benod yn llawn o'i feddwl. Yn ngoleu ei chynwys hi rhaid dweyd mai rhyddid oddiwrth yr holl gyfundrefn ag y rhoddid iddi yr enw "y ddeddf" a olygir yn uniongyrchol yn y geiriau hyn. Ond pan ystyriwn ddybenion gwaith yr Arglwydd Iesu yn ei ymgnawdoliad a'i aberth, teimlwn y rhaid fod hefyd ystyr llawer eangach i ryddid yr efengyl, na'r un y mynai yr apostol i'r Galatiaid beidio bod yn ol o'i fwynhau. Canlyniad yw rhyddid oddiwrth ddeddf Moses o ryddid mwy, ac am hyny y pregethid ef gan apostol y Cenhedloedd. Yr un peth a ddysgir yn y Rhufeiniaid pan y dywedir yno, "nid ydych chiwi dan y ddeddf, eithr dan ras." Ond dylid edrych ar le ac ystyr y ddeddf mewn dwy berthynas. Ar un tu, mae, can belled ag y cyrhaedda, i'w hystyried fel deddf foesol, yn amlygiad, nid o ewyllys Duw, ond o'i berffeithrwydd ac o'r egwyddorion ag y mae eang gwrs ei lywodraeth dragwyddol yn cerdded yn eu hol. Mae cuddio pechod dyn, mae dileu ei anwiredd, neu mewn geiriau eraill mae maddeu iddo a'i gyfiawnhau yn beth nas gall fod tra byddo ef o fewn tiriogaeth deddf yn yr ystyr yma. Yn Nghrist y ceir y rhyddid oddiwrthi a wna hyny yn bosibl. Ar y tu arall, cynwysai y ddeddf reolau buchedd dda a gwasanaeth Duw, y rhai oeddynt yn meddwl yr Iuddeu yn anwahanol gysylltiedig a'u gilydd. Gwasanaethu Duw ei dadau iddo ef oedd y moesoldeb uchaf, dyma ffordd y fuchedd oreu, ac yn y ddeddf y ceid y cyfarwyddid dwyfol i hyn. Ond i amser nodedig ac am amser terfynol y rhoddasid yr ordeiniadau aml oedd ynddi hi, ac yn yr Efengylau portreadir i ni y dirywiad dwfn gresynus a ddaethai dros yr eglwys Iuddeuwig tra danynt. Yn awr gan fod Duw yn Nghrist yn y rhyddid cyntaf y soniwyd am dano, yn dyrchafu dynion i fyw yn ol yr ysbryd, daw iddynt trwy hyny ryddid arall. Mae pawb yn rhydd oddiwrth y defodau a osodasid o'r blaen, a phob rhai cyffelyb iddynt, er mwyn sylweddoli â'r ysbryd uwch a gwell uffudd-dod. Fel yr oedd y ddeddf yn sanctaidd ac yn gyfiawn ac yn dda, nis gallai fod rhyddhad oddiwrthi, ac nis gall y rhai sydd eiddo Crist dymuno hyny; yn eu gwarogaeth i'w Harglwydd, a "pherffaith gyfraith rhyddid" ei ddysgeidiaeth Ef, cydnabyddir hyny ganddynt. Tra y mynai Paul fod "megys diddeddf," yr oedd "heb fod yn ddideddf i Dduw, ond dan ddeddf i Grist."

Rhan o'r eang ryddid sydd yn Nghrist yw rhyddhad i symledd ysbrydol yr efengyl; rhan arall, yr hwn yr edrychir arno felly fel peth cyfamserol, yw rhyddhad oddiwrth y cnawd, oddiwrth gaethiwed ei wyniau a'i chwantau (Rhuf. viii. 2). Cynwysir ynddo felly gyfan adferiad, gan sylweddoli yn llawn y gair bywyd "Os y Mab a'ch rhyddha chiwi, chiwi a fyddwch wir rydd." (Ioan viii. 32—36.)

Yn y geiriau "i ryddid," nid y meddwl yw, i fod yn rhydd, gan fod hyny yn y gair "rhyddhaodd" ei hun, ond yn hytrach i arfer, i werthfawrogi rhyddid, i barhau ynddo. Pe dywedem, "i weled y rhoed y golwg," "i

Crist ni; sefwch, gan hyny, ac na ddalier chwi drachefn
 2 dan iau caethiwed. Wele, yr wyf fi Paul yn dywedyd wrthyh, os enwaedir chwi, na lesha Crist ddim i chwi.
 3 Ond yr wyf yn tystiolaethu drachefn i bob dyn, pan en-

rhyddid â'r hwn y rhyddha-odd Crist ni; ac na ddalier chwi drachefn dan iau caethiwed. Wele, myfi Paul 2 wyf yn dywedyd wrthyh, Os enwaedir chwi, ni lesha Crist ddim i chwi. Ac yr wyf 3 yn tystiolaethu drachefn i

1. Sefwch yn safadwy...ac na rwyder chwi drachefn—W. S. Stande fast therefore...and be not entangled.—Gen. Ac na rwyder chwi.—M. Gadewir "gan hyny" allan gan y ddau gyffeithydd.

2. Nacha, mi Paul a ddywedaf wrthyh,...ny vuddia Christ ddimywch.—W. S. ni lesha.—M.

glywed y planwyd y glust," ein meddwl yw, i arfer y naill a'r llall, a'r un modd y dywedir yma am y rhyddid a sicrhaodd Crist.

Sefwch gan hyny.—Gallem yn ein meddwl ychwanegu "yndo"—sefwch gan hyny yndo, sef yn y rhyddid er mwyn yr hwn y rhyddhawyd ni; eto gallwn arfer y gair sefwch ei hunan heb un ychwanegiad—sefwch yn ddiysgog. Yn 2 Thes. ii. 15, dywedir "Am hyny, frodyr, sefwch, a deliwch y traddodiadau a ddysgasoch." Y tro cyntaf, yr oedd y Galatiaid yn gaeth i ddefodau dirywiol cnawdol, addolai duwiau dwyreiniol; yn awr, o ryddid Crist yr oeddynt ar fin cael eu dal dan iau cyffelyb gaethiwed yn nefodau Iuddewiaeth gyfyng y dyddiau hyny. Felly arferir y gair "drachefn."

2. **Wele yr wyf fi Paul, yn dywedyd.**—Nid llais "awdurdod" sydd yn y geiriau hyn, yn hytrach, gyda sydynrwydd nodweddiadol, argyhoeddiad personol dwfn, fel pe dywedasai, "yr wyf yn gwystlo fy hun."

Os enwaedir chwi.—Feallai fod y geiriau hyn yn rhoi lle i gredu, fel y dywedir gan amryw, nad oedd y Galatiaid eto, neu nad oedd y mwyafrif o honynt, wedi derbyn enwaediad. Hwyrach hefyd nad yw yr apostol yn dewis cyfarch "eglwysi" fel pe buasant wedi cilio mor bell. Pan gofiom mai ychwanegu enwaediad a'r ddeddf at ffydd yn Nghrist yr oeddynt, mae grymuser a chyfaddasder y geiriau nesaf yn fwy amlwg—ni lesha Crist ddim i chwi. Ni all Crist lesheu y rhai sydd yn ei ystyried yn annigonol. Fe ildiasai yr apostol lawer o'i ran ei hunan i deimladau Iuddewig, ond yn bresenol wrth wyrdroi y Galatiaid yn nefod yr enwaediad, ac wrth iddynt hwythau oddef eu gwyrddroi, yr oedd egwyddor fawr yr efengyl yn cael ei gwadu. Buasai un cam yma yr un peth a rhoi i fynd y cwbl.

3. **Ond yr wyf yn tystiolaethu drachefn.**—Nid yw yr hyn a ddywedir yma yn cael ei gynnwys mewn un ymadrodd blaenorol; nis gall y "trachefn" yma, felly, gyfeirio at ddim a ddywedwyd cyn hyn yn y llythyr. Meddwl y mae am ei waith yn tystio yn ddifrifol iddynt y tro o'r blaen y bu gyda hwynt (fel yn i. 9). Ar ol "dywedyd" mae yr "tystio." Ystyr y gair hwn yn y Test. Newydd yw, mynegu neu gymhell gyda difrifwch (Luc xvi. 28). Difrifwch tyst i Dduw, difrifwch gweledydd gweledigaeth yr Arglwydd,—dyma y teimlad a rydd y fath dôn ddyrchafedig i'r gair. Gwelwn y ddau air yn dilyn eu gilydd yr un ffunud yn Eph. iv. 17, "Hyn yr ydwyf

waeder, ei fod yn ddyledwr i wneuthur yr holl ddeddf.

4 Gwahanwyd chwi oddiwrth Grist, y rhai ydych yn cael eich cyfiawnhau yn y ddeddf, syrthiasoch ymaith oddiwrth

bob dyn a'r a enwaedir, ei fod ef yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf. Chwi a aethoch 4 yn ddifudd oddiwrth Grist, y rhai ydych yn ymgyfiawnhau yn y ddeddf: chwi a syrthiasoch ymaith oddiwrth ras.

4 Chwi ach ymddadwnaethoch y wrth Christ. pa'r ei pynac i'ch cyfiawnir gan y ddeddf.—W. S. Chwi a aethoch yn ofer oddiwrth Grist.—M.

yn ei ddywedyd, ac yn ei dystiolaethu yn yr Arglwydd." Y gwirionedd pwysig yn awr yw fod enwaediad yn gosod pob un dan fwy o gyfrifoldeb nag y gall ei gyfarfod; tra y cyfeiriai "chwi" yr adnod flaenorol at y Cenedloedd, mae y frawddeg hon yn gosod pob dyn, nid cenedl-ddyn yn unig, yn y sefyllfa ddifrifol o fod yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf. Ymddengys fod yma olwg i'w gael ar y defnydd neillduol a wneid o'r enwaediad gan yr athrawon deddfol, gwahanol i'r hyn y bwriedid ef. Cymbellent *hwy* ddyon i gymeryd enwaediad fel y ffordd, a'r unig ffordd, i ddyfod i'r fraint o gael neu gyraedd cyfiawnder yn y ddeddf; os cymerid enwaediad *gyda'r dyben hwn*, yna yr oedd yr un a enwaedid yn rhwym i gadw y ddeddf i gyd oll. Mae pawb yn ddyledwyr i gadw deddf Duw, ond nid yn yr un ystyr a'r hwn sydd yn dewis cadw y ddeddf fel llwybr ei gyfiawnhad gyda Duw.

4. **Gwahanwyd chwi oddiwrth Grist.**—Mae y gair hwn ddwywaith yn yr epistol yma heblaw y fan hon; iii. 17 ac adn. 11. Yn y iii. 17 mae yn weithredol, yn yr ystyr o "wneyd yn ofer;" ond yn adn. 11 cyfieithir y gair yn ei ffurf oddefol, *tywyd ymaith*, ac yn Rhuf. vii. 2, "hi a ryddhawyd oddiwrth ddeddf y gwr." Yn nglyn a phersonau, gyda'r arddodair *oddiwrth* megys yma, y meddwl yw didoli, gwahanu, terynu pob perthynas. Nid anhebyg yw y gair "bod yn anathema cddiwrth Grist," sef bod yn anathema, (nes cael ei wahanu) oddiwrth Grist; yn y gair hwn y meddwl yw, bod yn ddiddim (nes cael eu gwahanu) oddiwrth Grist; a chyda'r ddau daw y prif feddwl i ddwyn yr ystyr syml o *wahanu*.* Yn y weithred o gael eich cyfiawnhau yn y ddeddf, yn ol eich dewisiad eich hun, fe'ch gwahanwyd oddiwrth Grist; ni ellwch droi at ras Duw yn Nghrist yn wyneb y ffaith na ellwch gyflawni yr holl ddeddf.

Y rhai ydych yn cael eich cyfiawnhau yn y ddeddf—Y cyfryw rai ag ydych yn cael, yn ol eich barn chwi, eich cyfiawnhau yn y ddeddf. Ni ellir bod yn gyfiawn yn y ddeddf ac yn Nghrist; yr annuwiol a gyfiawnheir yn Nghrist.

Syrthiasoch ymaith oddiwrth ras.—Wrth gael eich cyfiawnhau yn y ddeddf yr ydych y tu allan i'r ffordd hono o gyfiawnhad sydd yn dyfod trwy ras. Rhuf. iii. 24; iv. 4, 16. Yr ydym yn gynefin ag ystyr oddefol i'r ferf hon, yr hwn a roddir iddi yn Act. xxvii. 26, "mae yn rhaid *ein barw* ni i ryw ynys;" ac y mae yn bosibl iawn i hwnw fod yma; pe felly, byddai y ddau ganlyniad i fod yn gyfiawn yn y ddeddf fel y canlyn: (1) chwi a ddiddolwyd oddiwrth Grist, (2) chwi a fwrwyd ymaith oddiwrth ras.

* Dyma eglurhad Fritzsche, Rhuf. ii, p. 250.

5 ras. Canys nyini â'r ysbryd Canys nyini yn yr Ysbryd 5
ydym yn dysgwyl gobaith trwy ffydd ydym yn dysgwyl
6 cyfiawnder o ffydd. Canys gobaith cyfiawnder. Canys 6
yn Nghrist Iesu ni all en- yn Nghrist Iesu ni all en-
waediad ddim, na dienwaed- waediad ddim, na dienwaed-

5. ym yn gwiliad am obaith cyfiawnhad wrth ffydd.—W. S.

6. nac Enwaediat ny vuddia ddim na dienwaediat.—W. S.

Gwelir yma, o leiaf, gyfeiriad cael cyfiawnder yn y ddeddf; mae ei ogwydd *oddiwrth* Grist ac *oddiwrth* ras.

5. **Canys nyini â'r ysbryd.**—Ymddengys y dylem edrych ar ddau air yn neillduol i'w pwysleisio yn yr adnod hon, sef *nyini* yn wrthgyferbyniol i *chwi* yr adnod flaenorol, ac o *ffydd*:—o ffydd, nid yn y ddeddf yr ydym ni yn dysgwyl cyfiawnder. Yn y fan hon gosodir yn gyfochrog y ddau air pwysig—YSBRYD, FFYDD,—sydd hyd yn hyn wedi sefyll ar wahan mewn gwrthgyferbyniad, y naill i'r cnawd a'r llall i weithredoedd. Yn ol fel y deallid ac y dysgid gan y blaid Iuddewaidd, yr oedd yn naturiol a phriodol galw y ddeddf yn gnawd, a'r un modd y rhoddir yr enw cnawd i'r meddwl a fynai gydio wrth y fath gyflawniadau ag enwaediad, gyfryw ganlyniad a chyfiawnhad enaid gerbron Duw. Cnawd hefyd yw swm y dylanwadau llygredig a drwg sydd mewn dyn. Gwrthgyferbyniol i'r oll yma yw y rhan ysbrydol o honom, a grëir gan Ysbryd y bywyd, y peth sydd yn gwneyd dyn yn ddyn ysbrydol, lle mae "deddf y meddwl" yn rheoli, ac a elwir *yr ysbryd*. Gyda'r rhan hon, neu trwy ei grym a'i gweithrediad hi, yr ydym ni yn dysgwyl i Dduw gyflawni a ni obeithion rhai cyfiawn, nid trwy neu â'r meddwl o gyflawni nifer o bethau gosodedig. Gan hyny hefyd yr ydym yn dysgwyl y cyfryw o *ffydd* yn ein Gwardwr a'n Duw, ac nid o'r cyflawniadau hyny. Lle mae yr ysbrydol yno y mae ffydd. Felly y dywedir yn adn. 18, "Os â'r ysbryd y'ch arweinir nid ydych (yn perthyn i'r rhai sydd) dan y ddeddf."

Dysgwyl gobaith cyfiawnder.—Mae i'r gair y meddwl o ddysgwyl amyneddgar, heb ddfygio na digaloni. Yn ol arfer fynych Paul, ac ysg-rifenwyr eraill, rhaid i ni edrych ar obaith yma fel yn sefyll am y peth a obeithir, megys Col. i. 5, "er mwyn y gobaith a roddwyd i gadw i chwi yn y nefoedd;" Rhuf. v. 24; Titus ii. 13; Heb. vi. 18. Nis gallwn gymeryd gobaith cyfiawnder i olygu gobaith am gyfiawnder, gan mai peth presenol yw cyfiawnder yn iaith arferol yr apostol. Gwell o lawer yw deall,—dysgwyl, amyneddgar ddysgwyl, am yr hyn y mae y meddiant o gyfiawnder yn caniatáu i ni obeithio am dano, y gobaith a ddeillia o gyfiawnder, "y rhai a gyfiawnhaodd efe y rhai hyny hefyd a ogoneddodd efe." Mewn ystyr gyffelyb y mae "gobaith ei alwedigaeth ef," sef y gobaith a ddaw o'i alwedigaeth ef.

6. **Canys yn Nghrist Iesu ni all enwaediad ddim.**—"O ffydd" yw prif air yr adnod ddiweddaf, a dyma y rheswm: ni all enwaediad ddim o ran bod yn fantais, ni all dienwaediad ddim o ran bcd yn anfantais; gellir, gan hyny, adael y ddau yn llwyr o'r cyfrif. Y peth a all ddim yw ffydd. Eithr y mae y geiriau nesaf yn cynwys, yn eu hystyr eang, fod ffydd yn ras na all fod yn llonydd, neu na bydd llonyddwch lle bo hi; ei hanfod yw

iad; ond ffydd yn gweithredu
7 trwy gariad. Yr oeddych yn
rhedeg yn dda; pwy a'ch
rhwystrodd i ufuddhau i'r
8 gwirionedd? Nid oedd y
denu oddiwrth yr hwn sydd
9 yn eich galw. Mae ychydig
lefain yn lefeinio yr holl does.

iad; ond ffydd yn gweithio
trwy gariad. Chwi a redas- 7
och yn dda; pwy a'ch rhwyst-
rodd chwi, fel nad ufuddha-
ech i'r gwirionedd? Y cyngor 8
hwn nid yw oddiwrth yr hwn
sydd yn eich galw chwi. Y 9
mae ychydig lefain yn lefein-

7. Yr oeddech yn redec yn brydferth.—W. S. Rhedasoch yn dda.—M.

8. Nid yw'r grediniaeth hon.—W. S. Nid yw y cyngor hyn.—M. Suasio.—Vulgate. Persuasio.—Erasmus, Calvin. haec persuasio.—Beza.

gweithrediad, ac fel y dywed Iago, "ffydd heb weithredoedd marw yw;" nid yw ffydd felly yn bod o gwbl. Ond ffordd ei gweithrediad yw y cariad sydd yn ffurfio ein cymunedeb â Duw ac â dynion, ac yn peri i'r ewyllys gael ei chyfeirio i ufudd-dod a chymwynasgarwch. Nid teimlad, ac nid gallu deallol yn unig, yw ffydd, yn ystyr yr apostol, ond rhywbeth sydd yn ein dwyn yn uniongyrchol at berson yn ogystal a gwirionedd. Ei gweithrediad yw cariad pan edrychom arni yn y wedd bersonol yma. Gan nad yw y ferf hon yn unman ag ystyr oddefol iddi,* ni ellir dywedyd, "ffydd yn cael ei gweithredu trwy gariad, ac nid oes yma felly un rheswm dros syniad Eglwys Rhufain fod yn rhaid wrth gariad i berffeithio ffydd er mwyn iddo fod yn ras cymwys i gyfiawnhau. Dylem, debygaf, beidio cyfyngu ffydd yn yr hyn "a all" yma, i gyfiawnhad, gan fod a fyno hi â'r oll o fywyd.

7. Yr oeddych yn rhedeg.—Dyma eu hanes pan welsai Paul hwynt ddiweddaf: rhedeg yr oeddynt fel rhai a gaent y gamp. Ond erbyn hyn wele y rhedeg da wedi ei ddrugu. Pwy oedd yr un wnaeth y fath beth? Mewn gofid a dig y gofynir y cwestiwn, ac yr oedd yr ateb yn rhy agos.

I ufuddhau i'r gwirionedd.—Fel yn ii. 5, 14, "gwirionedd yr efengyl," y gwirionedd arbengig am fod yn Nghrist, am ras, am ffydd a chariad, am yr ysbryd: oddiwrth hwn y ciliasent trwy ymroddi i weithredoedd y ddeddf.

8. Nid oedd y denu.—Mae y gair a gyfieithir yma *denu* i'w gysylltu o ran tarddiad ac ystyr â'r un a geir yn Col. ii. 4, "ymadrodd *hygoel*," ac â "geiriau *denu*," 1 Cor. ii. 4. "Crediniaeth" yw gair Salesbury, ond un ochr i'r ystyr sydd yn hwnw, ac y mae yr un peth yn wir am y gair *cyngor*. Yn nghyfeiriad y ddau ymadrodd a enwyd—ymadrodd *hygoel*, geiriau *denu*—y cawn, i'm tyb i, wir ystyr y gair yma, sef perswadio yn ddengar ond twyllodrus. Trwy wên, trwy rith, eu swyno a gafodd y Galatiaid, ac yn sicr nid oedd y fath ddenu hudol yn dyfod oddiwrth Dduw yr hwn sydd yn eu galw. Gwel i. 6. Mae y gair, "yr hwn sydd yn galw," yn mron a bod yn enw ar Dduw, "Ffyddlawn yw yr hwn sydd yn eich galw chwi," 1 Thes. v. 24.

9. Mae ychydig lefain.—Nid oes angen cysylltair—*ond, canys, oblegyd*, &c. i ddwyn diareb i mewn; mae hi, os wedi ei dethol yn dda, ei hunan yn es-

* "Passivo nunquam Paulus usus est."—Fritzsche.

10 Yr wyf fi yn hyderus gyda golwg arnoch chwi yn yr Arglwydd, na syniwch ddim amgen; ond y neb sydd yn eich trallodi a ddwg farnedigaeth, pwy bynag fyddo.

11 A minau, frodyr, os yr enwaediad yr wyf eto yn bre-

io yr holl does. Y mae 10 genyf fi hyder am danoch yn yr Arglwydd, na syniwch chwi ddim arall; ond y neb sydd yn eich trallodi a ddwg farnedigaeth, pwy bynag fyddo. A myfi, frodyr, os 11 yr enwaediad yr wyf eto yn

9. Ychydig surdoes a sura yr oll does.—W. S. Ychydig lefain a sura.—M.

bonio ei chysylltiad. Felly yma, ond fod gwahaniaeth barn ar pa un ai bychander rhif y dynion oedd yn hudo ai bychander dechreuad y cyfeiliornad a feddyr. Wrth feddwl am yr hyn a ddywedir yn yr adnod flaenorol am ddull hudolus yr athrawon Inddewaidd yn swyno rhai oddiwrth y gwirionedd, y peth tebycaf yma yw mai at athrawiaeth gyfeiliornus yn *nghyd* a'r dull dengar yma o'i thaenu y cyteirir. Yr oedd ymweithiad y cyfeiliornad yn nghylch y ddeddf a defodau deddtol, o gael ei ddysgu yn y fath ffordd, mor ddystaw ag ymweithiad surdoes, a'r un mor debyg i suro holl fywyd etengylaidd yr eglwys. Defnyddir yr un ddiareb gan yr apostol yn 1 Cor. v. 6 am ledaeniad drwg.

10. Yr wyf fi yn hyderus.—Er fod y rhai a'u hudent yn awr yn ymhyf-hau i deimlo eu bod yn sicr o honynt, eto yn yr Arglwydd mae gan yr apostol hyder am beth amgen. " Mae ffydd a chariad fel eu gilydd yn credu, ond fod iddynt wrthddrycnau gwahanol. Mae ffydd yn credu yn Nuw, am hyny nis gellir ei siomi; cariad mewn dynion, am hyny siomir hi yn fynych. Eto, mae cred cariad mor angenrheidiol i'r bywyd hwn fel na allem gydfyw hebddi yn y byd."—Luther.

Na syniwch chwi ddim amgen.—Mae y gair " synied " yn golygu medd-ylfryd ymarferol, y meddwl hwnw sydd yn rheoli buchedd, iel yn y gair " bydded yn och y meddwl (y syniad) yma," (Phil ii. 5.) Dywed yr apostol ei iod yn hyderus y bydd iddynt gymeryd yr un olwg ar bethau ag a awgrymir yn ei eiriau ef (adn. 7—9), sef, eu *bod* wedi cael eu rhwystro i ufudd-hau i'r gwirionedd, mai hudoliaeth *nad* oedd o Dduw a'u denodd i hyny, tod dechreu bychan cyteiliorni yn fawr berygl oherwydd ei duedd i ymluedu yn ddiarwybod i'r rhai sydd yn ei atael, fel lefain mewn toes.

Yr hwn sydd yn eich trallodi chwi.—Nid rhyw un person neillduol a feddyr yma, ond yr un a dralloda, pwy bynag to. Eie a ddwg ei farnedigaeth, fel y mae gwr yn dwyn baich.

11. A minau, frodyr, os yr enwaediad eto.—Yr wyf wedi datgan fy hyder am danoch chwi, a chyda golwg ar ty hun—beth? Gwyddom, o fanau eraill yn ei hanes, fod yr apostol yn myned ar adegau yn bell iawn mewn cyd-turfio fel yr enillai y rhai dan y ddeddi. Gwel 1 Cor. ix. 21. Enwaeddod ar Timotheus o achos yr Iuddewon ar ol iddo ef a Barnabas wrthod cydsynio a'r un peth yn achos Titus, a gallai hyn gael ei gam-farnu a'i wneyd yn sail i noniad *nad* oedd gwahaniaeth rhyngddo ef a'r blaid Iuddewaidd. Ond pell iawn oedd ymddygiad *achlysurol* yr apostol mewn bywyd ymarferol dan amgylchiadau neillduol oddiwrth *bregethu* yr enwaediad.

gethu, paham y'm herlidir
eto? Mae, felly, dramgwydd
12 y groes wedi ei ddileu. Mi
a fynwn, ië, pe torai y rhai
sydd yn aflonyddu arnoch

ei bregethu, paham y'm
herlidir eto? yn wir tynwyd
ymaith dramgwydd y groes.
Mi a fynwn, ië, pe torid 12
ymaith y rhai sydd yn af-

11. velly ef dadwnaed tramcwydd y groc.—W. S. Felly y tynnwyd ymaith tramgwydd y groes.—M. Mae yn anhawdd gweled pa fodd y cyfieithwyd gair cyntaf y frawddeg hon "yn wir" yn nghyfieithiad 1620, gan newid y "felly" sydd gan Salesbury a Morgan, Efallai fod y cyfieithwyr wedi eu harwain gan Beza, "nempe evanidum factum est offendiculum illud crucis."

12. Ach *duw* na thorit ymaith yr ei ach aflonyddant,—W. S. Ach *Duw* na thorrid ymaith.—M.

Wrth bregethu yr enwaediad y meddylir, gosod allan yr angenrheidrwydd am y ddefod hono. Oherwydd hyn, ac yn wyneb y wedd ar safle y blaidd Iuddewaidd tuag at yr apostol a ceddir allan yn yr epistol hwn, ymddengys i mi yn anhygoel fod cyhuddiadau o'r fath yma yn cael eu taenu. Yr oedd ei rediad yn rhy adnabyddus yn y ffordd wrthwynebol. Mae yma, i'm meddwl i, yr un dull o ymadreddi bwriadol trwy "os," a chwestiwn i ddangos mewn dull cryf *ei safle ei hun*, ag sydd yn i. 10, "pe byddwn yn rhyngu bodd dynion eto," a'r ystyr yw, "am danaf fi, nid wyf fi bid sicr yn pregethu enwaediad, trwy hyn aberthaswn y cyfan ag yr wyf yn dyoddef erlid o'i herwydd." Mae y gair *eto* ei hunan yn awgrymu gwrthuni y dyb. Nid oes genym un sail i dybied ddarfod i Paul ericed, wedi iddo ddyfod yn apostol, hyd yn nod am amser byr, gymeryd safle y Phariseaid ar bwnc yr enwaediad: ni all y gair *eto* ychwaith gyfeirio at ei fywyd o zel dros draddodiadau y tadau cyn ei droedigaeth, fel y dywed Meyer, gan nad oedd angen pregethu enwaediad yn y cylchgedd y trcaï ef y pryd hyny. Er hyny, *gall* y gair gynwys cyfeiriad at yr amser hwnw, a meddwl, "*eto* — wedi i mi ddyfod yn Gristion, neu eto wedi i'r datguddiad o Fab Duw gael ei wneyd ynof fi," heb un awgrym ei fod erioed wedi pregethu y ddefod Iuddewig.

Paham eto y'm herlidir.—Yn Gymraeg, fel yn y Groeg, mae i'r gair *eto* ystyr o ymresymiad fel yn iii. 18, lle y cyfieithir ef "bayach" neu "mwyach." Os wyf fi eto yn awr yn pregethu yr enwaediad, paham eto (h.y. mwyach, gan fy mod yn gwneyd felly), y'm herlidir? Paham, os wyf yn pregethu fel y rhai na erlidir, y'm herlidir?

Yna, neu felly, mae tramgwydd y groes.—Casgliad sydd yma, ac ni ellir dweyd "yn wir." Yr oedd pregethu Crist wedi ei groeshoelio yn dramgwydd i'r Iuddew; ond yn ystyr yr apostol, fod marwolaeth y groes wedi bod yn farwolaeth i'r enwaediad a'r ddeddf fel cyfundraeth grefyddol, yr oedd yn fwy o dramgwydd. Os wyf fi yn pregethu yr enwaediad, nis gallaf bregethu y groes fel diwedd i'r ddeddf; gan hyny, mae y tramgwydd sydd ynddi hi wedi ei ddileu, (gwel vi. 12), ac nid oes alwad ar neb i'm herlid i bellach. Mor afresymol fuasai tybied fy mod i o bawb yn parhau i bregethu enwaediad!

12. **Mi a fynwn.**—Yr adeg hon yr oedd crefyddau dwyreiniol wedi, ac yn ymledu drws y byd, a chyda hwy daeth arferion dyaithr eithafol yn bethau adnabyddus yn mblith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Arferent lawer dull

13 eu hunain. Canys i ryddid lonyddu arnoch. Canys i 13
y'ch galwyd chwi, frodyr ; ryddid y'ch galwyd chwi,

o ddyhuddo eu duwiau ; ond hynotaf cedd eu harfer o anafu eu cyrff â chyllill. Gwthient gyllill drwy eu breichiau a'u haelodau eraill, ac wedi tori eu cnawd felly, a'u gorchuddio eu hunain â gwaed, gwelid hwy ar heolydd dinasoedd yr ymherodraeth Rufeinig. Gwyddai y Galatiaid yn dda am beth mor gynefin. Yn ei wawdiaith lem, a'i ddiig cyfiawn hefyd, dymuna yr apostol i'r rhai oeddynt yn aflonyddu y Galatiaid, yn eu zel dros ddefod waedlyd wneyd ychwaneg, sef efelychu y rhai a roent warogaeth cnawd tor-edig a chyllill i'w duwiau. Gyda chyrff wedi eu hacru a'u llurgynio rhaid y deuent yn llawer nes at iachawdwriaeth !

Mae y farn oreu erbyn hyn yn erbyn deall y gair hwn yn oddefol, fel y gwna Calvin ac eraill o'r diwygwyr,—“Maent hwy yn dystrywio yr eglwys ; mi a fynwn, gan hyny, pe torid hwynt ymaith,” sef yn ol Beza, trwy eu diarddel o'r eglwys. Yn lled gyffelyb, heb gymeryd y ferf yn oddefol, y dywed eraill mai nid at dori y corff y cyfeirir, ond yn yr ystyr o *dori eu hunain* allan o'r eglwys, ymado â'r Cristionegion ; buasai Paul yn yr ystyr hwn yn arfer iaith llawer cryfach na “mi a ddymunwn iddynt dori eu hunain allan.”

IV.

Y DRYDEDD BRIF RAN.—CYMHELLION YSBRYDOL.

V. 13—VI. 10.

Trwy ymarweddiad yn yr ysbryd ac mewn cariad, mae bywyd o ryddid oddiwrth y ddeddf yn yr ystyr Iuddewig, yn dyfod ei hun yn gyflawniad o honi o ran ei gwir ystyr. 13—26.

Yr ydym yma yn symud i ystyr hollol newydd i'r gair *cnawd*. O ddynodi defnydd materol ein cyrff, defnyddir ef hefyd i olygu ein gwendid a'n gwaeledd, eto heb un meddwl o bechod. Dyma yr arfer gyffredin yn yr Hen Destament, eto lle dywed Paul “cig (cnawd) a gwaed,” “yr hyn yr ydwyf yn ei fyw yr awrhon yn y cnawd,” &c., gwelir fod ganddo yntau hefyd beunydd yr arfer hon. Ond fe dwf ysyniad o wendid ac amherffeithrwydd i'r syniad o rywbeth pechadurus, croes i sancteiddrwydd a gwrthwynebol i'r ysbryd. “Pan oeddym yn y cnawd, gwyniau pechodau, y rhai oedd trwy y ddeddf, oedd yn gweithio yn ein haelodau ni i ddwyn ffrwyth i farwolaeth,” Rhuf. vii. 5 Dyma fydd ystyr y gair oddiyma yn mlaen hyd vi. 8.

13. I ryddid.—Yma eir yn ol at brif rediad dechreu y benod. Rhyddid

yn unig na fydded y rhyddid genych yn achlysur i'r cnawd, ond trwy gariad gwasanaethwch eich gilydd; 14 canys mae yr holl ddeddf wedi ei chyflawni mewn un gair, sef yn hwn, CAR DY GYMYDOG FEL TI DY HUN.

frodyr; yn unig nac arferwch y rhyddid yn achlysur i'r cnawd, ond trwy gariad gwasanaethwch eich gilydd; canys yr holl ddeddf a 14 gyflawnir mewn un gair, sef yn hwn; Câr dy gymydog fel ti dy hun. Ond os cnoi 15

oedd dyben eu galwedigaeth, ond mae i'r rhyddid ei hunan ddyben mewn cyflawniad uwch o'r ddeddf ddwyfol. Dinystrir ef os daw i gael ei wneyd yn achlysur i foddhau y cnawd. Rhaid golygu, fel y sylwyd ar adn. 1, fod rhyddid yn y fath gysylltiad a hwn, sef fel dyben galwad y Cenhedloedd, yn eangach ei ystyr na gollyngdod oddiwrth rwymedigaeth i ddeddf Moses: tebyg ydyw i ryddid y gwirionedd y sonia y Gwaredwr am dano pan y dywed, "y gwirionedd a'ch rhyddha chwi."

Yn unig na fydded y rhyddid genych.—Yn y gair "yn unig," dangosir y terfyn sydd i ryddid yn y cyfeiriad y buasai yn debyg i ddyn, wrth ddechreu bod yn ymwybodol o'r rhyddid, gael ei hudo i'w gamarfer. Dywed yr apostol yn 1 Cor. ix. 21, ei fod ef, tra i'r rhai diddeddf megys diddeddf, eto heb fod yn diddeddf i Dduw, ond dan ddeddf i Grist. Y foment y delo rhyddid yn gyfleusdra i foddhad y chwantau a berthyn i'r cnawd (yn mblith y rhai y mae lliid, ymrysonau, ymbleidio), pan wneir ef yn gyfleusdra i *hunan*-foddhad, mae yn peidic a bod yn rhyddid. Dengys y geiriau gwrthgyferbyniol nesaf am gariad, a gwasanaeth i eraill, mai yn yr ystyr eang yma yr ydym i ddeall y cyfeiriad at y cnawd.

Eithr gwasanaethwch eich gilydd trwy gariad.—Mewn ewyllysgar gaethiwed, yn ddyledwyr i bawb, rhoddir y rhyddid yn ol i'r Arglwydd. Nid pob un yn ceisio yr eiddo ei hun yw gwir ryddid, ond pawb yn ddyledwyr i'w gilydd mewn cariad. "Nid yw yr hwn sydd yn caru yn bur yn anfoddlawn hyd yn nod i fod yn was i wrthddrych ei gariad."—Theodoret.

14. Canys y mae yr holl ddeddf wedi ei chyflawni.—Yn lle dweyd a *gyflawnir*, yr ydys gyda llais unfarn y beirniaid yn cyfeithu darlleniad cywirach y llawysgrifau hynaf a'r awduron cyn y bedwaredd ganrif, "mae yr holl ddeddf *wedi ei chyflawni*. Cymharer geiriau yr apostol yn Rhuf. xiii. 8, "Canys y mae yr hwn sydd yn caru ei gymydog wedi cadw y ddeddf." Fe'ch cymhellir i weithredoedd neillduol o gydfuifiad â'r ddeddf; yr wyf finau yn hytrach o lawer yn eich cyhoeddi yn rhydd oddiwrth y rhai hyny a'u cyffelyb, fel y byddo eich bywyd yn llafur cariad, a bydd gwir gyflawniad y ddeddf *wedi ei gael yn hyn*y.

Mewn un gair.—Hyny yw, mewn un gorchymyn, fel yn y dywediad, "y deng air deddf." Mae i'r ddeddf ddau orchymyn mawr,—"*Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw; ti a geri dy gymydog fel ti dy hun;*" ond yma dywedir fod yr holl ddeddf wedi ei chyflawni yn un o honynt. Pa fodd hyny? Yn yr Arglwydd Iesu, gwelwn gariad at ddyn yn fynegiad o bobpeth dwyfol; yr un modd mae yr hwn sydd yn gwir garu ei gymydog mewn ufudd-dod i'r ddeddf ddwyfol yn sicr o fod wedi ei lenwi a'i feddianu gan Dduw i'w garu a'i anrhydeddu. Hefyd mae cariad cyflawn y naill ddyn tuag at y llall yn

15 Ond os brathu a thraflyncu eich gilydd yr ydych, gwyl-
iwch na ddifethir chwi gan
16 eich gilydd. Ond dywedyd
yr wyf—rhodiwch â'r ysbryd
ac ni chyflawnwch dra-
a thraflyncu eich gilydd yr
ydych, gwylwch na ddifeth-
ir chwi gan eich gilydd. Ac 16
yr wyf yn dywedyd, Rhod-
iwch yn yr Ysbryd, ac na
chyflawnwch drachwant y

15. A's *ynte* cnoi ac yssu y gilydd a wnewch, ymogelwch rac ymddifa gan y gilydd.—W. S.

16 Wrth hyny y dywedaf. na chyflawnwch a chwenycho y cnawd.
—M.

cynwys pob meddwl a roes fôd i amrywiol osodiadau y ddeddf gogyfer ag adeg anmherffaith. Gyda y rhai olaf yr arhosai Iuddew y dyddiau hyny, gan anghofio yr ochr ddynol, tra y mae cais uchel "y gair" hwn yn gais at gyflawni mwy na'r gosodiadau. Yr oedd y gosodiadau hefyd, fel y deallid hwy yn nysgeidiaeth yr oes, yn cau allan y cenedl-ddyn o'r galon a'r serchiadau, ac nis gallai y ddeddf gael ei chadw *yn gyfan* heb deimlad arall tuag atynt hwy a'r byd oll. "Chwi a ellwch trwy yr un gorchymyn hwn gyflawni yr holl ddeddf."—Theodoret.

15. Ond os brathu a thraflyncu eich gilydd.—Drych byw o nwydau ffyrnig ysbryd plaidd na welid yn mhroselytiaid newydd y blaid Iuddewaidd. Ar ryw ystyr, nid oes fawr o wahaniaeth rhwng traflyncu a difetha, fel y gwelir pan ddywedir fod Satan yn ceisio y neb y gallo ei lyncu. Ond y mae y gair olaf, "gwylwch na ddifethir," yn cyfeirio ein meddyliau at effeithiau difaol chwerwder y fath ymbleidid ag oedd yn awr yn Galatia. Fe ddarfyddai gwir fywyd crefydd Crist yn eu plith os parhai y cyfryw bethau.

16 Ond dywedyd yr wyf.—Fy meddwl yw (iii. 17; iv. 1); trwy y geiriau hyn yr ydym yn cael gwedd eangach ar y peth a ddywedasid eisoes. Wrth eich adgofio mai i ryddid y'ch galwyd, ond nad yw y rhyddid i fod yn achlysur i'r cnawd, a'i fod mewn gwirionedd yn wasanaeth newydd, fy meddwl yw, eich cynghori i rodio yn ol yr ysbryd a gawsoch gan Dduw, i fod o rodiad ysbrydol. Dyma yr unig dro y mae y gair hwn "rhodio" yn yr epistol yma. Yn y defnydd mynych a wneir o hono yn y Test. Newydd—49 o weithiau—fel ffigiwr am fuchedd, mae bywyd dinasoedd poblog, lle gwelir dynion yn myned ol a blaen, yn bortread o ymarweddiad Cristion. Gair yr Hen Destament yw *cerdded*, er fod ein cyfieithiad ni yn fynych iawn yn cuddio hyny; ac felly y dywedai Hezeciah mai "cerdded" yn araf a wnai am y pymtheg mlynedd a roddasid iddo. Nid yw Paul nac Ioan byth yn dweyd "cerdded," ond "rhodio," am fuchedd y rhai yn Nghrist sydd, o ran eu bywyd beunyddiol, yn cael eu tywys gan Ysbryd Duw.

Ni chyflawnwch —Nid gorchymyn na chymhelliad sydd yma; prin y y buasai yn briodol dweyd "rhodiwch â'r ysbryd ac na chyflawnwch," gan buasai yr ail yn y cyntaf. Ond yn y geiriad a roddir uchod mae ystyr o gyngor a chysur. Os rhodiwch â'r rhan ysbrydol o'ch enaid sydd yn rhodd Duw, neu yn ol dylanwad yr ysbryd sydd yn och, yna, fel canlyniad, ni chyflawnwch drachwant y cnawd. Yn y gair hwn—cyflawni—edrychir ar drachwant y cnawd fel gwely brwd o gymhellion pechadurus, a'u cyflawni yw eu

17 chwant y cnawd. Canys y mae y cnawd yn chwenychu yn erbyn yr ysbryd, a'r ysbryd yn erbyn y cnawd, canys y mae y rhai hyn yn wrthwyneb i'w gilydd, fel na wnewch beth bynag a cnawd. Canys y mae y 17 cnawd yn chwenychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant eu gilydd, fel na alloch wneuthur beth bynag a ewyllysioch.

17 A'r ei hyn a gyverbyniant y gilydd.—W. S.

cario allan i weithrediad, gwneyd y meddwl amhur yn weithred ddrwg. Ni wna y rhai a rodiant dan gymhellion ysbrydol hyny, ac yn raddol, oherwydd peidio eu cyflawni, fe dderfydd cynhyrifiadau trachwant y cnawd. Cynwysir yn y trachwant hwn, yn ol iaith Rhuf. vii. 23, 35, yr oll sydd yn wrthgyferbyniol i'r "meddwl" neu "y dyn oddimewn;" ac fel y dengys y geiriau nesaf, yr oll yr hudir dyn iddo pan heb ddylanwad y grym sydd a'i darddiad yn oruwchnaturiol, sef yr ysbryd; nid godineb, atfendid, anlladrwydd, yn unig, ond llid, ymrysonau, cenfigenau hefyd.

17. **Canys y mae y cnawd.**—Dyma y meddwl sydd o'i helaethu a'i amlhau yn llenwi Rhuteiniaid vii. 15—20. Er mwyn dangos pa fodd y sicrheir na bydd iddynt gyflawni chwant y cnawd, os bydd eu rhodiad dan ddylanwad yr ysbryd, gosodir allan natur wrthwynebol y ddau, fel dau allu llywodraethol. Yn fanwl, ni ellir dweyd y gair "chwenychu" ond am y cnawd; eto, o ran ei lwyr elyniaeth i'r cnawd, nid yw yn amhriodol ychwaith am yr ysbryd.

Canys y mae y rhai hyn yn wrthwyneb i'w gilydd.—Y rheswm paham y maent yn chwenychu yn erbyn eu gilydd yw eu bod o natur wrthgyferbyniol. Wrth ychwanegu "fel na wnewch pa bethau bynag a fynwch," mae meddwl yr apostol gyda yr hyn oedd yn awr yn Galatia, set nwydau yn cael goruwchafiaeth ar ddyinion. Pan ildio ewyllys i chwant, mae grym chwant yn cynyddu yn llawer cyflymach nag o'r ochr arall, pan ildio chwant y cynyddu grym ewyllys yn nghyfeiriad y da. Anhawdd meddwl fod y geiriau diweddaf hyn a u bwriad i ddangos *dyben* yr ymdrech rhwng y ddau allu "Os myn dyn wneyd yr hyn sydd dda, mae y cnawd mewn ymdrech yn erbyn yr Ysbryd, yn wrthwynebol i hyny; os myn wneyd y drwg, mae yr Ysbryd mewn ymdrech yn erbyn y cnawd, yn wrthwynebol eto i hyny." Fel hyn y dywed Meyer a Sieffert. Ond mewn paragraff o gymhelliadau, ymddengys eglurhau fel yma yn beth dieisiau. Yr *oedd* un ochr ar waith yn Galatia mewn dynion oeddynt yn amlwg amherffaith, a thuedd y cnawd yn y cyfrwy bobl nwydog a ddesgrifir gan yr apostol.

Geilw Luther yr ymdeimlad hwn—*na allwn* wneuthur yr hyn a fynwn—yn ol ei ystyr ef i'r ymadrodd, yn "*anobaith duwiol a sanctaidd* (pia et sancta desperatio) yr hwn yr rhaid i bawb a fynant fod yn gadwedig ei gyffesu â'r genau ac â'r galon."

Er y gallem feddwl fod cyfeiriad neillduol y geiriau at helynt eglwysy Galatia, dywed yr apostol am dano ei hun, "Canys nid wyf yn gwneuthur y peth da yr wyf yn ei ewyllysio, ond y drwg yr hwn nid wyf yn ei ewyllysio, hyny yr wyf yn ei wneuthur."

18 ewyllysioch. Ond os gan yr ysbryd y'ch arweinir, nid ydych dan y ddeddf. Ac Ond os gan yr Ysbryd y'ch arweinir, nid ydych dan y ddeddf. Hefyd amlwg yw 18 19

19. Am "anlladrwydd" dywâd W. S. "nwyfiant," a M. "digywilydd-dra;" am "swyngyfaredd," swyno, ac ar ymyl y ddalen cyvaredd, rinie; am gwyn, gwynvydu, a'r tri nesaaf ydynt, ymgeiniaë, tervyscae, *cam-opinionae*; ac am gyteddach dywedir glothinep.

18. Ond os arweinir chwi.—Dyma ail ganlyniad, ac ymddengys i mi mai un a sylweddolir mewn ymarweddiad ydyw, fel y llall.

1. Os ydych yn rhodio â'r ysbryd, ni chyflawnwch drachwant y cnawd, adn. 16.
2. Os arweinir chwi gan yr ysbryd, nid ydych yn byw dan y ddeddf.

Os rheolir eu bywyd gan yr ysbryd, nid ydynt yn mhlith y rhai sydd yn mynu boddhau Daw yn llwybrau y ddeddf, ac nid ydynt telly dan y rhwymau iddi a osodid arnynt pe ceisient enwaediad. "Mae yr hwn sydd ganddo yr Ysbryd, fel y dylai, wedi ei ddyrchafu uwchlaw holl orchymynion y ddeddf. Pa raid sydd iddoef nad yw byth yn digio, i glywed y gorchymyn,—Na ladd? Pa raid sydd iddo ef nad yw ei edrychiad byth yn anmhur wrth y rhybudd —Na wna odineb?"—Chrysostom.

GWEITHREDOEDD Y CNAWD.

FFRWYTH YR YSBRYD,

19—23.

19—21. Yn y rhestr hon ni ellir dweyd fod genym ddsbarthiad o bechodau, ond mae y rhestr yn dangos cyflead llawn o ystyr ac o addysg. Gadewir allan y cyntaf sydd yn y cyfieithiad cyffredin, sef "tor-priodas," a'r pedwerydd ar ddeg, "llofruddiaeth," ar sail deg beirniadaeth addfed. Felly, mae pymtheg yn aros. Wrth sylwi mai *naw* ffrwyth yr Ysbryd a enwir, gwelwn awgrym o flaith a'n cyferfydd mewn cylchoedd eraill o ymchwiliadau moesol, sef fod nifer y rhinweddau sydd wedi cael enwau neillduol yn llawer llai na nifer y beiau. Ond nid yw y ddwy restr yn hollol gyferbyniol. Enwau gweithredoedd, yn ol gair yr Apostol, sydd yn y gyntaf, yr hyn sydd yn peri fod cynifer o honynt yn y rhif luosog a rhai na allem eu gosod telly yn Gymraeg. Nid oes yr un o'r lleill yn weithred; o fewn y maent oli, fel y tueddiadau uchel, ysbrydol sydd yn creu gweithredoedd unrhyw a'u natur eu hunain. Pe chwilid am restr gyferbyniol i'r gyntaf o *bethau* neu weithredoedd, ceid hi yn Phil. iv. 8—"pa bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd anrhydeddus, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy."

amlwg yw gweithredoedd y
crawd ; y rhai yw, godineb,
afleidd, anniwair hyfdra,
20 delw-addoliaeth, swyn-gyfar-
edd, gelyniaethau, cynen,
gŵyn, drwg-dymerau, ymrys-

gweithredoedd y crawd ; y
rhai yw, tor-priodas, godin-
eb, afleidd, anlladrwydd,
delw-addoliaeth, swyn-gyf- 20
aredd, casineb, cynhenau,
gŵynfydau, lliid, ymrysonau,

19 Godineb, afleidd, anniwair hyfdra.—Mae y tri cyntaf hyn i'w cael yr un modd yn nghymdeithas eu gilydd yn 2 Cor. xii. 21, er nad yn yr un drefn, a'r ddau gyntaf yn Eph. v. 3, Col. iii. 5. Ffuriau arbenig o'r canol yw y cyntaf a'r olaf : o afleidd, neu amhuredd sydd eangach ei ddylanwad na hwy eu hunain y daw godineb, ac y daw hyfdra anniwair. "Digywilydd-dra" yw gair y Dr. Morgan am y trydydd hwn, ac yn y Beibl Cymraeg defnyddir mewn gwahanol fanau dri gair i'w osod allan,—anlladrwydd, trythyllwch, anniweirdeb. Anhawdd hwyrach, yw mynegu y ddwy elfen sydd yn y gair gwreiddiol heb ddefnyddio dau yn Gymraeg. Mae yn ei ystyr yr hyn a fynegir gan Dr. Morgan wrth ddefnyddio "digywilydd-dra" am dano : ond hyfdra o fath neillduol yw hefyd, hyfdra rhai chwantes—haerllug ymddygiad. mewn gair ac ysgogiad rhai wedi colli gwyleidd-dra dan ddylanwad nwydau aflan. Y weithred aflan guddiedig yw y gyntaf o'r tri uchod ; yr olaf yw eithaf yr amhuredd mewn rhai na fedrant neu na fynant gywilyddio yn nghyhoedd.

20, 21. Delwaddoliaeth, swyngyfaredd.—Saif y pedwerydd a'r pumed yn naturiol gyda'u gilydd. "Pan anwyd Iesu Grist mewn dinodedd yn Judea, yr oedd yr ymherodraeth Rufeinig yn heddychol, y cyfreithiau Rhufeinig wedi eu gosod ar sylfeini cadarn, moesau Rhufeinig wedi eu gwneyd yn foethus a choeth hyd at fod yn llygredig a holl war-eiddiad yr ymherodraeth wedi tyfu, dan gysgod addoliad y duwiau gau. Yr oedd pob peth ynddi yn dwyn nod ddelw-addoliad..... Ni wneid un symudiad heb alw ar ryw dduw neu gilydd ; dim barddoniaeth heb fawl iddo ; nid oedd yr un wyl na ddechreuai gydag aberth, nac un anedd heb dân cysegredig yn llosgi ynddi i'r duwiau teuluaidd. Felly yr oedd gwar-eiddiad Rhufeinig o angenrheidrwydd yn elyniaethol i grefydd Crist."* Cyfarfyddai y demtasiwn i eilun-addoliad y Cristionogion fel hyn yn mhob cyfeiriad o'u bywyd, a gallai eu dirywiad ysbrydol ddangos ei hunan mewn cydymffurfiaid a hyn yn gynt bron nag mewn dim arall o fywyd allanol. Yr oedd math neillduol o eilunaddoliad hefyd yn ymledu yr adeg hon trwy wledydd y dwyrain, ac ni bu y gorllewin o gwbl yn rhydd oddiwrth ei ddylanwad. Addoliad duwiau dwyreiniol oedd hwn, gydag arferion gwyllt, llawn nwyd cyffrous, tra gwahanol ei natur i'r peth yr oedd eilunaddoliad wedi dyfod i fod yn mhlith y Groegiaid dan ddylanwad eu bywyd dinesig rhydd a'u hymchwiliadau athronyddol. Gyda'r offeiriad a'r offeiriadesau ynglyn a'r rhai hyn a luosogion trwy y byd, yr oedd rhif y brudwyr a'r swynwyr wedi lluosogi yn ddirfawr. Yr oedd i'r swynwyr le mawr a phwysig yn nglyn a'r crefyddau paganaidd oll, ac oherwydd hyny priodol yr enwir swyngyfaredd gydag eilun-addoliaeth ; gwasanaeth y nwydau dynion ganddynt, eu dig, eu dial, eu chwant.

* De Broglie L'eglise et l'empire I. 10, 11, "

onau, ymbleidiau, ymran-
21 iadau, cenfigenau, meddw-
dod, cyfeddach, a chyffelyb
i'r rhai hyn, am y rhai yr
wyf yn rhag-ddywedyd wrth-

ymbleidio, heresiau, cenfi- 21
genau, llofruddiaeth, meddw-
dod, cyfeddach, a chyffel-
yb i'r rhai hyn : am y rhai
yr wyf fi yn rhag-ddywedyd

Gelyniaethau, cynen, gwyn, drwg dymherau, ymrysonau, ymbleidiau, ymraniadau, cenfigenau.—Rhwng y chweched, “gelyniaethau,” a’r trydydd ar ddeg “cenfigenau,” saif chwech eraill a enillan ystyr nodweddiadol oherwydd eu cyflead yn gyfymyl. Hoffder o gweryla neu baroddrwydd i hyny a feddylir wrth *gynen*. Ceir y gair a gyfieithir *gwyn* weithiau o gyffelyb ystyra'r gair Cymraeg sydd a'i darddiad o hono—zel; weithiau hefyd yn yr un ochr dda mae yn cyfateb i eiddigedd. Ond pan y mae iddo ystyr ddrwg, fel yma, cyfieithir ef hefyd “cenfigen,” megys yn 1 Cor. iii. 3; eto tra y mae cenfigen yn greulawn fel y bedd, y teimlad sydd aniddig, anesmwyth a phoenus o weled llwyddiant rhai eraill yw yr un a olygir yn y gair, ac felly y galwn ef yn y Gymraeg “gwyn.” *Drwg-dymherau*—Mae hwn yn y lluosog yn y Groeg, gan olygu tymherau afrywiog. Nid yw y dymer yma yn y cyntaf—cynen—gan fod yn bosibl ymgynhenu heb ymwylltio mewn tymer ddrwg. *Ymrysonau*.—Mae i'r gair hwn hanes hynod, ac nid heb addysg y dygwn ef i gof, gan fenthycu o drafodaeth orphenol Fritzsche* Tardd y gair oddiwrth fywyd cwerylgar gweithwyr oeddynt isel eu moes, yn arbenig ar y cychwyn, rhai a weithient mewn gwlan, gwehyddion ac eraill. Yn ddiweddarach, cymhwysir ef at ymdrechion gwael ymgiprys am swyddau mewn etholiadau. Gosodir allan yn y gair ysbryd ac arferion y rhai sydd yn chwenych y blaen ar eu gilydd, y rhai, o gallant yn unig sicrhau eu hamcanion hunanol, a rwygent eglwysi. Dyma y peth a enwir gan yr apostol yn Phil, i. 16; ii. 3, ac a gyfieithir yno *cynen* yn y Testament Cymraeg, “Na wneir dim trwy gynen (ymryson) neu wag ogoniant;” “y naill sydd yn pregethu Crist o gynen, nid yn bur.”

Fel canlyniad y pethau a nodwyd—cynen gwerylgar, gwŷn ddi-ddaioni, tymher ddrwg, ymryson hunan-geisiol, y daw y ddau nesaf i mewn. *Ymbleidiau*: yn codi oddiar y cyfryw deimladau drwg; *ymraniadau* dynion cecrus, a achosir yn arbenig gan wahaniaeth opiniwn. Yr oedd y ddysg Iuddegwig am enwaediad a'r ddeddf yn gwneyd dwy sect o leiaf. Wrth ei gyfieithu “heresiau,” treiglr i'r gair ystyr rhai canrifoedd diweddarach; *cenfigenau*, yn hwn mae pob drwg a enwasid o'r blaen, gan gychwyn o'r gelyniaeth, yn gweithio. Dywedir pethau celyd iawn am y drwg hwn gan y Groegiaid; a hwyrach nad oes un pechod mewn rhai crefyddol a ffeiddir yn fwy gan bobl sylwgar nad ydynt yn gwneyd un broffes o grefyddolder. Ni all rhai gwir ysbrydol ymostwng i'r peth hwn sydd mor amlwg yn perthyn i'r cnawd.

Meddwodod, cyfeddach.—Nid yw “cyfeddach” yn hollol gywir. Arferent wedi gw'eddoedd, gynt, gerdded yr heolydd yn nillad eu gwledd, gan yfed a chanu a dawnsio a gwatwar y rhai a gyfarfyddent. Y rhyseidd hwn a olygir yma; ac yn y wedd hon arno mae wedi diflanu o'n gwlad ni.

* Epistola ad Romanos, I. 34.

ych, megys y rhag-ddywed- ais, na bydd i'r rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas 22 Dduw. Eithr ffrwyth yr	wrthyh, megys y rhag-ddy- wedais, na chaiff y rhai sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw. Eithr ffrwyth yr 22
--	---

Hwyrach, nad amhriodol fyddai i ni geisio gosod y drygau hyn mewn ffordd o dabl.

Godineb. Aflendid Hydra aniwair	}	Pechodau amhuredd cnawdol.
Eilunaddoliad Swyn gyfaredd	}	Pechodau bywyd cyffredin y byd cenhedlig yr adeg hono.
Gelyniaethau.		
Cynen Gwŷn Drwg dymherau Ymrysonau Ymbleidiau Ymraniadau	}	Pechodau sydd yn lladd cymunedeb yr eglwys, epil y ddwy wiber,—gelyniaeth, cenfigen.
Cenfigenau.		
Medddwod Cyfeddach	}	Pechodau pleser a nwyfiant.

Am y rhai yr wyf yn rhag ddywedyd.—“Y rhai” yw yr oll o'r pechodau uchod, ac y mae y gair rhag-ddywedyd yn awgrymu pryder yr apostol i rybuddio yn awr megys y gwnaethai pan yr oedd ddiweddaf yn Galatia. Cawn y geiriau nesaf yn I Cor. vi. 9, xv. 50, “Ni ddichon cig a gwaed etioeddu teyrnas Dduw.”

22. Eithr ffrwyth yr ysbyrd.—Gelwir y rhestr o'r blaen yn “weithredoedd” y cnawd, am mai fel yr amlygir pechod mewn gweithredoedd arbenig y dangosir ynddi yr hyn sydd yn deilliaw o'r cnawd; dyma y rheswm hefyd paham y mae cynifer o'r enwau yn y rhif luosog, rai na allem eu cyfieithu felly i Gymraeg. Ond yn y rhestr brydferth hon, nid oes gymaint ag un o'r enwau yn y rhif luosog, gan mai nid gweithredoedd yw y rhai hyn; yn hytrach teimladau neu egwyddorion ysbyrdol ydynt, a dyma, efallai, un rheswm paham y defnyddir y gair “ffrwyth,” nid gweithredoedd am danynt. O ran ei gyferbyniad i'r “cnawd” ymddengys y dylem ddeall wrth yr ysbyrd yma, nid yr Ysbyrd Glân, ond y rhan ysbyrdol o'r rhai sydd wedi eu creu o newydd ganddo. Mae dau o leiaf o Dadau Eglwysig y bedwaredd ganrif—Theodoret a Chrysostom—yn dangos mai hyny oedd eu barn hwythau, trwy ofyn paham na sonir am yr enaid yma, ac ateb fod yr enaid yn cael ei gynwys yn y meddwl cnawdol a olygir dan y gair cnawd. Dywed y cyntaf o'r ddau, “ysbyrd y geilw (yr Apostol) y gras a roddasid.” Yn ol y darlleniad cyffredin yn Eph. v. 9, ffrwyth yr ysbyrd hefyd yw, “daioni, cyfiawnder, gwirionedd;” ond mae genym erbyn hyn, yno, ddarlleniad diwygiedig, yn ol yr hwn y mae y rhai hyny gyda mwy o briodoldeb yn “ffrwyth

Ysbryd yw, cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, tiriondeb, daioni, ffydd, addfwynder, hunan-lywodr-

Ysbryd yw, cariad, llawenydd, tangnefedd, hirymaros, cymwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest:

22. Am hirymaros, dywed W. S., "amynedd," ac ar ymyl y ddalen, hwyrddic ne hir oddef; yna, dilyna tiriondep, dayoni, ffyddlondep, gwârdêr, artempur.

y goleuni." Enwir y tair bendith gyntaf yn arbenig gan yr Arglwydd Iesu yn ei gyfarchiadau diweddaf yn efengyl Ioan—fy nghariad i, fy llawenydd i, fy nhangnefedd i. **CARIAD**, brenhines y rhinweddau Cristionogol a enwir gyntaf, yr hyn sydd yr un peth a'i henwi yn olaf yn Col. iii. 14, wrth ddweyd, "ar hyn oll gwisgwch gariad." "Canys y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonau ni *trwy yr Ysbryd Glan*, yr hwn a roddwyd i ni," Rhuf. v. vi. **LLAWENYDD**, **TANGNEFEDD**—mae tawelwch yr olaf yn perffeithio hyfrydwch y cyntaf. Saif y ddau hyn mewn gwrthgyferbyniad dedwydd a bendigaid i'r rhestr ddu, ystormus, flaenorol. Gwel o flaen adn. 19.

Hirymaros, tiriondeb, daioni.—Cyfieithir y cyntaf o'r geiriau hyn weithiau "amynedd," (Heb. vi. 12), ac nid yn anmhrïodol; eto nid yr un amynedd ydyw ag a feddylir gan Ioan pan y dywed, "eich brawd a'ch cydymaith mewn cystudd, ac yn nheyrnas ac amynedd ein Harglwydd Iesu Grist." Amynedd gwr yn ymgadw rhag ymddigio a dial yw yr un a enwir gan Paul yma; amynedd y mawrfrydig o galon a fedr oddef ac anghofio bai ydyw. Ond amynedd yn *ymostwng* yn dawl mewn cyfyngder, eto gyda chryfder yn ymgynal heb ballu, heb ddigaloni, yw y llall.

Ystyr y gair a gyfieithir genym yma "tiriondeb" yw daioni yn ei wedd arbenig o garedigrwydd a hynawsedd, ac am hyny, cyfieithir ef weithiau "daioni," megys yn Rhuf. ii. 4; xi. 12; Titus iii. 4; a phryd arall "cymwynasgarwch," Eph. ii. 7, Colossiaid iii. 12.

Tra y ceir cymwynasgarwch daioni, yn y diweddaf a enwyd, mae y nesaf a elwir yn syml "daioni," yn golygu yr un peth o ran ei *uniondeb*.

Ffydd, addfwynder, hunan-lywodraeth.—Mae dwy ochr y gair cyntaf i'w gwelod genym ni yn Gymraeg yn y gair *ffyddllawn*; golyga hwn ar y naill law un y gellir ymddiried ynddo, ac ar y llaw arall un sydd yn ymddiried fel yn yr ymadrodd "Abraham ffyddllawn." Felly heblaw yr ystyr arferol o gredu neu ymddiried mae gair yr apostol yn dwyn gydag ef, ar brydiau, y syniad o ffyddlondeb. Mae yn dra thebyg mai yr ystyr o ffyddlondeb sydd i ffydd yma, fel y cyfieithir gan W. Salesbury, a'i fod, fel y dywed Bengel, yn sefyll yn wrthgyferbyniol i helynt ansafadwy ymbleidiau ac ymraniadau. "Ei galon sydd ddisigl yn ymddiried yn yr Arglwydd." **ADDFWYNDER**—"y rhai llariaidd a hyfforddia efe mewn barn," Psalm xxv. 9. "Nid yw," medd un gwr, "y rhai addfwyn byth yn llwfr," ac wrth feddwl hyny, mae safle y gair, ysgwydd yn ysgwydd â "ffyddlondeb," yn llawn meddwl. Ond mae perthynas addfwynder â'r nesaf yr un mor awgrymiadol. O'r un ysbryd y daw y gallu i fod yn addfwyn tuag at eraill, ag i fod yn llym neu yn ddiarbed tuag atom ein hunain. **HUNAN-LYWODRAETH.**—Ni ellir, erbyn hyn, alw y peth olaf hwn yn "ddirwest," *

* Yn Ngeiriadur Dr. J. Davies o Fallwyd, darllenwn--**DIRWEST**, *abstinentia, jejunium*. . . . sef pan fydder yn hir heb fwyd.

DIRWESTU, *a cibis abstinere* (ymatal oddiwrth fwyd), *jejunare*. . . . "Llu yn dirwestu drostaw,"—Gutto'r Glyn, 1450.

23 aeth; yn erbyn y cyfryw yn erbyn y cyfryw nid oes 23
 24 nid oes deddf. Ond y rhai deddf. A'r rhai sydd yn 24
 sydd eiddo Crist Iesu, a eiddo Crist, a groeshoelias-
 groeshoeliasant y cnawd, ant y cnawd, â'i wŷnau a'i

23. nyd oes un Ddeddyf.—W. S.
 24: a grocesont y cnawd.—W. S.

gan ei fod yn golygu llywodraethiad yr *holl* nwydau, ac yn sefyll mewn gwrthgyferbyniad arbenig i ryseidd aflan y tri chyntaf o weithredoedd y cnawd fel i'r ddau olaf; ymataliad yw oddiwrth odineb, aflendid, ac anniwair hyfdra, yr un modd ag oddiwrth feddwod a chyfeddach. *

Mae y gair yn ein cyfeirio felly at ddiwair ymarweddiad yn ogystal a bywyd o sobrwydd. Am gyfiawnder a'r hunanreolaeth (dirwest, yn y Test. Newydd cyffredin) hwn yr ymresymai Paul o flaen Ffelix nes dychrynu y gwr trythyll.

Hwyrach mai da fyddai eto edrych ar y naw gras Cristionogol hyn gyda'u gilydd.

{ Cariad
 { Llawenydd
 { Tangnefedd

{ Hirymaros
 { Tiriondeb
 { Daioni

{ Ffyddlonddeb
 { Addfwyndra
 { Hunanlywodraeth

23. **Yn erbyn y cyfryw nid oes deddf.**—Ymddengys i mi fod yr hyn a ddywed Hofmann yn deg a phriodol yma, mai afreidiol fuasai dweyd nad oes deddf yn erbyn y cyfryw *bethau*. Felly, fel y mae diwedd adnod 21, wedi enwi gweithredoedd y cnawd, yn dweyd na chaiff y *rhai* sydd yn gwneuthur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Dduw, casglwn mai at bersonau y cyfeirir yma wedi enwi ffrwyth yr ysbryd. Yn erbyn y cyfryw bersonau, y rhai y mae eu buchedd yn dangos ffrwyth yr ysbryd, nid oes deddf. Yr oedd y ddeddf i'w hystyried yn ol dysgeidiaeth yr Iuddewon yn erbyn pawb nad ymostyngai i fod dani trwy enwaediad, ond megys y dywedir uchod fod y ddeddf *wedi* ei chadw gan yr hwn sydd yn caru, felly yma hefyd, dywedir yn yr un ystyr nad oes un ddeddf a all fod yn erbyn y rhai y mae y naw rhinwedd ysbrydol hyn ynddynt, a chan hynny nad yw y ddeddf—deddf Moses—yn eu herbyn, sef nad oes ganddi un alwad arnynt hwy at yr un o'i gosodiadau er mwyn cyflenwi diffyg ynddynt.

“Mae y ddeddf,” medd Theodoret, “yn ddieisiau i'r rhai sydd yn cadw ei rhinwedd, canys ni roddwyd y gyfraith i un cyfiawn.” Yr eglurhad hwn o ran sylwedd a geir gan amryw ysgrifenydd diweddar.

24. **Ond y rhai sydd eiddo Crist Iesu.**—Y rhai sydd eiddo Crist Iesu yw “y cyfryw rai” a enwasid eisoes. Hwy sydd wedi croeshoelio y cnawd—wedi ei ladd, yn eu hymddidoliad oddiwrtho, pan y daethant yn eiddo

* Mewn hen lyfr Cymraeg, “Yr Athrawaeth Gristionogawl,” a gyhoeddwyd yn 1568, mae y rhestr uchod yn y ffurf a ganlyn: “Deuddeg phrwyth yr yspryd glan.—Cariad perffaith, Llywenydd, Heddwch, Goddefedd, Ymarosrwydd, Daionedd, Cymwynasedd, Gwaredd, Phydd, Modustra, Cymgadwraeth, Diweirdeb.” Gwelir mai dau air am hirymaros yw goddefedd ac ymarosrwydd, dau am diriondeb yw cymwynasedd a gwaredd, dau am hunanreolaeth yw cymgadwraeth a diweirdeb. Fel hyn y ceir y deuddeg, ond yn dilyn yr hen Feibl Lladin amherffaith oedd yn bod y pryd hynny.

gyda'i nwydau a'i chwantau.
 25 Os byw ydym a'r ysbryd, cerddwn hefyd
 26 a'r ysbryd. Na fyddwn wag-ogoneddgar, gan ymanog ein gilydd, gan ymgenfigenu wrth ein gilydd.

chwantau. Os byw yr ydym 25
 yn yr Ysbryd, rhodiwn hefyd yn yr Ysbryd. Na fydd- 26
 wn wag-ogoneddgar, gan ymanog ein gilydd, gan ymgenfigenu wrth ein gilydd.

25. A's byw ydym yn yr Yspryt.—W. S. Os byw yr ydym i'r Yspryd.—M. Nid wyf wedi gweled y cyfieithiad tarawiadol hwn gan neb arail: gwelir yn hawdd y rheswm am dano yn y Groeg.

26. Na ddeisyfwn wac ogoniant.—W. S. Nac awn yn wag orfoleddus.—M.

Crist, â marwolaeth peth melldigedig. Yr un peth yw hyn a "marw i bechod:" rhwyg hyd at ddyfnder dyfnaf yr enaid yw yr un a gymer le, pan, mewn perffaith ffeiddiad o bechod, y ceisio dyn waredigaeth oddiwrtho yn Nghrist.

25. **Os byw ydym.**—Os yw yr egwyddor o fywyd sydd ynom yn dyfod i ni trwy weithrediad yr ysbryd, ac nid mwyach trwy y cnawd sydd wedi ei groeshoelio—os, neu gan mai yr ysbryd sydd yn ein bywhau, cerddwn trwy neu a'r ysbryd: bydded ein buchedd dan ddylanwad yr un ysbryd ag y mae ffynhonell ein bywyd ynddo. Dywedir cerdded yn hytrach na rhodio, gan fod y ferf yn cynwys cerddediad fel cerddediad milwr, ac yn awgrymu cyfeiriad yr ysbryd yn ein buchedd. Yn vi. 16, dylid yr un modd gyfieithu "cynifer ag a *gerddant* wrth y rheol hon."

26. **Na fyddwn wag-ogoneddgar.**—Fel yr oedd y cymhelliad diweddaf a'i lygad ar rasau sydd yn ffrwyth yr ysbryd, mae hwn yn edrych yn ol at restr gweithredoedd y cnawd, yn enwedig y tri, "gwŷn, drwg dymherau, ymrysonau;" a chysylltir yr olaf a gwag-ogoniant yn Phil. ii. 13, "na wneler dim trwy ymryson (gynen, yn y cyfieithiad cyffredin) neu wagogoniant." Cais hunangar am anrhydedd, awydd am wael glod, yw y meddwl, yn yr hyn y daw yn amlwg wŷn, dig-dymher, a chyd-ymryson.

Gan ymanog ein gilydd: trwy air neu weithred i ymgynhenu, i ymherio. Gydag amrywiaeth grymus yr ydym yn cael yma feddyliau tebyg i rai adn. 15, 16, "Gwylwch, medd yno, na ddifether chwi trwy frathu a thrafflyncu eich gilydd. Fy meddwl yn y cyngor yma yw, ar i chwi rodio a'r ysbryd, ac felly, *ni* chyflawnwch drachwant y cnawd yn y cyfryw bethau." Yma, eto, dilynir y cymhelliad "cerddwn a'r ysbryd" gan eiriau yr adnod hon o gyffelyb ystyr—"na fyddwn wag-ogoneddgar, gan ymanog ein gilydd, gan ymgenfigenu wrth ein gilydd." Yn y fan hon dyfynir gan Luther sylw o eiddo Jerome, ac un arall o Awstin. "Gwelais lawer," medd Jerome, "a allent ddyoddef anghyfleusderau mewn corff ac mewn eiddo, eto na allent oddef i neb fychanu dim ar eu clod." Awstin, "Os canmolir gweinidog y gair, mae yn rhodio mewn perygl: os yw ei frawd yn ei iselu ef heb ei barchu, mae y brawd yn rhodio mewn perygl. Mae yr hwn sydd yn gwrando arnaf fi yn dysgu gair Duw dan ddyled i'm hanrhydeddu er mwyn y gair. Os anrhydedda fi, da; os wyf fi oherwydd hyny yn falch, yr wyf mewn perygl. Ar y llaw arall, os dirmygir fi ganddo, yr wyf fi yn ddi-berygl, ond nid yw ef ei hun felly." (Contra si me contemnit, sum sine periculo, non item ipse).

VI. 1 Y brodyr, os goddiweddwr dyn ar ryw fai, chwy-chwi, y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder, gan dy ystyried dy hun, rhag dy

Y brodyr, os goddiweddwr dyn ar ryw fai, chwy-chwi y rhai ysbrydol, adgyweiriwch y cyfryw un mewn ysbryd addfwynder; gan dy ystyried dy hun, rhag dy

1. A's goddiweddwr dyn... cyweiriwch y cyfryw un ac ysbryd gwârder.—W. S. Er dala dyn ar ryw fai... cymhwyswch y cyfryw ddyn.—M.

PENNOD VI.

Gwahanol ffyrdd i amlygu cariad yn nghymundeb yr eglwys yn cael eu cymhell. I—10.

1. **Os goddiweddwr.**—Yn adnod 25 o'r benod flaenorol, cymhellir ni i fod yn ysbrydol yn ein cerddediad. Yn unol a'r cymhelliad hwn rhoddir cyngor, i gychwyn, yn erbyn gwag-ogonedd cnawdol, ac yma ar i'r rhai ysbrydol ddangos yr addfwynder a enwasai fel ffurwyth yr ysbryd tuagat frawd wedi cwmpo. Mae yn anhawdd gweled y gellir seilio ar y rhagddod sydd i'r ferf yn y Groeg eglurhad a rydd yr ystyr o "ddal" mewn bai fel y delir troseddwr. Ni ddywedir gan bwy y goddiweddwr y dyn, na chan ba beth, ond ymddengys yn naturiol fod iddo gael ei oddiweddyd mewn bai bron yr unpeth a'i oddiweddyd gan y bai hwnw. Mae yma feddwl o ddal disyfyd fel mewn pechod o amryfusedd gan demtasiwn fawr, a gosodir ef allan yn dda gan y gair Cymraeg "goddiweddwr." Ceir rhywbeth yn gywain, os nad yn gywir, mewn sylw o'r eiddo Zimmer, fod beiau o'r fath yma yn rhwym o fod yn fynych iawn lle y byddai meddwl cul deddfol yn llywodraethu, gan y gallai aml un yn hollol anfwriadol gael ei hun yn droseddwr yn erbyn rhyw ddefod neu gilydd y gosodid mawr bwys arni gan y cyfryw. Ond cyfeirir y cynger hwn at rai ysbrydol, a chyda hwy, nis gallai y bai amgen na bod yn un tra gwahanol.

Chwychedi y rhai ysbrydol.—Y rhai y mae Ysbryd Duw wedi anadlu ynddynt anadl bywyd nad oes dechreuad iddo yn y cnawd, nac mewn anian o gwbl; ac felly yr enwau gwrthgyferbyniol i hwn yw "y rhai anianol" a'r "rhai cnawdol."

Adgyweiriwch.—Dygwch i'r iawn. Mor addysgiadol yw y gair nesaf; ni allwn adgyweirio neb yn foisol ac ysbrydol heb addfwynder ysbryd, yr hwn yw dawn neillduol rhai ysbrydol bob amser. "Yn hwn," medd Bengel, "y mae y rhinwedd i iachau; dyma uchaf nod y dyn ysbrydol."*

Gan dy edrych dy hun.—Gan sylwi yn ymchwilgar arnat dy hun. Troir yr ymadrodd yn sydyn o'r lluosog, fel y byddai y cymhelliad yn fwy cyfeiriol wrth son am y cyfryw gymhwysder a gwyliadwraeth bersonol. Mae pawb yn fwy tyner pan yn wylidwrus.

* In hac sanandi vis est: haec character palmarius hominis spiritualis.

2 demtio dithau. Dygwch feichiau eich gilydd, ac felly chwi a gyflawnwch ddeddf
 3 Crist. Canys os tybia neb ei fod yn rhyw beth, ac yntau heb fod yn ddim, y mae efe
 4 yn ei dwyllo ei hun; eithr profed pob un ei waith ei

demtio dithau. Dygwch 2 feichiau eich gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist. Oblegyd os tybia neb ei fod 3 yn rhyw beth, ac yntau heb fod yn ddim, y mae efe yn ei dwyllo ei hun. Eithr 4 profed pob un ei waith ei

2. Dygwch *drymveichiae* y gilydd; ar ymyl y ddalen, arweddwch lwytheu.—W. S.

3. Obleit o's tybic neb y vot yn ddim, ac yntef eb vot yn ddim, y mae wedy ei dwyllo gan ei dyb ei hun.—W. S. For if any man seeme to himselfe that he is somewhat.—Gen. Y mae efe yn ei ddwyn ei hun i gamfeddwl.—M.

2. **Dygwch feichiau eich gilydd.**—Gwel Rhuf. xv. 1. Mae y meddwl sydd yn y geiriau hyn yn agos iawn at feddwl y rhai blaenorol, ac i'w ddeall yn eu goleu. Ceir rhan o leiaf o ystyr y "beichiau"—yn llythyrenol "pethau trymion"—yn nghyflwr adfydus rhai wedi eu goddiweddyd trwy anwybod-aeth ac amryfusedd mewn beiau, a rhan o ystyr *dwyn* y beichiau hyny yn neshad ysbryd addfwyn mewn cydymdeimlad at y cyfryw, nid i gondemnio, ond i adgyweirio. At y baich sydd mewn ymdeimlad o euogrwydd blin yn mynwes un wedi cwmpo, gellir ychwanegu beichiau anhawsderau, temtas-iynau, gwendidau, y rhai a ysgafnheir trwy gydymdeimlad, trwy gyngor, trwy eiriau dyddanwch a chysur.

Ac felly (neu, fel hyn), chwi a gyflawnwch ddeddf Crist.—Gwell yn sicr yw cadw y gair "deddf" fel yn y rhanau eraill o'r llythyr. Nid oes, o ran y llythyren, ddeddf wedi ei gosod gan Crist; ond mae swm ei holl ddisgyddiaeth yn gwir gynwys ac yn creu deddf o gariad a brawdgarwch. Nid mewn puredd seremoniol, na chais trwy gyflawni gweithredoedd deddf Moses i enill eu cyfiawnder eu hunain, ond fel cymdeithas o frodyr mewn ffyddlondeb, mewn cymwynasgarwch, mewn caredigrwydd hwy gyflawnent ddeddf uwch na deddf Moses yn enwedig fel y deallid hi gan eu hathrawon Iddewaid.

3. **Canys os tybia neb.**—Mae y cymhellion blaenorol yn cynwys dau osodiad neu wirionedd: (1) mai mewn teimlad o ofn gwylaidd a gwylid-wrus y gallwn goledd yr addfwynder sydd abl i adgyweirio; (2) mai wrth wasanaethu ein gilydd mewn cydymdeimlad y cyflawnwn ddeddf ddwyfol Crist. Ond y teimlad sydd, er nad yn wrthgyterbinyiol i'r rhai hyn, eto yn eu ddiffodd, yw balchder. Pan ddiddolo dyn ei hun, gan ddweyd, "Yr wyf yn diolch i ti, O Dduw, nad wyf fi fel dynion eraill," ni chaiff publican trist yn hwn wr a ddwg ei faich. Mae ysbryd addfwynder yn absenol o'r fath galon falch, ac ni all gyflawni cyfraith Crist. Rhoddir y rheswm am hyny yn yr adnod hon, sef fod balchder yn dwyn gydag ef yr hunandwyll sydd yn rhwystro i ddynd blygu i lawr at ei frawd.

4. **Eithr profed.**—Arferir y ferf hon mewn dwy ystyr: (1) profi fel profi arian neu aur a ydynt yn ddilys; sonir hefyd am brofi cyfeillion a ydynt yn bur: (2) defuyddid y gair hefyd, er yn foreu, am ganlyniad y cyf-

hun ; ac yna efe a gaiff orfoledd tuag ato ei hun yn unig, ac nid tuag at arall, 5 canys ei faich ei hun a ddwg

hun ; ac yna y caiff orfoledd ynddo ei hun yn unig, ac nid mewn arall. Canys pob un 5 a ddwg ei faich ei hun. A 6

ryw brofi pan y byddo yn foddhaol. Cawn yr ystyr olaf hon yn 2 Cor. viii. 22, " Ac ni a anfonasom gyda hwynt ein brawd, yr hwn a brofasom mewn llawer o bethau lawer gwaith, ei fod yn ddyfal." Gwel hefyd 1 Cor. xvi. 3. Cyfieithiad Beza yma yw,

Gwnaed pob un ei waith ei hun yn brofedig :

gan gymeryd yr ail ystyr. Ymddengys y fath feddwl yn bell o ysbryd a rhediad y paragraff hwn. Gwell yw yr ystyr gyntaf ; ac felly cymhellir pob un yn unol a meddwl y geiriau sydd yn yr adnod gyntaf, " gan dy ystyried dy hun," i wneyd ymchwiliad i'w waith ei hun er mwyn penderfynu ei ansawdd. Golygir yn y gair "gwaith" fwy na gweithredoedd neillduol. *Gwaith* y saer maen yw y ty cyfan a adeiladwyd, *gwaith* y gof yw yr aradr a ddaeth o'i efail, a diau fod "gwaith" yma a'i gyfeiriad at yr oll o fywyd. Barned pob un natur cyfanswm ei weithredoedd wrth ei ddybenion a'i gymhellion ; barned, nid a yw ei waith yn rhagori ar eraill, ond a ydyw yn graddol a chyson ragori arno ei hun.

Efe a gaiff orfoledd.—Hyny yw, efe a gaiff achos i orfoleddu. Nid gorfoledd na bost balchder a feddylir wrth y gair hwn a'r ferf "gorfoleddu" a arferir mor fynych yn y Test. Newydd. Yn hytrach ei brif elfen yw llawenydd mawr fod rhywbeth, megys pechod, tristwch, neu amherffeithrwydd, yn cael ei orchfygu.

Tuag ato ei hun.—Wedi iddo brofi ei hun o ran ei waith, mewn perthynas ag ef ei hun yn unig y bydd ei orfoledd : nid oes a wnelo ei orfoledd ddim ag arall i dybied ei hun yn rhywbeth o'i gymharu ag ef. Diolchai y Pharisead nad oedd ef fel dynion eraill ; diolchai Paul ei fod ef ei hun yr hyn ydoedd.

5. Canys ei faich ei hun.—Gair gwahanol a gyfieithir baich yma ragor yn adn. 2 ; pethau trymion. anhawdd eu dwyn yw y meddwl yno, a chyda'r cyfryw, mae cymorth eraill i'w dwyn yn werthfawr am mai trymion ydynt. Yma nid oes un cyfeiriad at drymder neu anawsder, ond oddiwrth y gwahaniaeth a ddangosir feallai yn y gair llwyth—llwyth anifail neu ddyn—meddylir y peth neillduol sydd gan bob un i'w gario ei hun. Gall hwn fod yn drwm neu yn ysgafn, ac ysgafn ydyw y baich a esyd Crist yn ol yr ymadrodd "fy maich sydd ysgafn." Er tebyced fyddo amgylchiadau bywyd dynion i'w gilydd, mae pob un o fewn ei berson ei hun yn dwyn llwyth ag y mae ei feddyliau, ei deimladau, ei brofiad neillduol yn ei wneyd yn rhywbeth na ddichon fod yn faich i neb arall. Yn ol adn. 2, gall eraill ysgafnhau ein baich ; ond er ei ysgafnhau yr eiddom ni fydd. Dyma reswm paham na all neb gael gorfoledd yn ei berthynas ag arall ; digon, wedi iddo yn ddirifol brofi ei waith ei hun, a chanfod ynddo ddiffygion o rywogaeth neillduol hollol, fydd hyny i gael ei sylw heb air na dymuniad i gymharu ei hun ag eraill.

Yn adn. 2, 5 cawn ddwy reol buchedd ; y *gyntaf*, dygwch drwm-feichiau eich gilydd, yw rheol bywyd cymdeithasol neu fywyd yr eglwys : yr *ail*--dyged

6 pob un. A bydded yr hwn a ddysgir yn y gair gyfranog â'r hwn sydd yn ei ddysgu yn mhob peth da. Na chyfeiliornwch, ni watworir Duw; chyfraned yr hwn a ddysgwyd yn y gair â'r hwn sydd yn ei ddysgu, yn mhob peth da. Na thwyller chwi: ni watworir Duw: canys beth

6. Bit i un a ddyscwyd yn y gair wneuthur hwn y dyscawdd ef yn gyfradoc oi holl dda.—W. S. Make him that hath taught him partaker of all his goods.—Gen. A'r neb a ddyscwyd yn y gair cyfranned o'i dda oll a'r hwn a'i dyscodd ef.—M.

pob un ei faich ei hun, yw sylfaen buchedd pob un ar ei ben ei hun yn annibynol ar bawb arall.

6. A bydded yr hwn a ddysgir yn y gair gyfranog.—Ochr yn ochr a'r annibyniaeth personol sydd yn y geiriau diweddfaf, yn yr hwn y mae pob dyn yn rhywbeth ar ei ben ei hun, cawn yma y wedd arall a wna fywyd ysbrydol yn gyflawn, sef cymundeb y naill enaid a'r llall. Ymddengys i mi fod dau gamgymeriad i'w osgoi yma; nid yw y ferf i'w deall yn yr ystyr o "gyfranu," ac nid eiddo neb ychwaith a feddylir wrth y gair "da." Gyda golwg ar y ferf, yn yr wyth man lle ceir y gair yn y Test. Newydd, yr unig ystyr sydd yn ymddangos yn naturiol yw, "bod yn gyfranog neu mewn cymundeb ag un arall,"* fel yn 1 Tim. v. 22, "na fydd gyfranog o bechodau rhai eraill;" ac yn 1 Pedr v. 13, "yn gymaint a'ch bod yn gyfranogion o ddyoddefiadau Crist." Felly hefyd y ceir y gair gyda'r blaendod *cyd*; "na fydded i chwi gyd-gyfeillach (gyd-gymundeb) â gweithredoedd anfrwythlawn y tywyllwch," Eph. v. 11; "da y gwnaethoch fod i chwi gyd-gymundeb a'm gorthrymder i," Phil. iv. 14. Pe "da" yn yr ystyr o eiddo a feddyliai yr apostol, ac mai cymhelliad i haelioni sydd yma, buasai, yn sicr, yn gadael y gair "da" allan, gan ddweyd, "bydded gyfranog yn mhob peth." Heblaw hyn, yn ol gwir ystyr y ferf, er mwyn cael cymhelliad i haelioni, buasai raid i gyfeiriad y cymhelliad fod at yr athraw, nid fel y mae yma, at y disgybl; hyny yw, buasai raid dweyd, "bydded yr athraw gyfranog a'r hwn a ddysgir." Ond y cyngor gwyach ac uchel sydd yma, debygem, yw, ar i ddisgybl yn y gair fod yn gyfranog yn amcanion a gwaith ei athraw mewn pobpeth da; bydd felly yr oll o'i athraw yn athraw iddo. Pe buasai y Galatiaid wedi bod felly gyda Paul, ni buasai iddynt gymdeithas mor barod a'r rhai a'u hudent yn awr at athrawiaeth mor groes i'r eiddo ef.

7. Na chyfeiliornwch.—Yn y ddau le arall (1 Cor. vi. 9; xv. 33) lle y dywedir "na chyfeiliornwch," fel yma, mae perygl yn cael cyfeirio ato ag oedd yn mhob man yn yr oes hono yn bygwith bywyd yr eglwys. Syniad amhur oedd yn rheoli, ag eithro ychydig wyr yma ac acw, y byd cenhedlig o ran nwydau corff ac enaid. Prin yr oedd y syniad o burdeb diwair yn bod; yr oedd dial yn cael ei ystyried yn anrhydeddus a gostyngeddruwydd yn beth dirmygus; yn erbyn y trwch ofnadwy, marw, hwn yr ymgurai cymhellion bywyd glan yr efbynyl. Hawdd oedd i rai a anesid i'r cyfryw gyfeiliornad gael eu hudo drachefn, ac feallai fod yr apostol wedi sylwi fod gwrthgiliad Cristionogion at fuchedd gul Iuddewig yn cael ei ddilyn gan ddirywiad moesol.

* Yn Rhuf. xii. 13; Phil. iv. 15, ceid gwell ystyr o lawer pe dywcedid "yn gyfranog yn rheidiau y saint;" "ni bu un eglwys gyfranog a mi."

cansys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe; 8 oblegyd yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fed lygredigaeth,

bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe. Oblegyd yr 8 hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fed lygr-

8 Neu—hau yn ei gnawd ei hun; hau yn yr ysbryd. Nid yw "hau i" yn mhriod-ddull y Groeg ond yr un peth a *hau yn neu mewn yn Gymraeg.*

Ni watworir Duw.—Ni oddef Duw ei ddiystyru; felly y gwna y rhai sydd yn cellwair à'r deddfau a darddant o'i gymeriad digyfnawd Ef. Mae canlyniadau anocheladwy yn bod; yr hwn sydd ddiystyr o honynt, gwatar Duw y mae.

Canys beth bynag a hauo dyn.—Eglurir yma y modd nad yw Duw i fod yn ddiystyr o hono, ac yn hyny ceir rheswm cryf dros ymatal oddiwrth weithredoedd sydd yn cynwys y peth. Anmhosibl yw medi ond yr hyn a hauwyd; rhaid i'r farn ar du Dduw fod yn ol yr hyn a wnaethpwyd yn y corff. Dysgir yr un gwirionedd difrifol hefyd, mewn rhan, lle y dywedir na chesglir grawnwin oddiar ddrain, neu ffigys oddiar ysgall; ond yma yn y ffigiwr o hau, gosodir arbenigrwydd ar gyfrifoldeb dechreuol dyn ei hun. Efe sydd yn hau, ac os da yr had, da y cynyrch: os drwg y naill, o angenheidrwydd drwg fydd y llall, Jer. xii. 13; Diar. xxii. 8.

8. Oblegyd yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun.—Yn hyn y sylweddolir, yn yr ystyr bwysicaf, wirionedd cyffredinol adn. 7; ac felly, mae y gwirionedd neillduol hwn yn brawf o'r un cyffredinol, neu yn engraifft eglurhaol o hono. Ar yr olwg gyntaf, ymddengys fel pe bai yr apostol wedi newid ei gymhariaeth yma: o'r blaen soniai am ddau hâd, yn awr am ddau fath o dir; ond mae ei fater yn gyfryw fel nad yw y geiriad newydd yn newid dim ar yr ystyr. Ni ellir hau y peth a heuir i'r ysbryd yn maes y cnawd: mae newid y ddaear—cnawd neu ysbryd—yn cynwys newid yr hâd. Os dywedwn mai "ymddiried mewn unrhyw gnawd er mwyn enill cyfiawnder, hyny yw, ceisio trwy enwaediad neu unrhyw ffordd allanol, gyrhaedd iachawdwriaeth," yw hau i'r cnawd yma, mae y gair "*ei hun*" yn dangos fod y fath eglurhad yn rhy gyfyng. Yr un peth yw "hau i'w gnawd ei hun," a "gwneuthur y cyfryw bethau," v. 21, lle y gwelwn fod cnawd yn cynwys llawer mwy na phechodau o aflendid; fod gelyniaeth, cynen, gwŷn, drwg-dymher, ymryson, ymbleidio, hefyd ynddo. Yr un rhywogaeth o ran yr enaid yw y rhai hyn ag yw y lleill o ran y corff. Gwneyd y cyfryw bethau o anian lygredig yw hau i'r cnawd.

A fed lygredigaeth.—Wrth gofio fod hwn yn sefyll yn wrthgyferbyniol i fywyd tragwyddol, ni ellir ei ddeall yn amgen na marwolaeth neu golledigaeth. "Os byw yr ydych yn ol y cnawd meirw fyddwch," Rhuf. viii. 23. Mae y gair, fel y cyfryw hwyrach, yn cael ei arfer, nid yn ddi-fwriad, i awgrymu hefyd yn ei gysylltiad a chnawd llygredig, y diflaniad a ddilyn y pethau hyn a'u cyffelyb. Felly y defnyddir y ferf, "os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnw," 1 Cor. iii. 17; "a ddifethir (lygrir) yn eu llygredigaeth eu hunain," 2 Pedr ii. 12.

Eithr yr hwn sydd yn hau i' ysbryd.—Ar yr ochr hon eto pe dywedem mai "ymddiried yn ngrym bywhaol yr Ysbryd Glân i'r rhai sydd yn credu,"

eithr yr hwn sydd yn hau i'r ysbryd, o'r ysbryd a fed fyw-
9 yd tragwyddol. Ac yn gwneuthur daioni na lwfrhawn, canys yn ei iawn bryd y medwn, oni ddiffygiwn.

edigaeth: eithr yr hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fed fywyd tragwyddol. Eithr yn gwneuthur daioni 9 na ddiogwn: canys yn ei iawn bryd y medwn, oni ddi-

9. Na vlinwn gan hyný yn gwneuthur dayoni.—W.S. Hefyd na ddiogwn.—M. Let us not therefore be weary.—Gen. Can ys yn ei *briawd*-amser y metwn a ddieithr i ni ddefficio (ymyl y ddalen, lescau).—W. S.

a feddylir wrth "hau i'r ysbryd," teimlwn yn ol yr eglurhad blaenorol o "hau i'r cnawd," fod y fath feddwl yn-annigonol. Dylem, megys o'r blaen, yma eto gymeryd ein hesboniad o'r adran lle yr enwir ffrwyth yr ysbryd—yr hwn y mae ei fywyd mewn cariad, llawenydd, tangnefedd, hir-ymaros, tirondeb, daioni, sydd yn hau i'r ysbryd.

A fed fywyd tragwyddol.—Mae y ferf yn yr amser dyfodol yn unig er mynegu mai canlyniad yw medi. O safle hau, mae medi yn beth dyfodol o angenrheidrwydd. Ni raid i ni gyfyngu y medi hwn, gan hyny, at adeg sydd ddyfodol i'n holl fywyd ar y ddaear, megys y byd arall a'r farn dragwyddol. Fel yn Rhuf. v. 21, y dywedir fod gras yn teyrnasu i fywyd tragwyddol megys y teyrnasai pechod i farwolaeth, felly mae y bywyd yma yn bod yn awr, ac mewn un wedd yn cynwys yr hau i'r ysbryd ei hun. Er hyny, o ran y gwynfyd a'r dyrchafiad sydd mor helaeth yn ystyr y gair, cynhauaf ydyw a fedir yn ddidranc, a pharhaol yn unig wedi angau a thudraw i'r adgyfodiad.

O'r ysbryd.—Trwy allu yr ysbryd; fynhonell y bywyd tragwyddol fydd gallu yr ysbryd oddimewn, megys y dywedir "deddf ysbryd y bywyd."

9. Ac yn gwneuthur daioni na lwfrhawn.—Ceir y ferf olaf yma chwe gwaith yn y Testament Newydd, ac y mae yn cael ei chyfieithu i Gymraeg weithiau "diffygio," brydarall "pallu," unwaith "llwfrhau," (Eph iii. 13), yma "diogi." Yr ystyr yw yr ymflino sydd yn tarddu o ddigalondid neu lwfrdra: gwnawn ddaioni, gwnawn y peth sydd ynddo ei hun yn dda, a hyny, hwyrach, mewn ystyr eangach na hau i'r ysbryd, heb ymwanhau fel rhai llwfr: hyd nes delo yr iawn bryd—pryd medi,—mae calondid i barhau.

Oni ddiffygiwn.—Fel rhai blinedig, hyny yw, yn gwneuthur daioni. Cyfeiriai y gair o'r blaen at ddigaloni; ond parodrwydd i ymollwng, fel rhai wedi treulio eu nerth, sydd yn hwn: dywed Bengel fod y cyntaf mewn ewyllys (velle), a'r ail mewn gallu (posse).

"Heb flino na gorphwysu chwaith."—W. W.

Am hyny.—Oherwydd y sicrwydd y daw y medi yn ei bryd ei hun Mae yn bosibl cyfieithu y geiriau nesaf mewn dwy ffordd:

(a) tra y mae genym amser cyfaddas.

(b) pan (neu megys) y mae genym amser cyfaddas.

Yn ol y cyntaf, y meddwl yw, gwnawn dda cyhyd ag y mae bywyd genym; gweithiwn tra yr ydyw hi yn ddydd. Yn ol yr ail, gwnawn dda megys, a phob tro, y rhoddir y cyfleusdra i ni; pa bryd bynag y delo y cyfle gwnawn

10 Am hyny, tra y mae genym ffygiwn. Am hyny tra yr 10
 amser cyfaddas, gwnawn ydym yn cael amser cyfadd-
 dda i bawb, ond yn enwed- as, gwnawn dda i bawb,
 ig tuag at dylwyth y ffydd. ond yn enwedig i'r rhai sydd
 11 Gwelwch â pha lythyrenau o deulu y ffydd. Gwelwch 11

10. duylwyth y ffydd.—S.

11. Welwch ehelaethet y llythyr a escrivenais atoch.—W. S.

dda. Dadleua Meyer a Sieffert mai yr ail yw yr unig ystyr yn y Testament Newydd; ond rhoddir engreifftiau da yn erbyn hyny. Yr un gair ag a gawn yma sydd i'w ddarllen, yn ol y feirniadaeth oreu, yn Ioan xii. 35, ac yno nis gall fod ond un ystyr—"rhodiwch *tra* fyddo genych y goleun'," Wrth gadw mewn cof y son blaenorol am hau a medi, gwell yw yr ystyr gyntaf: *tra* y mae genym amser cyfaddas, tra y mae yn bryd hau cyn dyfod amser medi pan y bydd yn rhy ddiweddar.

Gwnawn dda.—Er nad yr un gair yw hwn ag sydd yn yr adn. flaenorol, nid oes odid ddim gwahaniaeth yn yr arfer o'r ddau, a chywreinrwydd yn unig, nid gwybodaeth dda, fuasai yn ein harwain i amcanu gwahaniaethu. Gwnawn dda, nid yn unig mewn calonogi neu wneyd cymwynasau, neu eu llesoli trwy eu hadeiladu yn ysbrydol, ond hefyd gan ymdrechu ar i'n hymddygiad fod o ran ei natur ei hun yn dda. Ar adegau, gall hyn beri poen iddynt hwy a ninau; ond y meddwl o fod yn dda, nid o lesoli, a'n ceidw yn wyneb y cyfryw boen.

Ond yn enwedig tuag at dylwyth y ffydd: y rhai sydd wedi eu gwneyd yn un teulu trwy y ffydd Gristionogol. Yn eu plith hwy y mae y rhai cymhwysaf, heb son am deilyngaf, i ni arfer gwneyd daioni tuag atynt, er fod yr alwad at bawb.

"Men love us, or they need our love."—Keble.

11. Gwelwch a pha lythyrenau.—Yn groes i'n harfer ni, defnyddiai y y Groegiaid a'r Lladinwyr yr amser gorphenol wrth ysgrifenu llythyr, fel pe baent yn safle derbynydd y llythyr; felly y gwna Paul yn Philemon 19, "myfi Paul a ysgrifenasais a'm llaw fy hun—'mi a'i talaf,'" lle y dywedem ni "myfi wyf yn ysgrifenu a'm llaw fy hun." Yn ol yr arfer hon, nid yw y gair yn cyfeirio at y rhan flaenorol o'r llythyr, yr hwn a ysgrifenasid gan un arall drosto, ond at y rhan hon o hyn i'r diwedd. Gwel 2 Thess. iii. 17, "Yr anerch a'm llaw i Paul fy hun yr hyn sydd arwydd yn mhob epistol." Yn Gymraeg yr un gair yw "llythyr" neu "llythr," o ran tarddiad, a "llythyren," ac yn y Groeg a'r Lladin defnyddir y lluosog o'r gair sydd yn arwyddo llythyren o'r wyddor am unrhyw ysgrif, neu yn arbenig am lythyr a anfonir. Yr unig fan yn y Test. Newydd y mae hyn i'w gael yw Actau xxviii. 21, "ni dderbyniasom ni lythyr o Judea yn dy gylch di;" gair Paul bob amser yw yr un yr ydym ni wedi cael y gair epistol o hono. Heblaw hyn mae y gramadeg yn ein rhwymo i ddwydd 'â' yma; gallasai yr apostol ddwydd "gwelwch pa lythyr a ysgrifenasais," ond nid "â pha lythyr." Yr ystyr oreu yma yw fod yr awdwr yn galw sylw ei ddarllenwyr at ddiwedd-glo ei epistol fel wedi ei ysgrifenu a'i law ei hun, yn frasach ei lythyrenau, neu yn hynotach, na'r rhan arall oedd yn llaw rhyw Tertius neu gilydd (Rhuf. xvi. 22). Ni fynai i'r llythyr ymado

yr ysgrifenis atoch a'm
12 llaw fy hun. Cynifer ag a
fynant ymdecâu yn y cnawd,
y rhai hyn sydd yn gorfodi
eich enwaedu chwi, yn unig
fel na erlidier hwy oblegyd

gyhyd y llythyr a ysgrifen-
ais atoch a'm llaw fy hun.
Cynifer ag sydd yn ewyllys- 12
io ymdecâu yn y cnawd, y
rhai hyn sydd yn eich cym-
ell i'ch enwaedu; yn unig
fel nad erlidier hwy oblegyd

12. Cynniver ac a vynnent wynef tec yw'ch yn y cnawt,—W. S.

heb iddo gludo ar ei wyneb arwydd weledig o'i bryder drostynt; yr arwydd hono oedd ei lawysgrifen fras ei hun; wrth edrych arni hwy welent megis ef ei hunan yn ysgrifen yr wyth adnod olaf hyn.

12. Cynifer ag a fynant ymdecâu.—Y rhai oll sydd a'u bryd ar wneyd ymddangosiad teg oddiallan o ran y cnawd, y rhai hyn, a *hwy yn unig* (dyma y math o bobl) sydd yn gosod gorfod arnoch i gymeryd enwaediad. Mae y geiriau a'u cyfeiriad ar wedd newydd at y rhai a wrthwynebir yn yr holl lythyr, ac awgrymir yn y gair sydd yn dangos y peth a geisient—gwyneb teg—eu bod gyda'r fath zel eithafol, yn ddiystyr o'r mew-nol neu yr ysbrydol, eu bod mewn gwirionedd heb egwyddor.*

Yn y cnawd.—Gall Phil. iii. 4—6, ein cynorthwyo i ddeall y gair "cnawd" yma, gan nas gall fod o'r ystyr eang sydd iddo uchod lle sonir am "weithredoedd y cnawd." Cnawd, yn ol y rhan hon o'r Philipiaid, yw enwaediad, bod o genedl Israel, bod yn Hebreadd, bod yn ol y ddeddf yn Pharisead, ac yn ol y cyfiawnder sydd ynddi yn ddiargyhoedd. Bydd ystyr gyffelyb yn gymhwys i'w roddi yma, ac felly "ymdecâu yn y cnawd," yw bod yn deg yr olwg yn yr hyn sydd o ran ei natur yn perthyn i'r cnawd neu yr allanol, fel peth a ganfyddir trwy y synwyrâu corfforol, yn enwedig yr enwaediad a'r cyfryw gydfurfiad â'r ddeddf ag sydd a'i gyflawniad mewn pethau corfforol. Wrth bwysio ar yr *angenrheidrwydd* am enwaediad, yr oeddynt yn gorfodi y Galatiaid i hyny, neu os oeddynt yn gwrthod cymundeb eglwysig heb y ddefod hon, gosodent felly orfodaeth arnynt.

Yn unig fel nad erlidier hwy oherwydd croes Crist.—Y cyfieithiad llythrenol yma yw *a neu trwy* groes Crist: gan fod y groes yn yr athrawiaeth ei bod hi yn ddiweddi i'r ddeddf yn achos yr erlid, gellid mewn ffigiwr ddweyd erlid â'r groes, eto, ni ddylid gosod dim pwys ar y dull hwn o ymadroddi. Oherwydd y groes yr erlidid. Mae dau ddyben yn yr adnod hon i waith y rhai a osodent orfod ar y Cenhedloedd yn Galatia i dderbyn enwaediad, ymdecâu yn y cnawd, ac osgoi erledigaeth. Yr oeddynt yn awyddus i gael ymddangosiad teg yn ol syniadau Iuddewig ac yn nghyfrif Iuddewon, ond y prif rwystr i hyn oedd yr ymadrodd am y groes, yr hwn yn arbenig a gyffrôr yr Iuddew i erlid: ac er mwyn dileu y rhwystr hwn oedd mor ffin iddynt hwy, garwyr wyneb têt, hwy ddysgent fod yn rhaid wrth enwaediad, y peth oedd yn ol yr ymadrodd am y groes yn ddiangenrhaid. Rhai am ymdecâu yn y cnawd oeddynt fel dosbarth yn eu bywyd arferol, ac fel y cyfryw, hwy wnaent lawer o bethau; ond gwneid y peth *hwn* ganddynt—dwyn enwaediad i fod yn orfodol—er mwyn symud oddiwrthynt erledigaeth.

* Am y gair cymell yn yr ystyr o orfodi, gwel gwaelod tudalen 24.

- 13 croes Crist ; canys nid yw, ie, y rhai a enwaedir, eu hunain yn cadw y ddeddf, ond hwy fynant i chwi gael eich enwaedu, fel y gorfoloddont yn eich cnawd chwi.
- 14 Eithr i mi na fydded gor- croes Crist. Canys nid yw 13 y rhai a enwaedir, eu hunain yn cadw y ddeddf ; ond ewyllysio y maent enwaedu arnoch chwi, fel y gorfoleddont yn eich cnawd chwi. Eithr na ato Duw i 14

13 Can nad ynt wy ehunain yr ei a enwaedir.awydd deisyfu cael eich enwaedu *chwi*, val yr ymhoffent yn eich cnawt.—W. S.

13. **Canys nid yw, ie, y rhai a enwaedir eu hunain.**—Mae amryw dybiau yn cael eu cysylltu ag amser presenol y gair yma ; “y rhai a enwaedir,” nid “y rhai a enwaedwyd,” ond yn sicr yn ddisail. Ymddengys yn deg i ni ddweyd fod “y rhai a enwaedir,” yn ymadrodd hollol gyfystyr ag eraill, megys “y rhai o'r enwaediad,” neu “yr enwaediad,”—pobl yr enwaediad, y rhai sydd yn ei arfer a'i ddysgu.* Dywed yr apostol am dano ei hun ei fod ef gynt yn ol y cyfiawnder sydd yn y ddeddf yn ddiargyhoedd, a theg y disgwylasai ef i'r rhai a bregethent yr enwaediad gadw y ddeddf yn gyffelyb. Ond pwy a feddylir wrth “y rhai a enwaedir ?” Pa un ai rhai oedd-ynt eto yn Iuddewon, ynte y rhai o'r Iuddewon oedd, wedi iddynt gredu, yn glynu wrth enwaediad ? Diamheu mai yr olaf, gan mai fel enw ar blaidd o fewn yr eglwys y defnyddir y fath enwau â hyn, a chyda hwy gallem gynwys hefyd y rhai hyny o'r Galatiaid ag yr oeddynt wedi llwyddo i'w perswadio i fod fel hwythau. Felly, wrth chwilio am ystyr y dywediad nad yw y rhai hyn eu hunain yn cadw y ddeddf, nid ydym i dderbyn un a fuasai gymhwys i Iuddewon fel y cyfryw. “Pa fodd y gallant hwy gadw y ddeddf, tra yn byw mor bell o Jerusalem ? Pa fodd y cadwant y gwyliau ? Pa fodd yr offrymant eu haberthau ? Pa fodd, wedi iddynt gyffwrdd a phethan aflan, y glanheir hwynt ?”—Theodoret. Iuddewon Cristionogol yw “y rhai a enwaedir,” a chydag anghysondeb hynod yr oeddynt, tra yn rhoddi i fyny fel Cristionogion ran lawr o ddefodau y ddeddf, yn glynu yn gryf wrth rai eraill. Yn marn yr apostol, yr oedd pwy bynag a dderbynai enwaediad yn ddyledwr i gadw yr holl ddeddf, ond boddlonwyr dynion oedd y rhai hyn. Glynu gyda zêl ddall wrth un ddefod yn arbenig a'u gwnei, meddent, yn blant Abraham a Jehova. Gwrthun oedd y fath beth i enaid difrif yr apostol. Paham y gosodent hwy, oeddynt mor ddifater i luaws defodau y ddeddf fel y deallid hi yn Palestina, orfod ar Genhedloedd Cristionogol i ymostwng i'w henwaedu ? Awyddus oeddynt, dyma yr esboniad, i enill ffafr gydag Iuddewon zelog, a pharod i erlid yn ddiarbed.

Fel y gorfoleddont yn eich cnawd chwi.—Maent am gael y clod o ddwyn eraill i'r un dull a hwythau ; hwy a'i caent yn nghnawd enwaededig y cenedloedd a wrandawai arnynt.

14. **Eithr i mi.**—Yn wrthgyferbyniol i athrawon Iuddewaidd Galatia a fynent gadw croen iach, ac a geisient orfoledd mewn gwedd Iudd-

* The present participle (with the article) is not infrequently used substantively, and then having become a noun it excludes all indication of time, Eph. ij, 28 ; Heb. xi, 28. —Winer, p. 444.

foleddu ond yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hon y mae y byd wedi ei groeshoelio i mi a minau
15 i'r byd. Canys nid yw enwaediad ddim, na dienwaed-

mi ymfrostio ond yn nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn y croeshoeliwyd y byd i mi, a minau i'r byd. Canys yn 15 Nghrist Iesu ni ddichon enwaediad ddim, na dien-

14. Eithr na bo i mi ddim o'r ymhoffi, onyd yn croc ein Arglwydd Iesu Christ, gan yr hwn y crocwyt y byt i mi.—W. S. i mi orfoleddu.—M,

ewaidd ar grefydd Cristionogion Cenhedlig, y dywedir y dwys eiriau hyn. Pell fyddo oddiwrth yf fi orfoleddu ond yn y groes felldigaid ddirmygedig lle y croeshoeliwyd yr Hwn sydd Arglwydd a Christ i ni, a lle mae fy unig bryn-edigaeth. Nid priodol, feddylwn, yw golygu gyda Luther fod y gair croes yma yn sefyll "nid am y pren a gariodd Crist, ac ar yr hwn yr hoeliwyd ef, ond yn gyffredinol holl ofidiau yr holl dduwiolion, dyoddefiadau y rhai ydynt ddyoddefiadau Crist."

Trwy yr hon.—Mae "croes" yn y Groeg yn wrywaidd, ac yn hyny arweiniwyd llawer i ddeall y rhagen fel pe bai ei gyfeiriad at y gair agosaf—Crist. Gwell, oherwydd yr arddodair *trwy*, yw ei gysylltu â'r *peth* y sonir am dano yn y frawddeg ragflaenol, sef a'r groes; arfer yr apostol yw dweyd *gyda* Christ wrth son am groeshoelio; trwy groes Crist yw, trwy groeshoeliad Crist. "Yn angau Crist y Messiah," medd Holsten, "machludodd y gweledig a chododd yr ysbrydol." Mae y bywyd newydd, y grym a'r dyben newydd a'i ganolbwynt yn nghalon gwaith Crist, sef yn ei farwolaeth mewn aberth o hono ei hun ar y groes. Pan roddai y cenedldd yn i Dduw o'i eiddo, pan fynai yr Iuddeu i Jehovah dderbyn cyfiawnder ei weithred, yr oeddynt eu dau yn perthyn i'r "byd;" ond pan welodd gwr fel Paul yn angau y groes alwad ac atyniad i wneyd cyffelyb aberth o hono ei hun fel y byddai yntau byw i Dduw, yn y meddwl hwnw didolwyd ef oddiwrth y byd hwnw, croeshoeliwyd ef iddo. Yr oedd ef yn rhwym o wrthod y byd, ac nis gallai y byd ond ei wrthod yntau. Dangosir yn null y geiriad mai gweithred ag sydd o ran ei natur yn parhau, yw y croeshoelio hwn, gan y dywedir yn ii. 20, "yr wyf wedi fy ngroeshoelio gyda Christ." ac yn y fan hon, "mae y byd wedi ei groeshoelio i mi."

15. Canys nid yw enwaediad ddim, na.—Dyma y rheswn paham y mae yn gortoleddu yn unig yn nghroes Crist. Enwaediad a di-enwaediad oedd "y byd," neu ran fawr o hono, yn yr helynt bresenol yn Galatia gyda'r rhai a ddysget y ddeddf, o ran ei wrthrychau (Iuddeuon a Chenhedloedd) ac hefyd o ran ei egwyddorion neu ei ddylanwadau. Nis gallai yr hwn a orfoleddai yn nghroes Crist orfoleddu hefyd mewn dim arall, yn enwedig mewn nac enwaediad na dienwaediad, am mai diddym yw y naill fel y llall. Nid oes budd o enwaediad, nid oes anfantais o ddi-enwaediad: nid ydynt yn bod yn awr. (Edrycher y nodiadau ar iii. 28.) Yr hyn sydd yn rhywbeth yw creadigaeth newydd, neu y dyn newydd a sturfir yn Nghrist yn ol desgriafiad ii. 20, "yr wyf wedi fy nghroeshoelio gyda Christ, ac nid myfi mwyach sydd yn byw, ond Crist sydd yn byw ynof fi." "Od os neb yn Nghrist Iesu y mae efe yn greadigaeth newydd," 2 Cor. v. 17. Dyma greadigaeth heb gymaint ag eiliw o enwaediad na'r gwrthgyferbyniol ynddi: gall dderbyn ei pherffeithiad uchel heb fod son am danynt hwy, "Pa beth a ellir ei

iad, ond creadigaeth new-
16 ydd. A chynifer ag a
gerddant yn ol y rheol hon,
tangnefedd arnynt a thru-
garedd, sef ar Israel Duw.

waediad, ond creadur new-
ydd. A chynifer ag a rod- 16
iant yn ol y rheol hon,
tangnefedd arnynt a thrug-
aredd, ac ar Israel Duw.

16. Anyd creatur newydd.—W. S. Ni thal enwaediad ddim.—M.

O'r Lladin (Vulgate) y cawsom "creadur," neu "creatur" yn Nhest. W. Salesbury i Gymraeg y Beibl am "greadigaeth," ac o'r un man y daeth i'r Beibl Saesonaeg, "new creature." Ystyr y gair Groeg, am yr hwn y cawn *creatura* yn y Beibl Lladin a chreadur yn Gymraeg, yw, nid y weithred o greu—*creatio*, fel yn yr awdwy'r clasurol, ond y peth a *grewyd*—sef, creadigaeth. (Hatch Essays in Biblical Greek p. 5). Dyma, yn sicr, yw meddwl y gair yn W. S., a'r Beibl sydd genym yn awr, ond ei fod wedi newid ei ystyr erbyn ein dyddiau ni.

gymharu i'r nerth hwn (nerth y groes)? Mae y groes wedi ei ddenu ef, yr hwn oedd foddllawn i gael ei ladd ac i ladd eraill er mwyn enwaediad, i'w osod ar yr un tir a dienwaediad."—Chrysostom.

16. A chynifer ag a gerddant yn ol y rheol hon.—Fel yn v. 25, yr ydym yn newid y gair Cymraeg o rodio i gerdded. Rheol yr oll o fywyd, ei holl osodiad a'i gyfeiriad sydd yma, a cheir hi yn y geiriau blaenorol nad yw enwaediad ddim, na dienwaediad, ond creadigaeth newydd. Mewn dau fan yn y Test. Newydd y cawn y gair Groeg a gyfieithir "rheol" yma, sef yn yr adnod hon, ac yn 2 Cor. x. 13, xv. 16. (Nid yw Phil. iii. 16, i'w gyfrif). Oddiwrth yr ystyr gyntaf o gorsen wastad daw meddwl pellach i'r gair; (1) corsen fesur neu safon; (2) mewn ffigiwr pa beth bynag sydd yn dangos cyfeiriad neu yn rheoli—llinell, rheol, deddf. Dyma yr ystyr yn y fan hon—y rheol, nad yw enwaediad na dienwaediad i gael gwneyd un cyfrif o honynt, y gellir eu gadael o'r cyfrif yn hollol er dwyshau a dyfnhau i fwy difrifwch yr awydd am y greadigaeth newydd, ysbrydol. Mor bell yw hyn oddiwrth y syniad Iuddewig y mynid swyno y Galatiaid iddo—fod pob peth yn sefyll ar enwaediad. Gan fod y geiriau hyn yn niwedd y llythyr, mwy naturiol yw dweyd "tangnefedd *fyddo* arnynt," na "tangnefedd *fydd* arnynt." Mae cyfead y ddau air—tangnefedd a thrugaredd—yn dangos mai tangnefedd fel bendith i'w phrofi oddimewn a feddylir yma—y tangnefedd sydd yn dyfod o faddeuant a chyfiawnhad a'r holl "greadigaeth newydd," y peth yn eu dallineb a geisiai eraill yn ol rheol enwaediad a gweithredoedd cyfiawnder.

A thrugaredd.—Cysylltir y ddwy fendith hefyd yn 1 Tim. i. 2; 2 Tim. i. 2; 2 Ioan 3; Judas 2. Nis gallwn feddwl fod llawer o bwys i'w rodai ar y drefn y gosodir y ddau air; tangnefedd oedd uwchaf yn meddwl yr apostol wedi ysgrifenu y fath lythyr a hwn; yna enwa yr hyn a geidw y tangnefedd yn un parhaol.

Sef ar Israel Duw.—Rhaid fod y "cynifer" yn nechreu yr adnod yn cynwys Iuddewon a Chenhedloedd, ond pe dywedem "ac ar Israel Duw," byddai raid i ni eu cyfyngu i'r Cenhedloedd. Gwell yw yr ystyr eglurhaol sydd i'r gair Groeg cyfystyr a'r Cymraeg "sef;" felly yr eglurir gan Winer a Grimm, er fod y cyntaf yn cymell cynildeb gyda'r ystyr yma,

17 O hyn allan na flined neb
fi ; canys yr wyf fi yn dwyn
yn fy nghorff nodau yr Iesu.

18 GRAS EIN HARGLWYDD
IESU GRIST FYDDO GYDA'CH
YSBRYD CHWI, FRODYR,
AMEN.

O hyn allan na flined neb 17
fi : canys dwyn yr wyf fi yn
fy nghorff nodau yr Arg- 18
lwydd Iesu. Gras ein Harg-
lwydd Iesu Grist a fyddo
gyda'ch ysbryd chwi, frodyr.
Amen.

Israel oedd hoff enw y genedl etholedig, yr hwn a enwent arnynt en hunain, ac na ddefnyddid gan y dyeithr am na ddeallent ei ystyr gysegredig. "Israel Duw" yw yr Israel newydd, yr hon yw ei greadigaeth newydd ef heb enwaediad; yn hon mae Iuddewon a Chenhedloedd, heb un meddwl o wahaniaeth braint rhyngddynt. Wele, gyda'r meddwl a'r enw hyfryd hwn mewn adgof o eiriau y Salmydd "bydded tangnefedd ar Israel," y dygir i ben epistol o wrthbrofi hawliau yr Israel yn ol y cnawd, Israel yr enwaediad. Gwel Rhuf. ix. 6; 1 Cor. x. 18.

17. O hyn allan na flined neb.—Na phared neb i mi flinderau—y lludded o geisio eto amddiffyn yr efengyl a roddes yr Arglwydd i mi. Ymddengys hwn fel gorchymyn dymuniad, a'i gyfeiriad nid at bobl Galatia yn unig, ond at bawb : darfydded y molestu hwn. Ystyriai yr apostol ôl yr erledigaethau yr aethai trwyddynt yn ei gorff, fel tystion eglur i'w benderfyniad ei hun i lynu wrth yr un athrawiaeth. Oni bai am hono, buasai ei gorff yn ddianaf. "Nid yw yn dywedyd 'mae genyf' ond 'yr wyf yn dwyn', fel un yn ymorfoleddu mewn arwyddion buddugoliaeth a banerau... mae i'r clwyfau hyn lais uwch na llef udgorn."—Chrysostom. Wrth ddweyd "nodau yr Iesu," ei feddwl yw, fod y rhai hyn, fel y nodau a osodai meistr-iaid ar gaeth-weision, ac a roddir yn ein gwlad ni ar ddefaid, yn arwyddion mai eiddo yr Iesu ydoedd. Gwas Crist wyf fi; ei was ef a fyddaf : nis gallaf fod yn anffyddlaw'n i'r nodau sydd yn fy nghorff.

18 Gras ein Harglwydd Iesu Grist fyddo gyd a'ch ysbryd chwi, frodyr, Amen.—Yn nechreu yr epistolau, yn y cytarchiad, dywedir "gras i chwi," ond yn y diwedd "gras fyddo gyda chwi," gan fod ei lygad yma yn fwy ar angen beunyddiol yr yrfa ysbrydol. Dyma air a gawsom eisoes yn fynych, yn awr eto yn cael ei arfer ar y diwedd—**eich ysbryd chwi**. Mae tri o'r hen Dadau, a'r tri o ysgol enwog Antiochia—Chrysostom, Theodore, Theodoret—yn gwneyd bron yr un sylw am yr gair hwn. "Mae yr apostol yn ychwanegu," medd yr olaf, "goffa am yr ysbryd gan adgofio y ddawn a gawsent, nid trwy ddeddf ond trwy ffydd."

Frodyr.—Dyma air olaf y llythyr : "lleddfir, fel hyn, lymder yr holl epistol."—Bengel.

Amen.—Mae yn beth hynod nad yw y gair hwn yn diweddu ond dau o epistolau Paul. Er y ceir ef yn y Testament Newydd cyffredin yn niwedd yr oll, eto, mae beirniadaeth wedi dangos yn deg mai wrth orphen ei llythyr at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid yn unig y dywed Paul, Amen.

Ymddengys fod yr ychwanegiad a roddir yn niwedd yr Epistol yn gyffredin—*At y Galatiaid yr ysgrifenydd o Rufain*—yn bur hen. Ceir ef yn y llawysgrif henaf a'r oreu sydd ar gael, sef yr un a elwir y Codex Vaticanus, a gedwir yn Llyfrgell y Vatican, Rhufain, ond wedi ei ysgrifenu ynddi gan ail ysgrifenydd. Nid yw, er hyny, ond mynegiad o farn ag oedd, efallai, yn lled gyffredin yn y bedwaredd ganrif.

YR HOLIADAU.--Mae y rhaniadau sydd yn dilyn yn 41
mewn nifer. Er eu bod wedi eu sylfaenu ar
rediad a chwrs y meddyliau yn yr Epistol, eto,
os myn yr athrawon roddi y Sul olaf o bob mis
i ddarllen drachefn waith y mis, gwasanaetha fel
cynllun i'w ddilyn er mwyn myned trwy y llyfr
mewn blwyddyn o amser.

HOLIADAU.

RHAGARWEINIOL.

1. Pwy oedd y Galatiaid ?
2. Pa adeg y gwnaed Galatia yn dalaeth Rufeinig, a pha wahaniaeth sydd o hynny allan yn nghymhwysiad yr enw ?
3. Rhoddir i'r ymadrodd " eglwysi Galatia " ddwy ystyr,—enwch hwy.
4. Dangoswch berthynas Antiochia â thair taith fawr yr apostol Paul.
5. Ar ba un o'r rhai hyn yr efengylwyd gyntaf i'r Galatiaid ?
6. Pa lythyrau sydd yn perthyn i'r un cyfnod o oes yr apostol a'r llythyr hwn ?
7. Pa adeg ac o ba le yr ysgrifenyddyd ef ?
8. Pa bryd gyntaf, a thrwy bwy, y dechreuodd y ddadl yn nghylch yr enwaediad a chadw deddf Moses ?
9. Beth oedd daliadau " y rhai o'r enwaediad " o fewn yr eglwys Gristionogol ?
10. Dangoswch fod gwahaniaeth rhwng Iuddewon mewn gwahanol fanau ?
11. Mae o leiaf bedwar gwrthgyferbyniad mawr yn athrawiaeth yr epistol hwn,—enwch hwy.
12. Pa ymadroddion neillduol yn nglyn a'r hen oruchwyliaeth sydd i'w cael yn y llythyr hwn na cheir yn yr Hebraeid ? Pa rai yno nad ydynt yn hwn ?
13. Yn mha ystyr y dilëir y ddeddf yn y naill a'r llall ? Dangoswch y gwahaniaeth mawr sydd yn y wedd yr edrychir arni.

PENNOD I. 1—5.

1. Beth yw ystyr yr enw apostol ? Dangoswch fod yr enw yn cael ei arfer am rai nad oeddynt o'r " deuddeg."
2. Pa wahaniaeth sydd rhwng bod yn apostol " o ddynion " a " thrwy ddyn." Paham nad arferir ond un o'r ddau air yn ail ran yr adnod ?
3. Pa bryd y dechreuwyd galw yr Arglwydd wrth yr enw Iesu Grist ?
4. Beth yw dyben y cyfeiriad at yr adgyfodiad ?
5. A oedd eglwys Derbe yn un o " eglwysi Galatia." ?
6. Pa wahaniaeth rhoddion a olygir yn y ddau air, gras a thangnefedd ? A oes gwahaniaeth rhwng tangnefedd a heddwch ?
7. A yw geiriau adnod 4 yn cyfleu yr un meddwl am Grist ag a olygir yn y ddau air " offeiriad," " aberth dros bechodau."
8. Pa un ai y rhoddi ei hun ynte y gwaredu y dywedir ei fod yn ol ewyllys Duw ?
9. Beth yw ystyr y geiriau " y byd," " oes oesoedd."

Adn. 6—10.

1. Yn mha ystyr y deallwch yr ymadrodd " mor fuan."
2. Pwy a feddylir wrth " yr hwn a'u galwodd."
3. Pa fodd yr oedd hon yn efengyl arall, ac ar yr un pryd heb fod yn arall ?

4. Beth sydd yn cyfiawnhau gair mor gryf ag ANATHEMA yn adn. 8, 9?
Pa ystyr sydd i'r gair?
5. Pa wahaniaeth sydd rhwng y ddau efengylu amgen?
6. Beth a feddylir wrth berswadio Duw?
7. Pa wahaniaeth sydd rhwng perswadio dynion a rhyngu bodd dynion?
8. Pa fodd y mae y rhai hyn yn gwneyd dyn yn annheilwng o fod yn was Crist?

Adn. 11, 12.

1. Pa un ai cymeriad ei efengyl ai ei tharddiad sydd yn adn. 11?
2. A yw "derbyn" yn adn. 12 o'r un ystyr ag yn adn. 9?
3. Beth a olygir wrth y gair "datguddiad" yn y Beibl?
4. Pa un ai datguddiad o Iesu Grist ai datguddiad gan Iesu Grist a feddylir yma?

Adn. 13—17.

1. Pa le y ceir hanes ymarweddiad Paul yn y grefydd Iuddewig? Beth yw tarddiad ac ystyr wreiddiol y gair *ymarweddu*?
2. Paham y mae Paul yn enwi "traddodiadau y tadau" yn hytrach na'r ddeddf a'r Ysgrythyrau?
3. Pa un ai yr alwad i fod yn Gristion, ynte yr alwad i fod yn apostol a feddylir yn adn. 15?
4. "Datguddio ei Fab,"—a all fod rhyw reswm dros i'r apostol ddefnyddio yr enw Mab yma?
5. Pa un ai ynof fi i eraill, ai ynof fi i mi fy hun a feddylir?
6. Ai gyda golwg ar y gwaith o efengylu y dywed yr apostol nad ymgynghorodd â chig a gwaed, ynte am yr efengyl ei hun?
7. Yn mha le y mae Damascus ac Arabia?
8. Dangoswch amcan adroddiad y ffeithiau sydd yn adn. 18.
Darllener Actau viii. 1—3; ix. 1—23.

Adn. 18—24.

1. Beth yw gair Luc am y tymor hwn o "dair blynedd."
2. Pa fodd y cysonir adn. 19 ag Actau ix. 26?
3. Pa amcan sydd i'r geiriau difrifol, "Wele ger bron Duw"
4. Pa bryd y bu Paul yn nhueddau Syria a Cilicia? pan yn myned o Jerusalem i Tarsus, ynte wedi hyn?
5. Beth yw amcan y cyfeiriad at eglwysi Judea? Ar ba gyfrif y dywedir "y ffydd" am yr efengyl?
6. A yw gogoneddu Duw ynof fi yr un peth a'i ogoneddu o'm hachos i?
Darllener Actau ix. 24—30; xi, 16—26.

PENNOD II. Adn. 1—3.

1. Pa sawl ymweliad â Jerusalem a goffheir yn llyfr yr Actau? Pa un o honynt sydd yma?
2. Beth yw amcan yr apostol yn adrodd yr hanes hwn?
3. Paham yr enwir y datguddiad a gafodd Paul?
4. Beth yw ystyr y gair "y rhai cyfrifol"? Paham o'r neilldu iddynt hwy?

5. " Rhag mewn un modd i mi redeg yn ofer "—a oedd dyfarniad yr apostolion a'r henuriaid i benderfynu hyn ?

6. A oes ryw wedd arbëinig ar yr efengyl yn yr ychwanegiad " yr hon yr wyf fi yn ei phregethu yn mhliith y Cenhedloedd " ?

Adn. 4—6.

1. Pa fodd y daeth achos Titus i fod mor bwysig ?

2. Beth yw ystyr y gair Cymraeg *cymell* yn y Testament Newydd ?

3. Pa fodd y cysonir gwaith Paul yn gwrthwynebu enwaedu Titus yn awr, ac wedi hyny ei hun yn enwaedu Timotheus ?

4. Ai y gau frodyr fu yr achos o hyn ? " Y rhai a ddaethant i mewn "—i ba le ?

5. " Y rhyddid sydd genym yn Nghrist Iesu,"—pa ryddid yw hwn ? A yw yn cynwys rhyddid Iuddewon ?

6. Am bwy y dywedir na ddarfu iddynt ildio i'r gau frodyr ?

7. " Gwirionedd yr efengyl " (gwel adn. 14)—pa wirionedd ?

Darllener Actau xv.

Adn. 7—10.

1. Paham y dywed yr apostol nad yw o ddim gwahaniaeth iddo ef pa fath oedd y rhai cyfrifol, ac nad yw Duw yn derbyn wyneb dyn ?

2. Yn mha ystyr y dywed na chyflwynodd y rhai cyfrifol ddim iddo ?

3. Pa un ai Paul ei hun ai efengyl y dienwaediad sydd mewn golwg wrth son am yr ymddiriedaeth ?

4. Pa un ai cymeriad ai maes yr efengyl a olygir yn y geiriau " efengyl y dienwaediad," " efengyl yr enwaediad."

5. Mae yr apostolion yn dyfod i weled un peth, ac i wybod peth arall,—pa rai ydynt, a pha wahaniaeth sydd rhyngddynt ?

6. Pa un ai Paul a Barnabas eu hunain o ran safle, ynte eu hefengyl ynddynt hwy, oedd yn cael cydnabyddiaeth yn y rhoddi deheu-ddwylaw cymdeithas ?

7. Pa hanes sydd genym mewn manau eraill am gasglu i'r saint ? Beth yw yr enw a rydd Paul ar y gwaith ?

Adn. 11—14.

1. Beth oedd bai Pedr ?

2. Yn mha ystyr y defnyddir y gair rhagrith ?

3. Paham y dywedir " Barnabas hefyd."

4. Yn mha beth yr oeddynt yn peidio iawn-droedio at wirionedd ?

5. Pa fodd yr oedd Pedr yn *gorfodi* y Cenhedloedd i fyw yn Iuddewaidd ?

Adn. 15—17.

1. Oddiar ba safle y dywed Paul, " nid o'r Cenedloedd yn bechaduriaid?"

2. Beth a feddylir wrth weithredoedd y ddeddf ?

3. A oes gwahaniaeth rhwng deddf a chyfraith ?

4. Pa ystyr i'r gair deddf a geir yn y Rhufeiniaid na cheir mo hono yn y llythyr hwn ?

5. Dangoswch ystyr y gair cyfiawnhau. Ai yr un ystyr sydd yn Iago ii.21 ?

6. Pa fodd y *cael* hwy yn bechaduriaid wrth geisio eu cyfiawnhau yn Nghrist ? A yw *cael* yn golygu mwy na *bod* ?

7. Beth a feddylir wrth fod yn weinidog pechod ?

Adn. 18—21.

1. Pa bryd yr oedd yn droseddwr—wrth adeiladu, ynte wrth ddystrywio?
2. Beth yw ystyr marw i'r ddeddf, a marw iddi trwyddi hi ei hun?
3. Pa beth yw byw i Dduw? Pa fodd y mae Crist yn byw i Dduw? Rhuf. vi. 10.
4. A yw croeshoelio gyda Christ yn cynwys mwy na marw i'r ddeddf?
5. Pa fodd y gall neb ddweyd "nid myfi sydd yn byw"?
6. A yw Paul wrth ddweyd "nid wyf yn dirymu gras Duw" yn awgrymu fod rhywun arall yn gwneyd hyny?
7. Pa fodd y gall yr apostol yma dynu y casgliad difrifol fod Crist wedi marw yn ofer?

PENNOD III. 1—3.

1. Beth a feddylir wrth lygad-dynu?
2. Pa fodd y portreadwyd Iesu Grist o flaen eu llygaid?
3. Beth yw grym y gair—"hyn yn unig?"
4. Pa un ai yr Ysbryd Glan ai "yr ysbryd" fel yn wrthgyferbyniol i'r cnawd a feddylir yn 2, 3? Beth a feddylir wrth y "cnawd"?
5. Beth yw ystyr y gair "gwrandawriad ffydd"?
6. Pa fodd yr oeddynt yn dechreu a'r ysbryd ac yn gorphen a'r cnawd?
7. Pa fodd y mae "gweithredoedd y ddeddf" a "gwrandawriad ffydd" yn cyfateb i *cnawd* ac *ysbryd*?

Adn. 4—6.

1. Pa beth oedd yn ofer?
2. Pa wahaniaeth sydd rhwng cwestiwn adn. 5 ac un adn. 2?
3. Pwy a feddylir wrth yr hwn sydd yn trefnu yr ysbryd?
4. Am ba beth y dywedir ei fod *megys* y credodd Abraham?
5. Dangoswch ystyr yr ymadrodd, "cyfrif yn gyfiawnder."

Adn. 7—9.

1. A yw y gair "y rhai sydd o ffydd" yn golygu mwy na phe dywedid "y rhai sydd yn credu?"
2. Paham y sonir am blant Abraham?
3. A yw bendithio y cenedloedd yr un peth a chyfiawnhau y cenedloedd?
4. Pa fodd y dengys y gair a ddyfynir o Genesis fod Duw yn eu cyfiawnhau *trwy ffydd*?
5. Pa ystyr sydd i'r gair "ffyddlawn"?

Adn. 10—14.

1. Pwy a feddylir wrth "y rhai sydd o weithredoedd y ddeddf?" Paham y gelwir hwy felly?
2. Pa felldith a feddylir yma? A yw melldith yn golygu mwy na chondemiad?
3. I ba ddyben yr ychwanegir y gair "gerbron Duw?" Ai yn yr un ystyr y defnyddir y geiriau am "y cyfiawn" yn Heb. x. 38, ac yn Rhuf. i. 17?
4. A yw byw ynddynt yr un peth a chael ei gyfiawnhau ynddynt?
5. Yn mha ystyr y dywedir fod Crist wedi *prynu* dynion oddiwrth felldith?
6. Pa un ai mwy ai llai sydd yn yr ymadrodd "dyfod yn felldith erom ni," nag yn y gair "iawn dros ein pechodau ni?" Neu a ydynt yn gyfystyr?
7. Pa beth yn marwolaeth y Gwarddwr sydd yn *debyg* i gosp pechod, a pha beth sydd ynddi yn *annhebyg* i gosbedigaeth?
8. Ai cyfiawnhad yn unig a feddylir wrth fendith Abraham, ynte mwy?
9. Pa fodd y mae ffydd yn gymhwysder i dderbyn yr Ysbryd Glân?

Adn. 15—18.

1. Pa ystyr neillduol sydd i'r gair amod neu gyfamod yn y Testament Newydd?
2. Am ba sawl cyfamod y sonir yn yr epistol hwn? I ba rai y mae *hen gyfamod* (neu y *cyntaf*), a *chyfamod newydd* yr Hebraeid yn cyfateb?
3. Pa fodd y mae yr hyn a ddywedir yn adn. 15, nad yw neb yn dirymu neu yn doddi at gyfamod wedi ei gadarnhau, yn gymwys yn y ddatl hon?
4. Beth a feddylir wrth gadarnhau cyfamod?
5. Pa un ai dirymu ai doddi at gyfamod Duw ag Abraham yr oedd yr athrawon Iuddewaidd?
6. Ai yr un peth yw "yr addewidion" yn adn. 16, a'r cyfamod yn yr adnod flaenorol?
7. Pa fodd yr ydych yn deall y defnydd a wna yr apostol o'r ddau air *hadau* a *had*?
8. Paham na all y ddeddf ddirymu y cyfamod? Pa addewid a feddylir? (adnod 17).
9. A oes modd cysoni y rhif 430 ag Actau vii. 13, Genesis xv. 13? A yw bod y nifer yn fanwl o ryw bwys i ymresymiad yr apostol?
10. Pa fodd y mae deddf ac addewid (adnod 16) yn cau eu gilydd allan? A oes meddwl cyffelyb yn y Rhufeiniaid?
11. A yw "yr etifeddiaeth" yr un peth a "bendith Abraham," a yw yn eangach na chyfiawnhad?

Adn. 19—20. (Rhuf. iii. 20, 30).

1. Gellir cyfieithu "Pa beth gan hyny yw y ddeddf?" neu "Paham gan hyny y ddeddf?" Pa un o'r ddau gwestiwn y mae y geiriau nesaf yn ei ateb?
2. Yn mha ystyr y rhoddwyd y ddeddf *oblegyd troseddau*? A yw hyn ynddo ei hun yn dangos fod iddi amcan gwahanol i'r cyfamod a wnaed oblegyd ffydd?
3. Paham, gan mai nid at y ddeddf yn gysgodol y cyfeirir yma, y dywedir mai hyd oni ddela'r hân y rhoddwyd hi?
4. Beth oedd y gwaith hwn a briodolir i angelion? Paham yr enwir ef?
5. Pwy yw y cyfryngwr?
6. Pa un ai yn yr addewid, ynte yn nhrefniad y ddeddf yn llaw cyfryngwr y dywedir fod *Duw yn un*?
7. I ba ddyben y dywedir y pethau hyn am y ddeddf?

Adn. 21—24.

1. Pa beth a ddywedwyd yn flaenorol sydd yn peri gofyn cwestiwn adnod 21?
2. Pa anallu yn y ddeddf yw ei hanallu i fywchau?
3. Pa fodd y mae hyny yn achos o'i hanallu i gyfiawnhau?
4. Beth yw ystyr y gair *cyd-gau*? Beth yw cydgau dan bechod?
5. Pa un ai hanes y genedl Iuddewig ai hanes y rhai hyny o honynt oedd yn credu, sydd yn adnod 23? Feth yw *cyd-gau i'r ffydd*?
6. Yn mha ystyr y mae y ddeddf yn athraw at Grist?
7. A ydym i olygu fod y ddeddf ei hun rywfodd yn achlysur cyfiawnhad trwy ffydd?

Adn. 25—27.

1. Pa un ai yr efengyl ynte ffydd yn y fynwes a feddylir yn y gair "wedi dyfod ffydd?"
2. Pa un ai rhyddid ai perffeithrwydd yr ystad newydd a feddylir wrth ddweyd "nid ydym mwyach dan athraw?"
3. Pa honiad Iuddewaidd a ddymchwelir yn adnod 26? Pa fodd y mae yr hyn a ddywedir yma yn rheswm am y gosodiad blaenorol?
4. Beth a feddylir wrth fedyddio i Grist? Ai y bedydd ei hun sydd yn peri eu bod wedi gwisgo Crist?

Adnod 28, 29.

1. Pa wirioedd pwysig a roddir yn y tri lle, adn. 28; v. 6; vi. 15?
2. Dilead pa beth a awgrymir wrth enwi y tri—Iuddew, Groegwr; caeth, rhydd; gwryw, benyw?
3. Pa beth a olygir ac a enillir wrth ddweyd mai y rhai sydd eiddo Crist yw hâd Abraham?
4. Pa ystad ysbrydol a gynwysir yn y gair etifeddion?
5. Yn ol pa addewid y maent yn etifeddion?
6. Pa fath o etifeddion gwrthgyferbyniol a awgrymir yn y gair, etifeddion yn ol addewid?

PENNOD IV. 1—3.

1. Pa beth mewn plentyn sydd yn achos o'i fod yn debyg i was?
2. Pa eiriau blaenorol sydd wedi arwain i'r gymhariaeth o gaethiwed etifedd dan oed?
2. Beth yw hen ystyr y gair Cymraeg *ymgeleddwr*? Pa air arall cyfystyr a arferid gynt?
4. Pa wahaniaeth sydd rhwng *ymgeleddwr* a *goruchwyliwr*?
5. Pa beth yn yr ochr ysbrydol sydd yn cyfateb i'r rhai hyn, ac hefyd i'r amser gosodedig?
6. Pa feddwl sydd i'r gair "gwyddorion y byd?" Gwel Col. ii. 8.
7. A yw y *ni* yn cynwys Iuddewon a Chenhedloedd? Os ydyw, pa fodd yr oedd Iuddewon yn gaeth dan wyddorion y byd?

Adn. 4, 5.

1. Pa beth a feddylir wrth "gyflawnder yr amser?"
2. Nodwch ymadroddion eraill yn yr efengylau sydd yn cyfeirio at yr anfon yma? Pa ystyr sydd i *ddanfon* yn ei berthynas â Mab Duw?
3. A yw yr ymadrodd, "Y gair a wnaethpwyd yn gnawd," yn cynwys y ddau—*gwneuthur o wraig*, *gwneuthur dan y ddeddf*?
4. A yw y ddau—*o wraig*, *dan y ddeddf*, yn gyfystyr â Phil. ii. 7, 8, neu a oes mwy yn y ddwy adnod o'r Philipppiaid?
5. Pa un ai *rhan* o amcan y prunedigaeth ynte yr amcan yn gyflawn sydd yn y gair "prynu y rhai dan y ddeddf?"
6. A oes gwahaniaeth rhwng mabwysiad ag adenedigaeth? Beth yw y gwahaniaeth yn y ddwy gymhariaeth?

Adnod 6, 7.

1. A yw y gair "*oblegyd eich bod*," yn awgrymu cyflwr neu sefyllfa meibion yn flaenorol i anian y cyfryw?
2. Pa beth a feddylir wrth ysbryd ei Fab? A yw yn cynwys ei ysbryd cyn ei ymgnawdoliad?
3. Beth yw ystyr *llefain* ac *Abba Dad*?

4. At ba beth neu adeg y cyfeirir wrth ddweyd, Nid wyt ti *maw* yn was ?
5. Pa feddwl a ychwanegir yn y gair *etifedd* at yr un sydd eisoes yn y gair *mab*?

Adn. 8—11.

1. Pa ystyr sydd i'r tri ymadrodd, heb adnabod Duw, yn adnabod Duw, wedi eich adnabod gan Dduw ?
2. Beth oedd *llesgedd* y gwyddorion, a beth oedd eu *tlodi* ?
3. Pa fodd y gellir dweyd *drachefn* am Genhedloedd yn troi at Iuddew-iaeth ?
4. Enwch y gwahanol bethau y dywedir yn y Testament Newydd fod dyn yn gaeth iddynt. A yw anwybodaeth yn sefyllfa o gaethiwed ?
5. Eglurwch y pedwar gair—diwrnodau, misoedd, amserau, blynnyddoedd ?
6. Beth yw natur yr ofn yma ?

Adn. 12—16.

1. Pa fodd y mae yr ail frawddeg yn adnod 12 yn sail i'r cymhelliad sydd yn y frawddeg gyntaf ? Beth yw natur y cymhelliad "byddwch fel fyfi ?"
2. At ba beth y cyfeiria yr apostol wrth ddweyd "Ni wnaethoch i mi ddim cam neu niwed ?"
3. Beth a feddylir wrth y brofedigaeth yn ei gnawd ?
4. Beth yw y dedwyddwch neu y gwynfyd a enwir yn adnod 15 ?
5. Pa ddweyd y gwir a wnaeth Paul yn elyn, ac yn nghyfrif pwy ?

Adn. 17—20.

1. Eglurwch y geiriau—"rhoddi mawr serch arnoch," "eich cau chwi allan." Pa fodd yr oeddynt am eu cau allan ?
2. Pa fodd y mae "mawr serch" adn. 18 yn dda a'r llall nid yn dda ?
3. "Ffurio Crist yn och"—beth yw hyn ?
4. Yn mha fodd y newidiai yr Apostol ei *lais* ? i fwy o lymder ynte i fwy tynerwch ?

Adn. 21—24.

1. Pa un ai at y Galatiaid ai at eu dysgawdwyr y cyfeirir wrth ddweyd, "y rhai ydych yn chwenych bod dan y ddeddf."
2. Beth a feddylir wrth *glywed* y ddeddf ?
3. Paham y dywedir fod *mab* y wraig rydd wedi ei eni trwy addewid ? A yw hyn y yr un peth a'i eni yn ol yr ysbryd ? (adn. 29.)
4. Beth a feddylir wrth *alegori* yma ?
5. Pa rai yw y ddau gyfamod hyn ? Pa enwau yn yr Hebreaid sydd yn cyfateb ?
6. Pa fodd y daeth y gair *testament* i gael ei arfer am gyfamod ?

Adn. 25—31.

1. Am ba beth y dywedir ei fod yn cyfateb i'r Jerusalem sydd yr awrhon ?
2. Pa un ai yn y cyfamod ei hun ynte yn y camddefnydd o hono yr oedd yr achos ei fod yn cenhedlu i gaethiwed ?
3. Beth a feddylir wrth y Jerusalem uchod, ac wrth fod yn blant iddi ?
4. Pwy yw dwy wraig adn. 17.
5. Plant pa addewid yw y *ni* yn adn. 18.
6. Pa erlid a fu ar Isaac, a pha erlid y dywedir sydd yn bod yr awrhon ?
7. Pa beth a feddylir wrth *farw allan* yn y delnydd a wna yr apostol o eiriau Gen xxi. 9 ?
8. Beth a gynwysir mewn bod yn blant y wraig rydd ?

PENNOD V. 1—3.

1. Beth yw cynwys y rhyddid a ddygodd Crist i ni? Pa sawl gwedd sydd arno yn y Testament Newydd, neu, rhyddid oddiwrth pa bethau y mae son am dano?

2. A yw iii. 28; v. 6; vi. 15, yn golygu yr un peth a'r rhyddid hwn, neu, lai, neu fwy?

3. Pa fodd na lesha Crist y rhai a enwaedir?

3. Pa beth mewn derbyn enwaediad sydd yn gwneyd dyn yn ddyledus i gadw yr *holl* ddeddf?

5. A yw y condemniad sydd yn y ddwy adnod hyn ar enwaediad mewn rhyw amgylchiadau yn perthyn hefyd i'r bedydd Cristionogol?

Adn. 4—6.

1. Pa beth a feddylir wrth "fyned yn ddifudd oddiwrth Grist," "syrthio ymaith oddiwrth ras?"

2. Beth yw ystyr y gair "yr ysbryd?" Beth yw yn I Cor. ii. 11?

3. Beth yw "gobaith cyfiawnder," a pha fodd y cysylltir ef a ffydd?

4. Pa beth sydd yn adn. 6 gwahanol i iii. 26 a vi. 15.

5. Pa berthynas rhwng ffydd a chariad a ddangosir yn yr adnod hon?

6. Beth yw yr athrawiaeth a sylfaenir gan Eglwys Rhufain ar y geiriau diweddaf?

7. A ces yma ystyr wahanol i'r un sydd yn adn. 6, yn Iago ii. 22.

Adn. 7—12.

1. At ba beth y cyfeirir yn y geiriau "rhedeg yn dda?"

2. Beth a feddylir wrth "y cyngor," "yr hwn sydd yn eich galw?"

3. Pa un ai athrawiaeth ai personau a olygir yn y geiriau *lefain, toes*?

4. *Arall* neu *amgen* na pha beth a feddylir yn adn. 10.

5. Paham y sonia yr Apostol am dano ei hun yn pregethu enwaediad?

6. Eglurwch y gair "tramgwydd y groes;" pa fodd yr oedd wedi ei dynu ymaith?

Adn. 13—15.

1. Beth a feddylir wrth *alw* i ryddid?

2. Pa ystyron sydd i'r gair *crawd*?

3. Pa beth sydd wrthgyferbyniol i'r rhyddid a wneir yn achlysur i'r *crawd*?

4. A gynwysir *dau* orchymyn mawr y ddeddf yn yr "un gair" sydd yn adn. 14.

5. A yw cnoi a thraflyncu i'w hystyried yn perthyn i'r *crawd*?

Adn. 16—18.

1. Beth yw ystyr "crawd ac ysbryd" yn yr adnodau hyn?

2. Pa wahaniaeth yn ngweithrediad yr ysbryd a ddangosir yn y ddwy effaith (a) ni chyflawnwch drachwant y *crawd* (16), (b) nid ydych dan y ddeddf? (16).

3. A yw *crawd* ac ysbryd yn cael eu dangos yma ac yn Rhuf. vi. 16—21 fel rhywbeth gwahanol i ddyn ei hunan? A ydynt yn dileu cyfrifoldeb?

Adn. 19—26.

1. Paham y dywedir *gweithredoedd* y *crawd* a *ffrwyth* yr ysbryd?

2. A ellwch wneyd rhyw ddosbarthiad ar y gweithredoedd? Beth yw ystyr y geiriau Cymraeg *gwynfydau, herisiau*?

3. Yn yr ymadrodd "ffrwyth yr ysbryd," beth a feddylir wrth yr ysbryd?
4. A yw yr ail restr yn hollol gyferbyniol i'r gyntaf?
5. Eglurwch hwy bob yn dri. Pa ddwy ystyr sydd i *amynedd* ac i *ffydd* yn y Beibl? Beth yw ystyr gyntaf *dirwest*?
6. Beth a feddylir wrth nad oes deddf yn erbyn y cyfryw? Cyfryw *betli-au*, ynte cyfryw *bersonau*?
7. Pa un ai peth a wnaed unwaith, ynte a wneir beunydd yw croes-hoelio y cnawd? Paham y dywedir *croeshoelio*?

PENNOD VI. Adn. 1—3.

1. Beth a feddylir wrth rai *ysbrydol*?
2. Pa gymhwysder neillduol sydd mewn ysbryd addfwynder, pa gymhwysder mewn hunan-ystyriaeth?
3. Beth natur y beichiau a enwir yma?
4. Beth yn arbenig a olygir wrth gyfraith Crist?
5. Pa anghymwysder a ddesgrifir yn adn. 3?

Adn. 4—6.

1. Pa fodd y mae dyn i brofi ei waith ei hun?
2. Beth yw y gwahaniaeth rhwng gorfoledd ynddo ei hun a gorfoledd mewn arall?
3. Pa wahaniaeth sydd rhwng "dwyn ei faich ei hun," a "dwyn beichiau ein gilydd?"
5. Pa un ai rheswm dros gyngor dechreu adn. 4, ynte dros yr ail ran o honi yw, fod pob un i ddwyn ei faich ei hun?
5. Pa berthynas rhwng disgybl ac athraw a gymhellir yn adn. 6.

Adn. 7—10.

1. Pa fodd y gellir gwatwor Duw o ran hau a medi?
2. Pa fodd y mae dyn yn hau i'w gnawd *ei hun*?
3. Beth a olygir wrth lygredigaeth? A ydyw yn cynwys cosp yn ogystal a chanlyniadau, a yw cosp yn fwy na chanlyniad?
4. Beth yw hau i'r ysbryd? Paham y gelwir yr hyn a fedir yn fywyd *traguiddol*?
5. Pa wahaniaeth sydd rhwng diogi a diffygio?
6. A oes gwahaniaeth rhwng "gwneuthur daioni" a "gwneyd da i bawb?"
7. Paham y defnyddir y gair *teulu* y ftydd?

Adn. 11—13.

1. Beth yw amcan adn. 11?
2. Pa amcan dwbl sydd gan y personau a enwir yn adn. 12? Pa gyffelybrwydd sydd yn y ddau ddyben?
3. Yn mha ystyr y dywedir nad yw y rhai a enwaedir yn cadw y ddeddf? Pwy yw y rhai hyn—Iuddewon yn gyffredin, ynte dosbarth neillduol o Iuddewon?

Adn. 14—18.

1. Pa ymadroddion eraill o eiddo yr Apostol sydd yn dangos yr un teimlad ag adn. 14?

2. Beth yw, "fod y byd wedi ei groeshoelio iddo ef? Beth yn *mhellach* yw, ei "fod ef wedi ei groeshoelio i'r byd?"

3. A oes ychwaneg yn y ddau na'r hyn a feddylir gan Iesu Grist wrth "godi y groes?" Ai yr un peth yw "marw gyda Christ oddiwrth wyddorion y byd?" Col. ii. 20

4. Beth sydd yn adn. 15 angen na iii. 28 a v. 6?

5. Beth yw hen ystyr y gair Cymraeg *creadur*? A oes mwy mewn "creadigaeth newydd" nag mewn *mabwysiad* (iv. 5), neu fwy nag mewn *aileni*?

6. Pa un yw "y rheol hon?" Beth vw rhodio neu gerdded wrthi?

7. Beth yw cynwys "tangnefedd?" Beth yn *ychwaneg* sydd mewn "trugaredd?"

8. Yn wrthgyferbyniol i ba beth y dywedir Israel Duw?

Adn. 17—18.

1. Pa un ai at y disgyblion oedd yn ei adael, ynte at y rhai oedd yn eu hudo y mae yr Apostol yn cyfeirio wrth ddymuno "na flined neb fi?"

2. Beth a olygir wrth *nodau* yr Arglwydd Iesu? Beth wrth eu *dwyn*?

3. Pa fodd y mae hyn yn rheswm dros y dymuniad na bo i neb ei flino?


4. "Gras i chwi" yw gair dechreu y llythyr, "gras *gyda*" a ddywedir yma—A oes gwahaniaeth rhwng y ddau?

5. A yw "ysbryd" yn yr adnod olaf o'r un ystyr ag y mae pan mewn gwrthgyferbyniad i'r crawd?



Y BALA:

Davies ac Evans, Argraffwyr, &c., Swyddfa Y Seren a Pulpucl Cymru.





**PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET**

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

BS
2684
W4
1892
C.1
ROBA

